



Rhan o Fenter yr Ifanc



Aelod o Cyflawniad Ieuencid Byd-eang

MAE'CH ARIAN O BWYS

GWERSLYFR ADDYSG ARIANNOL



CYMRU

MAE'CH ARIAN O BWYS

Mae'ch Arian o Bwys:

Cyhoeddwyd gan Young Money (rhan o Young Enterprise)

Young Enterprise
Campws Coram
41 Sgwâr Brunswick
Llundain
WC1N 1AZ

Mae Young Enterprise yn elusen gofrestredig.
Rhif cofrestredig 313697

© 2021 Young Money.

ISBN 978-1-9164672-7-9

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu na defnyddio'r llyfr hwn, nac unrhyw ran ohono, mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Cyhoeddwr.

Argraffwyd yng Nghymru gan Cambrian Printers Ltd.

Data Catalogio wrth Gyhoeddi y Llyfrgell Brydeinig
Mae cofnod Catalog ar gyfer y cyhoeddiad hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

Cydnabyddiaeth

Hoffai Young Money achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Martin Lewis OBE, sylfaenydd MoneySavingExpert.com, am ei rodd hael, ei gyfarwyddyd a'i frwdfrydedd a wnaeth y gwerslyfr Mae'ch Arian o Bwys gwreiddiol yn bosibl, ac am ei gyfraniad at y fersiwn hon ar gyfer Cymru. Hoffai Young Money hefyd ddiolch i'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau am ddarparu cyllid ochr yn ochr â Martin Lewis i gynhyrchu a darparu'r gwerslyfr i ysgolion yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyngor a'r cymorth amhrisiadwy a gynigiwyd gan athrawon ac arbenigwyr yn y diwydiant yng Nghymru i sicrhau bod y gwerslyfr yn cael ei osod yng nghyd-destun Cymru.

Diolchir yn arbennig i'r canlynol hefyd:

Awduron a gyfrannodd

Stewart Jones
John Chapman
Emma Waller
Russell Winnard, Young Money
Liz Booth, Young Money

Cyfranwyr eraill

Chloe Shuttlewood, Young Money
Emma-Jayne Turner, Young Money
Robyn Vernon-Harcourt, Young Money
Eileen Gannon, Young Money
Feyi Onamusi, Young Money
Charlotte Churchill, Young Money
Braden Clamp, Young Money
Rhian Carruthers, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
Luned Davies, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Dyluniad gan **Something Big Ltd.**

Marc Ansawdd gan **Young Money**

BYDDWCH YN UN O'R GWYBODUSION, **NID YR ANWYBODUSION.**

Rhagair gan Martin Lewis, y Money Saving Expert

Dim ond arian ydyw, on'd ife? Wel, na, a dweud y gwir. Mae'n bwysicach o lawer na hynny. Rydw i wedi treulio 20 mlynedd yn ymgyrchu ar y teledu ac ar-lein i annog pobl i fod yn well gyda'u harian. Mae arian yn fwy na mater ariannol yn unig. Gall problemau effeithio ar bob agwedd ar eich bywyd – eich hapusrwydd, eich iechyd meddwl, eich gwaith, eich perthnasoedd a mwy. Dwi ddim yn ceisio codi ofn arnoch; ond dwi ddim yn bwriadu gwneud yn ysgafn ohono oherwydd eich bod chi'n dal i fod yn yr ysgol.

Wrth gwrs, mae'n debygol eich bod chi eisoes yn gwneud dewisiadau am arian bob dydd – fel dewis eich ffôn neu brynu anrheg pen-blwydd ffrind – ac wrth i chi ddod yn annibynnol bydd y penderfyniadau'n mynd yn fwy, p'un a ydych chi'n breuddwydio am gael car, eisiau mynd i'r Brifysgol, neu gael eich swydd gyntaf. Drwy hyn i gyd, bydd eich gwybodaeth am arian a'ch agweddau tuag ato'n dod yn bwysicach fyth.

Dyna ddiben y gwerslyfr hwn. Mae'n bodoli i'ch dechrau ar eich taith tuag at lythrennedd ariannol. Er na fydd yn dod yn agos at roi'r holl atebion y bydd arnoch eu hangen ar gyfer bywyd, mae'n delio â llawer o'r prif rai. Ac eto, hyd yn oed os byddwch chi ond yn dysgu sut i ystyried arian o ddifrif, gwneud gwaith ymchwil a gofyn cwestiynau cyn gwneud penderfyniadau mawr, ac ennill y sgiliau i ddelio â'r rhifau, byddai hynny'n gwneud i mi neidio fel oen (delwedd annifyr, dwi'n gwybod).

Er y bydd rhai o'ch rhieni a'ch gwarcheidwaid yn wych gydag arian, nid felly eraill, ac mae'n bwysig ein bod ni'n dechrau o'r un man. Dyna un o'r rhesymau pam rydw i, a llawer o bobl eraill, wedi ymgyrchu ers blyneddau i sicrhau bod addysg ariannol ar y cwricwlwm. Ond nid yw hynny'n ddigon ar ei ben ei hun. Rydyn ni'n byw yn un o'r economïau mwyaf cystadleuol yn y byd. Mae cwmnïau'n gwario biliynau ar hysbysebu, marchnata ac addysgu eu staff i werthu, ac eto dydyn ni ddim yn cael unrhyw hyfforddiant fel prynwyr.

Mae angen i hynny newid. Mae'r gwerslyfr hwn yn ceisio ei gwneud yn haws i ysgolion sicrhau bod pob person ifanc yn cael addysg ariannol o ansawdd uchel erbyn iddo adael yr ysgol.

Rwy'n gobeithio y bydd yn plesio.



Martin Lewis

Mae Young Money yn ddiolchgar iawn i Martin Lewis OBE am gyd-ariannu'r gwaith o ddatblygu a darparu'r gwerslyfr hwn i holl ysgolion uwchradd a chanol y wladwriaeth yng Nghymru.



Datganiad gan Jeremy Miles AS, Gweinidog Addysg Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd addysgu ein plant a'n pobl ifanc am lythrennedd ariannol. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i reoli arian a gwneud penderfyniadau gwybodus er mwyn eu helpu i ddod yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi ymagwedd drawsddisgyblaethol at arian a chyllid, gan sicrhau bod dysgwyr nid yn unig yn ystyried y sgiliau mathemategol sy'n angenrheidiol i fod yn ariannol hyddysg ond hefyd yn cael y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau i ddatblygu agweddau cadarnhaol ac iach tuag at arian a chyllid. Felly, mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi pwyslais gwell ar lythrennedd ariannol. Mae'r adnoddau sy'n ofynnol i helpu i wireddu hyn yn effeithiol mewn ysgolion yn hanfodol, felly rwy'n falch iawn o weld y cyhoeddiad hwn yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg
ac Addysg

Mae Young Money yn ddiolchgar iawn i'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau am gyd-ariannu'r gwaith o ddatblygu a darparu'r gwerslyfr hwn i holl ysgolion uwchradd a chanol y wladwriaeth yng Nghymru.



Datganiad gan Lee Phillips, Rheolwr Cymru, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn gweithio i sicrhau bod pawb yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig yn gallu cael gafael yn rhwydd ar y wybodaeth y mae arnynt ei hangen, o arian poced i bensiynau, i wneud y mwyaf o'u harian drwy gydol eu hoes. Ochr yn ochr â rhieni a gofawyr, mae ysgolion ac athrawon mewn sefyllfa unigryw i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau ariannol y mae arnynt eu hangen.

Bydd Cwricwlwm Newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno o 2022 ymlaen, gydag addysg ariannol yn berthnasol i nifer o'r meysydd dysgu a phrofiad newydd, gan gynnwys mathemateg a rhifedd ac iechyd a lles. Mae addysg ariannol yn gwella lles ariannol ac yn paratoi dysgwyr i ddeall a rheoli eu hincwm yn awr ac yn y dyfodol. Gall eu helpu i ddewis y cynhyrchion a'r gwasanaethau ariannol gorau a'u diogelu eu hunain rhag twyll a chamfanteisio.

Rydym yn falch iawn o ffurfio partneriaeth â Martin Lewis OBE a Young Money i gynorthwyo athrawon i helpu pobl ifanc yng Nghymru i ddatblygu arferion ariannol cadarnhaol a fydd yn aros gyda nhw am weddill eu hoes.

Lee Phillips, Rheolwr Cymru,
y Gwasanaeth Arian a
Phensiynau

MAE'CH ARIAN O BWYS



Ynglŷn â Young Money

Mae Young Money (sy'n rhan o Young Enterprise) yn cynorthwyo pob addysgwr i ddatblygu gallu ariannol y bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw. Rydym yn ddarparwr dibynadwy a werthfawrogi o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant i unrhyw un sy'n addysgu plant a phobl ifanc sut i reoli arian.

Rydym yn cynnig adnoddau a chymorth rhad ac am ddim i ysgolion i wneud addysgu addysg ariannol yn rhwydd. Rydym yn gwybod bod pob ysgol a choleg yn unigryw a bod angen iddynt ddod o hyd i'w datrysiad eu hunain i

fodloni anghenion eu dysgwyr.

Credwn fod athrawon hyfforddedig yn darparu'r llwybr mwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer addysg ariannol mewn ysgolion gan eu bod nhw'n adnabod eu disgyblion orau ac yn deall sut i integreiddio addysg ariannol mewn gwersi a bodloni gofynion cwricwlwm eu hysgol.

Ymwelwch â ni yn

www.young-money.org.uk

i gael syniadau, ysbrydoliaeth a chynghor, ac i gael at ein hystod lawn o adnoddau a gwasanaethau.

Cysylltu

Young Enterprise
Campws Coram
41 Sgwâr Brunswick
Llundain
WC1N 1AZ

Ff. 0207 549 1980

E. info@y-m.org.uk

Dilynwch ni ar twitter

@YoungMoneyEdu

Mae Young Enterprise yn elusen gofrestredig. Rhif cofrestredig 313697. Corfforwyd yn Lloegr fel Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 712260.

Ynglŷn â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau



Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) wedi ymrwymo i ddarparu mynediad at y wybodaeth a'r arweiniad y mae ar bobl ledled y Deyrnas Unedig eu hangen i wneud penderfyniadau ariannol effeithiol drwy gydol eu hoes. Un o gyffwrdd hyd braich Llywodraeth y Deyrnas Unedig ydyw, sy'n dwyn ynghyd y gwasanaethau rhad ac am ddim a ddarparwyd yn flaenorol gan y Gwasanaeth Cyngor ar Arian, y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau a Pension Wise.

Mae MaPS yn arwain y broses o gyflawni Strategaeth Lles Ariannol y Deyrnas Unedig, gan weithio tuag at weledigaeth lle mae pawb yn gwneud y mwyaf o'u harian a'u pensiynau. Un o nodau'r strategaeth yw sicrhau, erbyn 2030, bod dwy filiwn yn fwy o blant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig yn cael addysg ariannol ystyrlon.

Mae MaPS yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws amrywiaeth o sectorau i helpu i wella'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion, gartref ac yn y gymuned. Ochr yn ochr â rhieni a gofawyr, mae ysgolion ac athrawon mewn sefyllfa unigryw i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau ariannol y mae arnynt eu hangen.

Dyna pam mae MaPS yn cefnogi datblygiad offer a rhaglenni sy'n galluogi athrawon i ddarparu addysg ariannol o ansawdd da yn yr ystafell ddosbarth.

I helpu ysgolion ac eraill, rydym yn:

- Cefnogi datblygiad offer a gwasanaethau addysg, a mynediad atynt, gan gynnwys ariannu'r Marc Ansawdd Addysg Ariannol i helpu athrawon i ddod o hyd i adnoddau effeithiol.

- Ariannu darpariaeth rhaglenni addysg ariannol, i brofi dulliau newydd a sicrhau bod ymyriadau sy'n gweithio ar gael yn ehangach.
- Cynnal a hyrwyddo ymchwil i wella ein dealltwriaeth o anghenion addysg ariannol plant a phobl ifanc a'u lles ariannol.
- Cynnal a chyfrannu at rwydweithiau sy'n cefnogi datblygiad offer addysg ariannol a rhannu arfer gorau.

Cysylltu

Dysgwch fwy am ein gwaith i wella darpariaeth addysg ariannol yn **www.maps.org.uk/schools** neu drwy anfon neges e-bost atom ar **cyp@maps.org.uk**.

MAE'CH ARIAN O BWYS

CYNNWYS

9 SUT I DDEFNYDDIO'R
GWERSLYFR HWN

CYNILO

- 11 Cynilion
12 Cynilion
15 Llog
20 Cyfrifon cynilo
24 Ffyrdd o gynilo
28 Arian ac iechyd meddwl
29 Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
30 Datblygu'ch gwybodaeth
- GWNEUD Y MWYAF
O'CH ARIAN**
- 33 Gwario
34 Ffyrdd o dalu
38 Cyllidebu
43 Cadw golwg ar eich cyllideb
45 Gwerth am arian
48 Gwybod eich hawliau
49 Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
50 Datblygu'ch gwybodaeth
- BENTHYCA**
- 53 Benthycia a dyled
54 Ad-dalu, llog ac APR
60 Gwneud dewisiadau gwybodus
62 Cynhyrchion benthycia
70 Dyled y gellir ei rheoli a dyled na ellir ei rheoli
71 Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
72 Datblygu'ch gwybodaeth

75

SYMUD YMMLAEN O'R YSGOL - BYD GWAITH

- 76 Camau nesaf: prentisiaeth
76 Camau nesaf: cyflogaeth
78 Camau nesaf: prifysgol
79 Cyllid myfyrwyr
81 Enillion
82 Slipiau cyflog
84 Treth ac Yswiriant Gwladol
87 Hunangyflogedig
88 Dulliau talu
89 Pam rydyn ni'n talu Treth Incwm?
91 Pensiynau
94 Help i bobl ar incwm isel
95 Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
96 Datblygu'ch gwybodaeth
- RISG A GWOBR**
- 99 Mathau o risg ariannol personol
102 Agweddau at risg
103 Asesu risg
104 Buddsoddiadau
106 Gamblu
110 Diogelu'ch hun
112 Mathau o yswiriant
115 Mathau eraill o ddiogelu rhag risg ariannol
117 Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
118 Datblygu'ch gwybodaeth

121

DIOGELWCH A THWYLL

- 122 Beth yw twyll?
123 Dwyn hunaniaeth
125 Termau allweddol
126 Negeseuon e-bost ffug
127 Twyll ar-lein
131 Sut i ddiogelu'ch hun
132 Diogelwch ar-lein
134 Help sydd ar gael
136 Mulod arian
137 Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
138 Datblygu'ch gwybodaeth
- RHESTR TERMAU**

SUT I DDEFNYDDIO'R GWERSLYFR HWN

Croeso i Mae'ch Arian o Bwys. Bydd y llyfr hwn yn eich helpu i wneud dewisiadau gwybodus am reoli eich arian, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae chwe phennod ar bynciau sy'n berthnasol i chi. Mae pob un yn dechrau gyda chwestiwn, y bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y pennod yn eich helpu i'w ateb.

Ym mhob pennod, fe welwch chi'r canlynol:



GWYBODAETH

Mae'r eicon gwybodaeth yn amlygu gwybodaeth allweddol a defnyddiol am bwnc y bennod.



A WYDDOCH CHI?

Cadwch lygad am yr eiconau hyn, a fydd yn rhoi ffeithiau diddorol am y maes pwnc.



GWEITHGAREDD

Mae'r eicon pensil yn dangos bod gweithgaredd i chi ei gwblhau i helpu i gynyddu'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r wybodaeth rydych chi'n darllen.



TRAFODAETH

Mae'r trafodaethau'n rhoi cyfle i chi siarad â'ch cydgyfyrwyr am y meysydd pwnc a rhoi eich barn am wybodaeth allweddol yn y bennod.



ASTUDIAETH ACHOS

Mae'r astudiaethau achos yn gadael i chi archwilio sefyllfaoedd bywyd go iawn yn fanylach a phenderfynu beth ydych chi'n credu yw'r ffordd orau o weithredu.



CWESTIYNAU

Fe welwch chi gwestiynau ar ddiwedd pob adran. Maen nhw'n gyfle i chi ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi'n chael wrth ddarllen yr adran a gwneud yn siŵr eich bod wedi deall.

BETH YDYCH CHI WEDI'I DDYSGU?

Mae pob pennod yn adolygu'r dysgu trwy adran 'Beth ydych chi wedi'i ddysgu?', sy'n cynnwys gweithgareddau crynhoi ac astudiaethau achos i chi eu cwblhau, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch chi o'r bennod.

DATBLYGU'CH GWYBODAETH

Ar ddiwedd pob pennod, mae adran ychwanegol sy'n cynnwys gwybodaeth bellach a manylach am y maes pwnc, a gweithgareddau estynedig i helaethu eich dysgu.



MAE'CH

ARIAN

O BWYS

CYNILO

A YW'N BWYSIG I MI
GYNILLO FY ARIAN?

Yn y bennod hon, byddwch yn archwilio'r rhesymau pam mae pobl yn cynilo arian, a sut i gymharu'r amrywiaeth o opsiynau cynilo sydd ar gael.

Fe welwch chi sut mae cynilo'n ffordd bwysig o gyrraedd nodau ariannol yn y dyfodol, a sut mae dewis unigol yn bwysig wrth wneud y penderfyniadau hynny.

Erbyn diwedd y bennod, byddwch yn gwybod beth yw'ch prif opsiynau ar gyfer cynilo'ch arian ac yn gallu eu cymharu â'i gilydd. Byddwch yn ymwybodol o rai o'r prif nodweddion a manteision sy'n gallu dod gydag opsiynau cynilo, a sut i ystyried y rhain wrth wneud eich penderfyniad.



A WYDDOCH CHI?

Mae dros 300 o fanciau a 45 o gymdeithasau adeiladu wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig. Mae pob un yn darparu amrywiaeth eang o opsiynau cynilo i gwsmeriaid.



CYNILION



CYNILO NEU GYNILION?

Mae'n rhwydd drysu rhwng y termau cynilo a chynilion.

Yn aml, ystyrir cynilo fel y weithred o roi arian o'r neilltu i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Gallai hyn amrywio o gadw ychydig geiniogau mewn cadw-mi-gei gartref i osod swm mwy mewn cyfrif banc.

Gall cynilo hefyd gyfeirio at leihau faint o arian rydych yn ei wario, gan efallai ganiatáu i chi roi rhywfaint o'r arian hwnnw o'r neilltu i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Mae cynilion yn cyfeirio at faint o arian neu werth yr arian sy'n cael ei roi o'r neilltu. Os ydych wedi rhoi £50 mewn cyfrif banc, dyna'ch cynilion. Os byddwch yn trefnu rhoi £10 arall ynddo bob mis, yna dyna'r swm rydych yn ei gynilo. Yn yr enghraifft hon, ar ddiwedd 1 flynedd byddech wedi cynilo £120 arall (£10 x 12 mis) ar ben y £50 cychwynnol, gan roi cyfanswm cynilion i chi o £170 i gyd. Dyma'r swm y dywedir ei fod wedi cronni.

Rhesymau i gynilo:

- Ar gyfer diben penodol iawn neu i helpu i gyflawni nod penodol.
- I gasglu cyfoeth i'w ddefnyddio yn y dyfodol.
- I roi arian o'r neilltu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.
- I gadw'ch arian yn ddiogel.



TRAFODAETH

Meddyliwch am y gwahanol resymau pam y gallai pobl gynilo arian. Rhewch ddwy enghraifft ar gyfer pob un o'r rhesymau uchod.



GOHIRIO BODDHAD

Pan fyddwch yn cynilo arian, mae'n debygol y byddwch yn ei wario rywbrud yn y dyfodol. Gallai hynny fod yn ystod yr ychydig ddiwrnodau neu wythnosau nesaf (cynilo tymor byr) neu o fewn y flwyddyn nesaf (cynilo tymor canolig). Fe allai fod ymhellach fyth i'r dyfodol (cynilo tymor hir) - er enghraifft, pan fyddwch yn cynilo am rywle i fyw neu hyd yn oed yn meddwl am ymddeol. Mewn rhai achosion, gallai'r arian a gynilwch gael ei drosglwyddo i eraill trwy anrhegion, rhoddion i elusen neu etifeddiaeth.

Weithiau, mae cynilo ar gyfer gwario yn y dyfodol yn cael ei alw'n "ohirio boddhad" - mewn geiriau eraill, rydyn ni'n gohirio'r mwynhad a gawn o wario ar unwaith i rywbrud ymhellach i'r dyfodol. Ond cofiwch, dim ond unwaith y gellir gwario'r arian, felly dylech feddwl yn ofalus iawn am sut i wario'ch cynilion.

Gall cynilo roi boddhad ynddo'i hun hefyd - os ydych yn cynilo'n rheolaidd ac yn gallu gweld eich cynilion yn cynyddu wrth i chi symud tuag at eich swm targed.



GWEITHGAREDD

1. Mae Rhys yn gwario'r cyfan o'i arian poced £5 bob wythnos ar danysgrifiad ffrydio cerddoriaeth. Mae cynnig ar gael ar hyn o bryd i wneud taliad untro o £80 ar gyfer blwyddyn gyfan o ffrydio.
 - a) Sawl wythnos y bydd yn ei chymryd i Rhys gynilo'r arian ar gyfer y taliad untro?
 - b) Faint byddai Rhys yn ei arbed ar hyd y flwyddyn?
 - c) Ydych chi'n credu ei bod yn werth aros i gynilo am y taliad untro?
 - ch) Beth yw'r anfantaision posibl?
2. Mae Jacob wedi cynilo ar gyfer gêm newydd i'w chwarae ar ei gonsol. Fe all ei phrynu ar-lein nawr am £40, ynghyd â thaliad £5 ar gyfer postio a phedynnu, neu fe all aros 3 mis, cynilo ychydig yn fwy a phrynu'r fersiwn y gellir ei lawrlwytho, a fydd yn cynnwys nodweddion a lefelau ychwanegol, am £55. Dim ond unwaith y gall wario'r arian y mae wedi'i gynilo, felly mae angen iddo benderfynu beth i'w wneud.
 - a) Nodwch fuddion a goblygiadau pob opsiwn.
 - b) Yn eich barn chi, a ddylai Jacob ohirio prynu'r gêm? Beth fydddech chi'n ei wneud?



CWESTIYNAU

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'cynilo' a 'chynilion'?
2. Nodwch dair mantais cael cynilion.
3. Beth yw canlyniadau posibl bod heb gynilion?
4. Rhewch enghraifft o ohirio boddhad.



FFYRDD O GYNILO

Y ffordd symlaf o gynilo yw rhoi rhywfaint o arian parod o'r neilltu gartref. Mae hyn fel arfer yn berffaith dderbyniol ar gyfer symiau bach ond mae'n mynd yn fwyfwy peryglus wrth i swm y cynilion gynyddu. Gallai arian parod sy'n cael ei gadw gartref gael ei ddwyn neu ei golli, ac fe all fod yn anodd cadw golwg ar faint yn union sydd gennych er mwyn gwybod a oes rhywfaint ar goll. Dyna pam mae llawer o bobl yn dewis cadw eu harian mewn man mwy diogel, fel banc, cymdeithas adeiladu, undeb credyd neu swyddfa bost.



A WYDDOCH CHI?

Mae banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd a'r swyddfa bost i gyd yn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ariannol, gan gynnwys y gallu i gynilo, ond maen nhw wedi'u strwythuro'n wahanol.

Mae **banc** yn sefydliad a berchnogir gan ei gyfranddallwyr. Ei nod yw cynyddu elw ar gyfer ei gyfranddallwyr gymaint â phosibl trwy ei weithgareddau ariannol.

Mae **cymdeithas adeiladu** yn sefydliad a berchnogir gan ei aelodau, y bydd rhai ohonynt yn gwsmeriaid sy'n cynilo arian gyda'r gymdeithas neu'n cael benthyc arian ganddi. Maen nhw'n aml yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ariannol ac yn debyg i fanciau.

Mae **undebau credyd** yn sefydliadau nid er elw sy'n canolbwyntio ar y gymuned, sy'n annog cynilo ac yn benthyc arian i aelodau. Mae'n rhaid i chi fod yn aelod i ddefnyddio undeb credyd. Mae undebau credyd yn boblogaidd iawn yng Nghymru. Mae mwy nag 81,000 o aelodau wedi'u gwasgaru ymhlith 16 o wahanol undebau credyd.

Mae **Swyddfa'r Post** yn eiddo i Fuddsoddiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n caniatáu i bobl ledled y Deyrnas Unedig gael mynediad at lawer o wasanaethau hanfodol, gan gynnwys amrywiaeth o ffyrdd o gynilo'ch arian, mewn canghennau swyddfa'r post ac mewn cyfrifon ar-lein.

CYNILO'R NEWID

Erbyn hyn, mae yna lawer o apiau symudol fel Chip, Plum, Monzo a Tandem sy'n gallu cael eu cysylltu â'ch cyfrif banc. Maen nhw'n eich helpu i gynilo trwy dalgrynnu taliadau a wnaed, gan ddefnyddio'r ap, i fyny i'r bunt agosaf a chynilo'r arian ychwanegol i chi.

Mae rhai ohonyn nhw'n dadansoddi'ch patrymau gwario ac yn penderfynu a oes gennych ddigon ar ôl yn eich cyfrif i'w gynilo. Os oes, maen nhw'n ei symud i gyfrif cynilo ar eich rhan. Mae llawer o'r banciau mawr hefyd yn cynnig cynlluniau cynilo awtomatig i gwsmeriaid sydd â chyfrifon cyfredol a chyfrifon cynilo pan fyddan nhw'n gwneud taliadau gan ddefnyddio cerdyn debyd.



MATHAU O GYFRIFON

Mae yna ddau brif fath o gyfrif y gellir eu hagor mewn banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd:

- **Cyfrifon cyfredol.** Mae'r rhain yn eich helpu i reoli'ch arian o ddydd i ddydd, talu biliau, derbyn arian sy'n dod i mewn a helpu i gadw'ch arian yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o gyfrifon cyfredol safonol ar gael i'w defnyddio am ddim.

Mae llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu'n cynnig cyfrifon cyfredol sy'n cynnwys cymhellion ychwanegol, er enghraifft: yswiriant gwyliau neu ffôn symudol, cyfraddau rhatach ar fenthyciadau a morgeisi, ac arian oddi ar wyliau a thocynnau awyren. Mae'n rhaid talu ffi fisol o rhwng £10 ac £20 ar gyfer y rhain ac maen nhw'n cael eu galw'n "gyfrifon pecyn". Fodd bynnag, dylech ystyried un o'r cyfrifon cyfredol hyn dim ond os ydych yn gwybod bod cost flynyddol y pecyn yn llai na phetaech chi'n prynu'r cymhellion ar wahân.

Mae gwasanaeth cyfnwidiad ar gael hefyd sy'n caniatáu i chi symud eich cyfrif cyfredol o un banc neu gymdeithas adeiladu i'r llall. Fe allen nhw roi talebau, arian parod a chyfraddau llog gwell i chi er mwyn eich gwobrwyo am newid iddynt.

Mae rhai cyfrifon cyfredol yn talu llog ar yr arian sydd gennych ynddynt, ac fe allen nhw dalu mwy na chyfrif cynilo hyd yn oed (er bod hyn yn aml hyd at derbyn o oddeutu £3,000 yn unig).

- **Cyfrifon cynilo.** Mae'r rhain wedi'u dylunio'n benodol i chi gynilo arian ynddynt ac maen nhw fel arfer yn fwyaf addas ar gyfer cynilo symiau mwy. Bydd y swm a roddwch i mewn yn tyfu wrth i log gael ei ychwanegu. Taliad ychwanegol yw llog sy'n cael ei roi fel gwobr am gadw'ch arian gyda'r sefydliad penodol hwnnw. Fe allen nhw gael eu galw'n gyfrifon cadw hefyd.

Edrychwn yn fanylach ar y gwahanol fathau o gyfrifon cynilo yn ddiweddarach yn y bennod hon.



A WYDDOCH CHI?

Mae'r holl gyfrifon cyfredol neu gyfrifon cynilo ac ISAs (Cyfrifon Cynilo Unigol) arian parod sy'n cael eu rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig mewn banciau, cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd yn ddarostyngedig i'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS).

Mae hyn yn golygu os byddan nhw'n methu, byddech yn cael hyd at £85,000 yn ôl fesul unigolyn, fesul sefydliad ariannol.



CWESTIYNAU

1. Rhowch dair mantais cadw arian mewn cyfrif banc yn hytrach na gartref.
2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfrif cyfredol a chyfrif cynilo?
3. Sut ydych chi'n credu y byddai rhywun yn defnyddio cyfrif cyfredol a chyfrif cynilo gyda'i gilydd?
4. Efallai bydd gan rai pobl fwy nag un cyfrif cynilo. Pam, tybed?

LLOG



GWOBR AM GYNILO

Yn ogystal â bod yn ddewis mwy diogel ar gyfer cadw cynilion, mae pobl yn dewis cynilo gyda banc neu gymdeithas adeiladu oherwydd eu bod yn cynnig llog ar yr arian sy'n cael ei gynilo gyda nhw. Llog yw'r wobwr a gewch am gadw'ch arian gyda banc neu gymdeithas adeiladu. Dyma hefyd y gost a dalwch pan fyddwch yn benthycu arian trwy gytundeb benthyciad neu gredyd – gweler y bennod 'Benthycu'. Mae fel arfer yn cael ei gyfrifo fel canran, a elwir yn gyfradd llog. Gallwch ddefnyddio'r gyfradd llog i gyfrifo faint o log fydd yn cael ei ennill ar ben yr arian a gynilwch.

Mae dwy ffordd o gyfrifo llog – llog syml ac adlog. Fel arfer, bydd pob banc yn defnyddio'r dull adlog i gyfrifo'r llog maen nhw'n ei dalu i chi neu'n ei godi arnoch, ond gadewch i ni edrych ar y dull llog syml yn gyntaf i weld pam:

Gall y llog a enillir ar swm cychwynnol o £1,000 (sef y **Prifswm**) a roddwyd mewn cyfrif cynilo gyda chyfradd llog o 2%, neu 0.02 mewn fformat degol (sef y Gyfradd (**Rate**)), am 1 flynedd (sef yr Amser (**Time**)) gael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla llog syml:

$$\text{Llog} = P \times R \times T$$

Yn yr achos hwn, byddai'n $1,000 \times 0.02 \times 1$.

Felly, byddai cyfradd llog o 2% sy'n cael ei thalu ar brifswm o £1,000 yn ennill £20 o log ar hyd 1 flynedd. Bydd hyn yn gywir dim ond os nad oes unrhyw arian ychwanegol, ar ben y £1,000 wreiddiol, yn cael ei dalu i mewn neu ei dynnu allan.

Gelwir y dull hwn o gyfrifo llog yn ddull llog syml. Mae'n awgrymu y byddai'r prifswm yn ennill £20 bob blwyddyn.



GWEITHGAREDD

1. Gan ddefnyddio'r fformiwla llog syml, cyfrifwch y llog petai'r £1,000 yn cael ei chadw yn y cyfrif cynilo ar yr un gyfradd llog o 2% am:

a) 3 blynedd **b)** 7 mlynedd **c)** 15 mlynedd

(AWGRYM – defnyddiwch y fformiwla ond newidiwch T i'r nifer wahanol o flynyddoedd y mae'r arian yn cael ei chynilo amdani.)

2. A allwch chi weld unrhyw beth ychydig yn annheg ynglŷn â'r cyfrifiadau a wnaethoch yng nghwestiwn 1?

(AWGRYM – meddyliwch am y swm rydych yn cael llog arno bob blwyddyn.)





ADLOG

Mewn gwirionedd, mae sefydliadau'n defnyddio dull gwahanol o gyfrifo llog, o'r enw adlog.

Mae hyn yn cydnabod, ar ddiwedd blwyddyn 1, y byddai cyfanswm eich cynilion yn £1,020 ac y dylai'ch llog ym mlwyddyn 2 gael ei gyfrifo yn erbyn y swm uwch hwn. Mae hyn yn golygu y bydd y llog a enillwyd mewn blynedd blaenorol yn ennill llog hefyd – sy'n golygu y byddwch yn cael adenillion uwch ar ben eich cynilion.

Llog ar log ar log...

Felly, os caiff y £1,000 ei hadneuo am 3 blynedd ac mae'r gyfradd 2% yn cael ei hadlogi, gellir ei gyfrifo fel a ganlyn:

Blwyddyn 1: $£1,000 \times 0.02 \times 1 = £20.00$ o log. Cyfanswm y cynilion ar ddiwedd Blwyddyn 1 = £1,020


Blwyddyn 2: $£1,020 \times 0.02 \times 1 = £20.40$ o log. Cyfanswm y cynilion ar ddiwedd Blwyddyn 2 = £1,040.40

Blwyddyn 3: $£1,040.40 \times 0.02 \times 1 = 20.81$ o log. Cyfanswm y cynilion ar ddiwedd Blwyddyn 3 = **£1,061.21**


Felly, dros 3 blynedd gyda phrifswm o £1,000, byddech yn cael £1.21 yn fwy petai'r llog yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull adlog o gymharu â'r dull llog syml. Ddim yn wahaniaeth mawr? Wel, mae hynny'n wir am symiau llai sy'n cael eu cynilo dros gyfnodau byr, ond o ran symiau mwy dros gyfnodau

hwy, bydd y llog a enillir yn fwy sylweddol o lawer.

Mae'r dull hwn o gyfrifo adlog yn dda iawn i'w ddefnyddio pan fydd nifer fach o flynyddoedd i'w cyfrifo yn unig, ond dychmygwch petai gennych chi gynilion o 10 mlynedd neu fwy... byddai'n cymryd llawer mwy o amser i chi gyfrifo'r ateb. Felly, ffordd arall o gyfrifo adlog yw defnyddio'r lluosydd. Er enghraifft, petai £50,000 yn cael ei gynilo dros 15 mlynedd ar gyfradd llog o 2%, cyfanswm gwerth y cynilion fyddai:



Felly, swm y llog a fyddai'n cael ei ennill dros 15 mlynedd fyddai



Petaen ni wedi defnyddio'r dull llog syml, byddai cyfanswm y llog wedi bod yn:

$£50,000 \times 0.02 \times 15 = \mathbf{£15,000}$, felly, byddai cyfanswm gwerth y cynilion wedi bod yn **£65,000**.

Yn y sefyllfa hon, byddai defnyddio'r dull adlog yn golygu y byddech yn cael £2,293 yn fwy o log. Mae hynny'n £2,293 yn fwy, dim ond oherwydd y ffordd mae'r llog yn cael ei gyfrifo.

Cyrhaeddir y swm terfynol hwn dim ond os na chaiff mwy o arian ei adneuo neu ei dynnu allan. Mewn gwirionedd, gallai mwy o arian fod wedi cael ei ychwanegu at y swm sy'n cael ei gynilo neu fe allai rhywfaint ohono fod wedi cael ei dynnu allan i'w wario. Felly, bydd yr union swm sy'n cael ei gynilo yn amrywio'n gyson; bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar faint o log sy'n cael ei gronni.



A WYDDOCH CHI?

Y fformiwla ar gyfer adlog, efallai eich bod yn ei defnyddio mewn Mathemateg TGAU, yw:

$$\text{Cyfanswm a gronnwyd} = P \left(1 + \frac{r}{100} \right)^n$$



GWEITHGAREDD

- Defnyddiwch y dull adlog i gyfrifo'r llog a delir ar brifswm o £150,000 sydd wedi'i gynilo mewn cyfrif cynilo sy'n talu llog o 3% ar hyd y cyfnodau canlynol:
a) 5 mlynedd **b)** 12 mlynedd **c)** 20 mlynedd
- Beth os oedd y gyfradd llog yn 5%? Defnyddiwch yr un wybodaeth yng nghwestiwn 1 i ailgyfrifo'r llog a dderbynnir.
- Cyfrifwch gwestiwn 1 a chwestiwn 2 gan ddefnyddio'r dull llog syml a chymharwch y gwahaniaeth yn y llog a dderbynnir â'r dull adlog.




GWEITHGAREDD

Mae'r siart isod yn dangos y cyfraddau llog blynyddol cyfartalog ar gyfer cynilion yn y Deyrnas Unedig o 1990 i 2019.

- Crynowch beth sydd wedi digwydd i gyfraddau llog cynilion yn ystod y cyfnod hwn o 30 mlynedd.
- Petaech chi wedi rhoi £1,000 mewn cyfrif cynilo ym 1990, faint o log byddech chi wedi'i ennill ar hyd y flwyddyn (13.8%)?
- Petaech chi wedi rhoi £1,000 mewn cyfrif cynilo yn 2019, faint o log byddech chi wedi'i ennill ar hyd y flwyddyn (1.39%)?
- Edrychwch ar eich atebion i gwestiwn 2 a chwestiwn 3. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am gyfraddau llog?
- Edrychwch ar y duedd ar hyd y 30 mlynedd. Beth ydych chi'n credu sy'n debygol o ddigwydd i gyfraddau llog cynilion yn y dyfodol?

Cyfraddau llog blynyddol cyfartalog ar gyfer cynilion yn y Deyrnas Unedig





A WYDDOCH CHI?

Mae banciau'n tueddu i gyfrifo'r llog ar eich cynilion yn ddyddiol gan ddefnyddio'r dull adlog, er bod y cyfnod pan fyddant yn talu'r llog i chi yn gallu amrywio o un cyfrif cynilo i'r llall.

Edrychwch ar y tabl canlynol, sy'n dangos beth fyddai'n digwydd pe byddai banciau'n cyfrifo'r llog sy'n daladwy ar £5,000 ar gyfradd o 3% ar gyfer 5 mlynedd dros gyfnodau adlogi gwahanol.

LLOG SYML	ADLOG			
	Blynnyddol	Chwarterol	Misol	Dyddiol
£5,750	£5,796.37	£5,805.92	£5,808.08	£5,809.14



TRAFODAETH

Pam ydych chi'n credu bod banciau'n cyfrifo llog yn ddyddiol?

Pam ydych chi'n credu bod sefydliadau gwahanol yn talu llog ar gyfnodau gwahanol?



PAM MAE BANCIAU'N TALU LLOG?

Mae banciau'n talu llog fel ffordd o ddenu pobl i gynilo gyda nhw. Tra bydd ganddyn nhw eich arian, fe allan nhw wneud defnydd ohono. Er enghraifft, gellir ei fenthycu i fenthycwyr. Pan fydd banc yn benthycu arian i fenthycwyr, bydd yn gwneud hynny ar gyfradd llog uwch nag y mae'n ei thalu i'w gynilwyr.

Dyna pam mae'n well cynilo na benthycu, oherwydd rydych chi'n cael eich talu i gynilo, i bob pwrpas, ond mae'n rhaid i chi dalu i benthycu.

Os ydych wedi benthycu arian o fanc, dylech geisio ei dalu cyn i chi ddechrau cynilo. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei bod yn costio mwy i chi fenthycu na chynilo.



GWEITHGAREDD

1. Mae Banc ABCh yn cynnig cyfradd gynilo o 1.5% a chyfradd fenthycu o 9.5% y flwyddyn. Cyfrifwch yr elw y byddai'r banc yn ei wneud petai swm o £2,000 yn cael ei gynilo ac yna'i fenthycu dros gyfnod o 1 flynedd.
2. Esboniwch beth fyddai'n digwydd os byddai'r gyfradd llog ar gyfer benthycu yn is na'r gyfradd llog ar gyfer cynilo.



A WYDDOCH CHI?

Mae'n bwysig cofio bod llog ar gynilion yn fath o incwm ac yn destun treth (heblaw am ISAs – edrychwch ar y rhain nes ymlaen). Mae terfynau ar faint o log y gallwch ei ennill cyn iddo gael ei drethu. Mae'r rhain yn cael eu gosod allan yn y Lwfans Cynilion Personol (PSA) ond byddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl ennill dros £1,000 o log y flwyddyn cyn talu unrhyw dreth.

Er enghraifft, mae Banc ABCh yn talu cyfradd llog o 2% y flwyddyn i gynilwyr, ond yn codi cyfradd llog o 10% y flwyddyn ar fenthycwyr. Pe byddai cynilwr yn rhoi £1,000 yn ei gyfrif cynilo am flwyddyn, byddai Banc ABCh yn talu £20 o log iddo.

Yn ystod yr un cyfnod, petai Banc ABCh yn benthycu'r £1,000 i fenthyciwr, byddai'r banc yn cael £100 o log ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae Banc ABCh wedi gwneud £80 o elw i gyd, sef £100 o log o'r benthyciwr llai £20 o log a dalwyd i'r cynilwr. Dyma sut mae banciau a sefydliadau ariannol eraill yn gwneud rhywfaint o'u helw.



CYMHARU CYFRADDAU LLOG A RÔL Y GYFRADD GYFWERTH FLYNYDDOL (AER)

Fe allech gredu y byddai'n rhwydd iawn cymharu dau gyfrif cynilo trwy edrych ar y cyfraddau llog maen nhw'n eu cynnig. Ond, mewn gwirionedd, nid yw bob amser mor syml â hynny.

Mae gan rai cyfrifon cynilo daliadau'n gysylltiedig â nhw, er enghraifft wrth dynnu arian ar fyr rybudd, tra bod eraill yn cynnig manteision a bonysau ychwanegol, er enghraifft cyfradd llog uwch am y flwyddyn gyntaf.

I'w gwneud yn haws cymharu'r llog ar gyfrifon cynilo, mae'n cael ei ddangos fel Cyfradd Gyfwerth Flynyddol (AER). Mae hyn yn ystyried y taliadau a'r llog a delir ar y cyfrif, ac yn ei ddangos fel cyfradd ganrannol gyffredinol. Mae hyn yn golygu bod cynilwyr yn gallu cymharu cyfrifon cynilo gan fanciau gwahanol yn rhwydd.

Po uchaf yr AER, y mwyaf o log y byddant yn ei gael ar eu cynilion.



A WYDDOCH CHI?

Mae Banc Lloegr yn dylanwadu ar y gyfradd llog rydych chi'n ei chael ar eich cynilion. Mae'n gosod cyfradd sylfaenol, sy'n cael ei defnyddio gan fanciau i'w helpu i osod y gyfradd llog maen nhw'n ei chynnig ar eu cyfrifon cynilo.

Mae Banc Lloegr yn cael cyfle i newid y gyfradd hon wyth gwaith y flwyddyn. Ond, oni bai eu bod wedi addo'n benodol i beidio â gwneud hynny, gall banciau'r stryd fawr amrywio eu cyfraddau llog pryd bynnag maen nhw eisiau.

Os ydych eisiau dysgu mwy am sut gall cynilion weithio i chi, ewch i

www.moneysavingexpert.com/savings



CWESTIYNAU

1. Pam mae sefydliadau ariannol sy'n cynnig cynhyrchion cynilo tebyg yn gosod cyfraddau llog gwahanol?
2. Pam mae'r Gyfradd Gyfwerth Flynyddol (AER) yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r llog cyffredinol ar gyfrif cynilo?
3. Esboniwrch fantais adlog o gymharu â llog syml.
4. Pa un sy'n well i gynilwr – cyfrif sy'n cyfrifo llog yn ddyddiol, yn fisol neu'n flynyddol?
5. Mae AER yn un ffordd o gymharu cyfrifon cynilo, ond beth arall y dylech chi ei ystyried wrth ddewis y cyfrif iawn i chi?



EFFAITH CHWYDDIANT

Yn syml, chwyddiant yw'r cynnydd cyffredinol yng nghost nwyddau a gwasanaethau o un flwyddyn i'r llall. Mae'r llywodraeth yn cyfrifo'r ffigur hwn bob mis ac yn ei gyhoeddi fel canran. Po uchaf y gyfradd chwyddiant, y mwyaf yw'r cynnydd yng nghost nwyddau a gwasanaethau pob dydd.

Er enghraifft, os oedd y gyfradd chwyddiant yn 2%, fe allech ddisgwyl i'ch siopa bwyd wythnosol a gostiodd £100 i chi y llynedd gostio £102 i chi eleni.

Os yw'r gyfradd chwyddiant yn uwch na'r gyfradd llog ar gynilion, mae hynny'n golygu bod cost nwyddau a gwasanaethau'n cynyddu'n gyflymach na lefel y llog a dderbynnir. Felly, bydd faint y gallwch ei brynu gyda'r cynilion wedi lleihau.

Felly, os oes gennych gynilion, neu os ydych yn chwilio am gyfrif cynilo newydd, cadwch lygad ar sut mae'r gyfradd llog y byddwch yn ei derbyn yn cymharu â'r gyfradd chwyddiant.



NODWEDDION CYFRIF CYNILO

Er bod yr AER yn rhoi syniad da iawn o faint o log y byddwch yn ei gael ar eich cynilion, nid dyna'r unig beth i chwilio amdano mewn cyfrif cynilo. Mae gwahanol fathau o gyfrifon cynilo sydd â nodweddion sy'n apelio at wahanol bobl:

MATH O GYFRIF CYNILO	DIFFINIAD	NODWEDDION Y CYFRIF
Cyfrifon mynediad rhwydd	Mae cyfrif o'r math hwn yn caniatáu i chi dynnu arian unrhyw bryd heb roi rhybudd o flaen llaw. Yn aml, cyfrifon "mynediad syth" yw'r rhain, sy'n caniatáu i chi dynnu unrhyw swm o arian o ATM yn syth am ddim.	<ul style="list-style-type: none"> • Fe allent gynnig cyfradd llog uwch pan gânt eu hagor • Mae'r gyfradd llog yn tueddu i fod yn is nag ar gyfer cyfrifon eraill • Fe allai fod cyfyngiadau ar faint o weithiau y gallwch dynnu arian bob blwyddyn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y print mân
Cyfrif rhybudd	Fel arfer, mae'n rhaid rhoi rhybudd o flaen llaw os ydych eisiau tynnu arian o gyfrif o'r math hwn heb gael eich cosbi.	<ul style="list-style-type: none"> • Yn nodweddiadol, mae'n rhaid rhoi 30, 60 neu 90 diwrnod o rybudd o flaen llaw i dynnu arian • Fe allech golli llog os byddwch yn tynnu arian heb roi rhybudd • Yn gyffredinol, mae ganddynt gyfradd llog well gan fod y banc yn gwybod pryd byddwch yn tynnu arian, ac yn gallu cynllunio yn unol â hynny
Cyfrif cynilwr rheolaidd	Mae'n rhaid ychwanegu swm rheolaidd o arian i'r cyfrif bob mis.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gyfradd llog fel arfer yn uwch • Efallai bydd cyfyngiad ar faint o weithiau y gellir tynnu arian o'r cyfrif • Ym mhob achos, bydd terfyn ar faint y gallwch ei gynilo (fel arfer tua £250 y mis)
Cynilion cyfradd sefydlog (a elwir weithiau'n fondiau)	Mae eich arian sydd wedi'i gynilo yn cael ei "gloi i ffwrdd" am gyfnod penodol (a elwir yn dymor). Mae bond yn air arall am fenthyciad. Mae hyn yn golygu eich bod yn benthycâch arian i fanc neu gymdeithas adeiladu yn ddychwelyd am log.	<ul style="list-style-type: none"> • Yn aml, mae'n rhaid adneuo swm untro ar y dechrau • Mae'r tymor fel arfer rhwng 1 a 5 mlynedd • Mae cyfradd llog sefydlog (ac uwch fel arfer) yn cael ei chynnig – yn dibynnu ar faint o arian sy'n cael ei adneuo a pha mor hir yw'r tymor • Efallai y gallwch dynnu arian cyn diwedd y tymor, ond bydd hyn fel arfer yn arwain at gosbau, sy'n aml yn uwch nag ar gyfer cyfrif rhybudd
Cyfrif Cynilo Unigol (ISA)	Math o gyfrif cynilo yw hwn lle nad ydych yn talu treth ar y llog a enillir.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r llywodraeth yn gosod terfyn ar faint o arian y gallwch ei gynilo mewn ISA ym mhob blwyddyn dreth

Mae'r gwahanol fathau o gyfrifon cynilo hyn ar gael gan amrywiaeth eang o fanciau a chymdeithasau adeiladu, er y bydd y gyfradd llog a gewch yn amrywio o un sefydliad i'r llall. Mae hynny'n golygu er y gallech ddisgwyl cyfradd llog uwch ar gyfrif cynilo rheolaidd, neu gyfrif llog sefydlog, fe allai fod cyfraddau gwell ar gael gyda chyfrifon mynediad rhwydd. Y peth gorau i'w wneud yw chwilio o gwmpas!

Gall yr holl fathau uchod o gyfrifon cynilo gael eu hagor fel ISA. Mae hyn yn golygu nad ydych yn gorfod talu treth ar y llog a gewch hyd at derfyn penodol, sy'n cael ei osod gan y llywodraeth bob blwyddyn. Rhoddir rhagor o fanylion am ISAs yn nes ymlaen yn y bennod.



BONDIAU PREMIWM

Mae bondiau premiwm yn fath o gyfrif cynilo a gynigir gan y banc cynilo sy'n cael ei gefnogi gan y Llywodraeth – National Savings and Investments (NS&I). Gallwch brynu bondiau premiwm trwy dalu rhwng £100 a £50,000 i NS&I. Fodd bynnag, yn hytrach na derbyn llog ar y swm rydych yn ei gynilo, mae pob £1 sy'n cael ei chynilo yn cael rhif bond unigryw, sy'n cael ei gynnwys mewn cystadleuaeth tynnu rhifau fisol i gael cyfle i ennill gwobr ariannol o rhwng £25 ac £1,000,000, yn ddi-dreth. Felly, petaech chi'n cynilo £500, byddai gennych 500 o rifau bond a fyddai'n cael eu cynnwys yn y gystadleuaeth tynnu rhifau bob mis.



DEWIS YR HYN SY'N IAWN I CHI

Mae'n rhwydd iawn edrych ar y gyfradd llog yn unig wrth ddewis cyfrif cynilo a mynd am yr un sydd â'r gyfradd uchaf, ond efallai nad hwnnw fydd yr un gorau i chi. Meddyliwch am ba mor aml y bydd angen i chi gael at eich cynilion, p'un a allwch dalu arian i mewn yn rheolaidd ai peidio, p'un a oes arnoch angen bancio ar-lein neu dros y ffôn, a beth yw'r gofynion agor lleiaf. Mae'n bosibl nad y cyfrif cynilo sy'n cynnig y gyfradd llog uchaf fydd yr un sy'n gweithio orau i chi.



A WYDDOCH CHI?

Yr ods o ennill gwobr ar gyfer pob rhif bond £1 yw 34,500 i 1.





GWEITHGAREDD

Mae'r bobl ifanc ganlynol i gyd yn bwriadu agor cyfrif cynilo.



ALED

16 OED

Mae Aled yn cael arian poced gan ei rieni ond mae'n gwario'r cyfan ar ei gostau pob dydd. Mae ganddo swydd ddydd Sadwrn mewn siop chwaraeon sy'n golygu ei fod yn gweithio am chwe awr ar gyfradd o £4.62 yr awr.

Mae'n defnyddio'r arian mae'n ei ennill o'i swydd ddydd Sadwrn i gynilo am feic newydd sy'n costio £750, ond mae'n gallu cael gostyngiad staff o 10% arno.

Hyd yma, mae wedi cynilo £300, ond mae'n ei gadw mewn bocs yn ei wardrob ac nid yw'n siŵr ei fod yn ddiogel, felly mae eisiau agor cyfrif banc.



NANDITA

17 OED

Mae gan Nandita swydd ddydd Sadwrn, yn gweithio ym mwyty ei modryb. Mae hi'n gweithio am bum awr gan ennill £4.75 yr awr, ac mae'n cael £10 ychwanegol ar gyfartaledd bob dydd Sadwrn mewn tipiau, ond does byth llawer ar ôl erbyn canol yr wythnos.

Mae modryb Nandita eisiau iddi agor cyfrif banc fel y gall dalu ei chyflog iddi yn syth i gyfrif.

Hoffai Nandita fynd ar wyliau gyda'i ffrindiau ymhen 6 mis – mae ei rhieni wedi gwirfoddoli talu am y gwyliau, ond bydd hi eisiau mynd ag arian gwario o hyd.



ADI

15 OED

Mae Adi yn rheoli ei arian yn ofalus. Mae'n cael lwfans wythnosol o £12 ac mae'n well ganddo gael arian fel rhodd ar ei ben-blwydd, ac ati.

Er nad yw'n cynilo ar gyfer unrhyw beth penodol, mae'n gwybod ei bod yn beth da bod â rhywfaint o arian wrth gefn pan fydd arno ei angen. Mae'n tueddu i feddwl yn ofalus am brynu pethau, yn hytrach na gwneud penderfyniadau byrbwyll (heblaw am lawrlwytho cerddoriaeth).

Mae'n credu y bydd yn mynd i'r brifysgol ymhen ychydig flynyddoedd, fwy na thebyg, ond tan hynny mae angen cyfrif banc arno a fydd yn gweddu i'w anghenion presennol.

Edrychwch ar y pedwar cyfrif cynilo gwahanol isod a dewiswch yr un mwyaf priodol i bob unigolyn, gan roi o leiaf ddau reswm dros eich penderfyniad.

CYFRIF PLWSH	CYFRIF PLWSH IAU	CYFRIF PLWSH UN	CYFRIF PLWSH UWCH
<ul style="list-style-type: none"> • 0.5% AER • Agor cyfrif gyda £5 yn unig a chael anrheg am ddim • Cerdyn ATM (16+ oed) • Bancio ar-lein a ffôn (16+ oed) • Cyfriflenni papur misol (gydag opsiwn i fynd yn ddi-bapur) 	<ul style="list-style-type: none"> • 2% AER • Cerdyn ATM • £10 o leiaf i agor cyfrif • Ystod oedran: 14-18 oed • Cerdyn rhodd £25 pan fyddwch yn agor cyfrif 	<ul style="list-style-type: none"> • 2.25% AER • £75 o leiaf i agor cyfrif • 30 diwrnod o rybudd i dynnu arian heb golli llog • Lleiafswm oedran i agor cyfrif: 16 • Bancio ar y we yn unig 	<ul style="list-style-type: none"> • 2.75% AER • Cerdyn ATM • £100 o leiaf i agor cyfrif • Angen adneuo £50 y mis • Dim angen rhoi rhybudd i dynnu arian (hyd at derfyn o £200)



CWESTIYNAU

1. Pam y gallai rhywun ddewis agor cyfrif sy'n golygu bod rhaid iddo roi cyfnod o rybudd cyn tynnu ei gynilion?
2. Beth yw prif fantais ISA?
3. Rhowch enghraifft o sefyllfa pryd y gallech ddefnyddio bond cynilo cyfradd sefydlog.
4. Nodwch bum peth y dylech eu hystyried cyn dewis pa gyfrif cynilo sy'n iawn i chi. Esboniwch pam y dylech ystyried pob un o'r rhain.



SUT I GAEL YR ARIAN I'W GYNILO

Mae rhoi eich arian mewn cyfrif cynilo yn ffordd ddiogel a chymharol ddi-risg o gynilo ar gyfer y dyfodol. Ond mae'n gallu bod yn anodd cael yr arian i allu cynilo yn y lle cyntaf. Mae pedair prif ffordd o gael arian i'w gynilo:

Ei ennill

Gallai cynyddu enillion, trwy waith ychwanegol a chyflog uwch, eich galluogi i gynilo mwy o'ch incwm. Pan fydd eich enillion yn cynyddu, gall yr incwm ychwanegol ddod yn rhan o'ch gwario dydd i ddydd yn rhwydd, felly mae'n syniad da rhoi'r incwm ychwanegol yn eich cynilion yn syth – trwy wneud hynny, ni fyddwch yn teimlo eich bod ar eich colled!

Ei gael fel rhodd


Mae llawer o achlysuron mewn bywyd pryd y gallai pobl roi arian i chi – ar gyfer pen-blwydd, fel rhodd, neu hyd yn oed fel etifeddiaeth.

Gwerthu pethau sy'n eiddo i chi

Mae gwerthu eich eiddo yn haws nag erioed erbyn hyn. Er enghraifft, efallai bod gennych gonsolau gemau, ffonau symudol neu hyd yn oed ddillad nad ydych yn eu defnyddio mwyach. Gallai'r rhain fod yn werthfawr i bobl eraill a gwneud rhywfaint o arian ychwanegol i chi ar yr un pryd.

Gwario llai

Gall adolygu'ch gwariant a gwneud dewisiadau gwario mwy gwybodus gael effaith fawr ar faint o arian sydd ar ôl gennych i'w gynilo.



AWGRYMIADAU DA

Dyma rai ffyrdd o wario llai:



1. Gwiriwch bris popeth gan ddefnyddio safleoedd cymharu – dewch o hyd i ba fanwerthwr sy'n gwerthu eich hoff gemau cyfrifiadurol neu'r ddyfais ddiweddaraf am y pris rhataf.



2. Defnyddiwch dalebau gostyngiad neu gwponau arian i ffwrdd – gallwch ddod o hyd i'r rhain yn rhwydd ar-lein, mewn cylchgronau a phapurau newydd, neu mewn siopau.



3. Ymunwch â safleoedd arian yn ôl ar-lein – os byddwch yn prynu ar-lein, cofrestrwch ar gyfer safle arian yn ôl a phob tro y byddwch yn defnyddio'r siop honno, byddwch yn cael canran benodol o'r arian yn ôl am ddefnyddio'r safle.



4. Dilynwch eich hoff siopau ar gyfryngau cymdeithasol – byddwch yn cael gwybod pryd maen nhw'n cael sêl neu'n clirio hen stoc.



5. Tacluswch eich cyfrif banc – canslwlch aelodaeth gampfa nad ydych yn ei defnyddio a thanysgrifiadau misol a newidiwch eich contract ffôn i un rhatach os oes modd.



6. Gofynnwch i'ch hun bob tro, "Oes arna' i angen hwn, mewn gwirionedd?"



7. Cerddwch neu beiciwch, yn hytrach na thalu am dacsis neu docynnau trên a bws – mae'n well i'ch waled a'ch calon.



8. Gwnewch gynllun cynilo neu defnyddiwch ap cynilo i'ch helpu i gynilo ar gyfer y tymor byr neu'r tymor hir.

Pan fyddwch yn dechrau talu eich biliau eich hun, neilltuwch amser i wneud ymchwil er mwyn dod o hyd i'r bargeinion gorau a fydd yn arbed arian i chi.

A allwch chi feddwl am ffyrdd eraill o gynilo? Gwnewch rywfaint o waith ymchwil eich hun a meddyliwch am ffyrdd sy'n gweddu i chi.



A WYDDOCH CHI?

Does dim cynilion o gwbl gan bron 1 o bob 10 o bobl dros 18 oed sy'n byw yng Nghymru.

Ffynhonnell: Ystadegau Cynilion y Deyrnas Unedig 2020



GWEITHGAREDD

Meddyliwch am rai o'r eitemau a'r digwyddiadau drud y gallai fod angen i chi gynilo ar eu cyfer yn y dyfodol, ac yna:

- 1.** Rhestrwch bum eitem a/neu ddigwyddiad y gallai fod angen i chi gynilo ar eu cyfer fel oedolyn.
- 2.** Amcangyfrifwch faint gallai'r rhain ei gostio i chi.
- 3.** Ystyriwch wahanol ffyrdd y gallech gynilo ar gyfer y rhain.
- 4.** Ystyriwch ba rwystrau a allai eich atal rhag cynilo ar gyfer yr eitemau/digwyddiadau hyn.
- 5.** Penderfynwch sut gallech chi oresgyn y rhwystrau hyn.
- 6.** A ydych chi'n synnu at unrhyw rai o'ch atebion? Sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?





ASTUDIAETH ACHOS

Gan ddefnyddio'ch gwybodaeth am gynilo, darllenwch y senarios canlynol ac awgrymwch sut gallai pob unigolyn gynilo. Ystyriwch y goblygiadau os byddant yn dewis peidio â chynilo hefyd.

- 1.** Mae Wasim newydd ddechrau yn y coleg ac mae eisiau cael yr esgidiau ymarfer diweddaraf. Mae ei fam wedi dweud wrtho fod ganddo lwyth o esgidiau ymarfer eisoes, ac os ydyw eisiau eu cael nhw, bydd rhaid iddo gynilo'r arian ei hun.
- 2.** Mae Lowri yn 18 oed ac yn bwriadu mynd i'r brifysgol eleni. Bydd yn byw'n annibynnol, oddi cartref. Mae ganddi swydd ran-amser ar hyn o bryd ac mae'n ennill tua £100 yr wythnos. Mae hi eisiau cynilo tua £1,000 i'w chadw wrth gefn, rhag ofn.
- 3.** Mae Ayomide wedi cwblhau prentisiaeth TG a bydd yn dechrau ei swydd newydd fis nesaf. I ddathlu, mae eisiau mynd ar wyliau gyda'i ffrindiau. Mae ganddo gerdyn credyd ac mae wedi penderfynu ei ddefnyddio i dalu am y daith a'i arian gwario – bydd yn poeni am y bil pan ddaw yn ôl! Mae ganddo rywffaint o gynilion, ond os bydd yn defnyddio'r rhain, fydd dim byd ar ôl yn ei gyfrif banc.



GWEITHGAREDD

Mae Wasim yn penderfynu llunio cynllun cynilo i gael ei esgidiau ymarfer newydd.

- Mae angen £70 arno
- Bydd yn cymryd 3 mis iddo

Dangosir ei gynllun cynilo isod:

DYDDIAD	RWY'N BWRIADU CYNILLO (£)	SUT BYDDAF YN EI GYNILO?	ANGEN EI GYNILO O HYD (£)
Ionawr	£10	Arian poced oddi wrth Mam-gu	£60
Chwefror	£30	Arian pen-blwydd	£30
Chwefror	£10	Arian poced oddi wrth Mam-gu	£20
Mawrth	£20	Tasgau o gwmpas y tŷ – golchi'r car, glanhau fy ystafell a mynd â'r ci am dro	£0

Mae Wasim yn cyrraedd ei nod o gynilo £70, ond yn y cyfamser mae wedi troi'n 17 oed ac mae eisiau dechrau cael gwersi gyrru yn lle prynu'r esgidiau ymarfer. Bydd cyfres o wersi'n costio £140, felly mae angen iddo gynilo mwy o arian ar ben y swm sydd ganddo. Mae'n disgwyl cael yr incwm canlynol:

- £10 y mis o arian poced oddi wrth ei Fam-gu.
- Mae fel arfer yn mynd ar y bws i'r coleg, ond o fis Ebrill ymlaen mae'n bwriadu cerdded yn lle mynd ar y bws, sy'n golygu y bydd yn gwario £15 yn llai y mis, y bydd yn gallu ei gadw.
- Gwerthu pâr o'i hen esgidiau ymarfer am £10 ar safle gwerthu ar-lein poblogaidd ym mis Mai.

1. Diweddarwch a chwblhewch gynllun cynilo Wasim.
2. Ym mha fis y bydd Wasim yn gallu talu am ei wersi gyrru?
3. Beth allai rwystro ei gynllun cynilo?
4. Pa opsiynau cynilo eraill sydd gan Wasim?

ARIAN AC IECHYD MEDDWL

Mae cynilo'n dda i'n hiechyd meddwl. Os ydym yn gwybod bod gennym rywffaint o gynilion i dalu am fil annisgwyl, er enghraifft trwsio'r car neu gael boeler newydd yn lle un sydd wedi torri, mae hynny'n golygu nad oes rhaid i ni boeni am sut i fforddio talu amdano. Gallai cynilion hefyd olygu nad oes angen i ni fenthycu arian a thalu am gredyd. Gall hyn leihau straen a rhoi mwy o annibyniaeth i bobl o ran gwario.



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Abby a Paul yn gweithio ac mae ganddyn nhw fwy neu lai digon o arian bob mis i dalu'r biliau. Ond ar adeg pen-blwyddi, maen nhw'n aml yn gorfod dibynnu ar eu gorddrafft banc i dalu am yr anrhegion. Maen nhw wastad yn poeni beth fydd yn digwydd os bydd y peiriant golchi'n torri ac os na fyddan nhw'n gallu talu am deithiau ysgol eu plant. Mae ffrindiau i'r teulu wedi gofyn iddyn nhw fynd ar wyliau gyda nhw, ac maen nhw wedi cytuno i fynd, er nad oes ganddyn nhw gynilion. Yr unig reswm y cytunodd Abby i fynd, mewn gwirionedd, oedd oherwydd nad yw hi eisiau i'w ffrindiau feddwl ei bod hi'n brin o arian. Mae Paul yn anhapus bod Abby wedi cytuno, ac mae hyn wedi rhoi ychydig o straen ar eu perthynas.

Mewn grwpiau, trafodwch y cwestiynau canlynol:

1. Pa effaith y gallai'r sefyllfa hon ei chael ar iechyd meddwl Abby a Paul?
2. Pa effeithiau mae peidio â chynilo wedi'u cael ar Abby a Paul?
3. Pa gyngor cynilo fydddech chi'n ei roi i Abby a Paul?





BETH YDYCH CHI WEDI'I DDYSGU?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch o'r bennod hon, a allwch chi helpu Rhian i reoli ei harian yn well?



Nid yw Rhian erioed wedi bod yn dda iawn am reoli ei harian ac fe aeth i ddyled o'r blaen trwy beidio â bod yn ofalus wrth wario. Ond mae hi wedi bod yn cynilo ei darnau arian £2 mewn jar yn ddiweddar ac wedi llwyddo i gynilo cyfanswm o £136. Hoffai gynilo £32 arall o fewn y mis nesaf i gyrraedd ei nod cynilo er mwyn iddi allu prynu clustffonau newydd.


1. Trafodwch y rhesymau pam nad yw'n syniad da iddi gadw ei chynilion mewn jar.
2. Rhowch gyngor i Rhian ar yr opsiynau sydd ar gael iddi o ran cyfrifon cynilo. Esboniwch pam rydych yn credu bod y cyfrifon hyn yn briodol i Rhian.
3. Trafodwch ffyrdd eraill y gallai Rhian gynilo'r £32 sy'n weddill.
4. Mae Rhian eisiau cael clustffonau newydd yn syth ac mae'n ysu am eu prynu nhw nawr. Mae'n gwybod os bydd yn prynu rhai rhatach, na fyddan nhw cystal â'r rhai mae hi eu heisiau. Beth ddylai hi ei wneud?
5. Mae gan Rhian ddyled o £40 ar ei cherdyn credyd o hyd. A ddylai dalu'r ddyled neu brynu'r clustffonau? Esboniwch eich ateb.
6. Argymhellwch sut gallai Rhian reoli ei gwario'n fwy gofalus yn y dyfodol.
7. Os bydd Rhian yn parhau i fynd i ddyled, sut gallai hyn effeithio ar ei hiechyd meddwl?

DATBLYGU'CH GWYBODAETH

ADLOGI LLOG DROS GYFNODAU GWAHANOL

Gall adlog gael ei gyfrifo'n flynyddol, yn chwarterol (bob tri mis), yn fisol, yn wythnosol neu hyd yn oed yn ddyddiol. Ar ddiwedd pob cyfnod, mae'r llog sydd wedi cronni yn cael ei ychwanegu at y cyfrif. Yn y cyfnod nesaf, enillir llog ar y cyfanswm newydd (y swm gwreiddiol yn ogystal â'r llog a ychwanegwyd). Felly, bydd swm y llog a enillir yn cynyddu o un cyfnod i'r llall. Mewn theori, po amlaf yw'r adlogi, y gwell yw'r adenillion (gan gymryd bod yr holl ffactorau eraill yn gyfartal).

Er enghraifft, petai £5,000 yn cael ei osod mewn cyfrif cynilo am 10 mlynedd gyda chyfradd llog o 5% sy'n cael ei hadlogi'n fisol, dyma'r fformiwla ar gyfer cyfrifo gwerth y cynilion:



Cyfrifwch faint o log fydd wedi cronni yn y cyfrifon cynilo canlynol:

	PRIFSWM A ADNEUWYD	CYFRADD LLOG	CYFNOD ADLOGI	NIFER Y BLYNYDDOEDD
A	£3,000	2.5%	Chwarterol	6
B	£6,500	3.25%	Wythnosol	4
C	£8,325	2.76%	Dyddiol	7

Trwy aildrefnu'r fformiwla, gallwch ganfod yr ateb i gwestiynau eraill hefyd. Er enghraifft, gallwch ganfod pa gyfradd llog y mae arnoch ei hangen i gyrraedd nod cynilo penodol. Gallwch hefyd weld pa wahaniaeth mae gwahanol gyfnodau adlogi yn ei wneud.

LWFANS CYNILION PERSONOL

Fel rydych wedi'i weld, mae cynilion yn cynhyrchu llog; gall hyn gael ei ddosbarthu fel math o incwm, ac mae incwm yn gallu cael ei drethu. Cyflwynwyd y Lwfans Cynilion Personol (PSA) ym mis Ebrill 2016 ac mae'n caniatáu i gynilwyr ennill swm penodol o log cyn iddynt orfod talu treth arno.

Gall trethdalwr cyfradd sylfaenol (20% o dreth ar incwm) ennill £1,000 o log ar gynilion fesul blwyddyn dreth cyn talu treth arno.

Gall trethdalwyr cyfradd uwch (sy'n symud i'r dosbarth treth 40%) ennill £500 o log ar eu cynilion cyn cael eu trethu.

Nid yw trethdalwyr cyfradd ychwanegol (y mae eu hincwm yn ymestyn i'r dosbarth treth 45%) yn cael unrhyw lwfans.

Amcangyfrifir mai dim ond 5% o bobl fydd byth yn talu treth ar y llog a gynhyrchwyd gan eu cynilion.

I gael rhagor o wybodaeth am lwfansau treth incwm, gweler y bennod 'Symud ymlaen o'r ysgol – byd gwaith'.

Os yw'r arian a gynilwyd yn cael ei ddal mewn cyfrif ar y cyd, at ddiben y lwfans, ystyrir bod y llog yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng deiliaid y cyfrif a enwyd. Mae'r PSA yn ychwanegol at lwfans ISA.

Yn yr enghreifftiau canlynol, cyfrifwch faint o dreth sy'n daladwy ar log cynilion ar ôl blwyddyn – os o gwbl:

1. Mae Gareth eisoes wedi cynilo £2,000 mewn cyfrif banc sy'n talu 1.55% o log. Mae bellach yn ychwanegu £50 y mis at y cyfrif cynilo hwn yn rheolaidd. Mae'n drethdalwr cyfradd sylfaenol.
2. Ar ôl cael swm annisgwyl, mae gan Cerys gyfanswm o £60,000 wedi'i gynilo sy'n ennill 2.2% o log. Mae hi'n drethdalwr cyfradd sylfaenol.
3. Mae Ali yn drethdalwr cyfradd uwch sydd â thri chyfrif cynilo personol. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae ganddo'r symiau canlynol ynddynt:
 - Cyfrif A: £35,000 sy'n ennill llog blyneddol ar 1.5%
 - Cyfrif B: £10,000 sy'n ennill llog blyneddol ar 1.0%
 - Cyfrif C: £500 sy'n ennill llog blyneddol ar 0.8%
4. Mae Efa a Wil yn bâr priod ac mae ganddyn nhw gyfrif cynilo ar y cyd. Mae £38,000 yn y cyfrif, sy'n ennill llog ar gyfradd o 1.7% y flwyddyn. Mae ganddyn nhw gyfrifon cynilo ar wahân hefyd sy'n cynnwys £25,000 (cyfradd llog o 1.3%) a £17,000 (cyfradd llog o 1.6%), yn y drefn honno. Mae gan y ddau ISA sy'n cynnwys £15,000 yr un (cyfradd llog o 1.2%). Mae Efa yn talu treth ar y gyfradd uwch tra bod Wil ar y gyfradd sylfaenol.



TRAFODAETH

A yw'n deg nad yw trethdalwyr cyfradd ychwanegol yn cael PSA?

ISAs

Mae ISA (Cyfrif Cynilo Unigol) yn fodd o gynilo neu fuddsoddi arian sy'n golygu nad oes rhaid talu treth ar unrhyw enillion (llog ar gynilion, neu incwm a chynnydd yng ngwerth buddsoddiadau). Y ddau brif fath o ISA yw ISA Arian Parod ac ISA Stociau a Chyfranddaliadau. Yn 2021/22, y terfyn ar faint y gellir ei gynilo y flwyddyn yw £20,000; mae'r swm hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y llywodraeth. Nid yw'r llog sy'n cael ei dalu ar ISAs arian parod yn cyfrif tuag at Lwfans Cynilion Personol (PSA).

	ISA ARIAN PAROD	ISA STOCIAU A CHYFRANDDALIADAU
Disgrifiad	Cynilo heb dalu treth ar y llog.	Buddsoddi mewn amrywiaeth o gyfranddaliadau, bondiau a chronfeydd heb dalu treth ar unrhyw enillion.
Addasrwydd	Ar gyfer cynilo tymor byr, tymor canolig a thymor hir gan y rhan fwyaf o fathau o gynilwyr.	Yn fwyaf addas ar gyfer cynlluniau buddsoddi o 5 mlynedd o leiaf a dim ond ar gyfer pobl sy'n derbyn efallai na fyddant yn cael y swm llawn a fuddsoddwyd yn ôl.
Risg	Dim risg. Bydd y swm a gynilwyd yn aros yr un fath neu'n cynyddu, o bosibl.	Rhywfaint o risg. Gallai gwerth yr arian a fuddsoddwyd gynyddu neu leihau yn unol â'r farchnad stoc, felly mae'n bosibl cael llai yn ôl na'r swm a fuddsoddwyd.
Adenillion	Mae adenillion wedi'u cyfyngu gan y gyfradd llog a nodwyd.	Mae adenillion diderfyn yn bosibl (ond gweler uchod).
Terfynau oedran	Rhaid bod yn 16 oed neu'n hŷn.	Rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn.

Dyma'r prif fathau o ISA, ond mae eraill ar gael, er enghraifft: ISA Iau – cyfrif cynilo di-dreth, tymor hir ar gyfer plant iau na 18 oed, sy'n dod yn ISA cyffredin pan fyddant yn troi'n 18 oed; ac ISA Gydol Oes – cyfrif cynilo di-dreth, tymor hir a ddefnyddir yn aml gan bobl sy'n prynu eiddo am y tro cyntaf neu i gronni cynilion ar gyfer eich ymdeoliad. Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfrannu tuag at y cynilion hyn hefyd.



GWEITHGAREDD

Gwnewch ychydig o waith ymchwil i ddysgu am y mathau eraill o ISAs. Yna, crëwch daflen ffeithiau fanwl â'r teitl "ISAs i Ddechreuwyr", sy'n cymharu a chyferbynnu agweddau allweddol gwahanol gynhyrchion ISA. Dylech gynnwys adran sy'n edrych ar sut mae llog yn cronni dros amser ac un arall sy'n archwilio'r manteision a/neu'r risgiau posibl.



GWNEUD Y MWYAF O'CH ARIAN

SUT GALLAF WNEUD YN SIŴR FY MOD YN CAEL Y MWYAF O'M HARIAN?

Rydyn ni i gyd yn gwneud dewisiadau gydag arian bron bob dydd – p'un ai ei wario ai peidio, beth i'w wario arno, a chwilio am y bargeinion gorau.

Mae'r bennod hon yn edrych ar rai o'r pethau sy'n gallu dylanwadu ar y dewisiadau hyn, sut gallwn reoli'r dewisiadau hynny'n fwy effeithiol a beth yw ein hawliau defnyddwyr ar gyfer y pethau rydyn ni'n gwario arian arnynt.



A WYDDOCH CHI?

Gyda cherdyn debyd rydych yn gwario'ch arian eich hun o'ch cyfrif banc; gyda cherdyn credyd rydych yn gwario arian rhywun arall, ac mae'n rhaid ei ad-dalu.





GWARIO



ANGEN AC EISIAU

Rydyn ni i gyd yn gwario arian, ond mae pob unigolyn yn ei wario ar bethau gwahanol. Gellir rhannu gwario yn angen ac eisiau:

- **Angen** – Hanfodion angenrheidiol yw'r rhain; y pethau na allwch wneud hebddynt. Mae rhai ohonynt yn amlwg, fel dŵr, bwyd neu gartref, ond fe allai fod angen i chi wneud dewisiadau ynglŷn â nhw o hyd, fel pa frandiau i'w prynu, a fydd yn effeithio ar y pris.
- **Eisiau** – Dyma'r eitemau, y gwasanaethau neu'r profiadau yr hoffech eu prynu os oedd gennych ddigon o arian. Dyma lle mae dewis a blaenoriaethau personol yn dod i'r amlwg. Mae'n ymwneud â'r flaenoriaeth y mae pob unigolyn yn ei rhoi i bob un o'r rhain.



TRAFODAETH

A fydddech chi'n ystyried bod ffôn clyfar yn rhywbeth y mae ei angen neu ei eisiau? Trafodwch gydag eraill a rhannwch eich barn. A yw'ch barn yn newid yn dibynnu ar:

- Oedran yr unigolyn?
- Ble yn y byd y mae'n byw?
- Faint o arian sydd ganddo?



PETHAU SY'N DYLANWADU AR WARIO

Nid dim ond yr hyn rydyn ni ei angen a'i eisiau sy'n llywio sut rydyn ni'n gwario ein harian bob amser. Gall llawer o bethau eraill ddylanwadu arnom:

- **Teulu** – Rydyn ni'n aml yn dysgu ein harferion ariannol gan ein rhieni, brodyr a chwiorydd hŷn ac aelodau eraill o'r teulu. Mae'r hyn maen nhw'n ei brynu yn tueddu i ddylanwadu ar yr hyn rydyn ni'n ei brynu, ac mae'r ffordd maen nhw'n defnyddio eu harian yn tueddu i effeithio ar y ffordd rydyn ni'n ei ddefnyddio hefyd.
- **Cyfoedion** – Mae'r rhan fwyaf ohonon ni eisiau cael ein derbyn gan ein ffrindiau, felly rydyn ni'n prynu'r hyn maen nhw'n ei brynu i fod yn rhan o'r grŵp. Mae cyfryngau cymdeithasol wedi cael dylanwad mawr ar hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, gall dilyn sêr ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol ddylanwadu ar sut rydyn ni'n gwario ein harian. Efallai byddwn ni'n hoffi'r cynhyrchion a'r gwasanaethau maen nhw'n eu hargymell ac eisiau cael yr un peth, er gwaethaf y gost.
- **Diwylliant** – Mae ein cefndir diwylliannol a chrefyddol yn golygu y gallem ddatblygu barn benodol am arian a sut i'w wario.
- **Tymhorol** – Mae digwyddiadau fel y Nadolig, Eid a Rosh Hashanah yn hyrwyddo'r syniad o wario arian ar bethau penodol ar adegau penodol o'r flwyddyn.
- **Hysbysebu** – Mae'n rhaid i unrhyw fusnes geisio gwerthu ei gynhyrchion. Mae diwydiant hysbysebu enfawr yn bodoli sy'n helpu i greu'r syniad o eisiau yn ein meddyliau. Enghraifft dda o hyn yw prynu dillad newydd i ddilyn tueddiadau ffasiwn. Efallai nad oes angen i ni gael pâr arall o esgidiau ymarfer, ond efallai byddwn ni'n eu prynu oherwydd rydyn ni eisiau eu cael nhw neu'n teimlo bod arnon ni eu hangen, ac mae hyn yn aml oherwydd ymgyrchoedd hysbysebu.

- **Incwm gwario** – Dyma'r arian sydd ar ôl ar ddiwedd pob mis pan fydd yr holl filiau wedi cael eu talu. Er enghraifft, po fwyaf incwm gwario sydd gennych, y mwyaf tebygol ydych o brynu pethau nad oes arnoch eu hangen mewn gwirionedd dim ond oherwydd bod gennych arian ar gael i'w wario.

Mae'n ddefnyddiol iawn bod yn ymwybodol o beth sy'n dylanwadu ar y ffordd rydych yn gwario. Os ydych yn gwybod beth yw'r dylanwadau, byddwch mewn sefyllfa dda i'w rheoli!

Gwnewch waith ymchwil

Mae gwneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael i chi yn bwysig iawn hefyd wrth wneud penderfyniadau am wario. Gall gwaith ymchwil wneud gwahaniaeth mawr. Fe all helpu i:

- Nodi beth yn union y mae arnoch ei angen.
- Dangos y prisiau amrywiol sy'n bodoli ar gyfer yr un cynnyrch – gall yr un cynnyrch gael ei brisio'n wahanol gan gyflenwyr neu fanwerthwyr gwahanol.
- Canfod beth oedd pobl eraill yn ei feddwl am y cynnyrch a ph'un a oedd yn werth am arian – mae adolygiadau o gynhyrchion ar gael ar-lein yn aml.
- Dangos p'un a fydd fersiynau mwy newydd o'r cynnyrch yn cael eu rhyddhau'n fuan – gall cynhyrchion technoleg, fel ffonau symudol, newid yn gyflym iawn.



TRAFODAETH

Pa dri dylanwad ydych chi'n credu sy'n fwyaf tebygol o effeithio ar benderfyniadau unigol ar yr oedrannau canlynol?

- 7 oed
- 14 oed
- 25 oed



GWEITHGAREDD

Darllenwch y proffiliau cyfryngau cymdeithasol canlynol ar gyfer pobl mewn gwahanol ddosbarthiadau oedran.

1. Ar gyfer pob unigolyn, nodwch beth rydych yn credu yw'r tri dylanwad mwyaf ar y ffordd maen nhw'n gwario. Rhewch resymau ar gyfer eich atebion.
2. Pwy sy'n debygol o fod â'r incwm gwario mwyaf a lleiaf? Sut gallai hyn effeithio ar y ffordd mae'n gwario?
3. Pwy sy'n debygol o gael ei ddylanwadu fwyaf gan gyfryngau cymdeithasol? Sut bydd hyn yn effeithio ar y ffordd mae'n gwario?
4. Mae hysbysebwyrr yn treulio llawer o amser ac yn gwario llawer o arian ar ddeall beth sy'n dylanwadu ar y ffordd mae cwsmeriaid yn gwario. Ydych chi'n credu bod hyn yn ddefnydd da o arian? Rhewch resymau ar gyfer eich ateb.



JENAYA

Amdanaf i

Rhywedd: Benywaidd

Oedran: 16

Lleoliad: Sir Gaerfyrddin

Tref: Llanelli

Cyflogaeth: Myfyriwr - newydd ddechrau
Safon Uwch

Gweithgareddau a Diddordebau

Darllen, pêl-droed, coginio (yn enwedig pobi), creu blogiau fideo, fy nghath Oscar

Cerddoriaeth

James Bay, Taylor Swift, Ariana Grande

Llyfrau

Cyfres Harry Potter, The Hunger Games, unrhyw beth gan John Green

Ffilmiau

The Fault in Our Stars, Wonder Woman, Star Wars

Teledu

Match of the Day, The Simpsons, The Great British Bake Off



OWEN

Amdanaf i

Rhywedd: Gwrywaidd

Oed: 37

Lleoliad: Gwynedd

Tref: Bangor

Cyflogaeth: Dadansoddwr cyfrifiadurol
(hunangyflogedig)

Gweithgareddau a Diddordebau

Cerdded rhosydd, pysgod trofannol, dawnsio salsa, treulio amser gyda'r teulu

Cerddoriaeth

Ed Sheeran, Shakira, Luis Fonsi

Llyfrau

The Curious Incident of The Dog in The Night-Time, The Power, amryw fywgraffiadau

Ffilmiau

Guardians of the Galaxy, James Bond, The Greatest Showman

Teledu

The Apprentice, Mock the Week, Orange Is The New Black



HEULWEN

Amdanaf i

Rhywedd: Benywaidd

Oedran: 64

Lleoliad: Powys

Tref: Y Drenewydd

Cyflogaeth: Wedi ymddeol

Gweithgareddau a Diddordebau

Mynd i'r theatr (yn enwedig sioeau cerdd), gwyllo rasio ceffylau, teithio, fy wyrion a'm hwyresau, garddio

Cerddoriaeth

Michael Bublé, pop y 1960au

Llyfrau

To Kill A Mockingbird, llyfrau Stephen King a ffuglen drosedd

Ffilmiau

The Best Exotic Marigold Hotel, Les Misérables, La La Land

Teledu

Downton Abbey, Suits, Poirot



MARCHNATA DIGIDOL

Mae busnesau'n awyddus i ddeall ôl troed digidol eu cwsmeriaid presennol a'u darpar gwsmeriaid trwy gasglu gwybodaeth am yr hyn maen nhw'n ei wneud ar-lein, er enghraifft sut maen nhw'n defnyddio chwilotwyr, platfformau cyfryngau cymdeithasol, safleoedd siopa a gwefannau eraill. Mae hyn yn eu helpu i dargedu gwahanol grwpiau o bobl yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n chwilio amdano, ei brynu ac yn edrych arno ar-lein. Er enghraifft, os byddwch yn chwilio am docynnau cyngerdd, fe allech gael hysbysebion am ddigwyddiadau eraill a gwybodaeth am leoliadau. Gelwir hyn yn farchnata digidol targedig.



CWESTIYNAU

1. Pam mae busnesau'n gwario symiau mawr o arian ar hysbysebu?
2. Pam mae marchnata digidol targedig yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig i hysbysebwr a'r cwmnïau maen nhw'n hyrwyddo eu nwyddau?



FFYRDD O DALU

Mae'r ffordd rydyn ni'n talu am nwyddau a gwasanaethau wedi esblygu dros ganrifoedd lawer ac mae ffyrdd newydd yn dal i gael eu datblygu heddiw. Dyma'r prif ffyrdd o dalu am y pethau rydyn ni'n eu prynu:

1. Arian parod: Defnyddiwyd darnau arian gyntaf yn y 7fed ganrif CC ac ymddangosodd arian papur gyntaf yn Tsieina fil o flynyddoedd yn ôl. Mae llawer o bobl yn dal i ddefnyddio arian parod heddiw fel ffordd gyflym a chyfleus o dalu am eitemau pob dydd – er bod hyn bellach yn cael ei herio gan nifer o ddulliau electronig.

2. Cardiau: Ers iddynt ymddangos gyntaf yn y 1950au, mae nifer y cardiau plastig y gellir eu defnyddio i gael at arian wedi cynyddu'n gyflym. Pan fydd pobl eisiau arian parod y dyddiau hyn, maen nhw'n aml yn defnyddio cerdyn mewn peiriant ATM neu beiriant arian i godi arian. Mae defnyddio cerdyn yn ffordd boblogaidd o wario, er bod y ddau fath mwyaf cyffredin o gerdyn yn gallu cael eu drysu'n rhwydd (ac mae'n bwysig peidio â gwneud hynny):

Cerdyn debyd – Pan fyddwch yn gwneud taliad neu'n codi arian gyda cherdyn debyd, mae'r arian yn cael ei dynnu'n syth o'ch cyfrif banc yn electronig os oes gennych yr arian i'w wario. Ni allwch fenthycu arian ar gerdyn debyd.

Cerdyn credyd – Mae cardiau credyd, sydd ar gael i bobl 18 oed a hŷn, yn caniatáu i chi fenthycu arian hyd at derfyn penodol. Pan fyddwch yn prynu rhywbeth gyda cherdyn credyd, mae'r swm rydych yn ei wario yn cael ei ychwanegu at y cyfanswm a fenthycwyd. (Mae llawer mwy o wybodaeth am gardiau credyd yn y bennod 'Benthyca'.)

Un o fanteision defnyddio cerdyn credyd yw ei fod yn rhoi mwy o amddiffyniad i chi os bydd rhywbeth yn mynd o'i le – er enghraifft, os yw'r busnes y prynoch y nwyddau neu'r gwasanaethau ganddo yn mynd yn fethdal, neu os nad yw'ch archeb yn cael ei danfon. Os bydd hyn yn digwydd, byddai gennych hawl i gael ad-daliad, ond dim ond os oedd yr eitem neu'r gwasanaeth a brynoch wedi costio rhwng £100 a £30,000. Nid yw'r amddiffyniad hwn yn berthnasol i gardiau debyd.



A WYDDOCH CHI?

Y datblygiad arwyddocaol diweddaraf o ran cardiau plastig yw taliadau digyffwrdd, sy'n cyflymu unrhyw drafodyn. Mae'r symbol canlynol yn dangos bod opsiwn i dalu'n ddigyffwrdd – ac mae fel arfer i'w weld ar beiriant neu ddarllenwydd cerdyn.



TRAFODAETH

Cyflwynwyd cardiau digyffwrdd gyntaf yn 2007 a'r terfyn ar drafodion oedd £10 fesul defnydd. Yn 2015, cynyddwyd hyn i £30, ac yn 2020 cafodd ei gynyddu unwaith eto i £45. Yn 2021, cynyddwyd y terfyn i £100.

Beth yw eich barn am gynyddu'r terfyn ar gyfer taliadau digyffwrdd?

3. Taliadau trwy fanc: Os oes gennych gyfrif banc, mae nifer o opsiynau talu ar gael i chi, yn ogystal â defnyddio'ch cerdyn debyd, sef:

Trosglwyddiad electronig – Ffordd o symud arian o'ch cyfrif chi i gyfrif rhywun arall.

Archeb sefydlog – I dalu symiau sefydlog rheolaidd o'ch cyfrif banc yn awtomatig. **Chi sy'n rheoli hyn** – rydych yn cyfarwyddo'ch banc i dalu'r arian i unigolyn neu gwmni penodol. Eich cyfrifoldeb chi yw newid y manylion talu (e.e. y dyddiad neu'r swm) os oes angen eu newid.

Debyd uniongyrchol – Cyfarwyddyd i'ch banc i ryddhau arian o'ch cyfrif i dalu biliau a symiau eraill yn awtomatig. **Y cwmni bilio sy'n rheoli hyn** – mae'n gofyn i'r banc am yr arian yn uniongyrchol, ac yn gallu newid y swm y gofynnir amdano. Mae rhai cwmnïau, fel cwmnïau nwy a thrydan, yn rhoi gostyngiad ar gyfer talu trwy'r dull hwn.

Siec – Er nad yw sieciau'n cael eu defnyddio'n aml iawn erbyn hyn, mae sieciau papur ar gael o hyd fel ffordd o dalu am rai pethau.

Mae'r dulliau hyn yn cael eu derbyn yn eang ac yn cael eu hystyried yn ddiogel hefyd. Ond mae rhai risgiau'n gysylltiedig â nhw o hyd – er enghraifft, mae'n rhaid i chi ofalu peidio â gwneud camgymeriad wrth ysgrifennu siec neu drefnu archeb sefydlog, felly gwiriwch y manylion yn ofalus bob amser.

4. Digidol: Mae twf technoleg wedi arwain at nifer o ffyrdd datblygedig o dalu, gan gynnwys:

PayPal – system daliadau electronig sy'n caniatáu i chi wneud taliadau diogel i unigolyn, neu brynu eitemau ar-lein.

Apiau ffôn symudol – mae gan lawer o'r banciau yn y Deyrnas Unedig apiau sy'n caniatáu i chi drosglwyddo arian rhwng pobl neu fusnesau.

Symudol digyffwrdd – mae hyn yn caniatáu i chi wneud taliadau digyffwrdd gan ddefnyddio'ch ffôn.

Waledi digidol – apiau yw'r rhain sy'n caniatáu i chi storio manylion eich holl gardiau credyd, debyd a chwsmer ar eich ffôn, fel y gallwch ddewis pa dull talu i'w ddefnyddio unrhyw bryd.

Taliadau biometrig – mae hyn yn caniatáu i chi wneud taliadau gan ddefnyddio technoleg sganio bys neu systemau adnabod wyneb.

PayPoint a Payzone – mae'r gwasanaethau hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr dalu am lawer o'u biliau cartref, fel trydan, rhent neu ychwanegu credyd at ffôn symudol, pan fyddant mewn siop fanwerthu.

Mae ffyrdd digidol o dalu yn gyfleus oherwydd gellir eu defnyddio unrhyw bryd ac mewn unrhyw le, fel arfer. Mae taliadau cerdyn (cardiau debyd a chredyd) yn cael eu hystyried yn daliadau digidol erbyn hyn hefyd. Ond, efallai bydd terfyn ar faint y gallwch ei wario oherwydd pryderon diogelwch.

Pa ffordd bynnag y dewiswch dalu am eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio dull talu diogel a dibynadwy ac yn cadw'ch holl gardiau a manylion yn ddiogel. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y bennod 'Diogelwch a thwyll'.



A WYDDOCH CHI?

Mae rhai eitemau diddorol wedi cael eu defnyddio fel arian yn y gorffennol, fel cregyn, buchod, cerrig, blancedi a reis.

Cefnwyd ar gynlluniau i gael gwared â sieciau erbyn mis Hydref 2018 pan ddangoswyd bod mwy na £500m o drafodion yn dal i gael eu gwneud gan ddefnyddio sieciau bob blwyddyn!

Rhagwelir mai taliadau symudol ar draws y byd gan ddefnyddio cymwysiaid fel PayPal, Samsung Pay, Apple Pay, AliPay, a WeChat Pay fydd yr ail ddull talu mwyaf cyffredin ar ôl cardiau debyd erbyn 2022 (ffynhonnell: adroddiad Worldpay).



TRAFODAETH

Beth ydych chi'n credu fydd y datblygiadau nesaf o ran arian?

A yw cymdeithas ddi-arian yn bosibl?



CWESTIYNAU

1. Beth fyddai wedi bod yn drafferthus am ddefnyddio nwyddau fel cregyn, buchod neu gerrig fel ffordd o dalu?
2. Esboniwrch y gwahaniaeth rhwng cerdyn debyd a cherdyn credyd.
3. Esboniwrch y gwahaniaeth rhwng archeb sefydlog a debyd uniongyrchol.
4. Pa ddulliau talu sy'n fwyaf diogel? Esboniwrch eich ateb.
5. Yn eich barn chi, a yw'r dull talu a ddefnyddiwrch yn dibynnu ar y cynnyrch neu'r gwasanaeth rydych chi'n ei brynu? Esboniwrch eich ateb.



CYLLIDEBU

Cyllidebu yw'r broses o reoli'ch arian. Gellir ei ddefnyddio i reoli'r balans rhwng eich incwm (yr arian rydych yn ei gael trwy enillion, rhoddion, gwerthu pethau sy'n eiddo i chi, gan eich rhieni, ac ati) a'ch treuliau (eich gwariant, cynilion, ac ati).

Cyllideb yw'r ffordd orau o gadw golwg ar eich cyllid a gwneud yn siŵr eich bod yn cyflawni'r hyn rydych eisiau ei gyflawni gyda'ch arian. Mae'n sicrhau:

- Bod gennych ddigon o arian i dalu am yr hanfodion.
- Eich bod yn gwario ar yr hyn sydd wir yn bwysig i chi.
- Eich bod yn rhoi arian o'r neilltu ar gyfer y dyfodol.
- Eich bod wedi ystyried pethau eraill y gallech ddymuno defnyddio'ch arian ar eu cyfer, fel rhoi i elusen.



Y BROSES GYLLIDEBU

Does dim rhaid i gyllidebu fod yn gymhleth. Ar ei ffurf symlaf, rhestr ydyw o'r hyn rydych angen/eisiau ei wario o gymharu â rhestr o'r incwm sydd gennych.

Edrychwch ar gyllideb wythnosol Megan isod. Fel y gallwch weld, mae'n disgwyl ennill £94.63 yr wythnos o'i swydd ran-amser a'i lwfans, ac mae'n disgwyl gwario £84.19 yr wythnos ar amryw dreuliau.

Cyllideb wythnosol Megan

INCWM	GWARIANT
£54.63 swydd ran-amser	£8 sinema
£40 lwfans	£22.46 cinio allan £7.49 lawrlwytho ffilm £38.99 jîns £7.25 teithiau bws
CYFANSWM £94.63	CYFANSWM £84.19



A WYDDOCH CHI?

Mae Canghellor y Trysorlys yn cyflwyno'r gyllideb genedlaethol i'r llywodraeth sy'n manylu ar sut bydd incwm y Deyrnas Unedig yn cael ei wario. Mae'n cael ei gosod unwaith y flwyddyn fel arfer. Arferai gael ei gosod yn y gwanwyn, ond fe'i symudwyd i'r hydref yn 2017. Yna, bydd Llywodraeth Cymru fel arfer yn gosod ei chyllideb ei hun o fewn mis neu ddau o gyflwyniad y Canghellor.



TRAFODAETH

Yn yr enghraifft, mae'r swm mae Megan yn ei wario (gwariant) yn llai na'i hincwm. Beth allai hi ei wneud â'r gwahaniaeth?

Beth os oedd y gwrthwyneb yn wir, ac roedd ei gwariant yn fwy na'i hincwm?

Wrth i bobl fynd yn hŷn, yn enwedig pan fyddan nhw'n dechrau byw ar eu pen eu hunain, gall lefel eu gwariant 'ymrwymedig' (gwariant angenrheidiol) gynyddu. Yn dibynnu ar lefel eu hincwm, efallai bydd angen iddynt dorri'n ôl ar eu gwario 'dewisol' (gwario ar bethau nad ydynt yn angenrheidiol ond y gallent ddymuno eu cael).

Enghreifftiau o wario ymrwymedig a dewisol

GWARIO YMRWYMEDIG	GWARIO DEWISOL
Morgais neu rent	Pecynnau teledu digidol/ rhyngwyd
Cyfleustodau (e.e. nwy, trydan, dŵr)	Aelodaeth gampfa
Bwyd	Tanysgrifiadau
Costau rhedeg car (e.e. petrol)	Adloniant (e.e. sinema, theatr, mynd allan i fwyta)
Yswiriant (e.e. car, cartref, bywyd)	Diwrnodau allan
Trwydded deledu	Gwyliau



TRAFODAETH

O dan ba bennawd fydddech chi'n rhoi eich ffôn symudol? A yw'n wario ymrwymedig neu ddewisol?

Nid yw cyllideb yn rhywbeth sydd bob amser yn aros yr un fath. Wrth i'ch sefyllfa ariannol newid, felly hefyd eich cyllideb. Wrth i chi gael ychydig yn fwy o incwm, fe allech wneud dewisiadau gwario gwahanol, ond yn yr un modd, efallai bydd angen i chi dorri'n ôl ar wario os nad yw'n cyfateb i'ch incwm.



ASTUDIAETH ACHOS

Cafodd Awurabena ei swydd gyntaf yn ddiweddar ar ôl gadael y brifysgol ar gynllun hyfforddi graddedigion gyda chwmni peirianeg. Bu'n rhaid iddi symud oddi cartref i achub ar y cyfle hwn. Yn y brifysgol, roedd hi'n rhannu tŷ gyda phump o bobl eraill, ond gan ei bod hi'n gweithio nawr, penderfynodd Awurabena y byddai'n well ganddi rentu ei fflat ei hun.

Mae Awurabena yn cael cyflog o £1,540 y mis. Mae hyn yn fwy na thalu am y rhent £550 ar ei fflat, ond roedd hi'n synnu at rai o'r costau eraill sy'n gysylltiedig â byw ar ei phen ei hun. Mae nwy a thrydan yn costio tua £65 y mis iddi, mae'r bil dŵr yn dod i £27.50 y mis, ac mae'n gwario £55 ar ei siopa bwyd wythnosol, ar gyfartaledd. Yn ogystal â'r costau hyn, mae hi'n tanysgrifio i ap cerddoriaeth a ffilmiau sydd, gyda'i gilydd, yn costio £19 y mis iddi, ac mae hefyd yn talu £23.87 y mis i yswirio ei heiddo yn y fflat.

Yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â'i fflat, mae Awurabena yn ceisio mynd allan gyda'i chydweithwyr o leiaf ddwywaith yr wythnos, sy'n costio £60 yr wythnos, ar gyfartaledd. Fel gwobr am gael ei swydd newydd, fe uwchraddiodd ei ffôn symudol ac mae hi bellach yn talu £34 y mis am fodel newydd.

Un peth nad oedd Awurabena wedi'i ddisgwyl oedd y costau sy'n gysylltiedig â'i swydd newydd – teithio i'r gwaith (£78 yr wythnos), prynu dillad priodol (tua £90 y mis) a phrynu coffi bob bore (£12.50 yr wythnos).

Mae Awurabena yn ystyried prynu car ail-law i deithio i'r gwaith yn lle defnyddio'r trê. I wneud hyn, mae hi wedi cyfrifo bod angen iddi gynilo £150 y mis am flwyddyn.

- Defnyddiwch y wybodaeth am Awurabena i greu cyllideb fisol iddi. (AWGRYM DA – fe allech ddefnyddio cyllideb Megan fel templed i'ch helpu.)
- Ystyriwch p'un a all Awurabena ddechrau cynilo ar gyfer ei char ac, os na, awgrymwch ffyrdd y gallai ddiwygio ei chyllideb i allu gwneud hynny.

- Mae rheoli cyllideb yn ffordd dda o wneud yn siŵr nad ydych yn gwario mwy na'ch incwm. Bydd cyllideb hefyd yn helpu i ddangos i chi a oes lle i gynilo unrhyw arian. Trwy wario ychydig yn llai, mae'n bosibl y gallech gynilo arian yn rheolaidd.
- Awgrymiadau da ar gyfer rheoli cyllideb:
- Edrychwch ymhellach na mis i'r dyfodol. Po bellaf ymlaen i'r dyfodol y gallwch gynllunio cyllideb, gorau oll.
- Cofiwch ddiweddarau'ch cyllideb i gynnwys costau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau allweddol fel pen-blwyddi, y Nadolig, Eid, Rosh Hashanah, ac ati.
- Defnyddiwch eich cyfriflenni banc i fonitro'ch gwario go iawn. Os gallwch wneud hyn mewn 'amser real' gan ddefnyddio bancio symudol neu ar-lein, yn hytrach nag ar ddiwedd y mis, gwell fyth.



TRAFODAETH

Meddyliwch am ddau reswm pam y gallai fod angen i deulu wario mwy o arian mewn un mis nag yr oedden nhw'n bwriadu.

Pa newidiadau y gallen nhw eu gwneud i'w gwariant petai'r sefyllfaoedd hyn yn digwydd?

- Cadwch at y gyllideb. Mae'n eithaf rhwydd ysgrifennu cyllideb, ond y rhan anoddach yw gwneud yn siŵr eich bod yn cadw ati. Bydd pethau wastad yn newid, ond addaswch eich cyllideb yn unol â hynny, a chadwch ati.



CWESTIYNAU

1. Rhewch ddwy enghraifft o incwm a dwy enghraifft o wariant.
2. Rhewch ddau opsiwn os ydych wedi "gwario mwy na'ch cyllideb".
3. Pam mae angen i gyllidebu fod yn rhywbeth sy'n cael ei wneud mwy nag unwaith?



CADW GOLWG AR EICH CYLLIDEB

Mae gosod cyllideb yn un peth ond mae cadw ati yr un mor bwysig. Mae sawl ffordd o wneud hyn, ond byddwn yn edrych ar dair ffordd rwydd o gadw golwg ar incwm a gwariant pob dydd:

1. Nifer o botiau arian

Un o'r rhesymau pam mae cadw at gyllideb yn gallu bod mor anodd yw bod y rhan fwyaf o'ch incwm yn tueddu i gael ei gadw mewn un man yn unig – boed hynny'n gadw-mi-gei gartref, neu'n gyfrif cyfredol gyda banc. Yna, mae'n rhaid i'ch holl wariant ddod o un man yn unig hefyd, a gall hynny ei gwneud yn anodd gweld faint yn union rydych yn ei wario ar bethau penodol, e.e. mynd allan, dillad, bwyd ac ati.

Mae'r dull pot arian o gyllidebu yn awgrymu eich bod yn gwahanu'ch incwm yn botiau gwario

gwahanol – gallai'r rhain fod yn flychau cadw-mi-gei ar wahân gartref, neu hyd yn oed gyfrifon banc ar wahân. Mae hyn yn golygu y gallwch ddyrannu'ch cyllideb i'r gwahanol botiau arian ar ddechrau'r mis, a byddwch bob amser yn gwybod faint sydd ar ôl gennych ar gyfer gwahanol fathau o wariant.

Y gyfrinach i ddefnyddio'r dull hwn yw neilltuo'r swm iawn o arian i bob 'pot', a bydd hynny'n dweud wrthyf faint sydd gennych ar ôl i'w wario ar y pethau yna.

2. Rheoli llyfr arian

Yn syml, ffordd o gofnodi arian sy'n cael ei dderbyn neu ei wario yw llyfr arian. Trwy wneud hyn ar gyfer pob trafodyn, mae balans yr arian sydd ar gael yn cael ei gadw'n gyfredol. Er ei fod yn cael ei alw'n llyfr arian, gallwch ddefnyddio'r dull hwn i gofnodi unrhyw fath o drafodyn, fel debydau uniongyrchol a thaliadau electronig.

Mae rhai camau syml i gynnal llyfr arian:

Yn gyntaf, bydd angen i chi greu eich templed, sydd bob amser yn cynnwys y penawdau canlynol (gall hyn fod ar bapur neu'n electronig gan ddefnyddio Excel):

DYDDIAD	DISGRIFIAD	INCWM	GWARIANT	BALANS

Nesaf, bydd angen i chi gyfrifo'ch 'balans agoriadol'. Dyma faint o arian sydd gennych ar yr adeg pan fyddwch yn dechrau'r llyfr arian (os nad oes gennych unrhyw arian, popeth yn iawn – eich balans agoriadol fydd £0.00).



TRAFODAETH

Os oedd eich incwm ar gyfer mis yn £130, sut byddech yn ei rannu ar draws y potiau gwario canlynol?

- Mynd allan
- Dillad
- Bwyd
- Teithio

Yn olaf, bydd angen i chi gofnodi unrhyw incwm neu wariant sy'n digwydd, gan roi'r dyddiad a disgrifiad o'r trafodyn yn y llyfr arian. Bob tro y byddwch yn gwneud hyn, bydd angen i chi gofnodi'r balans newydd. Bydd unrhyw incwm a dderbynnir yn cynyddu'r balans, a bydd unrhyw wariant newydd yn lleihau'r balans.

Enghraifft:

DYDDIAD	MATH	DISGRIFIAD	INCWM	GWARIANT	BALANS	GWIRIO YN ERBYN Y GYFRIFLEN BANC
1.10.20		Balans agoriadol			23.45	
2.10.20	CR	Lwfans	40.00		63.45	✓
5.10.20	DC	Jîns newydd		34.99	28.46	✓
8.10.20	CR	Cyflog rhan-amser	76.98		105.44	✓
9.10.20	DC	Taith drên		16.53	88.91	✓
14.10.20	CM	Arian parod		20.00	68.91	✓
18.10.20	DC	Cinio allan		15.76	53.15	✓
25.10.20	DC	Mynd i'r sinema		12.99	40.16	
29.10.20	DC	Bag newydd		23.45	16.71	

DC – Cerdyn debyd CM – Peiriant arian CR – Derbynneb arian

O'r enghraifft uchod, gallwch weld bod cynnal y llyfr arian yn eich galluogi i weld faint yn union o arian sydd gennych ar ôl.

Os ydych yn defnyddio cyfrif banc, gallwch ddefnyddio'ch cyfriflen banc (ar-lein neu ar bapur) i wirio bod y llyfr arian yn gywir. Y cyfan sydd angen ei wneud yw ticio pob trafodyn ar eich cyfriflen banc wrth ymyl y cofnod cyfatebol yn eich llyfr arian. Os oes eitemau ar y gyfriflen banc nad ydynt yn eich llyfr arian, gallwch ychwanegu'r rhain at y llyfr arian. Yna, gellir cysoni'r balans yn y gyfriflen banc â'r balans yn y llyfr arian fel hyn:

Dychmygwch eich bod wedi anghofio ychwanegu'r ddau gofnod olaf ar eich llyfr arian. Y balans yn ôl eich llyfr arian fyddai £53.15, ond byddai eich cyfriflen banc yn dangos £16.71.

Wrth edrych ar eich cyfriflen banc, byddech yn gweld dwy eitem nad ydynt eto wedi'u cynnwys yn eich llyfr arian:

Mynd i'r sinema £12.99 Bag newydd £23.45

Trwy eu hychwanegu nhw, balans eich llyfr arian fyddai £16.71 – yr un peth â'ch cyfriflen banc.

Er y gallwch ddewis y cyfnod y mae'ch llyfr arian yn ei ddangos, maen nhw fel arfer yn dangos cyfnod o wythnos neu fis. Yn yr un modd â defnyddio nifer o botiau arian, gallwch olrhain eich gwario ar draws gwahanol gategoriâu i wneud yn siŵr eich bod yn aros o fewn eich cyllideb.



GWEITHGAREDD

Defnyddiwch y wybodaeth ganlynol i gwblhau llyfr arian ar gyfer Nia:

Mae Gorffennaf yn fis mawr i Nia – mae hi'n cael ei phen-blwydd, ac mae hi'n mynd i ŵyl gerddoriaeth. Mae'n dechrau'r mis gyda £26.50 ac yn cael £80 ar gyfer ei phen-blwydd ar 2 Gorffennaf. Ar 5 Gorffennaf, mae hi'n gwario £35.67 ar ddillad, yn barod ar gyfer yr ŵyl. Drannoeth, mae hi'n prynu ei thocynnau trên o flaen llaw am £25.65. Ar 14 Gorffennaf, mae ei mam-gu'n rhoi £20 iddi am ei helpu i arddio. Diwrnod cyntaf yr ŵyl yw 20 Gorffennaf ac mae Nia yn gwario £12.32 ar fwyd a diod. Drannoeth, mae hi'n gwario £13.45 ar fwyd a diod a £15.56 ar y trydydd diwrnod.

3. Defnyddio apiau cyllidebu

Mae llawer o apiau ar gael erbyn hyn sy'n defnyddio egwyddor llyfr arian ac yn cyfuno hyn ag arloesiadau technolegol i ddarparu rhai adnoddau pwerus iawn i'ch helpu i gadw golwg ar eich cyllideb.

Mae'r apiau hyn yn gallu syncroneiddio â'ch cyfrif banc (neu fwy nag un, os yw hynny'n berthnasol) a byddant yn dangos y trafodion incwm a gwariant a'r balans cyffredinol sydd ar gael i chi (yn union fel llyfr arian) yn awtomatig.

Mae'r apiau hyn yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn wrth gategoreiddio'r mathau o drafodion rydych chi'n eu gwneud (fel dillad, bwyd neu fynd allan) yn awtomatig a dangos y cyfanswm a wariwyd mewn cyfnod penodol. Gallant hefyd ddangos faint a wariwyd ar bob categori fel canran o'ch incwm cyfan, gan ddangos yn glir iawn sut rydych yn dewis gwario'ch arian, ac efallai ble y gallech ddymuno gwneud newidiadau.

GWERTH AM ARIAN

Mae'r gair Saesneg am gyllideb, sef "budget", yn gallu golygu llai drud hefyd – fel yn y term "budget airline". Un ffordd o aros o fewn eich cyllideb yw ystyried dewisiadau amgen rhatach na'r hyn y byddech yn ei brynu fel arfer. Fe allai rhywbeth sy'n rhatach fod yr un mor werthfawr ag opsiwn drutach, a gall y teimlad o gael gwerth da am arian roi llawer o foddhad i chi. Nid yw'r pris yn sicrhau ansawdd neu werth o reidrwydd. Dyna pam mae mor bwysig gwneud eich gwaith ymchwil eich hun, darllen erthyglau ac adolygiadau, a chymharu prisiau, bargeinion a chynigion.



GWEITHGAREDD

Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl isod i gyfrifo faint y gellir ei arbed trwy newid y math o frand rydych yn ei brynu yn unig.

1. Cyfrifwch gost pob cynnyrch yr wythnos ar gyfer pob un o'r tri math o frand.
2. Cyfrifwch y gwahaniaeth y gellir ei arbed **yr wythnos** rhwng:
 - a) Brand moethus a brand yr archfarchnad
 - b) Cynhyrchion moethus a rhad
3. Cyfrifwch gost pob cynnyrch **y flwyddyn** (52 wythnos mewn flwyddyn) ar gyfer pob un o'r tri math o frand.
4. Cyfrifwch y gwahaniaeth y gellir ei arbed **y flwyddyn** rhwng:
 - a) Brand moethus a brand yr archfarchnad
 - b) Cynhyrchion moethus a rhad

CYNNYRCH	NIFER A BRYNIR YR WYTHNOS	BRAND MOETHUS	BRAND YR ARCHFARCHNAD	CYNHYRCHION RHAD
Can o ffa pob	4	£1.04	£0.65	£0.23
Grawnfwyd	1	£3.65	£2.21	£1.68
Creision	6	£1.20	£0.99	£0.45
Batris	2	£3.95	£2.89	£0.99



SIOPA O GWMPAS

Yn aml, gallwch brynu'r un cynnyrch o fannau gwahanol am brisiau gwahanol, ac mewn rhai achosion am brisiau gwahanol iawn. I wneud yn siŵr eich bod yn cael borgen dda, fe allai fod yn werth chweil siopa o gwmpas. Fe allech gerdded i fyny ac i lawr y Stryd Fawr ac edrych ym mhob siop, ond mae'r rhyngrwyd yn darparu rhai ffyrdd syml o gymharu prisiau:

1. Defnyddio gwefannau cymharu prisiau.

Mae'r rhain wedi cael eu datblygu'n benodol i gymharu prisiau nwyddau gan amrywiaeth o gyflenwyr a manwerthwyr. Rydych yn cofnodi'r hyn rydych yn chwilio amdano a byddan nhw'n rhoi amrywiaeth o opsiynau i chi. Maen nhw'n adnodd defnyddiol iawn, ond mae'n werth cofio nad yw'r safleoedd hyn fel arfer yn cynrychioli'r holl gyflenwyr, ac fe allai'r cyflenwr sy'n cynnig y pris gorau fod ar-lein yn unig, neu'n un anghyfarwydd. Hefyd, cofiwch y bydd gwahanol wefannau cymharu yn aml yn dangos prisiau gwahanol ar gyfer yr un cynnyrch, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cymharu gwefannau cymharu hefyd!

2. Archwilio ar-lein cyn mynd i'r Stryd Fawr.

Bydd cymharu ambell siop ar-lein cyn mynd allan yn arbed eich traed ac mae'n ffordd dda o gymharu amrywiaeth o siopau i weld pa un sy'n cynnig y pris gorau. Fe allech hefyd sylwi ar fargeinion a chynigion sydd ar gael ar-lein yn unig.

3. Gall safleoedd gwybodaeth ac adolygu fod yn ddefnyddiol iawn.

Fe allan nhw eich helpu i ddeall y cynnyrch sydd o ddiddordeb i chi i wneud yn siŵr ei fod yn bodloni'ch anghenion. Gall safleoedd adolygu fod yn ddefnyddiol iawn i weld barn pobl eraill am y cynnyrch sydd o ddiddordeb i chi. Gallai hyn eich helpu i nodi unrhyw faterion ansawdd neu werth am arian. Cofiwch, nid yw'r ffaith bod cynnyrch yn ddrtach yn golygu ei fod o ansawdd gwell.

4. Ailnegodi contractau adnewyddu a chontractau eraill.

Peidiwch byth ag adnewyddu contract ffôn symudol am yr un pris yn syth, gan ei bod wastad yn werth edrych ar safle cymharu i weld a allwch gael borgen ratach yn rhywle arall. Gallwch bob amser gysylltu â'ch darparwr presennol i weld a yw'n gallu cynnig pris rhatach na'r dyfynbrisiau hefyd. Mae'r un peth yn wir am gontractau teledu, band eang, cyfleustodau ac yswiriant – gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y telerau contract gorau ar gyfer eich anghenion bob amser.




A WYDDOCH CHI?

Daeth gwefannau cymharu i'r amlwg gyntaf yng nghanol y 1990au. Chwilotwyr ydynt, yn y bôn, y gall siopwyr eu defnyddio i hidlo a chymharu cynhyrchion ar sail pris a ffactorau eraill. Dydyn nhw ddim fel arfer yn gwerthu cynhyrchion yn uniongyrchol eu hunain; yn lle hynny, maen nhw'n ennill arian o gytundebau marchnata gyda'r cwmnïau maen nhw'n gweithio gyda nhw.



CYMHARU PRISIAU YN YR ARCHFARCHNAD

Os byddwch yn mynd i'r archfarchnad, chwiliwch am bris uned nwyddau i gyfrifo'r bargeinion gorau. Y pris uned yw cost rhywbeth rydych eisiau ei brynu fesul litr, cilogram, ac ati. Er y gallai un cynnyrch edrych yn ddrutach nag un arall, os ydych yn cael mwy ohono, fe allai fod yn well o ran gwerth.



A WYDDOCH CHI?

Mae apiau cymharu prisiau ar gael sy'n caniatáu i chi sganio cod bar cynnyrch i gael gwybod a allwch ei brynu'n rhatach yn rhywle arall.



GWEITHGAREDD

Pa rai o'r rhain yw'r bargeinion gorau?

- Cyw iâr 200g am £4.50
- Cyw iâr 500g am £6.00
- Cyw iâr 1kg am £10.00

- Bocs o 12 ŵy am £3.80
- Bocs o 9 ŵy am £2.70
- Bocs o 6 ŵy am £2.20

Wrth feddwl am bris uned, mae'n bwysig ystyried a oes arnoch angen y cyfan ai peidio. Does dim pwynt prynu bocs o 9 ŵy os ydych yn mynd i ddefnyddio 3 yn unig a bydd y gweddill yn mynd yn wastraff; byddai hyn yn golygu bod y pris uned fesul ŵy defnyddiol yn uwch o lawer.



TRAFODAETH

Ystyriwch rai sefyllfaoedd lle y gallech gael eich temtio i dalu ychydig yn fwy am rhywbeth yn hytrach na dewis y fargen rataf.



CWESTIYNAU

1. Beth yw'r ddau ddefnydd gwahanol o'r gair Saesneg "budget"?
2. Pam dylech chi geisio defnyddio mwy nag un safle cymharu wrth ymchwilio i brisiau?
3. Sut mae gwybod pris uned rhywbeth yn helpu defnyddiwr?

GWYBOD EICH HAWLIAU

Rydyn ni i gyd yn hoffi cael borgen dda, ac mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod yn cael gwerth am arian, ond beth os bydd rhywbeth yn mynd o'i le? Beth os nad yw'r eitem y chwilioch yn ddyfal amdani a'i harchebu ar-lein yn cyrraedd, neu rydych yn gweld bod twll yn y crys rhad brynoch chi pan fyddwch yn dod adref?

Wel, bydd eich hawliau defnyddwyr yn eich amddiffyn bron bob tro. Mae'r rhain yn ymdrin ag amrywiaeth eang o sefyllfaoedd lle y gallai fod problemau gyda'r nwyddau a'r gwasanaethau brynoch chi. Yn syml iawn, pan fyddwch yn prynu unrhyw nwyddau a gwasanaethau, fe ddylen nhw:

- bara am gyfnod rhesymol o amser
- bod o ansawdd boddhaol
- bod fel y'u disgrifiwyd
- bod yn addas i'r diben

Cofiwch y pedwar pwynt yma wrth brynu nwyddau a gwasanaethau!

Os nad yw'r nwydd neu'r gwasanaeth brynoch chi yn cyfateb i un neu fwy o'r diffiniadau uchod, byddwch yn cael eich amddiffyn gan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015. Os byddwch yn dychwelyd yr eitem o fewn 30 diwrnod, bydd gennych hawl i gael ad-daliad llawn. Gallwch ddychwelyd yr eitem ar ôl y cyfnod hwn hefyd, ond wedyn gall y cyflenwr gynnig ei hatgyweirio neu ei hamnewid yn lle hynny (ac yna cynnig ad-daliad llawn neu rannol os nad yw hynny'n gweithio).

RHYBUDD! Os byddwch yn prynu cynnyrch o siop (nid ar-lein) ac yn gwneud camgymeriad – er enghraifft, dydych chi ddim yn ei hoffi ar ôl dod adref, neu nid yw'n gweddu i'ch cynllun lliwiau – chi sydd ar fai a does dim rhaid i'r manwerthwr roi ad-daliad na chyfnewid y cynnyrch.



A WYDDOCH CHI?

Bydd llawer o fanwerthwyr yn rhoi cyfnodau dychwelyd hirach, a thelerau gwell nag a nodir yn y gyfraith. Yr hyn sydd yn Ndedf Hawliau Defnyddwyr 2015 yw'r lleiafswm sy'n ofynnol.



PRYNU AR Y WE

Pan fyddwch yn prynu rhywbeth ar y we, byddwch yn cael eich amddiffyn gan y Ddeddf Hawliau Defnyddwyr o hyd. Mae'r pedwar diffiniad ar y chwith yn berthnasol o hyd, ond mae amddiffyniad ychwanegol ar gael trwy Reoliad Contractau Defnyddwyr 2013.

Mae gennych yr hawl i ganslo (hyd yn oed os byddwch yn newid eich meddwl, yn syml):

- Ar gyfer nwyddau, hyd at 14 diwrnod ar ôl i chi dderbyn y nwyddau (yna bydd gennych 14 diwrnod arall i'w dychwelyd).
- Ar gyfer gwasanaethau, 14 diwrnod ar ôl y diwrnod pan osodoch yr archeb.



CWESTIYNAU

1. Beth yw'r pedwar peth y mae gennych hawl i'w disgwyl gan nwydd neu wasanaeth?
2. Beth yw'r gwahaniaeth yn y gyfraith rhwng dychwelyd nwydd diffygiol o fewn 30 diwrnod ac ar ôl 30 diwrnod?



BETH YDYCH CHI WEDI'I DDYSGU?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch o'r bennod hon, cwblhewch y gweithgaredd a'r astudiaeth achos isod:



GWEITHGAREDD

Crëwch restr "awgrymiadau da" ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, gan nodi'r pwyntiau allweddol sy'n bwysig, yn eich barn chi, wrth wneud penderfyniadau da am arian. Fe allech gynnwys gwybodaeth am:

- Y ffyrdd gorau o dalu
- Manteision cyllidebu
- Sut i gael gwerth da am arian



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Samira yn 18 oed ac eisiau prynu gliniadur newydd sbon ar gyfer y coleg. Mae hi wedi penderfynu ar yr un mae hi ei eisiau ac mae wedi cael ei adolygu ar-lein gan un o'i hoff flogwyr fideo. Mae'n costio £500.

Ond, mae ei rhieni wedi awgrymu ei bod yn edrych ar fodelau eraill a allai gynnig popeth mae hi ei eisiau am bris rhatach.

1. Nodwch ddau beth sy'n dylanwadu ar benderfyniadau gwario Samira.
2. Argymhellwch sut gallai Samira gael y gwerth gorau am arian drwy siopa o gwmpas.
3. Os bydd y gliniadur yn torri, beth yw hawliau defnyddiwr Samira?
4. O ystyried yr holl wahanol ffyrdd o dalu, penderfynwch sut dylai Samira dalu am ei gliniadur. Esboniwch eich ateb.

DATBLYGU'CH GWYBODAETH

GORWARIO CYLLIDEB

Ystyriwch y gyllideb fisol hon ar gyfer dyn sengl 20 oed. Mae Elis yn gwario mwy nag y mae'n ei ennill mewn incwm ar hyn o bryd. Cyfrifwch faint yn llai y mae angen iddo ei wario i 'fantoli'r gyllideb' fel bod ei incwm yn cyfateb i'w wariant.

Nid yw Elis yn gallu cynyddu ei incwm, felly mae'n rhaid iddo wario llai. Ailysgrifennwch ei gyllideb

gan ddangos ble y byddech yn lleihau ei wariant. Ar gyfer pob gostyngiad mewn gwariant, dylech hefyd esbonio pam y gwnaethoch y newid.

A allwch chi feddwl am unrhyw eitemau y gallai Elis fod wedi'u gadael allan o'i gyllideb? Ydych chi'n credu y dylai gyllidebu ar gyfer cynilo?

INCWM	GWARIANT
Cyflog fel hyfforddwr ffitrwydd £1,200 Ffioedd fel hyfforddwr personol £590	Rhent £520
	Treth gyngor £117
	Nwy/trydan £97
	Dŵr £32
	Ffôn/rhynggrwyd £26
	Trwydded deledu..... £13
	Yswiriant £33
	Balans cerdyn credyd £217
	Bwyd a deunyddiau glanhau £95
	Teithio £62
	Dillad..... £150
	Golchi dillad a sychlanhau £66
	Gweithgareddau chwaraeon (gan gynnwys tocyn tymor pêl-droed)..... £104
	Pethau ymolchi a harddu personol..... £68
	Ffôn symudol (gan gynnwys apiau) £71
	Nosweithiau allan £275
	Trîts eraill (e.e. coffi, gemau cyfrifiadur) £170
	Anrhegion i bobl eraill £25
	Manion bethau £35
Cyfanswm incwm:	Cyfanswm gwariant:

GWERTH AM ARIAN

Yn 2016, profodd arolwg a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Cyngor ar Arian (sef y Gwasanaeth Arian a Phensiynau erbyn hyn) 2,000 o gwsmeriaid i weld pa mor graff oedden nhw wrth siopa. Yn rhyfeddol, dim ond 2% a gafodd yr holl gwestiynau'n iawn. Rhowch gynnig arnyn nhw eich hun.

1. Pa un o'r opsiynau canlynol ar gyfer llaeth yw'r fargen orau?

- a) Chwe pheint o laeth am £1.80
- b) Pedwar peint o laeth am £1.40
- c) Dau garton 6 pheint o laeth ar gynnig am £3.50
- ch) Dau garton 4 peint o laeth ar gynnig am £2

2. Pa un o'r opsiynau canlynol ar gyfer prynu 500g o lemonau yw'r fargen orau?

- a) Un pecyn 500g o lemonau sy'n costio £1.20
- b) 500g o lemonau rhydd am £2.50 fesul cilo
- c) Bargen prynu dau a chael y trydydd am ddim ar becynnau 200g o lemonau sy'n costio 70c yr un
- ch) Bargen prynu un a chael un am hanner pris ar becynnau 250g o lemonau sy'n costio 70c yr un

3. Pa un o'r opsiynau canlynol ar gyfer prynu saws coch yw'r fargen orau?

- a) Un botel 460g ar gynnig am £1.50
- b) Un botel 910g sy'n costio £2.49
- c) Bargen prynu un a chael un am hanner pris ar boteli 700g sy'n costio £2.29 yr un
- ch) Un botel 1.35kg sy'n costio £3.50

4. Pa un o'r opsiynau canlynol ar gyfer prynu wyau yw'r fargen orau?

- a) Chwe ŵy maint canolig am £1.10
- b) 10 ŵy maint canolig ar gynnig am £1.50
- c) 15 ŵy maint canolig am £2.10
- ch) Dau becyn o chwe ŵy maint canolig ar gynnig am £2
- d) Cynnig prynu un a chael un am ddim ar becynnau o 10 ŵy maint canolig sy'n costio £2.20



HAWLIAU DEFNYDDWYR

Darllenwch y datganiadau canlynol am eich hawliau fel defnyddiwr a phenderfynwch a ydyn nhw'n wir (G) neu'n anwir (A). Os yw'r datganiad yn wir, ychwanegwch nodiadau esboniadol pellach; os yw'n anwir, ailysgrifennwch y datganiad yn gywir. Defnyddiwch www.moneysavingexpert.com/shopping/consumer-rights-refunds-exchange i wneud eich ymchwil.

	G	A	
Rydych wedi prynu tegell mewn sêl siop ac nid yw'n gwresogi'r dŵr. Mae'r siop yn dweud wrthyh y dylech gysylltu â'r manwerthwr i gwyno.			
Wrth brynu crys T mewn siop, rydych wedi dewis y maint anghywir ar gam. Mae eich cymydog, sy'n gweithio yn y sector manwerthu, yn dweud wrthyh nad oes rhaid i'r siop ei gyfnewid.			
Rydych wedi defnyddio'ch cerdyn debyd i brynu pâr o esgidiau ymarfer, ond ar ôl dod adref rydych yn gweld bod gwadn un ohonyn nhw'n dod yn rhydd. Fodd bynnag, rydych wedi colli'r dderbynneg, felly mae hynny'n golygu na allwch eu dychwelyd nhw.			
Rydych wedi archebu cadwyn ar-lein i'w gwisgo yn eich parti pen-blwydd 18 oed. Y dyddiad danfon y cytunwyd arno yw'r diwrnod mawr, ond mae'n cyrraedd y diwrnod wedyn. Mae gennych hawl i gael ad-daliad llawn.			
Mae llyfr rydych wedi bod eisiau ei gael wedi ymddangos mewn arwerthiant ar-lein wedi'i hysbysebu gan werthwr preifat. Rydych yn prynu'r llyfr ond pan fydd yn cyrraedd rydych yn gweld eich bod eisoes wedi'i ddarllen. Ond rydych yn siŵr bod gennych yr un hawl i ddychwelyd â phetaech chi wedi'i brynu mewn siop lyfrau, felly gellir ei anfon yn ôl at y gwerthwr.			
Mae'r cwmni gwyliau rydych yn delio ag ef yn mynd i'r wal ac rydych yn colli'r holl arian a daloch iddo y gweithioch yn galed i'w ennill. Mae ffrind yn dweud wrthyh y dylech fod wedi defnyddio cerdyn credyd ar gyfer y pryniant hwn.			

BENTHYCA

SUT MAE GWNEUD DEWISIADAU BENTHYCA?

Yn y bennod hon, byddwch yn archwilio opsiynau ynglŷn â benthyca arian.

Byddwch yn gweld sut mae benthyca wedi dod yn rhan gyffredin o'r byd modern, a bod angen ei reoli'n ofalus iawn.

Byddwch yn edrych ar yr amrywiol ffyrdd o fenthyca arian a beth yw manteision ac anfanteision pob dull. Byddwch hefyd yn ymchwilio i sut mae ad-daliadau a llog yn gweithio.

Mae methu ag ad-dalu a mynd i ddyled yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol, felly byddwch yn edrych ar sut i osgoi'r sefyllfaoedd hyn a beth i'w wneud os bydd dyled yn cronni.



A WYDDOCH CHI?

Yn ei hanfod, dyled yw benthyca yn erbyn eich incwm yn y dyfodol. Rydych yn dewis cael arian nawr y byddwch yn ei ad-dalu o'ch incwm yn y dyfodol, ond byddwch yn talu cost ychwanegol hefyd oherwydd eich bod yn ei fenthyca.



BENTHYCA A DYLED

Benthyca yw derbyn arian gan rywun arall gyda chytundeb y byddwch yn ei dalu'n ôl yn ddiweddarach. Fe allech fenthyca'n anffurfiol gan ffrindiau a theulu, neu drefnu benthyciad ffurfiol gyda chytundeb ysgrifenedig gan fanc neu gymdeithas adeiladu. Os yw taliadau llog yn cael eu hychwanegu at yr arian sy'n cael ei fenthyca, byddwch yn talu mwy yn ôl na'r swm cychwynnol a fenthycwyd.

Mae benthyciadau a benthyca'n rhan o fywyd modern erbyn hyn; mae bron yn amhosibl eu hosgoi ar un ffurf neu'i gilydd. Mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf i fenthyca o fanciau, ond mae llawer o wahanol fathau o fenthyca i ddewis ohonynt, er enghraifft:

- Trefnu gorddrafft banc i'ch helpu i gyllidebu bob mis.
- Defnyddio hurbwrcasu i brynu car.
- Cael benthyciad personol i wneud taliad untro.
- Benthyca trwy fenthyciad myfyriwr i helpu i dalu am eich taith trwy addysg uwch.
- Trefnu morgais i brynu eiddo.
- Defnyddio cerdyn credyd i dalu wrth siopa ar-lein.

Cewch wybod llawer mwy am y gwahanol fathau hyn o fenthyca yn ddiweddarach yn y bennod.



A WYDDOCH CHI?

Yn 2018:

- **Roedd 1 o bob 75 o oedolion yng Nghymru wedi cysylltu â'r elusen StepChange i gael cymorth â'u problemau dyled.**
- **Roedd gan y rhai a gysylltodd â'r elusen yng Nghymru ddyled o ychydig dros £5,500, ar gyfartaledd, ar gardiau credyd.**
- **Yng Nghymru, roedd canran uwch o fenywod wedi cysylltu â'r elusen i gael cymorth na dynion.**
- **Mae dros hanner cleientiaid StepChange yng Nghymru yn iau na 40 oed.**

Ffynhonnell: Elusen Ddyled StepChange; Arolwg Cymru yn y Coch 2019



FELLY, MAE'N RHAIOD BOD DYLED YN DDRWG, IE?

Mae'n gyffredin camdybio bod pob math o ddyled yn "ddrwg". Mae nifer o amgylchiadau lle y gellir defnyddio benthyca i'n helpu i brynu pethau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ein bywydau a hyd yn oed gwella ein sefyllfa ariannol dros amser. Er enghraifft, benthyca arian i brynu cartref. Trwy drefnu morgais, rydych yn prynu eich cartref a chi fydd yn berchen arno pan fydd y morgais wedi'i dalu – yn wahanol i rentu, lle y gallech fod yn gwneud taliad tebyg ond byth yn berchen ar yr eiddo. Dros amser, byddech hefyd yn gobeithio bod gwerth eich cartref yn cynyddu, felly pan fyddwch yn dod i'w werthu byddai'n werth mwy na'r swm a fenthycwyd gennych i ddechrau. Ond, byddai angen i chi gofio y gallai gwerthoedd eiddo ostwng yn ogystal â chynyddu.

Mae'r rhesymau dros dderbyn dyled yn gallu bod yn "dda" neu'n "ddrwg", yn dibynnu ar yr hyn rydych yn benthycar arian ar ei gyfer:

- Bydd dyled dda yn rhoi budd parhaus i'r benthyciwr neu'n arwain at ryw fath o adenillion ariannol.
- Nid yw dyled ddrwg yn rhoi budd parhaus nac adenillion ariannol i'r benthyciwr.



DA NEU DDRWG – GWNEWCH YN SIŴR Y GELLIR EI RHEOLI

P'un a yw'r rheswm dros y ddyled yn cael ei ystyried yn dda neu'n ddrwg, mae'n rhaid i'r benthyciwr wneud yn siŵr ei fod yn gallu fforddio ei thalu'n ôl. Mae hyn fel arfer yn golygu bod y benthyciwr wedi cyllidebu ar gyfer ad-dalu'r ddyled a bod ganddo ddigon o incwm rheolaidd i dalu am y gost. Yn yr achos hwn, byddai'r ddyled yn cael ei galw'n ddyled y gellir ei rheoli.

Os derbynnir dyled heb fodd o'i had-dalu, mae hyn yn cael ei alw'n ddyled na ellir ei rheoli.

Nid yw'r gwahaniaeth rhwng dyled y gellir ei rheoli a dyled na ellir ei rheoli yn syml bob amser gan fod sefyllfaoedd pobl yn gallu newid. Dychmygwch rywun a dderbyniodd ddyled y gallai ei rheoli a'i fforddio ac yna mae'n colli ei swydd. Yn gyflym iawn, mae'r ddyled y gellid ei rheoli ar un adeg yn gallu mynd yn ddyled na ellir ei rheoli.

Byddwch yn archwilio dyled y gellir ei rheoli a dyled na ellir ei rheoli yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod.



GWEITHGAREDD

Edrychwch ar y rhestr isod a nodwch y rhai a fyddai'n cael eu hystyried yn ddyled "dda" a dyled "ddrwg".

Benthyca er mwyn:

- Mynd ar wyliau egsoftig
- Prynu car i deithio i'r gwaith bob dydd
- Prynu tŷ i fyw ynddo
- Cael wardrob llawn dillad newydd
- Ariannu addysg uwch
- Cael tocynnau ar gyfer gŵyl



CWESTIYNAU

1. Enwch dri math gwahanol o fenthyca.
2. Beth a olygir wrth ddyled dda a drwg?
3. Sut mae dyled dda a drwg yn wahanol i ddyled y gellir ei rheoli a dyled na ellir ei rheoli?

AD-DALU, LLOG AC APR




AD-DALU'R DDYLED

Pan fydd arian yn cael ei fenthycha, mae'n rhaid ei ad-dalu. Mewn gwirionedd, mae tri pheth y mae angen eu had-dalu:

- Y swm gwreiddiol a fenthycwyd (sef y prifswm).
- Llog sy'n cael ei ychwanegu at y prifswm.
- Unrhyw daliadau neu ffioedd sy'n gysylltiedig â benthycha'r prifswm.

Pan fyddwch yn benthycha arian gan fanc, bydd yn ychwanegu llog at y swm rydych wedi'i fenthycha. Dyma wobr y banc am fenthycha'r arian i chi.


Dyma'r fformiwla ar gyfer cyfrifo llog syml:



Er enghraifft, petai £1,000 yn cael ei benthycha ar gyfradd llog o 20% dros 1 flynedd, y llog i'w ad-dalu fyddai:

$$£1,000 \times 0.2 \times 1 = £200$$

Cyfanswm yr ad-daliad i'r benthyciwr fyddai:



A WYDDOCH CHI?

Mae cyfradd llog swyddogol y Deyrnas Unedig (y cyfeirir ati'n aml fel y gyfradd sylfaenol) yn cael ei hadolygu a'i gosod wyth gwaith y flwyddyn gan Fanc Lloegr. Mae llawer o gwmnïau ariannol yn cysylltu cyfraddau llog unigol ar gyfer rhai o'u cynhyrchion (e.e. morgeisi) â chynnydd a gostyngiad yn y gyfradd sylfaenol.



GWEITHGAREDD

Gan ddefnyddio'r fformiwla ad-dalu ar y chwith, cyfrifwch y cyfanswm y byddai angen ei ad-dalu pe byddech yn benthyca £3,000 am 1 flynedd ar y cyfraddau canlynol:

1. 8%

2. 25.5%

3. 36.8%

4. 1,499%

(mae benthyccwyr diwrnod cyflog yn codi cymaint â hyn, wir i chi!)



ADLOG

Mae cyfrifo llog ar fenthyciad dros gyfnod hwy ychydig yn fwy cymhleth oherwydd bydd banciau'n defnyddio cyfrifiad o'r enw adlog. Mae hyn yn cydnabod mai'r cyfanswm a fydd yn ddyledus gennych ar ddiwedd blwyddyn 1 fydd y prifswm yn ogystal â'r llog ar gyfer y flwyddyn honno. Mae hyn yn golygu bod y llog ar gyfer blwyddyn 2 yn cael ei gyfrifo ar y cyfanswm (y prifswm yn ogystal â llog) sy'n ddyledus ar ddiwedd blwyddyn 1.

Felly, petai'r £1,000 yn cael ei benthyca am 3 blynedd a'r gyfradd 20% yn cael ei hadlogi, bydd yn gweithio allan fel hyn:

Blwyddyn 1: $1,000 \times 0.20 \times 1 = £200$

Cyfanswm sy'n ddyledus ar ddiwedd Blwyddyn 1 = £1,200

Blwyddyn 2: $1,200 \times 0.20 \times 1 = £240$


Cyfanswm sy'n ddyledus ar ddiwedd Blwyddyn 2 = £1,440

Blwyddyn 3: $1,440.00 \times 0.20 \times 1 = £288$

Cyfanswm ar ddiwedd Blwyddyn 3 = £1,728

Felly, petai £1,000 yn cael ei benthyca ar gyfradd llog o 20%, byddai angen i chi dalu **£1,728** i'w had-dalu ar ôl 3 blynedd.

Dychmygwch petai'r tymor benthyca dros lawer mwy o flynyddoedd. Byddai'n cymryd tipyn o amser i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull uchod ac, yn yr un modd ag yn y bennod 'Cynilo', gallwn ddefnyddio'r dull lluosydd hefyd. Er enghraifft, petai £15,000 yn cael ei fenthyciad dros 7 mlynedd ar gyfradd llog o 9%, y cyfanswm a fyddai'n ad-daladwy fyddai:



Cofiwch fod y fformiwla'u rydyn ni wedi edrych arnynt yn tybio nad oes unrhyw ad-daliadau'n cael eu gwneud tan ddiwedd y cyfnod benthyca. Mewn bywyd go iawn, byddwch fel arfer yn gwneud ad-daliadau rheolaidd yn erbyn y swm a fenthycwyd. Er enghraifft, efallai byddwch yn ad-dalu £200 y mis yn erbyn eich benthyciad.

Pa effaith ydych chi'n credu y bydd hyn yn ei chael ar y llog rydych yn ei dalu?

Mae'r fformiwla ar gyfer adlog i'w gweld yn y bennod 'Cynilo'.



GWEITHGAREDD

Gan ddefnyddio'r fformiwla adlog, cyfrifwch y cyfanswm y byddai angen ei ad-dalu petaech yn benthyca £3,000 ar gyfradd llog o 20% dros y cyfnodau canlynol:

- | | |
|--------------|---------------|
| 1. 2 flynedd | 2. 4 blynedd |
| 3. 7 mlynedd | 4. 15 mlynedd |

Nawr rhwch gynnig ar...

- | | |
|----------|----------|
| 5. 3 mis | 6. 6 mis |
|----------|----------|



GALL CYFRADDAU LLOG NEWID

Pan fyddwch yn benthyca neu'n cynilo, mae'n bosibl y gallai'r gyfradd llog newid. Bydd yr effaith y bydd hyn yn ei chael arnoch yn dibynnu ar ba fath o fenthyciad sydd gennych, er enghraifft:

- Bydd benthyciad cyfradd sefydlog yn gwarantu'r un gyfradd llog am gyfnod penodol o'r benthyciad neu am gyfnod llawn y benthyciad.
- Mae benthyciad cyfradd amrywiol yn golygu y gallai'r taliadau llog newid os bydd y benthyciwr yn newid ei gyfradd.



GWEITHGAREDD

1. Gan ddefnyddio'r diffiniadau o fenthyciad cyfradd sefydlog a chyfradd amrywiol, esboniwch un fantais ac anfantais o bob un.
2. Ystyriwch sut byddai'r canlynol yn effeithio ar bobl sydd â benthyciad cyfradd amrywiol:
 - Cynnydd mewn cyfraddau llog
 - Gostyngiad mewn cyfraddau llog
3. Beth os oedd ganddynt fenthyciad cyfradd sefydlog?



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Dylan a Lowri wedi gweld fflat maen nhw eisiau ei phrynu sydd ar y farchnad am £150,000. Maen nhw wedi llwyddo i gynilo £20,000 ar gyfer blaendal felly mae angen iddyn nhw gael morgais o £130,000, y maen nhw'n bwriadu ei ad-dalu dros gyfnod o 25 mlynedd (300 mis). Ar ôl archwilio pa gynigion sydd ar gael, mae angen iddyn nhw benderfynu rhwng y ddau gynnig isod:

Opsiwn 1 – morgais cyfradd sefydlog 2 flynedd

Am y 2 flynedd gyntaf (24 mis), byddan nhw'n ad-dalu ar gyfradd sefydlog o 1.99%, sef £550.38 y mis. Ar ôl diwedd y cyfnod o 2 flynedd, byddan nhw'n symud i gyfradd amrywiol am y 23 blynedd sy'n weddill (276 mis), sef 4.49% a £709.77 y mis ar hyn o bryd.

Opsiwn 2 – morgais cyfradd amrywiol

Drwy gydol y 25 mlynedd (300 mis), bydden nhw'n ad-dalu'r morgais ar gyfradd amrywiol. Y gyfradd yw 4.14% a £696.28 y mis ar hyn o bryd, ond gan ei bod yn gyfradd amrywiol, fe all fynd i fyny neu i lawr, sy'n golygu y bydd y taliadau misol yn cynyddu neu'n gostwng yn unol â hynny.

1. Trwy edrych ar y ddau opsiwn yn unig, pa un fydddech chi'n ei ddewis a pham?
2. Pe byddai'r cyfraddau llog yn aros yr un fath drwy gydol cyfnod y morgais, beth fyddai cyfanswm y symiau sy'n ad-daladwy ar gyfer pob opsiwn?
3. Ar sail yr atebion i gwestiwn dau, pa opsiwn ddylai Dylan a Lowri ei ddewis?
4. Yn realistig, beth yw'r rheswm pam efallai nad hwn yw'r opsiwn gorau yn y pen draw?
5. Gan wybod hyn, a yw'n effeithio ar eich dewis o forgais ar gyfer Dylan a Lowri? Esboniwch eich ateb.



APR

Mae'r Gyfradd Ganrannol Flynyddol, neu APR, yn cael ei dangos fel canran. Fe gofiwch i ni ddweud ar ddechrau'r bennod hon fod y swm rydych yn ei ad-dalu yn cynnwys y swm a fenthycwyd gennych (neu'r prifswm), y gyfradd llog, ac unrhyw daliadau neu ffioedd a godir gan y benthyciwr.

Mae'r APR yn ystyried unrhyw ffioedd a thaliadau sy'n gysylltiedig â'r benthyciad dros 1 flynedd, yn ogystal â'r gyfradd llog sy'n cael ei chodi, ac mae'n dangos y cyfan fel un ffigur canrannol. Y syniad yw bod hyn yn ei gwneud yn haws o lawer i gymharu costau benthycia o wahanol ddarparwyr neu ddefnyddio gwahanol fathau o fenthyciadau.

Dylech bob amser weld y ffigur APR wedi'i ddangos ar unrhyw hysbysebion ar gyfer cynhyrchion benthycia. Ond, yr hyn y byddwch yn ei weld mewn hysbysebion o'r fath yw APR "nodweddiadol" neu "gynrychioliadol" – bydd yr union gyfradd a gewch yn ystyried eich amgylchiadau personol. Er enghraifft, os yw'r banc yn credu bod ychydig o risg yn gysylltiedig â benthycia i chi, fe allai gynyddu'r gyfradd llog, a fydd hefyd yn cynyddu'r APR.

Mae'r gyfradd llog a gewch pan fyddwch yn cynilo arian mewn cyfrif (gan ystyried unrhyw ffioedd a thaliadau cysylltiedig) yn cael ei alw'n Gyfradd Gyfwerth Flynyddol (AER). Gofalwch beidio â drysu rhwng y ddau!



TRAFODAETH

Er mwyn i fenthyciwr gael hysbysebu APR gynrychioliadol, dim ond i 51% o ymgeiswyr llwyddiannus y mae angen iddo roi'r gyfradd honno iddynt. Mae llawer o gwsmeriaid yn debygol o gael cynnig cyfradd uwch.

Pam ydych chi'n credu bod benthycwyr yn hysbysebu cynhyrchion benthycia gydag APR gynrychioliadol os na fydd yn cael ei rhoi i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid?



A WYDDOCH CHI?

Mae'r llog y mae banciau'n ei dalu ar eich cynilion yn aml yn is na'r gyfradd maen nhw'n ei chodi am fenthycia. Y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau yw'r elw mae'r banc yn ei wneud – busnes ydyw, wedi'r cyfan!



A WYDDOCH CHI?

Mae cyfraith Sharia Islamaidd yn llwyr wahardd codi llog ar fenthyciadau, a elwir yn usuriaeth. Credir y dylai cyfoeth gael ei gynhyrchu trwy fasnachu a buddsoddi yn unig. Mae cynhyrchion ariannol arbenigol ar gael sy'n cydymffurfio â chyfraith Sharia.



CWESTIYNAU

1. Beth yw'r tair elfen sy'n rhan o ad-dalu?
2. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng APR ac AER.
3. Sut gallai newidiadau i gyfradd llog sylfaenol y Deyrnas Unedig effeithio ar fenthycwyr?

GWNEUD DEWISIADAU GWYBODUS

Bydd rhaid i'r rhan fwyaf o bobl fenthycu arian rywbryd yn eu bywydau, felly mae'n hollbwysig deall y dewisiadau sydd gennych a chanlyniadau eich gweithredoedd.



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Gareth eisiau prynu car ail-law i hwyluso ei daith i'r gwaith. Mae wedi dod o hyd i un mae'n ei hoffi, am bris o £3,250. Mae ei gynilion yn agos at y swm hwnnw, ond dyna'i holl gynilion, ac roedd yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer blaendal ar fflat newydd. Ar ôl llunio cyllideb, mae Gareth wedi cyfrifo ei fod yn gallu cynilo tua £190 y mis. Mae wedi penderfynu bod ganddo dri opsiwn:

- Defnyddio ei gynilion presennol
- Cynilo ar ei gyfer
- Benthycu'r arian

Ystyriwch bob un o'r opsiynau ar gyfer Gareth. Beth yw manteision ac anfanteision pob un? A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei wybod cyn gwneud y penderfyniad terfynol?



SUT MAE BANCIAU'N GWNEUD PENDERFYNIADAU

Er bod rhaid i ni i gyd wneud penderfyniadau ynglŷn â ph'un ai benthycu ai peidio, pa gynnyrch sy'n bodloni ein hanghenion orau, a phwy sy'n cynnig y cynnyrch am yr APR orau, mae'n rhaid i'r sefydliadau sy'n benthycu'r arian wneud penderfyniadau hefyd. Bydd y drafodaeth isod yn eich helpu i ystyried y penderfyniadau mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud.



TRAFODAETH

Rhowch eich hun yn esgidiau'r banc. Mae cwsmer yn dod i mewn sydd eisiau benthycu £5,000 dros 2 flynedd.

Beth ydych chi eisiau ei wybod cyn penderfynu benthycu'r arian i'r cwsmer ai peidio?



HANES CREDYD

Un peth sy'n helpu'r banc i wneud penderfyniadau am fenthycu yw edrych ar eich hanes credyd – faint o arian rydych wedi'i fenthycu yn y gorffennol, a sut rydych wedi'i reoli. Mae hyn ar ffurf rhywbeth o'r enw adroddiad credyd, sy'n rhoi manylion pob cynnyrch benthycu rydych wedi'i gael, yr ad-daliadau rydych wedi'u gwneud, p'un a fethwyd unrhyw ddyddiadau ad-dalu, a faint o gredyd sydd gennych yn weddill (dyled).

Pan fyddwch yn gwneud cais i fenthycu arian, bydd y benthyciwr fel arfer yn gofyn am eich caniatâd i weld eich adroddiad credyd. Mae hwn yn cael ei roi i'r benthyciwr gan asiantaeth gwirio credyd. Yr asiantaeth gwirio credyd sy'n casglu'r holl wybodaeth amdanoch a'i rhoi mewn adroddiad. Yna, mae'n rhoi'r adroddiad i'r benthyciwr pan fydd cais newydd am fenthycu'n cael ei wneud. Bydd y benthyciwr yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a yw'n gallu benthycu i chi ac, os felly, ar ba APR.

Mae eich hanes credyd yn bwysig iawn i sicrhau bod y cyfraddau benthyca gorau'n cael eu cynnig i chi. Dyma rai ffyrdd allweddol o wneud yn siŵr bod eich hanes credyd yn aros yn positif:

- Cadwch at amserlenni ad-dalu. Bydd taliadau a fethwyd yn ymddangos ar eich adroddiad credyd ac fe allent achosi i fenthyciwr amau eich gallu i ad-dalu'n brydlon.
- Peidiwch â gwneud gormod o geisiadau benthyca ar yr un pryd. Yn ogystal â chofnodi'ch benthyca gorffennol a phresennol, mae eich hanes credyd hefyd yn cofnodi nifer y ceisiadau rydych wedi'u gwneud. Os bydd benthyciwr yn gweld gormod o geisiadau, fe allai feddwl bod gormod o risg yn gysylltiedig â benthyca i chi.
- Datblygwch hanes credyd. Gallai hyn swnio braidd yn rhyfedd! Dychmygwch eich bod yn fanc sy'n delio â chwsmer sy'n gofyn am fenthyca swm eithaf mawr o arian. Rydych yn edrych ar ei hanes credyd ac yn gweld ei fod yn wag – does dim byd yno. Ni fydddech yn gwybod sut bydd yr unigolyn yn rheoli'r benthyciad gan nad oes unrhyw beth i'w seilio arno.

Mae rhai pobl yn datblygu hanes credyd yn fwriadol trwy gael cynhyrchion benthyca fel cardiau credyd, gan eu defnyddio nawr ac yn y man a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu had-dalu'n brydlon a chyn i unrhyw log gael ei godi.

Yn ogystal ag adolygu'ch hanes credyd, gallai benthycwyr hefyd seilio eu penderfyniadau ar "fforddiadwyedd". Trwy edrych ar eich incwm a'ch gwariant, byddan nhw'n cyfrifo faint i'w fenthyca i chi ar sail yr hyn maen nhw'n credu y gallwch ei dalu'n ôl. Os oes gennych hanes credyd da, ond nid yw'r benthyciwr yn credu y gallwch fforddio'r ad-daliadau, efallai na fyddwch yn gallu benthyca cymaint ag yr oeddech eisiau.



Diffiniadau

Hanes credyd – Cofnod o fenthyciadau rydych wedi'u cael neu daliadau cerdyn credyd a wnaed neu a fethwyd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio gan asiantaethau gwirio credyd, sy'n rhoi manylion eich hanes credyd i sefydliadau ariannol pan fyddwch yn cael benthyciadau ychwanegol.

Asiantaeth gwirio credyd – Asiantaeth sy'n dal gwybodaeth am oedolion, gan gynnwys cofnodion cyhoeddus (e.e. cofnodion y gofrestr etholiadol) a gwybodaeth am hanes credyd. Fe allai roi'r wybodaeth hon i fenthycwyr pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth i benderfynu p'un ai cynnig credyd i chi ai peidio.

Adroddiad credyd – Adroddiad manwl ar hanes credyd unigolyn, ei drefniadau credyd presennol, hanes ei gyfeiriad a manylion unrhyw un y mae'n gysylltiedig ag ef yn ariannol. Pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd, bydd y broses fel arfer yn golygu rhoi eich caniatâd i'r darparwr credyd (e.e. banciau, darparwyr cerdyn credyd, cwmnïau ffôn symudol) wirio'ch adroddiad credyd.

Sgôr credyd – Bydd benthycwyr yn defnyddio'ch hanes credyd i gyfrifo sgôr credyd sy'n adlewyrchu faint o risg sy'n gysylltiedig â benthyca i chi a'r tebygolrwydd y byddwch yn talu'r credyd yn ôl. Bydd pob benthyciwr yn eich sgorio'n wahanol, ac yn ddirgel, felly os yw un benthyciwr wedi'ch gwrthod, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd y bydd eraill yn eich gwrthod hefyd. Ar ôl cael eich gwrthod, mae wastad yn bwysig gwirio'ch adroddiad credyd am unrhyw gamgymeriadau cyn gwneud cais am gredyd eto.



CWESTIYNAU

1. Pa benderfyniadau mae'n rhaid i sefydliadau benthyca eu gwneud cyn rhoi credyd i gwsmer?
2. Pa bethau mae benthycwyr yn eu defnyddio i'w helpu i wneud y penderfyniadau hyn?
3. Enwch ddwy ffordd o'ch helpu i ddatblygu hanes credyd positif.

CYNHYRCHION BENTHYCA



A WYDDOCH CHI?

Gall benthyciadau fod wedi'u gwarantu neu heb eu gwarantu. Mae benthyciad wedi'i warantu yn gofyn am rywbeth sy'n rhoi gwarant (sicrwydd) i'r benthyciwr rhag ofn na allwch dalu'r benthyciad yn ôl. Eich cartref yw hyn fel arfer, ond fe allai fod yn warantwr hefyd. Gwarantwr yw unigolyn sy'n cytuno i fod yn gyfrifol am y benthyciad os na allwch wneud yr ad-daliadau. Os na fyddwch yn ad-dalu'r benthyciad, gall y banc gael ei arian yn ôl trwy werthu'r warant neu ofyn i'r gwarantwr dalu.

Nid yw benthyciad heb ei warantu yn cynnwys gwarant, ond mae'r APR yn tueddu i fod yn uwch oherwydd bod y benthyciwr yn cymryd mwy o risg.

Mae llawer o wahanol fathau o fenthycia ar gael. Dyma rai o'r prif rai:

DULL BENTHYCA	DIFFINIAD	MANTEISION	ANFANTEISION
Benthyciad personol	Pan fydd arian yn cael ei fenthycia at ddiben amhenodol ac yn cael ei dalu'n ôl mewn rhandaliadau misol, fel arfer.	<ul style="list-style-type: none"> Rydych yn ad-dalu'r un swm bob mis, sy'n eich helpu i gyllidebu. 	<ul style="list-style-type: none"> Fe allai gymryd amser hir i'w dalu'n ôl, yn dibynnu ar y swm a fenthycwyd a'r APR.
Cerdyn credyd	<p>Cerdyn plastig a roddir gan sefydliad ariannol sy'n cynnwys terfyn penodol y cytunwyd arno neu a drefnwyd o flaen llaw i ganiatáu i chi wario (benthycia) arian hyd at y swm hwnnw.</p> <p>Os na fyddwch yn talu'r swm llawn bob mis, byddwch yn dechrau talu llog arno.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwell amddiffyniad i ddefnyddwyr os bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Fe allech gael cerdyn 0% neu log isel am gyfnod cyflwyniadol. 	<ul style="list-style-type: none"> Fe all eich annog i orwario os ydych yn ystyried yr arian sydd ar gael fel arian parod ychwanegol. Gall cyfraddau llog gynyddu.
Cerdyn siop	<p>Mae cardiau siop yn debyg i gardiau credyd ond maen nhw ar gael gan siopau yn hytrach na banciau. Gellir eu defnyddio i brynu pethau mewn siopau penodol yn unig.</p> <p>Mae unrhyw beth rydych yn ei wario ar eich cerdyn siop yn arian a fenthycwyd ac, yn yr un modd â chardiau credyd, os na fyddwch yn talu'r swm llawn bob mis, byddwch yn dechrau talu llog arno.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gallai siopwr gael disgownt wrth ddefnyddio'r cerdyn am y tro cyntaf neu gynnig tebyg. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n ddrud iawn fel arfer os nad yw'r balans yn cael ei ad-dalu'n llawn.

Gorddrafft	<p>Mae gorddrafft yn caniatáu i chi fenthycu arian trwy'ch cyfrif cyfredol.</p> <p>Gallwch ofyn i'ch banc am gael un neu weithiau maen nhw'n cael eu cynnig yn awtomatig gyda chyfrifon cyfredol.</p> <p>Mae gorddraffiau wedi'u trefnu yn cael eu gosod o flaen llaw a gallwch wario arian hyd at swm y gorddrafft y cytunwyd arno.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhoi ateb tymor byr. Os yw'n cael ei drefnu, gellir ei dalu heb gosbau. Byddwch ond yn talu llog os ydych yn defnyddio'r gorddrafft. 	<ul style="list-style-type: none"> Efallai y bydd ffioedd i'w talu ar gyfer gorddraffiau wedi'u hawdurdodi. Os byddwch yn gordynnu arian heb ofyn i'r banc o flaen llaw neu os oes gennych orddrafft wedi'i drefnu ac rydych yn gwario mwy na'r swm y cytunwyd arno, mae hynny'n cael ei alw'n orddrafft heb ei drefnu. Yn yr achos hwn, bydd y banc bron yn sicr yn eich cosbi gyda ffioedd ychwanegol ac yn codi cyfradd llog uwch arnoch ar yr arian sy'n ddyledus iddo.
Hurbwrcasu	<p>Mae'n tueddu i fod ar gyfer pryniadau mwy, e.e. car. Mae ad-daliadau'n cael eu gwneud yn rheolaidd dros nifer o flynyddoedd, ond ni fyddwch yn berchen yn gyfreithiol ar beth bynnag rydych wedi'i brynu nes bydd yr ad-daliad terfynol wedi'i wneud.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n caniatáu i chi brynu pethau newydd na allech eu fforddio fel arall. Mae'n lledaenu cost eitem ddrud dros gyfnod o amser. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae methiant i dalu yn golygu y gellir cymryd y nwyddau oddi arnoch yn gyfreithiol. Hyd nes byddwch wedi talu am y nwyddau, ni allwch eu gwerthu ymlaen na'u newid mewn unrhyw ffordd.
Benthyciad myfyriwr (byddwn yn sôn am hyn yn fanylach yn y bennod 'Symud ymlaen o'r ysgol – byd gwaith')	<p>Mae wedi'i ddylunio'n benodol i ariannu eich taith trwy addysg uwch ac yna'n cael ei ad-dalu'n rheolaidd ar ôl i chi ddechrau gweithio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Byddwch yn dechrau gwneud ad-daliadau dim ond pan fyddwch yn dechrau ennill mwy na swm penodol. Cyfraddau llog isel. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd ad-daliadau'n cael eu hystyried yn rhan o wiriadau fforddiadwyedd ar gyfer morgais. Mae'r llywodraeth yn gallu newid y trothwy a'r gyfradd llog ad-dalu.
Morgais	<p>Mae'n cael ei ddefnyddio i brynu eiddo neu dir ac yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w ad-dalu fel arfer.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n caniatáu i chi ledaenu cost eiddo dros gyfnod hir. 	<ul style="list-style-type: none"> Gall newidiadau i gyfraddau llog effeithio ar ad-daliadau. Gallai methiant i wneud ad-daliadau effeithio ar eich sgôr credyd a gallai parhau i wneud hynny olygu eich bod yn colli'ch cartref yn y pen draw.

Credyd cost uchel: Mae hyn yn cynnwys siopa catalog, benthycwyr arian stepen drws, siopau rhentu i brynu, gwystlwyr a chwmnïau benthyciad diwrnod cyflog. Mae'r cyfraddau llog yn tueddu i fod yn uchel iawn, felly mae benthycu'n ddrud iawn. Gallai'r dulliau hyn gael eu defnyddio gan bobl sydd â hanes credyd gwael, sy'n golygu nad ydynt yn gallu benthycu arian ar gyfraddau mwy cystadleuol.

Cofiwch, po uchaf yr APR, y drutaf y bydd i chi fenthycu, a pho hiraf y byddwch yn benthycu ar yr un APR, y mwyaf y bydd yn ei gostio i chi.



UNDEBAU CREDYD

Cwmnïau cydweithredol ariannol yw undebau credyd, y mae eu haelodau'n berchen arnynt a'u rheoli, sy'n cynnig dewis arall lleol yn lle banciau a chymdeithasau adeiladu. Maen nhw'n aml yn cael eu rhedeg gan aelodau cymuned leol ac mae'r aelodau sy'n defnyddio eu gwasanaethau yn gallu helpu i wneud penderfyniadau am sut mae'r undeb credyd yn cael ei reoli. Mae undebau credyd wedi'u hen sefydlu yng Nghymru. Dechreuodd yr un cyntaf ym 1980.

Sefydliadau nid er elw ydynt sy'n cynnig cynhyrchion ariannol tebyg i fanciau neu gymdeithasau adeiladu, er enghraifft benthyciadau personol a chyfrifon cynilo. Mae ganddynt gyfrifoldeb i gefnogi eu cymuned leol ac maen nhw'n ceisio sicrhau bod costau'n cael eu cadw'n isel fel bod cyfraddau benthycia'n aml yn is na darparwyr credyd eraill. Maen nhw hefyd yn gallu caniatáu cyfraddau llog uwch ar gynilion. Yn aml, mae hyn yn gallu golygu bod pobl nad ydynt yn gallu defnyddio banciau'r stryd fawr a'u cynhyrchion yn cael cymorth ariannol yn eu cymuned, gan gynnig dewis arall da yn lle benthyciadau diwrnod cyflog a benthycia ar stepen drws. Yn ôl Banc Lloegr, swm cyfartalog benthyciad undeb credyd (2019) yng Nghymru oedd bron £1,500, o gymharu â bron £2,100 yn Lloegr.

Ewch i <https://creditunionsofwales.co.uk/cy/> i gael gwybod mwy am undebau credyd yng Nghymru.



GWEITHGAREDD

Gwnewch waith ymchwil ar undebau credyd a benthycwyr diwrnod cyflog ac ysgrifennwch rai pwyntiau bwled am yr hyn rydych wedi'i ddarganfod. Ystyriwch gynnwys y canlynol:

- Pa gynhyrchion maen nhw'n eu cynnig
- Beth yw eu cyfraddau llog
- Sut maen nhw'n wahanol i fanciau
- Manteision ac anfanteision pob un



CWESTIYNAU

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn credyd a cherdyn siop?
2. Pam mae pobl weithiau'n troi at ddarparwyr credyd gwahanol?
3. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng gorddrafft wedi'i drefnu a gorddrafft heb ei drefnu.
4. Sut mae defnyddio undeb credyd yn wahanol i ddefnyddio banc?



BENTHYCIADAU PERSONOL

Benthyciad personol yw cytundeb rhwng unigolyn (y sawl sy'n cael benthycy) a'r sefydliad ariannol sy'n cyflenwi'r arian (y benthyciwr).

Fel arfer, mae benthyciadau personol yn cael eu rhoi am gyfnod o rhwng 1 a 10 mlynedd ac maen nhw heb eu gwarantu fel rheol (darllenwch yr adran 'A wyddoch chi' flaenorol i gael gwybod y gwahaniaeth rhwng benthycia wedi'i warantu a heb ei warantu).

Gallwch wneud cais am fenthyciad personol trwy fanc, cymdeithas adeiladu, undeb credyd neu gwmni ariannol ar-lein. Bydd pob un yn hysbysebu eu llog fel APR "nodweddiadol" neu "gynrychioliadol", ond cofiwch, efallai nad dyma'r gyfradd y byddwch yn ei chael mewn gwirionedd oherwydd bydd wedi'i seilio ar eich amgylchiadau unigol.

Wrth lunio cytundeb, byddwch yn cael amserlen ad-dalu a fydd yn dangos yr holl ad-daliadau y bydd angen i chi eu gwneud dros gyfnod y benthyciad – mae'r rhain yn fisol fel arfer ond gallant amrywio yn ôl Telerau ac Amodau'r benthyciad. Pan fyddwch yn fodlon â'r cytundeb, gofynnir i chi lofnodi contract a bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i'ch cyfrif banc.



A WYDDOCH CHI?

Mae Telerau ac Amodau (T&Cs) yn aml yn cael eu galw'n "brint mân" a dyma'r set o reolau sy'n gysylltiedig â'ch benthyciad. Dylech ddarllen y rhain yn ofalus i wneud yn siŵr eich bod yn cael yr hyn roeddech yn ei ddisgwyl. Wrth lofnodi'r contract, rydych hefyd yn cytuno i'r T&Cs – er bod cyfnod "callio" 14 diwrnod cyn iddynt ddod yn gyfreithiol gyfrwymol.

Gyda phob rhandaliad o'ch ad-daliad, byddwch yn talu'n ôl swm penodol sy'n cynnwys rhywfaint o'r prifswm (swm gwreiddiol y benthyciad) a rhywfaint o'r llog. Bydd hyn yn parhau nes bod y swm cyfan a fenthycwyd a'r llog wedi cael eu had-dalu.

Os ydych wedi gwneud rhai taliadau ac yna eisiau talu'r swm sy'n weddill o'r benthyciad (y balans) yn gynnar, bydd cwmni'n codi tâl ad-dalu cynnar (ERC) weithiau, a allai olygu bod y cyfanswm yn fwy na'r hyn y byddech wedi'i dalu dros y cyfnod y cytunwyd arno.

Maen nhw'n gwneud hyn oherwydd byddan nhw fel arall yn colli rhai o'ch ad-daliadau llog os byddwch yn gorffen y cytundeb yn gynnar.



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Nia yn feiciwr brwd ac eisiau prynu beic newydd. Mae ganddi swydd ran-amser ac mae ei sgôr credyd yn dangos y bydd yn gallu cael benthyciad, ond mae angen iddi ystyried ei hopsynau benthycia. Mae hi'n ymchwilio ar-lein ac yn dod o hyd i fenthyciad am £1,000 sy'n edrych yn addas, ond mae angen iddi benderfynu am ba mor hir i fenthycia'r arian.

BENTHYCIAD	CYFRADD LLOG	LLOG SY'N DALADWY	CYFANSWM SY'N AD-DALADWY	AD-DALIAD MISOL
Benthyciad 1 flynedd	16.9% APR	£87.20	£1,087.20	£90.60 (12 mis)
Benthyciad 2 flynedd	16.9% APR	£171.92	£1,171.92	£48.83 (24 mis)
Benthyciad 3 blynedd	16.9% APR	£260.72	£1,260.72	£35.02 (36 mis)

1. Pa opsiwn dylai Nia ei ddewis? Pam?
2. Meddylwch am dri chwestiwn y byddech yn eu gofyn i Nia cyn iddi gael y benthyciad.
3. Pa opsiynau benthycia eraill sydd ar gael i Nia?
4. A oes rhaid i Nia fenthycia'r arian? Pa ffordd arall y gallai hi brynu'r beic?



CARDIAU CREDYD

Mae'r gair "credyd" yn gallu bod ychydig yn ddryslyd oherwydd bod iddo ddwy ystyr; mae cyfrif sydd "mewn credyd" yn golygu bod arian ynddo sydd ar gael i'w wario. Fodd bynnag, os byddwch yn cael nwyddau neu wasanaethau "ar gredyd", mae hynny'n golygu eich bod wedi benthycu'r arian i'w prynu.

Mae cardiau credyd ar gael gan y rhan fwyaf o fanciau ac maen nhw'n caniatáu i chi brynu nwyddau a gwasanaethau hyd at derfyn penodol. Pan fyddwch yn prynu rhywbeth gyda'ch cerdyn credyd, darparwr y cerdyn credyd sy'n talu am y swm rydych yn ei wario – nid yw'n dod allan o'ch cyfrif chi. Mae'r darparwr yn cadw cofnod o bopeth rydych wedi'i brynu ac anfonir datganiad atoch bob mis sy'n dangos faint rydych wedi'i fenthycu.

Mae dwy ffordd o ad-dalu cerdyn credyd. Mae un yn codi llog arnoch, ond nid y llall:

- Pan fyddwch yn cael eich datganiad misol, rydych yn ad-dalu'r balans yn llawn. Ni fydd llog yn cael ei godi arnoch chi yn yr achos hwn.
- Rydych yn talu rhywfaint o falans y datganiad. Mae cardiau credyd yn mynnu bod isafswm yn cael ei dalu bob mis. Mae hyn tua 3% o'r balans neu £5, pa un bynnag sy'n fwy. Os dewiswch chi beidio â thalu'r balans yn llawn, bydd llog yn cael ei godi arnoch ar y balans sy'n weddill yn ogystal ag unrhyw beth arall rydych yn ei wario yn ystod y mis canlynol.



A WYDDOCH CHI?

Petaech chi'n benthycu £3,000 ar eich cerdyn credyd yn 21 oed ac yn gwneud yr isafswm ad-daliadau yn unig, byddwch bron yn 50 oed cyn iddo glirio!

Yn yr un modd â benthyciadau personol, bydd darpar gwsmeriaid eisiau gwneud gwaith ymchwil a chymharu i gael borgen APR dda, a bydd darparwr y cerdyn credyd yn cynnal archwiliadau ac yn ymchwilio i'ch hanes credyd cyn cymeradwyo'r cerdyn credyd. Bydd sgôr credyd dda yn gwella'ch siawns o gael cerdyn credyd ac, yn gyffredinol, yn golygu cyfraddau llog is a mynediad at fwy o fargeinion.

Bydd darparwr y cerdyn credyd yn gosod terfyn credyd ar gyfer eich cerdyn – unrhyw beth o ychydig gannoedd i sawl mil o bunnoedd, yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Yna, gallwch ddefnyddio'r

cerdyn i wario arian hyd at y terfyn hwnnw ar beth bynnag y dymunwch heb geisio caniatâd ar gyfer pob pryniant. Gallwch hefyd gael mwy nag un cerdyn credyd ar yr un pryd – ar yr amod bod eich sgôr credyd yn ddigon cryf.

Mae rhai cwmnïau'n cynnig cyfraddau llog isel i gwsmeriaid newydd i ddenu eu busnes. Fe allai fod cyfnod cyfyngedig pan fydd llog ar 0% ac fe allai hyn hefyd gynnwys "trosglwyddo balans" (trosglwyddo dyled o gerdyn credyd neu fenthyciad arall). Ar ôl y cyfnod cyflwyniadol, gallai'r gyfradd llog gynyddu i lefel uwch nag arfer i wneud iawn am hyn.



A WYDDOCH CHI?

Mae trosglwyddiadau balans yn caniatáu i chi gael cerdyn newydd i dalu dyled ar hen gardiau credyd a siop sy'n codi llog. Efallai bydd y cerdyn newydd yn cynnig llog 0% neu gyfradd llog is nag yr ydych yn ei thalu ar hyn o bryd, felly byddwch yn clirio'r ddyled yn gyflymach oherwydd bydd y taliadau a wnewch yn lleihau'r ddyled, yn hytrach na thalu'r llog.

Mae cael cerdyn credyd yn beth da mewn rhai ffyrdd:

- Mae'n gyfleus iawn wrth siopa ac yn fwy diogel na chario arian parod.
- Gallwch brynu pethau'n syth (hyd at eich terfyn credyd), ond dylech bob amser fod yn hyderus y gallwch ad-dalu'r arian.
- Mae Adran 75 Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 yn golygu bod rhaid i'ch cerdyn credyd ddiogelu pryniadau rhwng £100 a £30,000 am ddim, felly os oes problem fe allech gael eich arian yn ôl. Os bydd y cwmni rydych yn delio ag ef yn mynd i'r wal neu'n methu danfon yr hyn brynoch chi, dylech gael eich arian yn ôl gan eich darparwr credyd. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydych wedi talu rhan o'r swm yn unig ar gerdyn credyd.
- Mae'n beth da i'ch sgôr credyd os gallwch ddangos eich bod wedi benthyca arian a'i dalu'n ôl fel y disgwyliwyd; mae hyn yn dangos cyfrifoldeb ariannol.
- Gallai cerdyn credyd gynnig bonysau fel milltiroedd hedfan, pwyntiau gwobrwyo ac arian yn ôl.



TRAFODAETH

Ar ôl edrych ar rai o fanteision cael cerdyn credyd, beth ydych chi'n credu yw'r anfanteision posibl?



CWESTIYNAU

1. Sut mae cwmnïau benthyciadau a chardiau credyd yn cyfrifo'r llog penodol y dylai cwsmer ei dalu?
2. Beth yw terfyn credyd ar gerdyn credyd?
3. Pam mae'n bwysig deall y Telerau ac Amodau sy'n gysylltiedig â benthyca arian?
4. Pam mae'n syniad da talu'r balans ar gerdyn credyd bob mis, os gallwch?



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Nikita, Owen, Jac, a Chika yn grŵp o ffrindiau sy'n trafod cyfraddau llog eu cardiau credyd. Mae Nikita yn gogydd dan hyfforddiant sy'n ennill £16,000 y flwyddyn. Dim ond yn ddiweddar mae hi wedi llwyddo i gael cerdyn credyd oherwydd iddi fethu dau daliad ar ei chontract ffôn symudol y llynedd, felly roedd llawer o ddarparwyr wedi gwrthod ei chais. Nid yw ei hanes credyd yn wych; felly, mae ei chwmni cerdyn credyd yn rhoi APR o 30% iddi.

Mae Owen yn ddatblygwr meddalwedd TG ac mae ganddo sgôr credyd wych, gan ei fod yn defnyddio ei gerdyn credyd i brynu pethau mawr yn unig, fel gwyliau, ac mae wastad yn talu ei fil yn llawn ar ddiwedd y mis. Mae ei gwmni cerdyn credyd yn rhoi APR o 5% iddo.

Nid yw Jac yn dda iawn gydag arian. Mae wedi cael benthyciadau yn y gorffennol ond cafodd drafferth gwneud yr ad-daliadau. Mae wedi cael cerdyn credyd yn y gorffennol hefyd ond roedd wastad yn gwario hyd at ei derfyn credyd. Dim ond un cwmni oedd yn fodlon rhoi cerdyn credyd iddo ac mae'n codi APR enfawr o 50% arno.

Mae Chika yn ennill £30,000 fel dylunydd graffeg. Mae hi wastad yn talu balans ei cherdyn credyd ar ddiwedd pob mis oherwydd ei bod wedi sefydlu debyd uniongyrchol i wneud yn siŵr nad yw'n anghofio talu ei bil. Mae ei chwmni cerdyn credyd yn rhoi APR o 10% iddi.

1. Pam ydych chi'n credu bod gan yr unigolion gyfraddau llog gwahanol? Ydy hyn yn deg?
2. Sut gallai Nikita a Jac wella eu sgôr credyd?
3. Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i Nikita a Jac ar gyfer y dyfodol?



MORGEISI

Benthyciad tymor hir yw morgais sy'n cael ei ddefnyddio i brynu eiddo. Ar gyfartaledd, cartref yw'r peth drutaf y bydd pobl yn ei brynu yn eu bywydau. Nid yw'n realistig ceisio cynilo'r swm o arian sy'n ofynnol, felly mae morgais yn cael ei ddefnyddio'n aml.

Gall tymor morgais amrywio, ond mae'n para 25 mlynedd fel arfer. Mae cost ad-dalu'r benthyciad yn cael ei lledaenu ar draws y tymor hwn. Mae'r benthyciad yn cael ei warantu yn erbyn yr eiddo rydych wedi'i brynu. Mae hyn yn golygu os na fyddwch yn gwneud yr ad-daliadau, fe allai'r benthyciwr gymryd eich cartref yn ôl a'i werthu i adennill ei arian – mae hyn yn cael ei alw'n adfeddu.

Yn gyffredinol, mae'r gyfradd llog ar forgois ymhlith yr isaf o gymharu â mathau eraill o fenthycia. Y rheswm am hyn yw oherwydd y tymor hir a'r ffaith bod y benthyciad wedi'i warantu.

Mae rhagor o wybodaeth am forgeisi ar gael yn yr adran 'Datblygu'ch gwybodaeth'.



BENTHYCWYR DIWRNOD CYFLOG

Benthyciwr diwrnod cyflog yw'r enw ar fenthycwyr sy'n rhoi benthyciadau tymor byr iawn am symiau cymharol fach o arian. Fel mae'r enw'n awgrymu, bwriedir i'r rhain dalu am unrhyw gostau annisgwyl y gallech eu hwynebu nes gallwch ad-dalu'r benthyciad ar eich diwrnod cyflog nesaf.

Oherwydd natur tymor byr iawn y benthyciadau hyn, gall y cyfraddau llog fod yn uchel iawn – nid yw APR o 1,500% yn anghyffredin. Mae cosbau hefyd os nad yw'r benthyciad yn cael ei dalu ar yr adeg ddisgwyliedig. O gymharu â mathau eraill o fenthycia hyblyg, fel gorddrafth wedi'i drefnu neu gerdyn credyd, mae cost uchel iawn yn gysylltiedig â benthyciadau diwrnod cyflog.

Un o'r materion mwyaf dadleuol ynglŷn â benthyciadau diwrnod cyflog yw "trosglwyddo ymlaen", pan nad yw rhywun yn gallu talu'r benthyciad ar ddiwedd y tymor (a allai fod mor fyr ag wythnos). Yn yr achos hwn, gallai'r benthyciwr awgrymu trosglwyddo'r benthyciad ymlaen am wythnos arall, neu fwy. Er y gallai hyn ymddangos fel ateb rhesymol, mae'n cynyddu'r llog a'r taliadau y byddwch yn eu talu yn sylweddol.

Cyn gwneud cais am fenthyciad diwrnod cyflog, ystyriwch eich holl opsiynau eraill, oherwydd mae benthyciad diwrnod cyflog yn debygol o fod yn fwy costus o lawer.



ASTUDIAETH ACHOS


Mae Angharad yn gweithio'n rhan-amser mewn canolfan arddio ac mae newydd symud i fflat un ystafell wely y mae'n byw ynddi ar ei phen ei hun. Am y 2 fis cyntaf, prin oedd ei chyflog yn talu am y rhent a'r biliau y mae angen iddi eu talu, ond mae angen iddi brynu rhai eitemau newydd o ddodrefn hefyd. Mae hi'n derbyn sifftiau ychwanegol yn y ganolfan arddio ac yn newid i brynu bwyd brand yr archfarchnad, ond nid yw'n gallu fforddio'r dodrefn o hyd.

Un noson, mae Angharad yn gweld hysbyseb ar y teledu ar gyfer cwmni o'r enw RapidLoan. Mae'n esbonio pa mor rhwydd yw gwneud cais am fenthyciad gyda nhw, ac ni fyddant hyd yn oed yn cynnal gwiriad credyd i weld a fydd hi'n gallu gwneud yr ad-daliadau. Mae'r gyfradd llog yn ymddangos yn uchel, ond fe fydd hi'n gallu cael yr arian yn syth!

Mae Angharad yn gwneud cais am y benthyciad a thrannoeth mae £300 ychwanegol yn ei chyfrif banc. Mae'n addo i'w hun y bydd yn talu'r benthyciad cyn gynted ag y caiff ei thalu ar ddiwedd y mis.

Mae hi'n prynu dodrefn newydd, ond mae ei biliau nwy a thrydan yn uwch na'r disgwyl ar ddiwedd y mis ac nid yw'n gallu fforddio talu'r benthyciad yn llawn a thalu ei biliau hefyd. Mae'n teimlo mai'r unig opsiwn sydd ar gael iddi yw cael benthyciad arall ar ben yr un sydd ganddi eisoes, ond mae'n benderfynol o dalu'r cyfan yn ôl ar ddiwedd y mis.

Yn anffodus, mae Angharad yn gorfod cael benthyciad newydd bob mis i geisio clirio'r ddyled sydd wedi bod yn cronni, ond oherwydd bod angen iddi gael mwy o arian ar gyfer ei gwariant dydd i ddydd ac i dalu'r llog ar y benthyciadau, nid yw hyn yn bosibl. Ar ôl 4 mis o'r cylch hwn, mae gan Angharad ddyled o £1,500, sy'n fwy na'r swm mae hi'n ei ennill bob mis.



Mae'n methu credu faint o ddyled sydd ganddi a pha mor rhwydd yr oedd wedi cronni. Mae hi'n poeni ac yn ofidus. Yn y diwedd, mae hi'n ffonio RapidLoan ac yn dweud wrthynt ei bod hi'n cael trafferth, ac maen nhw'n caniatáu iddi ad-dalu'r arian sy'n ddyledus dros y 6 mis nesaf. Ond maen nhw'n dal i anfon negeseuon e-bost ati'n rheolaidd yn cynnig benthycia hyd yn oed mwy o arian iddi, er eu bod nhw'n gwybod nad yw hi'n gallu ei fforddio.

1. Yn eich barn chi, ydych chi'n credu y bydd Angharad yn gallu talu ei dyled mewn 6 mis? Os felly, pam? Os na, pam?
2. Pa effaith ydych chi'n credu mae'r profiad hwn wedi'i chael ar Angharad? Sut ydych chi'n credu mae hi'n teimlo?
3. A yw'r benthyciwr diwrnod cyflog yn gweithredu'n gyfrifol? Esboniwch eich ateb.
4. Pa gyngor fydddech chi'n ei gynnig i Angharad?
5. Yn eich barn chi, pa opsiynau benthycia eraill sydd gan Angharad?



BENTHYCWYR ARIAN DIDRWYDDED

Mae'r holl fathau o fenthycwr rydyn ni wedi'u trafod hyd yma yn y bennod hon yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Ffurfiwyd y sefydliad hwn o dan y gyfraith i ddiogelu defnyddwyr a rheoleiddio cwmnïau, ac mae'n gallu rhoi dirwy iddynt, neu eu cau, os nad ydynt yn dilyn y gyfraith.

Mae'n gweithio i wneud yn siŵr bod marchnadoedd ariannol yn onest, yn deg ac yn effeithiol, fel bod defnyddwyr yn cael bargaen deg. Os ydych yn credu na chawsoch eich trin yn deg, gallwch bob amser droi at yr FCA fel dewis olaf i helpu.

Weithiau, mae unigolion yn sefydlu eu hunain fel benthycwr arian. Nid yw'r unigolion hyn yn cael eu rheoleiddio gan yr FCA, ac maen nhw'n gweithredu'n anghyfreithlon. Gan nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, nid oes terfyn ar y gyfradd llog maen nhw'n ei chodi na'r cosbau y gallant eu rhoi.

Mae benthycwr arian didrwydded yn tueddu i fanteisio ar yr unigolion mwyaf agored i niwed, a'r rhai hynny y mae'n anodd iddynt gael eu derbyn ar gyfer mathau eraill o fenthycwr, fel pobl sydd â hanes credyd gwael. Mae tasglu penodol yn Lloegr sy'n ymchwilio i fenthycwr arian didrwydded a'u herlyn – Tîm Benthycwr Arian Anghyfreithlon Lloegr (IMLT). Mae timau yng Nghymru a'r Alban hefyd. Yng Nghymru, byddai Uned Benthycwr Arian Anghyfreithlon Cymru yn ymchwilio i fenthycwr arian didrwydded.



DYLED Y GELLIR EI RHEOLI AC NA ELLIR EI RHEOLI

Gall amgylchiadau personol newid yn ddirybudd. Gallai benthycwr golli ei swydd yn sydyn, ac felly ni fydd yn ennill digon o incwm i dalu ei ddyledion a'i ad-daliadau. Gallai argyfwng teuluol annisgwyl olygu bod arian y bwriadwyd ei ddefnyddio i ad-dalu dyled yn gorfod cael ei ddefnyddio ar gyfer rhywbeth arall.

Os gadewir i ddyled dyfu, fe allai gyrraedd pwynt lle na ellir ei rheoli; os na fydd camau'n cael eu cymryd, fe all gael canlyniadau ariannol difrifol. Yn yr un modd, os byddwch yn rhuthro i brynu rhywbeth sylweddol (neu hyd yn oed ddiangen) heb feddwl amdano'n ofalus, cynllunio, cyllidebu na sicrhau bod modd o'i ad-dalu, fe allai hynny gael ei ystyried yn dderbyn dyled na ellir ei rheoli hefyd. Mae rhai pobl yn ceisio gwrthbwysu eu dyled trwy fenthycwr mwy fyth, ond nid dyma'r ateb; gall hyn greu cylch diddiwedd.




A WYDDOCH CHI?

Mae rhai benthycwr arian didrwydded wedi ceisio codi cyfraddau llog mor uchel â 719,000%. Roedd un fenyw a fenthycodd £500 wedi ad-dalu £88,000 yn y pen draw. Fe allech gael eich aflonyddu neu eich bygwth os byddwch yn methu'ch ad-daliadau – mae pobl wedi adrodd am gael eu dychryn neu ddioddef ymosodiad. Fe allai pwysau gael ei roi arnoch hefyd i fenthycwr mwy o arian i ad-dalu un benthyciad gydag un arall, gan arwain at gylch diddiwedd o ddyled na allwch fyth ei had-dalu.



A WYDDOCH CHI?

Yn 2018, amcangyfrifodd Uned Benthycwr Arian Anghyfreithlon Cymru (WIMLU) fod 4,000 o bobl yng Nghymru wedi dioddef wrth law benthycwr arian didrwydded yn ystod y 10 mlynedd blaenorol.



Ffynhonnell: moneysavingexpert.com

Os byddwch yn benthycu mwy na'r hyn sydd gennych, neu fwy na'r hyn rydych yn disgwyl y bydd gennych, efallai na fydd digon ar ôl i dalu am yr hyn sydd wir yn bwysig ac fe allech fynd i drafferthion ariannol. Dyma ganlyniadau posibl problemau ariannol difrifol:

- Ariannol (anodd cael mwy o gredyd, achos cyfreithiol).
- Emosiynol (straen, problemau mewn perthnasoedd).
- Corfforol (salwch sy'n deillio o straen).
- Ysbrydol (colli hunan-barch a'r gallu i ymdopi).

Dyna pam mae mor bwysig gwneud dewisiadau gwybodus y gallir eu rheoli wrth ddelio â'ch cyllid personol. Gobeithio na fydd byth yn digwydd, ond os byddwch mewn sefyllfa lle mae dyled wedi mynd allan o reolaeth, mae help a chynghor ar gael (mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y bennod 'Risg a gwobr').

Fe all fod yn fuddiol siarad am eich amgylchiadau gyda rhywun niwtral sy'n gallu rhoi cynghor ystyriol a diduedd, a gall hyn gynnwys y sefydliad(au) ariannol

sy'n gysylltiedig. Mae llawer ohonynt bellach yn cydnabod bod ganddynt "ddyletswydd gofal" tuag at eu cwsmeriaid a byddant yn eich helpu i leihau anawsterau gymaint â phosibl a chael eich cyllid dan reolaeth. Mae nifer o sefydliadau ac elusennau dyledion y gallwch droi atynt pan fydd angen hefyd, fel Cynghor ar Bopeth Cymru, StepChange a'r Llinell Ddyled Genedlaethol.



CWESTIYNAU

1. Rhowch un enghraifft o ddyled y gallir ei rheoli ac un enghraifft o ddyled na ellir ei rheoli.
2. Enwch ddau ganlyniad dyled na ellir ei rheoli.
3. Beth yw'r peth gwaethaf y gallwch ei wneud, yn ôl pob tebyg, os ydych yn mynd i ddyled?
4. Esboniwch beth mae'r term "dyletswydd gofal" yn ei olygu i chi.



BETH YDYCH WEDI'I DDYSGU?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch o'r bennod hon, cwblhewch y gweithgaredd isod:



GWEITHGAREDD

Mae gan Cai falans sy'n ddyledus o £1,000 ar ei gerdyn credyd, ond mae ei foeler wedi torri ac mae angen iddo gael un newydd ar frys. Gan nad oes ganddo unrhyw gynilion, ac mae wastad wedi gordynnu ar ddiwedd y mis, mae'n ystyried cael benthyciad diwrnod cyflog i dalu am hyn yn hytrach na defnyddio ei gerdyn credyd.

1. Yn eich barn chi, ydy dyled cerdyn credyd Cai yn ddyled y gallir ei rheoli neu na ellir ei rheoli? Esboniwch eich rhesymau pam.
2. A ddylai Cai gael y benthyciad diwrnod cyflog neu ddefnyddio ei gerdyn credyd? Esboniwch eich ateb.
3. Pa opsiynau benthycu eraill sydd gan Cai?
4. Argymhellwch y dull mwyaf priodol o fenthycu ar gyfer Cai a'i sefyllfa.
5. Argymhellwch i Cai sut gallai leihau'r balans ar ei gerdyn credyd.

DATBLYGU'CH
GWYBODAETH

BENTHYCA MORGAIS

Bydd gan y rhan fwyaf o bobl sy'n prynu eu cartref forgais ad-dalu. Mae ad-daliadau misol yn cael eu gwneud, sy'n mynd tuag at glirio rhywfaint o'r benthyciad gwreiddiol, yn ogystal â thalu rhywfaint o'r llog sy'n ddyledus arno. Mae tri phrif fath o forgais ad-dalu:

- Morgais cyfradd sefydlog:**
Mae'r gyfradd llog yn aros yr un peth am nifer benodol o flynyddoedd, felly byddwch yn gwybod faint yn union y bydd eich ad-daliadau misol yn ystod y cyfnod hwnnw. Os bydd cyfraddau llog yn codi, byddwch yn elwa oherwydd ni fydd eich ad-daliadau'n cynyddu; ond, yn yr un modd, byddwch yn colli unrhyw arbedion y gallech eu gwneud os bydd y gyfradd yn mynd i lawr.
- Morgais cyfradd amrywiol:**
Mae'r gyfradd llog yn newid yn unol â symudiad cyfraddau llog, felly fe allech fod yn talu symiau gwahanol bob mis – weithiau llai, weithiau mwy. Fe allai hyn fod o fantais i chi, ond fe allai cyllidebu fod yn fwy anodd o ganlyniad.
- Morgais tracio:**
Mae'r morgais hwn yn tracio neu'n symud yn unol â chyfradd llog wedi'i datgan (cyfradd sylfaenol Banc Lloegr, fel arfer).

Bydd y gwahanol gyfraddau llog a godir yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau sydd i'w gwneud am gael morgais. Yn 2020, y cyfraddau cyfartalog oedd: 1.66% (5 mlynedd sefydlog), 2.5% (2 flynedd amrywiol) a 2.32% (tracio, cyfartaledd 2019).

I weld sut mae ad-daliadau'n cael eu gwneud, edrychwch ar yr enghraifft ganlynol. Ar gyfer tŷ sy'n costio £160,000 (pris cyfartalog tŷ yng Nghymru ar hyn o bryd), byddai angen i chi ddod o hyd i flaendal o 5% yn nodweddiadol (£8,000). Felly, byddai angen benthyciad o £152,000. Os oedd y morgais am dymor o 25 mlynedd ac roedd y gyfradd llog yn sefydlog ar 1.66%, fe allai eich atodlen* edrych fel hyn:

BLWYDDYN	SWM Y BENTHYCIAD SY'N WEDDILL	LLOG A GODWYD	PRIFSWM A DALWYD	BALANS CAU
1	£152,000.00	£2,485.67	£4,947.08	£147,052.92
5	£131,709.62	£2,146.28	£5,286.48	£126,423.14
10	£104,378.05	£1,689.11	£5,743.65	£98,634.40
15	£74,682.87	£1,192.40	£6,240.36	£68,442.51
20	£42,419.66	£652.74	£6,780.02	£35,639.64
25	£7,366.35	£66.40	£7,365.50	£0.00

**Dim ond rhai blynyddoedd a ddangosir*

Cyfanswm y llog sydd i'w dalu ar y benthyciad fydd **£33,818.89**.

1. Ydych chi'n gallu gweld beth sy'n digwydd gyda'r ffigurau yn y colofnau llog a godwyd a phrifswm a dalwyd, a pham?
2. Nawr, cyfrifwch y taliad llog misol cyfartalog.
3. Defnyddiwch y ffigurau i lunio graff neu siart sy'n dangos y berthynas rhwng y prifswm a dalwyd, a'r llog a godwyd, dros dymor 25 mlynedd y morgais.

CREDYD COST UCHEL

Bu llawer o bryder ym myd economeg a gwleidyddiaeth am faterion yn ymwneud â chredyd cost uchel a'r effaith mae'n ei chael ar gymdeithas, yn enwedig ar bobl a allai fod wedi'u hallgáu yn ariannol fel arall.

Darllenwch destun araith a roddwyd gan Andrew Bailey, Prif Weithredwr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ym mis Mai 2018 am effaith credyd cost uchel. Gallwch ddod o hyd iddo yn: www.fca.org.uk/news/speeches/high-cost-credit-what-next

Lluniwch 10 pwynt bwled sy'n manylu ar brif bwyntiau'r araith.



GWNEUD DEWISIADAU BENTHYCA

Dyma rai benthycwyr y mae angen iddynt wneud dewisiadau. Cymharwch y bargeinion maen nhw'n eu hystyried trwy gwblhau tabl fel yr enghraifft a ddangoswyd ar gyfer pob un. Beth fydddech chi'n ei gynghori ym mhob achos?

1. Mae Tesni, sy'n 19 oed, eisiau £450 i brynu'r consol gemau drud diweddaraf. Byddai'n cymryd llawer mwy o amser nag yr hoffai i gynilo'r arian ac mae'r sêl hyrwyddo mae hi wedi'i gweld yn dod i ben ymhen ychydig ddiwrnodau. Mae ganddi ryw faint o arian wedi'i roi o'r neilltu, felly mae hi'n hyderus y gall dalu popeth yn ôl o fewn blwyddyn. Dyma ei hopsiynau:

- a) Defnyddio ei gorddrafft banc a drefnwyd o flaen llaw sy'n codi APR o 18%.
- b) Gwneud cais am fenthyciad gan undeb credyd sy'n codi APR o 12%.

- c) Defnyddio ei cherdyn siop ar APR o 24%. Bydd hyn yn rhoi pwyntiau gwobrwyd iddi i'w defnyddio wrth brynu pethau yn y dyfodol.

	AD-DALIAD MISOL	CYFANSWM LLOG	CYFANSWM COST Y BENTHYCIAD
a			
b			
c			

- ch) A oes unrhyw opsiynau eraill y gallai Tesni ddymuno eu hystyried?

BENTHYCA

DATBLYGU'CH GWYBODAETH

2. Mae Alun, sy'n 25 oed, yn rhiant sengl i efeilliaid ac mae angen peiriant golchi/sychu newydd arno ar frys i fodloni'r galw am ddillad glân. Bydd hyn yn costio £500. Ond mae'n anodd iddo gael deupen llinyn ynghyd fel y mae; trwy dorri'n ôl a siopa'n ddoeth fe all ddod o hyd i £30 y mis o'i gyllideb, fwy na thebyg. Mae ei sgôr credyd yn debygol o fod yn isel, ond nid yw erioed wedi gwirio, ac mae'n tybio y bydd ei opsiynau benthycu'n gyfyngedig iawn. Dyma ei opsiynau:

- a) Prynu trwy gatalog dros 36 mis ar APR o 44.9%. Mae opsiwn prynu nawr, talu'n hwyrach gyda dim llog am 12 mis.
- b) Benthyciad diwrnod cyflog 6 mis ag APR o 750%.
- c) Benthyciwr stepen drws sy'n codi'r hyn sy'n cyfateb i APR o 1,200% am fenthyciad 18 mis; mae'r ad-daliadau wedi'u gohirio am y 3 mis cyntaf.

	AD-DALIAD MISOL	CYFANSWM LLOG	CYFANSWM COST Y BENTHYCIAD
a			
b			
c			

ch) A oes unrhyw opsiynau eraill y gallai Alun ddymuno eu hystyried?

3. Mae Faisal yn 22 oed ac yn gweithio mewn swyddfa fel hyfforddai. Er ei fod yn ennill yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar hyn o bryd, bydd hyn yn cynyddu'n sylweddol pan fydd yn cymhwyso. Yr unig beth mawr sy'n rhoi pleser iddo mewn bywyd yw gwyllo'r teledu, ac oherwydd bod hyn yn ei helpu i aros i mewn ac arbed arian, mae'n ei ystyried yn fuddsoddiad da. Hoffai gael model 4k 'Ultra HD' newydd, felly mae eisiau benthycu £3,500 ar hyd tua 3 blynedd i helpu i dalu amdano. Mae wedi cyfrifo y gall fforddio talu'n ôl £110 y mis. Dyma ei opsiynau:

- a) Cael cytundeb credyd hurbwrcasu 3 blynedd gan y cwmni y mae eisiau prynu'r teledu ganddo. Yr APR yw 16.5%.
- b) Cael benthyciad banc (3 blynedd hefyd). Yr APR yw 9.75%.
- c) Rhoi'r arian sy'n ofynnol ar ei gerdyn credyd. Yr APR yw 15.9%.

	AD-DALIAD MISOL	CYFANSWM LLOG	CYFANSWM COST Y BENTHYCIAD
a			
b			
c			

ch) A oes unrhyw opsiynau eraill y gallai Faisal ddymuno eu hystyried?



SYMUD YMLAEN O'R YSGOL – BYD GWAITH

BETH YW'R PENDERFYNIADAU ARIANNOL MAWR Y BYDD ANGEN I MI EU GWNEUD?


Yn y bennod hon, byddwch yn archwilio rhai o'r materion a'r penderfyniadau ariannol y gallech eu hwynebu wrth i chi symud ymlaen o addysg amser llawn.

Mae'r rhain yn cynnwys deall y ffyrdd y mae pobl yn cael eu talu am waith, yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol, goblygiadau ariannol mynd i'r brifysgol, a gwneud cynlluniau ar gyfer eich ymddeoliad.



A WYDDOCH CHI?

Yn ôl astudiaeth gan Brifysgol Rhydychen, bydd bron 50% o'r swyddi sy'n bodoli heddiw yn gwbl ddiangen ymhen saith mlynedd.



CAMAU NESAF AR ÔL YR YSGOL

Pan fyddwch yn gadael yr ysgol neu'r coleg, mae tri phrif opsiwn ar gael i chi:



1. DECHRAU PRENTISIAETH

Mae prentisiaeth yn cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio. Fel prentis, byddwch yn:

- Gweithio ochr yn ochr â staff profiadol.
- Ennill sgiliau sy'n benodol i'r swydd.
- Ennill cyflog a chael tâl gwyliau.
- Cael amser i astudio sy'n gysylltiedig â'ch rôl (un diwrnod yr wythnos, fel arfer).

Gall prentisiaethau gymryd rhwng 1 a 5 mlynedd i'w cwblhau, yn dibynnu ar eu lefel (mae prentisiaethau lefel canolradd, datblygedig, uwch a gradd ar gael).

Os byddwch yn dilyn prentisiaeth, cewch eich talu amdani. Yr isafswm y byddwch yn ei gael fydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer prentisiaid (sef £4.30 yr awr o fis Ebrill 2021 ymlaen). Ond bydd rhai cyflogwyr yn talu mwy.

Bydd gennych hawl i gael o leiaf 20 niwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn hefyd, yn ogystal â gwyliau banc.



GWEITHGAREDD

1. Yr wythnos waith gyfartalog yng Nghymru yw 37.5 awr. Beth yw'r isafswm y gall prentis ei ennill yr wythnos?
2. A oes unrhyw gostau y gallwch feddwl amdanynt y gallai fod rhaid i chi eu talu?



2. CYFLOGAETH

Mae amrywiaeth eang o waith ar gael i'r rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg. Mae'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gael i'r rhai sy'n dechrau gweithio'n syth ar ôl yr ysgol neu'r coleg hefyd. Mae hyn yn amrywio yn ôl eich oedran, ac mae'r cyfraddau'n newid bob mis Ebrill. Ar gyfer 2021, y gyfradd yw:

Iau na 18 oed – £4.62 yr awr

18-20 oed – £6.56 yr awr

21-22 oed – £8.36 yr awr

23 oed a hŷn – £8.91 yr awr

Mae'r teitl Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn disgrifio beth ydyw – yr isafswm y gall cyflogwr ei dalu. Gall cyflogwyr ddewis talu mwy na hyn, ond mae'n rhaid iddynt dalu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o leiaf sy'n cyfateb i oedran yr unigolyn maen nhw'n ei gyflogi. Mae'r swm y mae cyflogwyr yn ei dalu yn cael ei bennu gan nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Lefel y cyfrifoldeb yn y rôl.
- Y sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni'r rôl.
- Faint o brofiad maen nhw'n chwilio amdano.

Os dewiswch weithio i chi'ch hun (bod yn hunangyflogedig), nid yw'r isafswm cyflog yn berthnasol.

Ffyrdd y gallwch gael eich talu

Mae pobl yn cael eu talu am y gwaith maen nhw'n ei wneud mewn nifer o wahanol ffyrdd:

- **Cyflog** – Swm penodol o arian sy'n cael ei dalu unwaith y mis. Mae wedi'i seilio ar swm cytunedig y byddech yn ei ennill mewn blwyddyn.
- **Cyfradd fesul awr** – Telir swm penodol i chi am bob awr rydych yn ei gweithio. Po fwyaf o oriau rydych yn eu gweithio, y mwyaf rydych yn cael eich talu. Mae'n cael ei dalu i chi'n wythnosol neu'n fisol, fel arfer.
- **Gwaith fesul darn** – Telir swm penodol i chi am bob uned rydych yn ei chynhyrchu (e.e. casglu bocys llawn o fafon). Po fwyaf o unedau rydych yn eu cynhyrchu, y mwyaf rydych yn cael eich talu. Gellir ei dalu'n ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol.
- **Comisiwn** – Mae hyn yn aml yn gysylltiedig â chyflog mewn swyddi gwerthu. Er enghraifft, fe allech gael cyfran o'r gwerthiannau rydych yn eu gwneud. Mae'n cael ei dalu'n ychwanegol at gyflog misol.

Byddwch yn archwilio hyd yn oed mwy o ffyrdd o gael eich talu yn ddiweddarach yn y bennod.



Yr economi "gig"

Mae'r term economi gig yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r duedd gynyddol tuag at gcontractau tymor byr o gymharu â chyflogaeth barhaol. Mae llawer o bobl sy'n ymwneud â'r math hwn o waith yn hunangyflogedig mewn gwirionedd – maen nhw'n gweithio iddyn nhw eu hunain yn hytrach na chael eu cyflogi'n uniongyrchol gan sefydliad. Mae gweithwyr yn cael tâl am bob "gig" maen nhw'n ei gwblhau, er enghraifft darparu gwasanaethau cludwr neu ddanfôn bwyd.

Gwahanol fathau o gcontractau cyflogaeth

Mae nifer o wahanol ffyrdd o gael eich cyflogi yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- **Amser llawn** – Mae gweithwyr amser llawn, sydd fel arfer yn gweithio 35 awr neu fwy yr wythnos, yn cael contract cyflogaeth a buddion fel tâl gwyliau, tâl salwch a chyfleoedd pensiwn.
- **Rhan-amser** – Mae'r gweithwyr hyn yn gweithio llai o oriau na gweithwyr amser llawn, fel arfer, ond yn cael yr un driniaeth a buddion (er y gallai'r rhain fod yn gymesur â nifer yr oriau a weithir yr wythnos).
- **Contract tymor byr** – Gall fod ar sail amser llawn neu ran-amser, ond mae am gyfnod penodol yn unig.
- **Contractau dim oriau** – Contractau achlysurol yw'r rhain nad ydynt yn cynnig sicrwydd o waith. Yn aml, maen nhw'n fuddiol i gyflogwyr sydd angen staff ar fyr rybudd i fodloni angen dros dro neu uwch, ac fe allant fod yn fuddiol i weithwyr oherwydd gallent ganiatáu iddynt weithio'n hyblyg o amgylch ymrwymadau eraill. Mae gan bobl sydd ar gcontractau dim oriau yr hawl i gael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a thâl gwyliau. Fodd bynnag, gan nad oes sicrwydd o waith, ac felly incwm, gall contractau dim oriau olygu bod cyllidebu a chynllunio'ch cyllid yn anodd iawn, gan nad ydych chi gwybod beth fydd eich incwm o un mis i'r llall.



A WYDDOCH CHI?

Yn ôl Prifysgol Swydd Hertford, mae 9.6% o'r boblogaeth oedolion yn y Deyrnas Unedig wedi gweithio yn yr economi gig – mae hynny'n gyfystyr â bron 5 miliwn o bobl.



GWEITHGAREDD

1. Faint byddai rhywun 19 oed ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn ei ennill dros wythnos 37.5 awr? Beth am rywun 28 oed?
2. Cyfrifwch faint byddai'r ddau unigolyn uchod yn ei ennill mewn blwyddyn (awgrym: mae 52 wythnos mewn blwyddyn).



CWESTIYNAU

1. Pa fathau o gontractau cyflogaeth sy'n rhoi'r amddiffyniad gorau i weithwyr yn y Deyrnas Unedig?
2. Yn eich barn chi, beth yw manteision a goblygiadau gweithio yn yr economi gig?



A WYDDOCH CHI?

Mae dros 30% o bobl 18 oed yn y Deyrnas Unedig yn mynd i'r brifysgol, ac erbyn 30 oed mae'r ganran yn cynyddu i bron 50%.

Ffynhonnell: www.theguardian.com



3. MYND I'R BRIFYSGOL

Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau prifysgol yn para 3 blynedd, pryd y gallech fod yn astudio am radd. Mae costau'n gysylltiedig â mynd i'r brifysgol, fel treuliau llety a byw, a chost y cwrs ei hun – sef y ffi dysgu. Bydd rhaid i bob myfyrwr yng Nghymru dalu ffioedd dysgu, ni waeth ble mae'n mynd i'r brifysgol. Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cael benthyciad myfyrwyr i dalu am y

costau hyn. Byddwn yn dysgu llawer mwy am y rhain yn ddiweddarach yn y bennod, ond mae benthyciadau myfyrwyr yn ffordd o helpu i dalu am gostau'r brifysgol ac yna'n cael eu had-dalu yn unol â'ch incwm pan fyddwch yn cael swydd.

- Ar gyfer blwyddyn 2021/22, yr uchafswm ffi dysgu, os byddwch yn astudio mewn prifysgol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, yw £9,250 y flwyddyn.
- Os byddwch yn dewis astudio mewn prifysgol yng Nghymru, yr uchafswm ffi dysgu yw £9,000 y flwyddyn.
- Mae costau byw, fel llety, bwyd, dillad, llyfrau astudio, teithio a mynd allan, yn amrywio yn ôl y rhan o'r wlad lle'r ydych yn mynd i'r brifysgol. Amcangyfrifod bod y gost gyfartalog yn y Deyrnas Unedig tua £230 yr wythnos.

Er bod costau'n gysylltiedig â mynd i'r brifysgol, mae llawer o fyfyrwyr yn gobeithio y bydd y cymhwyster y byddant yn ei gael yn eu galluogi i ymuno â'r yrfa o'u dewis ac, o bosibl, ar lefel incwm uwch.



GWEITHGAREDD

1. Petai prifysgol yng Nghymru yn codi'r uchafswm ffi dysgu am radd 3 blynedd, beth fyddai cyfanswm y ffi dysgu, yn seiliedig ar flwyddyn 2021/22?
2. Mae blwyddyn brifysgol gyfartalog wedi'i seilio ar 40 wythnos. Faint yw cost byw ar gyfartaledd ar gyfer gradd 3 blynedd?

Cyllid myfyrwyr

Rydym wedi gweld bod rhaid i bobl sydd eisiau mynd i'r brifysgol dalu costau, ond mae cymorth ariannol ar gael hefyd ar ffurf benthyciadau myfyrwyr.

Benthyciadau myfyrwyr

Os penderfynwch fynd i'r brifysgol, gallwch wneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru (SFW) am Fenthyciad Ffioedd Dysgu. Bydd SFW yn talu'r ffioedd yn uniongyrchol i'r brifysgol.

Yn ogystal â'r benthyciad y mae ei angen i dalu'r ffioedd dysgu, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr hefyd yn gwneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (WGLG) i dalu am eu costau byw o ddydd i ddydd, fel costau llety, bwyd, trafniadaeth, ffôn a gliniadur. Bydd SFW yn talu'r Benthyciad Cynhaliaeth a WGLG yn uniongyrchol i chi.

Pan fyddwch wedi cael benthyciad, caiff ei weinyddu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC). Maen nhw'n rheoli'r holl fenthyciadau myfyrwyr, ni waeth ble yn y Deyrnas Unedig rydych yn mynd i'r brifysgol. Yna, bydd yr arian yn ddyledus gennych i'r SLC, ond ni fydd rhaid i chi ei dalu'n ôl nes i chi adael y brifysgol, cael swydd ac ennill mwy na lefel benodol. Mae hyn yn berthnasol i'r Benthyciad Ffi Dysgu a'r Benthyciad Cynhaliaeth. Yn wahanol i fenthyciad, nid oes angen i WGLG gael ei ad-dalu.

Mae'r uchafswm y gallwch ei gael gan WGLG a'i fenthycia trwy Fenthyciad Cynhaliaeth yn dibynnu ar faint mae eich rhieni/gofalwyr yn ei ennill (incwm yr aelwyd). Wrth i incwm aelwyd gynyddu, bydd swm y grant y gallwch ei gael yn lleihau a bydd angen i chi ychwanegu ato gyda Benthyciad Cynhaliaeth. Os oeddech yn byw oddi cartref ac yn astudio y tu allan i Lundain, y grant mwyaf y bydddech wedi gallu ei gael yn 2021/22 oedd £8,100. Yna, gallai hyn fod wedi cael ei gyfuno â Benthyciad Cynhaliaeth o £2,250 i roi cyfanswm o £10,350 i'ch helpu gyda'ch costau byw. Wrth i incwm aelwyd gynyddu, mae'r grant y gallwch ei gael yn gostwng i isafswm o £1,000, y gellir ei ychwanegu at fenthyciad mwyaf o £9,350, gan roi'r un cyfanswm o £10,350 i helpu gyda chostau byw. Mae symiau'r grant a'r benthyciad sydd ar gael yn newid hefyd yn dibynnu ar b'un a ydych yn byw gartref, a ph'un a ydych yn astudio yn Llundain ai peidio.

Mae'r Benthyciad Cynhaliaeth a'r grant yn cael eu rhannu'n dri thaliad, sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ddechrau pob tymor.

Felly, yn wahanol i ffioedd dysgu, chi sy'n rheoli sut mae'ch Benthyciad Cynhaliaeth a'ch grant yn cael eu defnyddio.

Petaech chi'n gwneud cwrs prifysgol 3 blynedd yng Nghymru tra oeddech yn byw oddi cartref, ac yn benthycia'r uchafswm Benthyciad Cynhaliaeth bob blwyddyn, ar ddiwedd y cwrs, y swm y byddai'n ddyledus gennych i'r SLC fyddai tua:

£27,000 Benthyciad Ffioedd Dysgu (3 x **£9,000**)

+

£28,050 Benthyciad Cynhaliaeth (3 x **£9,350**)

£55,050 Cyfanswm Benthyciadau

Os dewiswch chi wneud cwrs 4 blynedd, byddai'r ffigurau hyn yn cynyddu.

Mae hynny'n swnio fel dyled fawr, ond mae'n bwysig iawn cadw'r darlun llawn mewn cof o ran pryd a faint y bydd rhaid i chi ei ad-dalu:

1. Byddwch yn dechrau ad-dalu unrhyw fenthyciadau dim ond pan fyddwch wedi gadael y brifysgol a chael swydd sy'n ennill dros swm penodol.

2. Byddwch yn ad-dalu dim ond pan fyddwch, neu am gyn hired ag y byddwch, yn ennill mwy na £27,295 y flwyddyn (dyma'r trothwy ar gyfer 2021/22).

Byddwch yn ad-dalu 9% o unrhyw beth y byddwch yn ei ennill dros £27,295. Felly, os byddwch yn ennill £30,000 y flwyddyn, bydddech yn talu'n ôl 9% o £2,705. Mae hynny'n £243.45 y flwyddyn. Os bydd eich incwm yn mynd yn is na £27,295, bydd eich ad-daliadau'n stopio ac ni fyddant yn ailgychwyn nes i chi ennill dros £27,295.

Sylwch fod y trothwy enillion yn tueddu i gynyddu bob blwyddyn, sy'n gwneud y swm y gallwch ei ennill cyn dechrau gwneud ad-daliadau ychydig yn uwch. Mae hyn yn cyfrif am effaith chwyddiant – cost gynyddol nwyddau a gwasanaethau o un flwyddyn i'r llall.

3. Ar ôl 30 mlynedd, mae'r holl ddyled sy'n weddill yn cael ei dileu.

Os bydd unrhyw arian yn dal i fod yn ddyledus gennych o'ch benthyciad myfyrwyr ar ôl 30 mlynedd (o'r mis Ebrill ar ôl graddio), bydd y ddyled yn cael ei chanslo. Os na fyddwch byth yn cael swydd sy'n ennill dros y trothwy, mae hynny'n golygu na fyddwch wedi ad-dalu ceiniog. Os bydd gennych £20,000 yn ddyledus o hyd ar ôl 30 mlynedd, bydd y ddyled yn cael ei chanslo, ac ni fydd gennych unrhyw arian yn ddyledus.

4. Mae ad-daliadau'r benthyciad yn cael eu gwneud yn awtomatig.

Mae'r holl fenthyciadau myfyrwyr ers 1998 wedi cael eu had-dalu trwy'r gyflogres – mae hyn yn golygu pan fyddwch yn gweithio, bydd eich cyflogwr yn didynnu'r ad-daliadau o'ch cyflog cyn i chi ei gael (byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach nes ymlaen). Byddan nhw wedi'u didynnu eisoes o'r swm a gewch yn eich cyfrif banc bob mis. Felly, does dim angen i chi boeni am drefnu sut i dalu'r ddyled – caiff ei thalu'n awtomatig.

5. NID yw benthyciadau myfyrwyr yn mynd ar ffeiliau credyd.

Pan fyddwch yn benthycu o fanc ar gyfer cerdyn credyd, benthyciad neu forgais, mae benthycwyr yn edrych ar dri darn o wybodaeth cyn penderfynu p'un ai i roi'r benthyciad i chi ai peidio: eich ffurflen gais; unrhyw ymwneud blaenorol gyda chi; ac, yn hollbwysig, y wybodaeth ar eich ffeiliau gwirio credyd.

Bydd eich hanes credyd wedi'i restru ar y ffeiliau hyn – ond ni fydd eich benthyciadau myfyrwyr wedi'u cynnwys. Mae hyn yn golygu na fydd yr arian sy'n ddyledus gennych ar fenthyciad myfyriwr yn effeithio ar ba mor deilwng ydych o gael credyd.

Llog ar fenthyciadau myfyrwyr

Yn yr un modd â mathau eraill o fenthycu, mae llog yn cael ei ychwanegu at fenthyciadau myfyrwyr a bydd yn cael ei ystyried pan fydd eich ad-daliadau'n cael eu cyfrifo. I gael gwybod mwy am effaith llog ar fenthycu, edrychwch ar y bennod 'Benthycu'.



A WYDDOCH CHI?

Mae'r ffordd y mae benthyciadau myfyrwyr yn gweithio yn wahanol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer myfyriwr yng Nghymru.



TRAFODAETH

Oherwydd y ffordd mae benthyciadau myfyrwyr yn cael eu had-dalu, gellid dadlau eu bod yn debycach i dreth ar raddedigion nag ad-daliad benthyciad. Beth yw'ch barn chi?



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Syrah yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gwrs gradd 3 blynedd. Ar ôl 3 wythnos o'i chwrs, mae hi wedi sylwi bod ei grant a'i benthyciad cynhaliaeth yn cael eu gwario'n gyflymach nag yr oedd yn disgwyl. Roedd incwm isel ei rhieni'n caniatáu iddi gael grant llawn ac ychwanegwyd ato gan fenthyciad cynhaliaeth. Ar ddechrau'r tymor, roedd cyfanswm o £3,450 wedi'i dalu i'w chyfrif banc. Mae'r tymor cyntaf yn para 12 wythnos.

Gan ei bod yn ei blwyddyn gyntaf, mae Syrah yn byw mewn neuadd breswyl. Roedd hyn yn costio £1,440 ar gyfer y tymor, a bu'n rhaid ei dalu yn yr wythnos gyntaf. Mae hi wedi edrych ar ei holl dreuliau hyd yma a chyfrifo ei bod wedi gwario'r canlynol ar ôl 3 wythnos:

Bwyd a diod	£120
Dillad	£60
Trafnidiaeth	£54
Ffôn symudol	£36
Golchi dillad	£30
Llyfrau	£60
Cymdeithasu	£105
Yswiriant	£36
Aelodaeth gampfa	£6

Cyfanswm ei gwariant dros 3 wythnos yw £507

I helpu Syrah i gadw golwg ar ei gwariant, paratowch gyllideb wythnosol iddi.

Pa gyngor y byddech chi'n ei roi i Syrah i'w helpu i reoli ei harian?



BWRSARIAETHAU MYFYRWYR, GRANTIAU AC YSGOLORIAETHAU

Yn ogystal â'r benthyciadau myfyrwyr sydd ar gael gan SFW, mae'n bwysig iawn archwilio ffynonellau posibl eraill o incwm.

Mae llawer o brifysgolion yn cynnig bwrsariaethau, sef dyfarniadau arian parod fel arfer – e.e. £1,000. Nid oes angen ad-dalu'r rhain ac maen nhw ar gael i helpu myfyrwyr sy'n dod o aelwyd ag incwm isel.

Mae ysgoloriaeth yn ddyfarniad arian parod hefyd yn aml, ond fe'i rhoddir i fyfyrwyr sy'n gwneud yn arbennig o dda yn eu harholiadau cyn mynd i'r brifysgol neu'r coleg. Gallai'r ysgoloriaeth gael ei dyfarnu gan y brifysgol neu gwmni ac fe allai dalu'r ffioedd dysgu ar gyfer cwrs yn llawn neu'n rhannol.

Mae rhai prifysgolion yn cynnig grantiau hefyd. Unwaith eto, dyfarniad arian parod yw hwn nad oes rhaid i chi ei ad-dalu. Fel arfer, caiff ei roi am ddiben penodol iawn, fel astudio dramor neu wneud gwaith ymchwil sy'n costio ychydig o arian.

Os ydych yn fyfyrwr ag anhawster dysgu, problem iechyd neu anabledd, efallai y gallwch hawlio'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl i dalu am rai o'r costau ychwanegol i gefnogi'ch anghenion ychwanegol. Nid oes rhaid ad-dalu hwn.

Mae rhai cyrsiau gradd yn denu bwrsariaethau, grantiau ac ysgoloriaethau penodol oherwydd bod angen i fwy o bobl gymhwyso ynddynt er mwyn yr economi. Enghraifft dda yw os oeddech eisiau bod yn athro mathemateg – mae cyllid ychwanegol ar gael oherwydd bod prinder athrawon mathemateg. Mae rhai prifysgolion yng Nghymru yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig a fydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n rhaid gwneud cais am yr holl gyllid ychwanegol hwn, felly mae'n bwysig iawn i ddarpar fyfyrwyr wneud ymchwil a sicrhau nad ydynt yn colli'r cyfle i gael arian a allai eu helpu tra byddant yn y coleg neu'r brifysgol.

Fe allech hefyd wneud gwaith rhan-amser tra byddwch yn y brifysgol i gynhyrchu incwm ychwanegol. Ond, byddai angen i chi wneud yn siŵr nad yw'n effeithio ar eich astudiaethau.

ENILLION

P'un a ydych yn mynd yn syth i weithio o'r ysgol, yn dilyn prentisiaeth, neu'n mynd i'r brifysgol, byddwch yn disgwyl ennill rhywfaint o arian am y swydd y byddwch yn ei gwneud yn y pen draw.

Fe allech feddwl ei bod yn hawdd cyfrifo faint yn union y byddwch yn cael eich talu am y gwaith a wnewch, ond nid yw bob amser mor syml ag y tybiwch. Mae nifer o bethau'n cael eu didynnu o'r swm rydych yn ei ennill cyn i chi ei gael – dydych chi ddim bob amser yn cael mynd â'r cyfan rydych yn ei ennill adref. Gelwir y rhain yn ddidyniadau.

Dyma'r prif ddidyniadau y byddwch yn dod ar eu traws:

- Treth Incwm – treth wedi'i seilio ar eich ennillion.
- Yswiriant Gwladol – treth ar ennillion i helpu i dalu am fudd-daliadau'r wladwriaeth fel pensiwn y wladwriaeth a thâl salwch.
- Cyfraniad pensiwn – mae hwn yn aml yn cael ei dalu gan y cyflogwr a'r cyflogai i gronni pot pensiwn ar gyfer eich ymddeoliad.
- Ad-daliad benthyciad myfyrwr – talu'n ôl yr arian a fenthycwyd gennych (yn ogystal â llog), ond dim ond os ydych yn ennill mwy na'r trothwy.

Pan fyddwch yn cael eich cyflog o'ch swydd, byddwch yn cael slip cyflog hefyd, fwy na thebyg. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth amdanoch chi a'ch ennillion. Bydd eich slip cyflog hefyd yn dangos eich holl ddidyniadau.



A WYDDOCH CHI?

Yn ôl data swyddogol llywodraeth y Deyrnas Unedig, casglwyd £196 biliwn o daliadau Treth Incwm yn 2019-20, sef £5 biliwn yn fwy na'r flwyddyn gynt.

Edrychwch ar y slip cyflog ar gyfer Sam Green, sy'n uwch steiliwr mewn cadwyn genedlaethol o siopau trin gwallt.

DYDDIAD	CYFLOGWR		CYFLOGAI	
30/06/2021	Salon Gwallt Brwshys		S Green	
ADRAN	RHIF YG	COD TRETH	DULL TALU	CYFNOD
Trin Gwallt	YX542789	C1257L	BACS	Mis 3
DISGRIFIAD	UNEDAU SY'N DDYLEDUS	DIDYNIADAU	CYFANSYMAU HYD YMA	
Cyflog Sylfaenol		Treth 99.25 NI 99.36 Pensiwn 81.25	Cyfanswm Cyflog Gros	4,875.00
			Cyflog Trethadwy	1,488.75
			Treth a Dalwyd	297.75
			YG y Cyflogai	298.08
			YG y Cyflogwr	367.63
			Pensiwn y Cyflogai	243.75
			Pensiwn y Cyflogwr	146.25
ORIAU	CYFLOG GROS	DIDYNIADAU	CYFLOG NET	
37.5 awr yr wythnos safonol	1,625.00	279.86	1,345.14	



TRAFODAETH

Cyn darllen mwy am slipiau cyflog, beth ydych chi eisoes yn ei wybod?

- Beth yw enw'r dreth y gallwch ei gweld ar y slip cyflog yn y golofn didyniadau?
- Beth mae YG yn ei olygu?
- Pam mae hwn yn Fis 3?
- Beth yw arwyddocâd y rhifau yn y cod treth?
- Faint o gyflog mae Sam yn mynd ag ef adref?



ESBONIO SLIPIAU CYFLOG

Didyniadau

Ar y slip talu, fe allwch weld y bydd y symiau ar gyfer Treth Incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG), a phensiwn yn cael eu didynnu o'ch cyflog gros. Didyniadau gorfodol yw'r rhain oherwydd bod rhaid i chi eu talu.

Os ydych wedi benthycu arian i fynd i'r brifysgol ac yn ennill mwy na'r trothwy incwm, efallai y bydd ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn cael eu didynnu o'ch cyflog gros hefyd.

Treth Incwm

Mae pawb yn cael ennill rhywfaint o arian cyn dechrau talu Treth Incwm.

Yr enw ar hyn yw eich Lwfans Treth Personol ac mae'n cael ei osod gan y llywodraeth bob blwyddyn. Er enghraifft, yn 2021/22, y swm yw £12,570 y flwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o bobl. Yr incwm rydych yn ei ennill dros ben eich lwfans treth personol yw eich incwm trethadwy.

Pan fydd eich incwm yn mynd yn fwy na'r lwfans hwn, byddwch yn talu Treth Incwm.

Bydd yn dechrau ar

20%

ar unrhyw beth rydych yn ei
ennill yn uwch na **£12,570**
hyd at **£50,270**

Mae unrhyw incwm blyneddol
sy'n uwch na **£50,270** yn cael
ei drethu ar

40%

hyd at **£150,000**

Mae unrhyw incwm blyneddol
sy'n uwch na **£150,000** yn
cael ei drethu ar

45%

Mae hyn yn golygu nad yw pobl sy'n ennill yr incwm isaf yn talu unrhyw Dreth Incwm o gwbl, ond po fwyaf rydych yn ei ennill, y mwyaf o Dreth Incwm rydych yn ei dalu (er y byddwch yn mynd â mwy o gyflog adref po fwyaf rydych yn ei ennill hefyd!).

Enghreifftiau ymarferol

Byddwn yn tybio'r ffigurau canlynol ar gyfer 2021/22:

Lwfans Treth Personol – **£12,570**

Cyfradd Dreth Sylfaenol – **20%** ar eich **£37,700** cyntaf o incwm trethadwy (o **£12,570** i **£50,270**)

Cyfradd Dreth Uwch – **40%** ar incwm trethadwy o **£50,270** i **£150,000**

- 1** Glanhäwr sy'n ennill £15,000 y flwyddyn
– faint o Dreth Incwm mae'n ei dalu?

Mae'r glanhäwr yn talu £486 o Dreth
Incwm y flwyddyn (ychydig dros £40 y
mis). Mae hyn yn 3.24% o'i incwm

	Incwm (£)	Cyfradd dreth (%)	Treth a dalwyd (£)
	12,570	0	0
	2,430	20	486
Cyfanswm	15,000		486

- 2** Gyrrwr lorri sy'n ennill £30,000 y flwyddyn
– faint o Dreth Incwm mae'n ei dalu?

Mae'r gyrrwr lorri'n talu £3,486 o Dreth
Incwm y flwyddyn (ychydig dros £290 y
mis). Mae hyn yn 11.62% o'i incwm.

	Incwm (£)	Cyfradd dreth (%)	Treth a dalwyd (£)
	12,570	0	0
	17,430	20	3,486
Cyfanswm	30,000		3,486

- 3** Datblygwr meddalwedd sy'n ennill
£70,000 y flwyddyn – faint o Dreth Incwm
mae'n ei dalu?

Mae'r datblygwr meddalwedd yn talu
£15,432 o Dreth Incwm y flwyddyn
(ychydig yn llai na £1,290 y mis). Mae hyn
yn 22.05% o'i incwm.

	Incwm (£)	Cyfradd dreth (%)	Treth a dalwyd (£)
	12,570	0	0
	37,700	20	7,540
	19,730	40	7,892
Cyfanswm	70,000		15,432

Yn yr enghraifft olaf hon, fe allwch weld bod yr unigolyn yn talu rhywfaint o'i incwm ar y gyfradd dreth uwch. Sylwch mai dim ond **rhywfaint** o'i incwm ac nid y cyfan ohono sy'n cael ei drethu ar y gyfradd uwch o 40%, a bod ganddo'r hawl i gael y lwfans treth personol o hyd.



CWESTIYNAU

1. Beth yw'r enw ar y swm y cewch ei ennill cyn i chi ddechrau talu treth ar eich enillion?
2. Sut mae bandio treth yn ceisio sicrhau system dreth deg?
3. Beth a olygir gan y term "didyniadau" ar slip cyflog?

Cod Treth

Bydd eich Cod Treth yn dangos faint o incwm y cewch ei ennill cyn i chi ddechrau talu Treth Incwm – eich lwfans treth personol. Dyma'r 4 rhif cyntaf o'ch lwfans treth gyda llythyren ar eu hôl. Mae gan y rhan fwyaf o bobl y llythyren "L", sy'n dangos bod ganddynt lwfans treth sylfaenol. Yng Nghymru, bydd eich cod treth yn dechrau â'r llythyren C.

Chi sy'n gyfrifol am wirio bod y cod treth ar eich slip cyflog yn iawn. Os nad yw'n iawn, fe allech fod yn talu gormod o dreth a bydd angen i chi gael ad-daliad (sy'n golygu y bydd eich gordaliad yn cael ei dalu'n ôl i chi). Neu, efallai byddwch yn talu rhy ychydig a bydd angen i chi gysylltu â Chyllid a Thollau EM (HMRC) i'w gywiro. Gall hyn ddigwydd i fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhan-amser, felly gofalwch eich bod yn gwirio'ch cod treth, a chysylltwch â HMRC os ydych yn credu eich bod yn talu gormod o Dreth Incwm.

Gall unrhyw un o oedran gweithio, p'un a yw'n gyflogai neu'n hunangyflogedig, olrhain a rheoli ei gyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol gan ddefnyddio Porth y Llywodraeth ar-lein.



GWEITHGAREDD

Cyfrifwch faint o dreth y byddai'r canlynol yn ei thalu:

1. Llyfrgellydd rhan-amser sy'n ennill £11,000 y flwyddyn.
2. Peiriannydd sy'n ennill £55,000 y flwyddyn.
3. Plymiwr proffesiynol sy'n ennill £83,000 y flwyddyn.



A WYDDOCH CHI?

Os byddwch yn ychwanegu sero at y rhifau yn eich cod treth, bydd yn dangos i chi faint y cewch ei ennill cyn talu Treth Incwm. Er enghraifft, os oes gennych y cod C1257L, eich lwfans treth personol fydd £12,570.

Yswiriant Gwladol

Mae pawb yn cael eu rhif Yswiriant Gwladol ychydig cyn eu pen-blwydd yn 16 oed. Bydd yn aros gyda chi am oes. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae Yswiriant Gwladol yn cael ei dalu ar oddeutu 12% o'ch incwm. Yn 2021/22, mae terfyn enillion isaf o £9,568, ac ni fydd rhaid i chi dalu unrhyw Yswiriant Gwladol o gwbl islaw'r terfyn hwnnw. Mae trothwy uchaf o £50,270 hefyd, a byddwch yn talu 2% o'ch incwm yn unig uwchlaw'r trothwy hwn.

Mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn helpu i gynyddu eich hawl i gael budd-daliadau penodol, fel pensiwn y wladwriaeth, lwfans mamolaeth a chymorth ariannol os nad ydych yn gallu gweithio.

Mae'n rhaid i gyflogeion dalu Yswiriant Gwladol, ond mae'n rhaid i'ch cyflogwr ei dalu hefyd ar gyfer pob gweithiwr y mae'n ei gyflogi. Os edrychwch chi ar y slip cyflog enghreifftiol, fe welwch chi fod y symiau'n debyg ond bod y cyflogwr yn talu ychydig yn fwy bob mis.

Enghreifftiau ymarferol

Faint o Yswiriant Gwladol y byddai'r canlynol yn ei dalu?

- a) Nyrs newydd gymhwyso sy'n ennill £23,000 y flwyddyn

Ateb – O ran y £9,568 cyntaf o'i chyflog, yr Yswiriant Gwladol yw £0

Mae'n talu 12% ar y £13,432 sy'n weddill o'i chyflog

= £1,612 y flwyddyn (neu £134 y mis)

Nid yw'n ennill digon i gyrraedd y trothwy uchaf

b) Cyfreithiwr sy'n ennill £60,000 y flwyddyn

Ateb – O ran y £9,568 cyntaf o'i gyflog, yr Yswiriant Gwladol yw £0

Bydd yn talu 12% ar y £40,702 nesaf o'i gyflog
= £4,884 y flwyddyn

Bydd yn talu 2% ar y £9,730 terfynol o'i gyflog
= £195 y flwyddyn

Felly, bydd y cyfreithiwr yn talu cyfanswm o £4,884 + £195

= **£5,079 y flwyddyn (neu £423 y mis)**

Cyflog gros

Cyflog gros yw cyfanswm yr incwm rydych yn ei gael cyn i unrhyw ddidyniadau gael eu gwneud. Bydd cyflog gros bob amser yn uwch na chyflog net.

Yn y slip cyflog enghreifftiol, cafodd Sam gyflog sylfaenol ar ôl gweithio wythnos 37.5 awr safonol. Mae symiau eraill yn cael eu hychwanegu at y cyflog sylfaenol weithiau. Er enghraifft, os ydych yn gweithio oriau hwy na'r wythnos safonol, fe allech ennill taliad goramser. Hefyd, os ydych yn llwyddo i gyrraedd rhai targedau a osodwyd i chi, fe allech ennill taliad bonws.



GWEITHGAREDD

Cyfrifwch faint o Yswiriant Gwladol y byddech yn ei dalu petaech chi'n ennill:

- £10,000 y flwyddyn.
- £30,000 y flwyddyn.
- £100,000 y flwyddyn.



Cyflog net

Dyma'r cyflog sydd ar ôl gennych ar ôl i'ch didyniadau gael eu cymryd. Mae'n cael ei alw'n gyflog clir, weithiau. Mae'r holl ddidyniadau'n cael eu gwneud cyn i chi gael yr arian, fel nad oes rhaid i chi wneud unrhyw beth amdano. Enw'r system hon yw Talu Wrth Ennill (PAYE).

Cyfanswm didyniadau

Mae hyn yn rhoi cyfanswm yr holl ddidyniadau o'ch cyflog. Ar y slip cyflog enghreifftiol, fe welwch chi'r Cyfanswm Treth a Dalwyd, Cyfanswm YG y Cyflogai a Chyfanswm Pensiwn y Cyflogai.

Petaech chi'n gadael y sefydliad sy'n eich talu, dylech gael ffurflen P45. Byddai'r ffurflen hon yn cynnwys:

- Eich dyddiad gadael.
- Faint o dreth rydych wedi'i thalu hyd yma yn y flwyddyn dreth hon.
- Faint o gyflog yr oeddech wedi'i ennill hyd yma yn y flwyddyn dreth hon.

Mae blwyddyn dreth yn y Deyrnas Unedig yn mynd o 6 Ebrill i 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol. Felly, y slip cyflog hwn ar gyfer mis Mehefin yw mis 3. Ar ddiwedd y flwyddyn dreth, fe ddylai eich cyflogwr roi ffurflen P60 i chi a fydd yn dangos:

- Cyfanswm y dreth rydych wedi'i thalu yn y flwyddyn dreth.
- Cyfanswm y cyflog rydych wedi'i ennill yn y flwyddyn dreth.

Didyniadau eraill o'ch slip cyflog

Cyfraniadau cynllun pensiwn:

- Mae llawer o bobl yn cyfrannu at gynllun pensiwn (sy'n wahanol i bensiwn y wladwriaeth yr ydych yn gymwys ar ei gyfer trwy wneud cyfraniadau Yswiriant Gwladol).
- Mae'r cyfraniadau pensiwn hyn yn cael eu cymryd o'ch cyflog gros. Yn bwysig, mae cyfraniadau pensiwn yn cael eu didynnu o'ch cyflog gros cyn i Dreth Incwm gael ei gyfrifo. Felly, mae'r cyfraniadau pensiwn yn golygu eich bod yn talu llai o Dreth Incwm.
- Os ydych yn talu treth ar y gyfradd 20%, mae hyn yn golygu, am bob £10 rydych yn ei roi yn eich pensiwn, eich bod yn arbed £2 arall o dreth mewn Treth Incwm.

Didyniadau gwirfoddol:

- Mae rhai pobl yn gwneud taliadau i elusen neu'n cynilo mewn cyfrif undeb credyd hefyd.



CWESTIYNAU

1. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng cyflog gros a chyflog net.
2. Enwch dri didyniad y gallech eu gweld ar slip cyflog.
3. Beth yw ystyr y term PAYE?



A WYDDOCH CHI?

Mae mwy o bobl nag erioed yn sefydlu eu busnes eu hunain yng Nghymru, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn 2020, roedd ychydig dros 200,000 o bobl (13.8% o'r gweithlu llafur) yn hunangyflogedig, o gymharu â bron 145,000 o bobl (11.6% o'r gweithlu llafur) yn 2001.



HUNANGYFLOGEDIG

Mae rhywun yn hunangyflogedig os yw'n cynnal ei fusnes ei hun ac yn cymryd cyfrifoldeb am ei lwyddiannau a'i fethiannau. Fe allai hefyd fod yn gontractwr annibynnol sy'n darparu gwasanaeth i sefydliad pan nad oes gan y busnes aelodau staff sy'n gallu darparu'r gwasanaeth hwn ei hun. Mae gan bobl hunangyflogedig yr hyblygrwydd i ddewis pryd i weithio, a faint o waith i'w dderbyn. Ond nid ydynt yn elwa o lawer o'r hawliau sydd gan gyflogieion, fel tâl gwyliau neu dâl salwch.

Mae'r un bandiau treth yn berthnasol i bobl sy'n hunangyflogedig ond maen nhw'n talu treth ar eu helw yn unig:

Incwm busnes – Treuliau busnes = Elw

- Incwm busnes yw'r arian sy'n cael ei dalu i chi gan eich cwsmeriaid. Er enghraifft, incwm busnes glanhäwr ffenestri yw'r holl arian sy'n cael ei dalu iddo gan gwsmeriaid am lanhau eu ffenestri ar hyd y flwyddyn.
- Treuliau busnes yw'r costau rydych yn mynd iddynt er mwyn cynnal eich busnes. O ran y glanhäwr ffenestri, fe allai hyn fod yn gost cynnal fan a'r deunyddiau sy'n angenrheidiol i lanhau'r ffenestri.

Pan fydd yr elw wedi cael ei gyfrifo, caiff ei drethu gan ddefnyddio'r un bandiau treth rydyn ni wedi'u gweld o'r blaen.

Mae pobl sy'n hunangyflogedig yn talu Yswiriant Gwladol hefyd trwy eu Ffurflen Dreth Hunanasesu. Yn 2021/22, mae dau fath i'w talu:

Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 – cyfradd sefydlog o £3.05 yr wythnos os yw'ch elw'n uwch na £6,515 a mwy;

Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 – yn seiliedig ar yr elw busnes isod:

Elw Busnes	Yswiriant Gwladol
Hyd at £9,568	0%
£9,569 - £50,270	9%
Dros £50,270	2%

Bydd treth pobl sy'n gyflogedig yn cael ei didynnu bob mis cyn iddynt gael eu hincwm ac fe allant weld y Dreth Incwm maen nhw wedi'i thalu ar eu slip cyflog. Mae'n rhaid i bobl sy'n hunangyflogedig lenwi Ffurflen Dreth Hunanasesu unwaith y flwyddyn. Maen nhw'n dweud wrth y llywodraeth beth yw eu hincwm a'u treuliau busnes ac yna mae'r llywodraeth yn cyfrifo'r dreth y mae'n rhaid iddynt ei thalu.

RHYBUDD – Mae'n gallu bod yn fwy anodd o lawer i rywun hunangyflogedig sicrhau ei fod wedi rhoi digon o'r neilltu i dalu ei fil treth oherwydd dim ond un neu ddau daliad y flwyddyn yn unig y bydd yn eu gwneud. Y rheol gyffredinol yw rhoi 30% o bopeth rydych yn ei ennill o'r neilltu i sicrhau bod digon i dalu'r dreth sy'n ddyledus.

Enghraifft ymarferol

Faint o Yswiriant Gwladol y byddai'r canlynol yn ei dalu?

Garddwr hunangyflogedig sy'n ennill elw blyneddol o £22,500

Ateb – Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 – £3.05 x 52 (wythnos mewn blwyddyn)

= **£158.60**

Yn ogystal, Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 – ar y £9,568 cyntaf o'r elw, yr Yswiriant Gwladol yw £0

Yna, bydd yn talu 9% ar y £12,932 sy'n weddill o'r elw

= **£1,163.88**

Nid yw'n ennill digon o elw i dalu'r trothwy uchaf

Cyfanswm Yswiriant Gwladol = £158.60 + £1,163.88

= **£1,322.48**



GWEITHGAREDD

1. Cyfrifwch faint o dreth y byddai trydanwr hunangyflogedig sy'n ennill elw o £28,000 y flwyddyn yn ei dalu.
2. Cyfrifwch faint o Yswiriant Gwladol y byddai garddwr hunangyflogedig sydd ag elw o £48,000 y flwyddyn yn ei dalu.



DULLIAU TALU

Pan fyddwch yn cael eich cyflogi, fe allech gael eich talu mewn sawl ffordd. Dyma restr o rai o'r dulliau talu gydag esboniad byr.

Tâl/Cyflog (Wages): Enillion sy'n cael eu talu fesul awr.

Cyflog (Salary): Enillion sy'n cael eu talu'n fisol i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Mewn llawer o swyddi, ni fyddai gennych yr hawl i gael goramser oherwydd byddai disgwyl i chi weithio oriau ychwanegol pan fydd angen.

Comisiwn: Taliad wedi'i seilio ar werth y gwerthiannau rydych yn eu gwneud. Weithiau, byddwch yn ei gael yn ychwanegol at gyflog sylfaenol.

Gwaith fesul darn: Taliad am bob eitem rydych yn ei chynhyrchu. Po fwyaf rydych yn ei gynhyrchu, y mwyaf y byddwch yn ei gael.

Ffioedd: Taliad untro am wasanaeth proffesiynol.

Bonws: Taliad ychwanegol am weithio'n galed neu gyrraedd targedau.

Goramser: Pan fyddwch yn gweithio oriau hwy na'r hyn a nodir yn eich contract, gallwch wirfoddoli i weithio'n hirach (goramser), a hynny fel rheol ar gyfradd well nag arfer e.e. "amser dwbl".

Taliad sifft: Mae hwn yn cael ei dalu am weithio oriau anarferol, er enghraifft yn ystod y nos. Byddai'n ychwanegol at eich cyflog arferol.

Isafswm Cyflog: Cyfradd fesul awr na all eich cyflogwr fynd yn is na hi. Gweler yr adran flaenorol ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol.



ASTUDIAETH ACHOS

Beth yw'r gwahaniaeth?

Mae Manon a Geraint yn blymwyr. Mae Manon wedi bod yn hunangyflogedig am 3 blynedd ac mae'n cael ei busnes ar sail argymhellion yn bennaf. Mae hi'n codi £30 yr awr am ei llafur, ac nid yw'n anodd iddi ddod o hyd i waith ar hyn o bryd; mae rhai o'i chwsmeriaid wedi bod yn aros am 2 fis iddi allu gweithio iddynt, hyd yn oed. Mae Manon yn dwlu gwyllo cerddoriaeth fyw ac mae'n hoffi'r hyblygrwydd sy'n gysylltiedig â gweithio iddi hi ei hun oherwydd ei bod yn gallu gorffen yn gynnar pan fydd hi eisiau. Neu, fe all gymryd diwrnod i fwrdd ar fyr rybudd os oes angen iddi deithio'n bell i gîg. Anaml iawn mae hi'n gweithio ar y penwythnos.

Mae Geraint yn cael ei gyflogi gan gwmni mawr. Mae'n cael cyflog o £30,000 y flwyddyn ac mae ganddo'r hawl i gael 32 diwrnod o wyliau y flwyddyn yn ogystal â gwyliau banc. Mae'n gweithio wythnos 40 awr, ond mae'n cael cyfle i weithio goramser yn aml am dâl dwbl. Mae'r rhan fwyaf o'i waith yn ymwneud â chynnal a chadw adeiladau presennol sy'n cael eu cynnal gan gymdeithasau tai. Mae'n rhaid i Geraint weithio sifft nos ar y penwythnos yn rheolaidd hefyd, sy'n golygu'n aml nad yw'n gallu chwarae pêl-droed – ei brif ddiddordeb y tu allan i'r gwaith. Mae Geraint yn hoffi'r sicrwydd sy'n gysylltiedig â chyflog rheolaidd ond mae'n gwybod y gallai ennill mwy petai'n hunangyflogedig.



TRAFODAETH

A allwch chi sylwi ar bum gwahaniaeth rhwng swyddi Manon a Geraint?



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Tom yn gweithio ym maes gwerthiannau; mae'r cwmni y mae'n gweithio iddo'n talu cyflog sylfaenol o £15,000 y flwyddyn iddo, yn ogystal â 5% o werth unrhyw werthiannau mae'n eu gwneud. Y llynedd, gwnaeth £500,000 mewn gwerthiannau. Y flwyddyn nesaf, ei darged yw £800,000 mewn gwerthiannau, ac os bydd yn cyrraedd y targed, bydd yn cael yr un bonws o 5% ar ben ei gyflog sylfaenol.

Mae Lisa yn gweithio ym maes gwerthiannau hefyd, ond mae'n cael cyflog o £52,000 y flwyddyn heb gomisiwn. Bydd ei chyflog yn aros yr un fath p'un a yw ei gwerthiannau'n codi neu'n gostwng.

Pwy sy'n cael y fargen orau o ran cyflog, Tom neu Lisa? Esboniwch eich dewis.

PAM RYDYN NI'N TALU TRETH INCWM?

Beth yw hanes Treth Incwm a pham rydyn ni'n ei thalu?

Cyflwynwyd Treth Incwm gan William Pitt yr Ieuengaf fwy na 200 o flynyddoedd yn ôl pan oedd arno angen arian i dalu am y rhyfeloedd yn erbyn Napoleon, arweinydd Ffrainc. Am flynyddoedd lawer, dim ond y cyfoethog iawn oedd yn talu Treth Incwm, ond yn yr 20fed ganrif fe ddechreuodd godi ac, erbyn 1930, roedd 10 miliwn o bobl yn talu Treth Incwm. Cynyddodd y cyfraddau unwaith eto i dalu am yr Ail Ryfel Byd ac, ym 1944, cyflwynwyd y system Talu Wrth Ennill (PAYE).

Heddiw, Treth Incwm yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o incwm i'r llywodraeth ac mae'n cyfrif am bron 25% o incwm y llywodraeth. Mae hyn, ynghyd â'r incwm mae'r llywodraeth yn ei gael o ffynonellau eraill, yn cael ei ddefnyddio i dalu am holl feysydd gwariant amrywiol y llywodraeth.

Mae enghreifftiau o wariant y llywodraeth yn cynnwys:

- Darparu Pensiynau'r Wladwriaeth, cymorth incwm isel a Lwfans Ceisio Gwaith
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) – adeiladu ysbytai, darparu triniaeth a thalu meddygon a nyrsys
- Gwario ar ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Y Lluoedd Arfog – sicrhau bod gan y Fyddin, y Llynges a'r Awyrlu Brenhinol y dechnoleg ddiweddaraf, a thalu cyflogau ein personél milwrol
- Cynghorau Lleol – darparu gwasanaethau fel gwacáu eich biniau sbwriel, glanhau'r strydoedd, ac ati.

Y llywodraeth sy'n talu am yr holl wasanaethau hyn, a llawer mwy, ac er mwyn iddi allu gwneud hynny mae'n rhaid iddi ddefnyddio'r incwm mae'n ei gael o drethiant. Nid dim ond Treth Incwm ond hefyd Yswiriant Gwladol, Treth ar Werth (TAW), y Dreth Gyngor, trethi ar elw busnesau, treth cerbyd, a threthi ar alcohol, sigaréts, ac ati.



A WYDDOCH CHI?

Mae Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol yn cael eu casglu gan Gyllid a Thollau EM. Mae Treth Incwm yn cael ei defnyddio i helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus fel addysg a'r system les, tra bod cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cael eu defnyddio i gynyddu hawl unigolyn i fudd-daliadau'r wladwriaeth fel pensiwn y wladwriaeth.




GWEITHGAREDD

Beth sy'n digwydd i'n trethi?

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu'n rhannol gan grant bloc Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac mae'n ariannu ei hun yn rhannol trwy godi refeniw o drethi a benthycia datganoledig. Bob blwyddyn, bydd yn defnyddio'r cronfeydd hyn i amlinellu ei gwariant arfaethedig. Dangosir ei gwariant ar gyfer 2019/20 isod:


GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU 2019/20	£BILIWN
Gofal iechyd	£8.4
Llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus	£4.3
Addysg	£2.6
Yr economi a thrafnidiaeth	£1.3
Ynni, cynllunio a materion gwledig	£0.4
Gwasanaethau canolog a gweinyddiaeth	£0.3
CYFANSWM	£17.3



Ffynhonnell: gov.wales

Mae'r tabl nesaf yn dangos sut cafodd refeniw'r Deyrnas Unedig ei wario gan y llywodraeth yn 2019/20.

GWARIANT LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG 2019/20	£BILIWN
Gwariant arall	£214
Llog dyled	£40
Credydau treth (personol)	£25
Lles arall	£101
Pensiynau'r wladwriaeth	£101
Buddsoddi	£47
Gwasanaethau cyhoeddus eraill	£90
Amddiffyn	£29
Addysg	£64
Iechyd	£130
CYFANSWM	£841



Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol 2019/20

1. Pa wahaniaethau allwch chi eu gweld rhwng gwariant Llywodraeth Cymru a gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig?
2. Pa debygrwydd allwch chi ei weld rhwng gwariant Llywodraeth Cymru a gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig?
3. Pa wybodaeth arall fyddai'n ddefnyddiol wrth gymharu'r ddwy set o ffigurau gwariant?
4. Yn 2019/20, daeth refeniw Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfanswm o £811 biliwn, ond daeth ei gwariant i gyfanswm o £841 biliwn. Ydy hyn yn broblem?
5. Yn eich barn chi, ydych chi'n credu bod treth yn beth da?

PENSIYNAU

Mae pensiwn yn fath penodol o gynllun cynilo tymor hir rydych yn ei gronni yn ystod eich bywyd gwaith i ariannu eich ymddeoliad (pan fyddwch yn rhoi'r gorau i weithio yn ddiweddarach yn eich oes). Diben hyn yw darparu arian i bobl fyw arno pan na fyddant yn cael incwm o waith mwyach.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu i mewn i gynllun pensiwn a bydd y taliadau hyn yn ymddangos ar eich slip cyflog yn yr adran ddidyniadau. Mae rhoi arian mewn cynllun pensiwn yn debyg i gael cyfrif cynilo, ond yn wahanol i gynilion arferol, ni allwch ddefnyddio'ch arian tan i chi gyrraedd oed ymddeol.

Mae dau brif fath o pensiwn:



1. PENSIWN Y WLADWRIAETH

Y llywodraeth sy'n talu am hwn. I fod yn gymwys ar gyfer pensiwn y wladwriaeth, mae'n rhaid eich bod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) am nifer benodol o flynyddoedd.

Bydd nifer y blynyddoedd yr ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn effeithio ar faint o pensiwn y wladwriaeth y byddwch yn ei gael. I fod yn gymwys ar gyfer uchafswm pensiwn y wladwriaeth, byddai angen i chi dalu cyfraniadau YG am 35 mlynedd o leiaf. Byddai hyn yn golygu y byddech yn cael tua £180 yr wythnos ar hyn o bryd (2021) o'ch oed ymddeol y wladwriaeth.

Mae oed ymddeol y wladwriaeth wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond i'r rhan fwyaf o bobl, bydd yn 68 i ddynion a menywod yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn adolygu'r oedran hwn yn rheolaidd wrth i ddatblygiadau mewn gofal iechyd alluogi pobl i weithio a byw yn hirach.



2. PENSIYNAU GWEITHLE

Mae'r rhain yn cael eu trefnu gan eich cyflogwr. Byddwch yn talu canran o'ch incwm misol i mewn i'r pensiwn. Mae'n cael ei didynnu o'ch incwm gros cyn iddo gael ei drethu. Mae hyn yn golygu bod eich cyfraniad pensiwn yn ddi-dreth.

Un o fanteision mawr eraill pensiwn gweithle yw y bydd eich cyflogwr yn cyfrannu ato hefyd. Mae hyn yn ychwanegol at eich incwm ac yn ddi-dreth hefyd.

Mae'r arian sy'n cael ei dalu gennych chi a/neu eich cyflogwr yn cael ei roi mewn buddsoddiadau (gweler y bennod 'Risg a gwobr') gan eich darparwr pensiwn. Bydd y swm a gewch pan fyddwch yn codi'ch pensiwn yn dibynnu ar faint a dalwyd i mewn a pha mor llwyddiannus y bu'r buddsoddiadau.

Y darparwr pensiwn yw'r cwmni neu'r sefydliad sy'n gofalu am eich pensiwn ar eich rhan. Efallai y bydd eich cyflogwr wedi'i ddewis, neu efallai y gallwch chi ei ddewis eich hun. Mae'n bwysig iawn gwybod pwy yw'ch darparwr pensiwn a beth mae'n bwriadu ei wneud â'ch arian oherwydd gall gwerth eich pot pensiwn fynd i fyny neu i lawr yn dibynnu ar eich buddsoddiadau.



COFRESTRU AWTOMATIG MEWN PENSIYNAU GWEITHLE

Ers mis Chwefror 2018, bu'n rhaid i bob cyflogwr presennol a newydd gofrestru unrhyw aelodau cymwys o staff mewn cynllun pensiwn gweithle yn awtomatig. Mae hyn yn golygu y bydd y mwyafrif llethol o bobl yn dechrau pensiwn o ddechrau eu bywyd gwaith.

Mae cofrestru awtomatig yn berthnasol i gyflogaion rhwng 22 oed a'u hoed ymddeol y wladwriaeth, sy'n ennill dros £10,000 y flwyddyn ac yn gweithio yn y Deyrnas Unedig.

Mae lleiafysymiau y mae'n rhaid eu cyfrannu, ac erbyn 2019 roedd rhaid i'r cyflogai gyfrannu o leiaf 5% o'i gyflog a'r cyflogwr gyfrannu o leiaf 3%. Gall cyflogaion a chyflogwyr benderfynu faint i'w gyfrannu at y cynllun pensiwn. Po fwyaf sy'n mynd i mewn, y mwyaf o arian a fydd yno pan fydd y gweithiwr yn ymddeol.

Ynghyd â phensiwn y wladwriaeth, gall unigolion hunangyflogedig sefydlu eu pensiwn preifat eu hunain hefyd gyda darparwr pensiwn. Mae'r rhain yn gweithio'n debyg i bensiynau gweithle, ond, yn amlwg, nid oes cyflogwr i ddewis cynllun ar eich rhan ac ni fydd cyfraniadau gan gyflogwr.

Gallai pobl ddewis ffyrdd eraill o gronni arian ar gyfer eu hymddeoliad hefyd, er enghraifft trwy fuddsoddi mewn ISA stociau a chyfranddaliadau neu eiddo. Ond, cofiwch, byddai unrhyw un sy'n optio allan o gynllun pensiwn gweithle yn colli cyfraniadau ei gyflogwr.



GWEITHGAREDD

Ffeithiau allweddol am y boblogaeth sy'n heneiddio yn y Deyrnas Unedig:

- Ym 1901, y disgwyliad oes ar gyfer menywod oedd 45, a 49 ar gyfer dynion.
- Ym 1961, y disgwyliad oes ar gyfer menywod oedd 76, a 71 ar gyfer dynion.
- Ym 1998, y disgwyliad oes ar gyfer menywod oedd 80, a 75 ar gyfer dynion.
- Yn 2017, y disgwyliad oes ar gyfer menywod oedd 83, a 79 ar gyfer dynion.

Gan ddefnyddio'r ffigurau uchod:

1. Beth yw'r tueddiadau o ran disgwyliad oes yn y Deyrnas Unedig?
2. Beth ydych chi'n credu sy'n digwydd i'r rhan o fywyd unigolyn sy'n cael ei threulio'n gweithio?
3. Beth yw goblygiadau ariannol y tueddiadau hyn i bob un o'r grwpiau isod:

- Y llywodraeth
- Pobl sy'n dal i weithio
- Pobl sydd wedi ymddeol



CWESTIYNAU

1. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng pensiwn y wladwriaeth a chynllun pensiwn gweithle.
2. Sut mae cofrestru awtomatig o fudd i bobl iau?



ASTUDIAETH ACHOS

Pensiynwr cyffredin yn y Deyrnas Unedig

Yn 2017, roedd angen i bensiynwr nodweddiadol gael incwm blyneddol o tua £10,850 i dalu am gostau byw sylfaenol. Roedd y manylion fel a ganlyn:

£1,600	Hamdden a diwylliant (tanysgrifiadau teledu a chyfarpar, hobiau, ac ati)
£1,550	Bwyd a diod ddialcohol
£1,500	Tai, tanwydd a phŵer (rhent a chynnal a chadw, ond nid morgeisi)
£1,250	Trafnidiaeth (tocynnau trên, ceir, ac ati)
£850	Nwyddau a gwasanaethau cartref (dodrefn, offer, ac ati)
£800	Bwytai a gwestai
£400	Dillad ac esgidiau
£250	Alcohol a thybaco
£200	Iechyd
£350	Cyfathrebu (ffonau, stampiau, band eang, ac ati)
£850	Nwyddau a gwasanaethau amrywiol (gofal personol, yswiriant, taliadau banc, ac ati)
£1,250	Eitemau gwariant eraill (morgeisi, treth gyngor, llog ar gardiau credyd, taliadau i blant, ac ati)

Cyfanswm: £10,850

Gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod a'r hyn rydych yn ei wybod am faint pensiwn y wladwriaeth, pa gyngor fydddech chi'n ei roi i rywun sy'n cynllunio ar gyfer ei ymddeoliad?

Ffynhonnell: Addaswyd o ymchwil gan Key Retirement yn seiliedig ar ddata gwariant teuluoedd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.



HELP I BOBL AR INCWM ISEL



YR ISAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL A'R CYFLOG BYW CENEDLAETHOL

Yn y Deyrnas Unedig, crëwyd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol gan Ddeddf Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol 1998. Cafodd ei gyflwyno i atal cyflogwyr rhag camfanteisio ar weithwyr iau na 25 oed ar gyflog isel.

Diwygiwyd y Ddeddf yn 2016, a chyflwynwyd Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr 25 oed a hŷn. Ers mis Ebrill 2021, mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gael i bobl 23 oed a hŷn.

Mae'r cyfraddau ar gyfer yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Ers mis Ebrill 2021, yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer rhywun 18 oed yw £6.56 yr awr a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yw £8.91 yr awr.

Yn ogystal â'r deddfau hyn, mae dros 3,500 o gyflogwyr wedi ymrwmo i dalu cyfradd Cyflog Byw Gwirfoddol y Deyrnas Unedig, sy'n cael ei gosod gan y grŵp ymgyrchu, y Sefydliad Cyflog Byw. Mae'r gyfradd hon yn cael ei chyfrifo'n annibynnol a'i bwriad yw adlewyrchu "gwir gost byw yn y Deyrnas Unedig a Llundain". Mae'n tueddu i fod yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol, ond nid yw'n cael ei gorfodi gan y gyfraith.



Y SYSTEM LES

Yn yr adran ar hanes Treth Incwm a pham rydyn ni'n ei dalu, fe welon ni fod rhywfaint o'r Dreth Incwm sy'n cael ei gasglu gan y llywodraeth yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo pobl ar incwm isel.

Gallai pobl ar incwm isel, neu bobl nad oes ganddynt unrhyw incwm, fod yn gymwys i hawlio budd-daliadau i'w helpu i dalu am dreuliau byw hanfodol. Ers 2013, mae system newydd o'r enw Credyd Cynhwysol wedi cael ei chyflwyno'n raddol.

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli amrywiaeth o fudd-daliadau fel Cymhorthdal Incwm, Cymorth Tai, y Credyd Treth Gwaith a'r Credyd Treth Plant. Felly, bydd pobl sy'n gymwys i hawlio Credyd Cynhwysol yn cael un math o gymorth. Os bydd eich incwm yn cynyddu oherwydd eich bod yn gallu gweithio mwy neu ennill mwy, y bwriad yw y bydd lefel y Credyd Cynhwysol yn lleihau'n raddol.



GWEITHGAREDD

Dewch o hyd i'r cyfraddau presennol ar gyfer yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, y Cyflog Byw Cenedlaethol a Chyflog Byw Gwirfoddol y Deyrnas Unedig.

Mewn parau neu grwpiau bach, trafodwch pam rydych yn credu nad yw'r llywodraeth wedi gwneud y Cyflog Byw Cenedlaethol yr un peth â'r Cyflog Byw Gwirfoddol.





BETH YDYCH CHI WEDI'I DDYSGU?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch chi o'r bennod hon, cwblhewch y gweithgaredd a'r astudiaeth achos isod:



GWEITHGAREDD

Crëwch flog ar-lein (neu ffilmwch flog fideo) ar gyfer person ifanc sydd wedi cael ei swydd amser llawn gyntaf yn ddiweddar.

Crynowch:

- Y didyniadau a fydd yn cael eu gwneud o'i incwm.
- Ble mae'r didyniadau hyn yn mynd a sut maen nhw'n cael eu gwario



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Gwen yn 18 oed ac wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar i ddilyn gyrfa mewn dylunio gemwaith. Mae'n ansicr ynglŷn â pha gyfeiriad gyrfaol i'w ddilyn ac mae'n ystyried yr opsiynau canlynol:

- a)** Astudio gradd mewn Dylunio Gemwaith
- b)** Gwneud prentisiaeth uwch mewn Celf a Dylunio
- c)** Dod o hyd i swydd ym maes dylunio gemwaith
- ch)** Sefydlu ei busnes dylunio gemwaith ei hun

1. Pa ystyriaethau ariannol y byddai angen i Gwen eu pwysu a'u mesur ar gyfer pob opsiwn?
2. Trafodwch fuddion a risgiau ariannol pob opsiwn.
3. Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i Gwen?



DATBLYGU'CH GWYBODAETH

BANDIAU TRETH

Graddiodd Rhian mewn Cyfryngau Digidol a chafodd ei swydd amser llawn gyntaf fel cynorthwy-ydd cyfryngau cymdeithasol yn gweithio i gwmni hamdden blaenllaw. Ei chyflog cychwynnol oedd £25,350 y flwyddyn, a chafodd godiad cyflog blyneddol o £3,250 am y 3 blynedd nesaf. Yn ddiweddar, mae hi wedi cael dyrchafiad i reolwr cyfryngau cymdeithasol sy'n golygu codiad cyflog arall o £8,875.

1. Yn seiliedig ar fandiau treth 2021/2022, faint o Dreth Incwm y bydd hi'n ei thalu?
2. Faint sydd ar ôl gan Rhian ar ôl i Dreth Incwm gael ei didynnu?
3. Pa gyfran (%) o'i chyflog presennol yw Treth Incwm?
Fis diwethaf, gweithiodd Rhian yn dda iawn, a phenderfynodd ei phennaeth ei gwobrwyo gyda bonws untro o £5,000 a dalwyd trwy ei chyflog.
4. Unwaith eto, yn seiliedig ar fandiau treth 2021/22, faint o Dreth Incwm y bydd Rhian yn ei thalu nawr?
5. Pa gyfran (%) o'i chyflog sy'n Dreth Incwm nawr?
6. O ganlyniad i'r taliad bonws, faint o dreth ychwanegol y bydd hi'n ei thalu?
7. Mewn parau, trafodwch ba effaith y bydd y bonws hwn yn ei chael ar ei hincwm.

CYFRANIADAU PENSIWN

Cwestiwn 1

Mae Hefin wedi cael ei gofrestru'n awtomatig ar gynllun pensiwn gweithle ei gyflogwr, ac mae wedi penderfynu peidio ag optio allan ohono. Mae ei gyflogwr, Dylunwyr Gerddi JD Cyf, wedi rhoi'r wybodaeth ganlynol i'w staff am faint mae'n bwriadu ei gyfrannu a faint y disgwylir i'r cyflogeion ei gyfrannu y flwyddyn. Mae'r ddau gyfraniad yn cael eu cyfrifo fel canran o gyflog sylfaenol pob cyflogai.

CYFLOGWR YN TALU	CYFLOGEION YN TALU	CYFANSWM Y CYFRANIAD
3%	5%	8%

Petai Hefin yn ennill £18,000 y flwyddyn, byddai ei gyflogwr yn cyfrannu £540 y flwyddyn (£45 y mis) a byddai ef yn cyfrannu £900 y flwyddyn (£75 y mis).

a) Dychmygwch fod Hefin yn ennill cyflog o £24,000 a defnyddiwch y data uchod i gyfrifo'r cyfraniadau pensiwn a fyddai'n cael eu gwneud gan Hefin a'i gyflogwr.

Mae cyflogwr Hefin yn bwriadu cynyddu'r cyfraniadau pensiwn fel a ganlyn:

CYFLOGWR YN TALU	CYFLOGEION YN TALU	CYFANSWM Y CYFRANIAD
6%	8%	14%

b) Os bydd ei gyflog yn aros yr un fath, cyfrifwch y cyfraniadau pensiwn a fyddai'n cael eu gwneud gan Hefin a'i gyflogwr.

c) Ydy'r cynnydd hwn mewn cyfraniadau'n golygu y bydd yn cael pensiwn uwch pan fydd yn ymddeol? Esboniwch eich ateb.

Cwestiwn 2

Mae llawer o gyfraddau cyfraniad cyflogeion mewn cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn cael eu trefnu fesul cam fel bod y bobl ar y cyflogau isaf yn talu'r lleiaf a bod y bobl sy'n ennill y mwyaf yn talu mwy. Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos y cyfraniadau pensiwn a wneir yn y Gwasanaeth Tân petai diffoddwr tân yn ymuno â'r cynllun pensiwn ar ôl 2015.

Cyfraddau cyfraniad cyflogeion

CYFLOG PENSIYNADWY	CYNLLUN PENSIWN DIFFODDWYR TÂN (2015)
Hyd at £27,818	11.0%
£27,819-£51,515	12.9%
£51,516-£142,500	13.5%
£142,501 neu fwy	14.5%

Cyfraddau cyfraniad cyflogwr – 27.3%

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru

a) Cyfrifwch y cyfraniadau cyflogai a chyflogwr y flwyddyn petai diffoddwr tân yn ennill cyflog o:

1. £16,120
2. £32,500
3. £68,750

b) Mewn parau, edrychwch ar yr ystod o gyfraniadau cyflogeion ar gyfer diffoddwyr tân yn y tabl uchod. Ydych chi'n credu eu bod nhw'n deg? Rhwch gyfiawnhad i'ch ateb.

HUNANGYFLOGAETH

Mae pobl hunangyflogedig yn talu Treth Incwm ar eu helw busnes, yn hytrach na chyfanswm yr incwm maen nhw'n ei ennill. I gyfrifo elw, mae'n rhaid i'r perchennog dynnu treuliau'r busnes o incwm y busnes. Dyma'r fformiwla ar gyfer elw:

Incwm – Treuliau = Elw neu Golled

Er enghraifft, petai busnes yn gwerthu 10 ysgrifbin am £2 yr un, yr incwm fyddai £20. Os yw'n costio £8 i berchennog y busnes brynu'r ysgrifbinnau, yr elw busnes fyddai £12. Gan nad oes cyflogwr i gymryd y Dreth Incwm, mae'n rhaid i bobl hunangyflogedig gyflwyno ffurflen hunanasesu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) bob blwyddyn. Bydd perchennog y busnes yn nodi ar ei ffurflen hunanasesu faint o incwm a enillodd yn ystod y cyfnod 12 mis a faint a wariodd ar dreuliau. Y gwahaniaeth, beth bynnag fo hynny, yw'r swm a fydd yn cael ei drethu.

Er enghraifft, enillodd Amira £29,362 fel arlwywr hunangyflogedig sy'n darparu bwyd ar gyfer partiön preifat yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf, a gwariodd £16,019 ar dreuliau (cynhwysion, teclynnau, ac ati). Mae hyn yn golygu ei bod hi wedi gwneud elw o £13,343.

£29,362 - £16,019 = £13,343 elw

Yn yr un modd â chyflogeion, mae Amira yn cael lwfans treth personol o £12,570 hefyd, felly bydd yn talu treth ar y £773 sy'n weddill yn unig. Bydd hyn yn cael ei chodi ar 20%, felly ei bil treth fydd £154.60.

ELW (£)	CYFRADD DRETH (%)	TRETH A DALWYD (£)
12,570	0	0
773	20	154.60

BYD GWAITH

DATBLYGU'CH GWYBODAETH

O ran talu Treth Incwm ar elw busnes, mae'r un bandiau treth yn berthnasol ag ar gyfer cyflogai.

Mae Manon, y plymwr hunangyflogedig, wedi cyfrifo nifer yr oriau mae hi wedi'u gweithio ym mhob un o'r 6 mis diwethaf a faint mae hi wedi'i wario ar dreuliau (cyflenwadau, petrol, biliau ffôn, ac ati).

MIS	ORIAU A WEITHIWD	INCWM (£30 FESUL AWR)	TREULIAU (£)	ELW/COLLED
Ebrill	168		927	
Mai	195		1,621	
Mehefin	110		782	
Gorffennaf	72		437	
Awst	46		210	
Medi	197		2,932	
CYFANSWM				

a) Cwblhewch y tabl uchod a chyfrifwch elw Manon yn ystod y 6 mis diwethaf.

b) Cyfrifwch ei thaliad Treth Incwm ar gyfer y 6 mis o fis Ebrill tan fis Medi.



RISG A GWOBR

PAM MAE RHAI POBL YN MENTRO GYDAG ARIAN?

Yn y bennod hon, byddwch yn archwilio'r hyn a olygir wrth risg a gwobr ariannol.

Byddwch yn meddwl am y penderfyniadau ariannol y gallech eu hwynebu, a faint o risg sy'n gysylltiedig â nhw. Byddwch yn archwilio'r rhesymau pam mae pobl yn mentro gydag arian, a'r cysylltiad rhwng risg a gwobr.

Byddwch hefyd yn cael gwybod sut i amddiffyn eich hun rhag risgiau ariannol a ble i fynd i gael cymorth os yw'r risg rydych wedi'i chymryd yn troi'n benderfyniad gwael.



A WYDDOCH CHI?

Mae mentro'n achosi newidiadau yn yr ymennydd oherwydd ei fod yn rhyddhau adrenalin, gan roi teimlad o bleser. Dyna pam mae rhai mathau o fentro, fel gamblo, yn gallu dal gafael mewn pobl.





MATHAU O RISG ARIANNOL BERSONOL

Er mwyn cael gwobrau ariannol, mae rhyw elfen o risg yn aml yn gysylltiedig – efallai na fydd canlyniad penderfyniad ariannol yn bendant neu'n sicr. Mae enillion ariannol sylweddol yn bosibl, ond mae risg hefyd o ddim enillion neu hyd yn oed golled, gan eich gadael mewn sefyllfa waeth nag yr oeddech ynddi ar y dechrau.

Mae nifer o wahanol fathau o risgiau ariannol personol. Mae'r rhain yn cynnwys:



RISGIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'CH INCWM

I'r rhan fwyaf o bobl, eu hased mwyaf gwerthfawr yw eu gallu i ennill incwm. Yn anffodus, mae risgiau a allai effeithio ar eich gallu i ennill incwm, er enghraifft:

- Fe allech fynd yn sâl, cael eich anafu neu fynd yn anabl, gan olygu na allwch weithio.
- Fe allech golli eich swydd a mynd yn ddi-waith.
- Bydd eich incwm o waith yn dod i ben pan fyddwch yn ymddeol.

Bydd unrhyw un o'r rhain yn arwain at ganlyniadau, nid dim ond i chi, ond hefyd i unrhyw aelodau o'ch teulu sy'n dibynnu arnoch i gynnal lefel benodol o incwm.



RISGIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'CH GWARIO A'CH BENTHYCA

Gall y risgiau hyn godi am nifer o resymau.

Fe allech fod yn gwario mwy nag yr ydych yn ei ennill. Gallai hyn fod oherwydd nad ydych yn ennill digon i fodloni'ch anghenion sylfaenol chi a'ch teulu. Ond fe allai fod oherwydd eich bod eisiau prynu pethau sy'n rhoi'r ffordd o fyw rydych yn dyheu amdani ond na allwch ei fforddio.

Pan fyddwch yn gorwario, am ba reswm bynnag, fe allech benderfynu mentro trwy fenthyca arian i dalu am y gwariant hwn. Gall hyn arwain at daliadau llog na allwch eu fforddio a dyled gynyddol (gweler y bennod 'Benthyca').



RISG Y GALLECH GOLLI ASED AU

Os bydd rhywbeth rydych yn berchen arno'n cael ei ddwyn neu ei ddifrodi, efallai bydd angen cael un arall yn ei le, neu efallai byddwch chi'n difrodi rhywbeth sy'n eiddo i rywun arall ac yn gorfod talu am ei atgyweirio. Po ddrutaf yw'r eitem, y mwyaf yw'r risg ariannol i chi os caiff ei difrodi neu ei dwyn.



RISGIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â BUDDSODDI

Mae buddsoddi'n golygu defnyddio'ch arian i brynu rhywbeth a allai gynyddu mewn gwerth. Mae elfen o risg yn gysylltiedig â buddsoddiadau gan nad oes sicrwydd y bydd yr hyn rydych wedi buddsoddi ynddo'n cynyddu mewn gwerth – mewn rhai achosion, fe allai hyd yn oed ostwng mewn gwerth, gan olygu y gallech golli arian.

Mae'r hyn y mae pobl yn dewis buddsoddi ynddo yn aml yn dibynnu ar eu hagwedd at risg. Mae rhai'n dewis peidio â buddsoddi o gwbl, mae rhai'n cymryd risgiau isel iawn a gallai eraill wneud buddsoddiad risg uwch.



CWESTIYNAU

1. Beth ydych chi'n credu yw'r tri ased mwyaf gwerthfawr y gallai rhywun berchen arnynt yn ystod ei oes?
2. Enwch dair risg a allai effeithio ar eich gallu i ennill incwm.
3. Esboniwch sut mae buddsoddi'n wahanol i gynilo.



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Sara wedi cwrdd â'i ffrind Meinir am goffi. Mae hi'n hapus i archebu a chael bwrdd os nad oes ots gan Meinir fynd i'r peiriant arian i godi arian ar ei rhan. Mae hi'n rhoi ei cherdyn debyd a'i rhif PIN i Meinir, y mae Meinir yn ei roi yn ei ffôn er mwyn iddi ei gofio.

Wrth yfed eu coffi, mae Meinir yn dweud wrth Sara ei bod hi'n bwriadu mynd ar wyliau yn fuan a'i bod wedi gweld bargaen wych gan drefnydd teithiau ar-lein. Nid yw wedi clywed am y cwmni o'r blaen, ond mae'n cynnig y gwyliau'n rhatach o lawer nag unrhyw un arall. Er nad oes ganddi gynilion ar hyn

o bryd, mae Meinir yn bwriadu cael cerdyn credyd i archebu'r gwyliau. Mae Sara yn dweud wrth Meinir ei bod hi wedi pasio ei phrawf gyrru'n ddiweddar ac ar fin cael benthyciad gan y banc i brynu car ail-law gan ffrind i ffrind.

1. Nodwch y risgiau ariannol mae Meinir a Sara yn eu cymryd.
2. Penderfynwch a yw pob risg yn weithgaredd risg isel, ganollig neu uchel.
3. Trafodwch oblygiadau pob risg a phenderfynwch sut gallai Meinir a Sara leihau pob un gymaint â phosibl.



GWEITHGAREDD

Mae gan bobl wahanol agweddau gwahanol tuag at risg. Gan weithio gyda phartner, edrychwch ar y 10 gweithgaredd a restrir yn y tabl isod a graddiwch nhw o 1 i 10.

1 = y gweithgaredd sydd â'r risg leiaf, yn eich barn chi

10 = y gweithgaredd sydd â'r risg fwyaf, yn eich barn chi

Wrth i chi eu graddio, trafodwch ba risgiau allai fod yn gysylltiedig â phob un. Pan fyddwch wedi gorffen, cymharwch eich trefn raddio – ydyn nhw'r un peth? Pam gallai'ch safbwyntiau fod yn wahanol?

GWEITHGAREDD	EICH GRADD RISG CHI (1-10)	GRADD RISG EICH PARTNER (1-10)
Croesi ffordd ddeuol brysur iawn		
Aros dros nos mewn tŷ ffrind		
Cael lifft mewn car ffrind		
Ysmygu sigaréts		
Mynd i wyllo gêm bêl-droed ryngwladol		
Chwarae gemau ar gyfrifiadur		
Gwyllo'r teledu		
Reidio beic heb helmed		
Plymio o'r awyr		
Cerdded i lawr rhes o risiau		



A WYDDOCH CHI?

Os ydych eisiau benthycu arian, bydd y benthyciwr yn asesu lefel y risg rydych yn ei chyflwyno iddo. Yn aml, bydd cwsmeriaid sy'n rhai risg is yn gallu benthycu arian ar gyfraddau llog is na'r rhai yr ystyrir eu bod yn risg uwch.



GWEITHGAREDD

Pryd bydd angen i chi asesu risg penderfyniadau ariannol?

Tynnwch linell amser o 14 i 30 oed. Rhowch y penderfyniadau ariannol canlynol ar y llinell amser honno i gyfateb i'r adeg pan rydych yn credu y bydd angen i chi eu gwneud yn annibynnol:

- Perchen ar gar
- Dewis cyfrif cynilo
- Talu am wyliau gyda ffrindiau
- Perchen ar anifail anwes
- Benthycu rhywfaint o arian
- Dechrau talu rhent am lety

Ychwanegwch ddau arall o'ch dewis chi i'r llinell amser.



BUDDSODDIADAU

Mae pob buddsoddiad yn gallu tyfu mewn gwerth, ond fe all hefyd ostwng mewn gwerth, sy'n golygu y byddwch yn dechrau colli arian. Mae hyn yn wahanol i gyfrif cynilo, lle mae'ch arian yn cael ei ddiogelu, ac yn tyfu yn ôl y gyfradd llog rydych yn ei derbyn.

Dyma rai mathau cyffredin o fuddsoddiadau:



CYFRANDDALIADAU

Uned berchnogaeth mewn cwmni yw cyfranddaliad; os byddwch yn prynu cyfranddaliad mewn cwmni, byddwch yn berchen ar ran ohono. Mae cwmnïau'n codi'r arian y mae arnyn nhw ei angen i weithredu a thyfu trwy werthu cyfranddaliadau. Os yw cwmni'n gwneud yn dda, bydd gwerth ei gyfranddaliadau'n cynyddu a bydd gwerth unrhyw gyfranddaliadau sydd gennych yn y cwmni hwnnw'n cynyddu. Yna, fe allech eu gwerthu am elw. Er enghraifft, rydych yn prynu 100 o gyfranddaliadau am £1 fesul cyfranddaliad, gan felly wario £100. Ar ôl 3 blynedd, rydych yn penderfynu eu gwerthu nhw i gyd gan eu bod bellach yn werth £2 fesul cyfranddaliad, sy'n golygu y byddwch yn cael £200 am eich 100 o gyfranddaliadau, gan wneud elw o £100.

Ond gall gwerth cyfranddaliadau fynd i lawr os nad yw cwmni'n gwneud cystal â'r disgwyl a gall prisiau cyfranddaliadau amrywio'n fawr o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mae'r 100 o gyfranddaliadau a brynodd am £1 fesul cyfranddaliad yn werth 80c fesul cyfranddaliad bellach, sy'n golygu petaech chi'n gwerthu'ch holl gyfranddaliadau, dim ond £80 y byddech yn ei gael, gan wneud colled o £20.

Os ydych yn berchen ar gyfranddaliadau, fe allech gael incwm o ddifidendau hefyd, sef cyfran o elw'r cwmni sy'n cael ei thalu i gyfranddalwyr.

Mae mwy o risg yn gysylltiedig â buddsoddiad o'r math hwn na buddsoddiadau cyfunol (gweler y golofn nesaf), ac ystyrir ei fod yn fuddsoddiad tymor hwy.

Mae mwy o wybodaeth am brynu cyfranddaliadau yn yr adran 'Datblygu'ch gwybodaeth'.



BUDDSODDIADAU CYFUNOL

Nid yw llawer o fuddsoddwyr yn arbenigwyr ar fuddsoddi. Fe allent hefyd bryderu am gymryd risg trwy fuddsoddi gormod o'u harian mewn un cwmni neu ychydig o gwmnïau'n unig, a allai wneud yn wael gan achosi i bris eu cyfranddaliadau ostwng. Un opsiwn yw buddsoddi mewn ymddiriedolaeth unedau sy'n cael ei chynnal gan bobl sy'n arbenigwyr. Gallai'r ymddiriedolaethau hyn fuddsoddi mewn cyfranddaliadau a nwyddau (fel eiddo ac aur) er mwyn lledaenu'r risg ar gyfer buddsoddwr. Gelwir y cyfuniad o'r gwahanol feysydd buddsoddi yn bortffolio. Hyd yn oed os bydd gwerth un maes o'r portffolio'n dechrau gostwng, efallai na fydd hyn yn effeithio gormod ar yr ymddiriedolaeth unedau ac fe allai gael ei gydbwysu gan dwf mewn meysydd eraill o'r portffolio. Er hynny, mae'n bwysig sylweddoli bod gwerth buddsoddiadau cyfunol yn gallu gostwng o hyd.



EIDDO A NWYDDAU ERAILL

Mae'n well gan rai pobl fuddsoddi mewn cynhyrchion go iawn fel aur a thai. Yn yr un modd â chyfranddaliadau, gall gwerth y rhain fynd i lawr yn ogystal ag i fyny. Er enghraifft, fe allech brynu tŷ sy'n werth £100,000, ond ymhen 12 mis mae'r tŷ yn cael ei ailbrisio am £98,000, sy'n golygu eich bod wedi colli £2,000 o werth yr eiddo a'r swm a daloch amdano. Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae'r tŷ yn cael ei ailbrisio eto ac mae bellach yn werth £115,000, sy'n golygu petaech chi'n ei werthu, fe allech wneud elw o £15,000. Un problem gyda'r rhain yw y gallant fod yn anodd eu gwerthu'n gyflym, felly nid ydynt yn dda os oes posibilrwydd y bydd arnoch angen eich arian ar frys.



CELFF, HEN BETHAU, GWIN A CHEIR CLASUROL

Nid dyma'r ffordd fwyaf confensiynol o fuddsoddi, ond, ar yr amod eich bod yn gyfarwydd â'r farchnad, fe allwch gael adenillion da ar eich buddsoddiad. Er enghraifft, prynodd casglwr celf baentiad yn 2011 am £500, a chwe blynedd yn ddiweddarach fe'i gwerthwyd mewn arwerthiant am bron £8,000. Fodd bynnag, mae llawer o risg yn gysylltiedig â buddsoddiadau o'r math hwn a gall eu gwerth ostwng hefyd, yn enwedig os byddant yn mynd allan o ffasiwn.



A WYDDOCH CHI?

Nid yw rhai buddsoddwyr eisïau rhoi arian mewn mathau penodol o fusnesau am resymau moesegol. Gallwch fuddsoddi mewn cronfeydd "moesegol" erbyn hyn. Bydd y rhain yn osgoi buddsoddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud â, dyweder, gwneud sigarêts, alcohol, arfau neu gynhyrchion niwclear. Mae pobl eraill yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n datblygu technegau ynni adnewyddadwy neu ailgylchu. Mae cronfeydd sy'n buddsoddi mewn cwmnïau fegan hyd yn oed, sy'n osgoi unrhyw beth sy'n ymwneud â chig neu gynhyrchion anifeiliaid.



CWESTIYNAU


1. Esboniwrch pam mae rhai pobl yn penderfynu mentro ar fuddsoddi, yn lle cadw eu harian i gyd mewn cyfrif cynilo.
2. Sut mae buddsoddiadau cyfunol yn ceisio lleihau'r risg i fuddsoddwyr?
3. Beth yw rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn eiddo?
4. Pan fydd llawer o newid mewn marchnadoedd ariannol, mae buddsoddi mewn nwyddau, fel aur, yn tueddu i gynyddu. Pam ydych chi'n credu bod hyn yn digwydd?



GWEITHGAREDD

Ystyriwch y pedwar unigolyn canlynol. Pa un, os o gwbl, ddylai fod yn meddwl am fuddsoddi rhywfaint o'i arian, yn eich barn chi? Rhwng resymau dros eich ateb.

1. Dyn sengl 25 oed nad yw'n ennill llawer ond sydd ag ychydig o arian dros ben ar ddiwedd bob mis, weithiau. Nid yw'r swm hwn byth yr un peth, gan amrywio rhwng £10 a £60. Mae ganddo gynllun pensiwn eisoes trwy ei swydd ac nid yw'n gallu fforddio morgais i brynu ei dŷ ei hun eto.
2. Pâr 45 oed â swyddi sy'n talu'n dda y mae eu dau blentyn yn bwriadu mynd i'r brifysgol. Mae ganddyn nhw tua £1,000 yn sbâr ar ddiwedd bob mis ac maen nhw eisïau cronni arian ar gyfer eu hymddeoliad, ond dydyn nhw ddim am i'w plant fynd i ormod o ddyled pan fyddan nhw'n mynd i'r brifysgol 'chwaith.
3. Gŵr a gwraig, 55 oed, sydd newydd ennill £50,000 ar y loteri. Does ganddyn nhw ddim plant ac maen nhw'n awyddus iawn i deithio'r byd.
4. Menyw 80 oed sydd eisoes wedi cynilo rhywfaint o arian mewn cymdeithas adeiladu ar gyfer argyfyngau. Mae hi'n cael pensiwn y wladwriaeth ac wedi talu ei morgais. Nid oes ganddi deulu i boeni amdano ac mae ganddi tua £10,000 yn sbâr.



GAMBLO

Mae gamblo'n weithgaredd sy'n arwain at ennill neu golli. Mae hefyd yn cael ei alw'n fetio, hapchwarae neu gymryd rhan mewn loteri. Mae risg uchel yn gysylltiedig â phob math o gamblo – mae'r tebygolrwydd o golli arian yn uwch o lawer na'i ennill. Dyna sut mae sefydliadau yn y diwydiant gamblo yn gwneud eu harian.

Mae'n rhaid i bobl sy'n gamblo dderbyn y byddan nhw'n colli eu harian yn y rhan fwyaf o achosion. Mae gweithgareddau gamblo'n digwydd mewn nifer o sectorau:

- Arcedau (rhai ar gyfer oedolion a rhai ar gyfer teuluoedd)
- Betio (ar-lein, mewn digwyddiad neu gyda bwci Stryd Fawr)
- Bingo (ar-lein neu mewn neuadd fingo)
- Casino (ar-lein neu mewn casino)
- Loteriau (rafflau, tombola, swîp, ac ati)
- Peiriannau hapchwarae (peiriannau ffrwythau, terfynellau betio ods sefydlog, ac ati – mae'r rhain i'w gweld mewn tafarnau, siopau betio a chasinos)
- Gamblo cymdeithasol (grwpiau o ffrindiau'n chwarae cardiau neu ddis am arian gartref)



A WYDDOCH CHI?

Y math mwyaf cyffredin o gamblo yn y Deyrnas Unedig yw'r Loteri Genedlaethol. Mae 30% o bobl dros 18 oed yn cymryd rhan ynddi er bod y tebygolrwydd o ennill y jacpot tua 1 mewn 45 miliwn!

Ffynhonnell: Arolwg y Comisiwn Gamblo 2019



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Morgan wedi cael £50 am ei ben-blwydd ac mae eisiau ei wario wrth chwarae ei hoff gêm bêl-droed gyfrifiadurol.

Mae'n bwriadu prynu un o'r prif chwaraewyr am £10, ond yna mae'n gweld cynnig i brynu bwndel cudd sy'n cynnwys tri chwaraewr ar hap am yr un pris.

Mae'n penderfynu prynu'r bwndel gan ei fod yn credu bod siawns y gallai gael tri o'r prif chwaraewyr am bris un, ond mae'n siomedig pan nad yw hynny'n digwydd.

Mae Morgan yn penderfynu gwario gweddill ei arian pen-blwydd ar bedwar bwndel cudd arall, gan ei fod yn credu y bydd rhaid iddynt gynnwys mwy o'r prif chwaraewyr, ond mae'n fwy siomedig fyth pan fydd ond yn cael un o'r chwaraewyr yr oedd eu heisiau am £50.

I wneud pethau'n waeth, cafodd ei ffrind dri o'r prif chwaraewyr mewn un bwndel yn unig.

Roedd mam Morgan yn ddig oherwydd ei fod wedi gwastraffu ei arian pen-blwydd, a dywedodd wrtho na ddylai fod yn gamblo ar fwndeli cudd.

Mewn parau, trafodwch y canlynol:

1. Yn eich barn chi, ydych chi'n credu bod hyn yn fath o gamblo? Esboniwch eich ateb.
2. Beth yw'r risgiau posibl i bobl ifanc sy'n chwarae am fwndeli cudd?
3. Ydych chi'n credu y bydd Morgan yn fwy neu'n llai tebygol o gamblo yn y dyfodol ar sail y canlyniad hwn?
4. Os oedd Morgan wedi cael wyth o'r prif chwaraewyr yn ei fwndeli cudd, ydych chi'n credu y byddai'n fwy neu'n llai tebygol o gamblo yn y dyfodol?
5. A oes unrhyw debygrwydd rhwng y bwndeli cudd hyn a mathau eraill o gamblo? Esboniwch eich ateb.



ARIAN CYFRED CRYPTO

Mae arian cyfred crypto yn fath o arian cyfred rhithwir neu ddigidol sy'n cael ei gynhyrchu gan rwydwaith cyhoeddus, yn hytrach nag unrhyw lywodraeth, ac mae'n defnyddio cryptograffeg i sicrhau bod taliadau'n cael eu hanfon a'u derbyn yn ddiogel. Gellir ei ddefnyddio i brynu cynhyrchion a gwasanaethau, ond nid yw'n cael ei dderbyn mewn siopau yn gyffredinol. Un math adnabyddus o arian cyfred crypto yw Bitcoin.

Mae arian cyfred crypto yn cael ei storio mewn waled ddigidol ar ffôn neu gyfrifiadur a gellir ei drosglwyddo'n electronig rhwng waledi pobl. Mae gwerth arian cyfred crypto yn anwadal iawn a dylid ei drin fel buddsoddiad risg uchel gan nad yw'n cael ei reoleiddio gan y llywodraeth na'r diwydiant cyllid.





ASTUDIAETH ACHOS

Mae Sandeep a Noor wedi bod gyda'i gilydd am 5 mlynedd ac wedi cynilo £5,000. Ar hyn o bryd, mae'n ennill 0.5% o log y flwyddyn mewn cyfrif cynilo. Maen nhw eisiau symud yr arian hwn i rywbeth sy'n rhoi adenillion gwell, felly maen nhw'n ystyried tri opsiwn:

Opsiwn A

Prynu cyfranddaliadau mewn pedwar o'r cwmnïau mwyaf sy'n gwerthu cyfranddaliadau ar Gyfnewidfa Stoc Llundain. Maen nhw'n gwybod bod prisiau'r cyfranddaliadau hyn wedi codi mwy na 10% ar gyfartaledd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.

Opsiwn B

Rhoi'r arian mewn cyfrif cynilo cyfradd sefydlog sy'n gwarantu adenillion ar ffurf 2% o log dros 2 flynedd. Nid oes risg o golli'r arian, ond ni fyddent yn gallu cael at eu harian am y 2 flynedd, a phetai cyfraddau llog yn cynyddu, ni fyddent yn gallu elwa trwy symud eu harian i gynnyrch cynilo gwahanol.

Opsiwn C

Prynu rhywfaint o arian cyfred crypto, y cynyddodd ei werth mwy na 480% y llynedd. Dydyn nhw ddim yn gwybod llawer am arian cyfred crypto, ond maen nhw'n clywed llawer amdano yn y newyddion.

1. Pa opsiwn fydddech chi'n cynghori Sandeep a Noor i'w ddewis?
2. A oes cwestiynau ychwanegol yr hoffech eu gofyn i Sandeep a Noor?
3. A allech chi awgrymu unrhyw ddatrysiadau eraill iddynt?

Gallwch ddysgu mwy am ddewisiadau Sandeep a Noor yn yr adran 'Datblygu'ch gwybodaeth'.



GWOBRAU ERAILL

Mae pobl yn mentro â'u harian oherwydd bod siawns o gael gwobr ariannol, ond fe allent ddewis cymryd risgiau am resymau eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. **Gwell ffordd o fyw** – Mae'r rhan fwyaf o bobl yn buddsoddi i gynyddu eu hincwm. Yna, mae'r incwm uwch hwn yn eu galluogi i wella eu ffordd o fyw.
2. **Bodddhad personol** – Er bod llawer o bobl yn dibynnu ar gynghorydd ariannol cymwysedig i ddewis y buddsoddiadau iawn, mae rhai pobl yn mwynhau'r her o geisio gwneud hynny eu hunain. Fe allent hefyd fwynhau cadw golwg ar sut mae prisiau'r cyfranddaliadau'n newid a sut mae hyn yn effeithio ar werth eu buddsoddiadau.

3. **Bodddhad moesol** – Mae'n ddigon posibl y bydd buddsoddwyr sy'n dewis buddsoddiadau moesegol yn derbyn gwobr ariannol is o gymharu â buddsoddiadau anfoesegol eraill. Y rheswm am hyn yw oherwydd eu bod yn hoffi'r buddion moesol o wybod eu bod wedi helpu cwmnïau sydd â nodau ac amcanion maen nhw'n eu cefnogi.



CANLYNIADAU NEGYDDOL POSIBL CYMRYD RISGIAU ARIANNOL

Mae cymryd risg yn golygu bod y canlyniad yn ansicr ac fe allai fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Dyma ganlyniadau posibl risg ariannol sy'n gorffen yn negyddol:



IECHYD A LLES MEDDYLIOL

Gall y colledion posibl sy'n gysylltiedig â chymryd risg ariannol achosi pryder a straen sy'n gallu cael effaith ddifrifol ar eich iechyd. Gallai hyn arwain at ddiwrnodau i ffwrdd o'r gwaith ac fe allai effeithio ar eich ymddygiad tuag at deulu a ffrindiau. Canfu arolwg a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl fod pobl â phroblemau dyled ddwywaith mor debygol o ddatblygu iselder difrifol â'r rhai hynny nad ydynt mewn trafferthion ariannol.



HANES CREDYD

Gallai colli arian, er enghraifft trwy fuddsoddiadau gwael neu gamblo, effeithio ar eich gallu i dalu eich biliau neu gadw at gontractau rydych wedi cytuno â nhw (e.e. ffôn symudol). Os byddwch yn colli un neu fwy o daliadau, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ar eich hanes credyd, a allai ei gwneud yn fwy anodd i chi fenthycu arian os bydd arnoch ei angen yn y dyfodol.



METHDALIAD

Os byddwch yn colli cymaint o'ch arian fel nad oes gennych ddigon i dalu dyledion presennol, mae'n bosibl y gallech gael eich datgan yn fethdal. Os bydd hyn yn digwydd, efallai bydd rhaid i chi werthu'ch cartref ac eitemau eraill o'ch eiddo personol. Fe allai eich atal rhag gweithio mewn rhai galwedigaethau a bydd yn fwy anodd o lawer i chi fenthycu arian yn y dyfodol.



FFORDD O FYW

Un o wobrwyon posibl cymryd risgiau ariannol yw gwell ffordd o fyw, ond yn yr un modd, os bydd y risg yn methu, fe allai eich ffordd o fyw ddioddef hefyd. Fe allai olygu bod gennych lai o arian i brynu'r pethau rydych eisiau eu cael.



CWESTIYNAU

1. Esboniwch pam y gallai buddsoddi mewn arian cyfred crypto gael ei ystyried yn risg.
2. Heblaw am wobwr ariannol, pa wobwr arall mae buddsoddwyr moesegol yn ei chael?
3. Ysgrifennwch frawddeg sy'n disgrifio'r berthynas rhwng risg a gwobr ariannol.

SUT I DDIOGELU'CH HUN YN ERBYN RISG ARIANNOL

Mae camau y gallwch eu cymryd i leihau'r risg rydych yn ei chymryd â'ch arian.



DEALL EICH AGWEDD AT RISG

Os ydych yn bwriadu cymryd risg ariannol, mae'n bwysig meddwl am eich agwedd at risg. Ydych chi'n rhywun sy'n hoffi mentro ac ni fydddech yn poeni petai pethau'n dechrau mynd o chwith? Neu ydych chi'n rhywun a fyddai'n poeni a gofidio am golli arian, ac felly eisiau cymryd opsiynau risg is? Bydd hefyd angen i chi ystyried eich cyllideb a faint o arian y gallwch fforddio ei fentro.



CYLLIDEBU A CHYNLLUNIO

Mae cyllideb yn edrych ar faint rydych yn ei ennill fel incwm ac yn cymharu hynny â faint rydych yn ei wario. Mae hyn yn dangos a oes gennych unrhyw arian ar ôl ar ddiwedd y mis. Os na, efallai gallech wario llai neu gynyddu'ch incwm. Os oes gennych arian ar ôl, gallwch ddechrau ystyried p'un a ddylai gael ei gynilo neu ei fuddsoddi. Mae cyllideb yn caniatáu i chi weld eich holl gyllid dydd i ddydd mewn un man, fel y gallwch wneud dewisiadau mwy gwybodus am gynilo a buddsoddi yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol.



SUT MAE YSWIRIANT YN GWEITHIO

Yswiriant yw pan fydd cwmni'n ymrwymo i roi gwarant o iawndal am golled, difrod neu salwch penodol, neu farwolaeth, yn gyfnewid am dalu premiwm penodol. Y premiwm yw'r swm o arian rydych yn ei dalu i'r cwmni yswiriant am yr yswiriant.



PARATOI AC YMCHWILIO

Wrth benderfynu buddsoddi ai peidio, gallwch leihau rhywfaint o'r risg trwy wneud yn siŵr eich bod wedi siarad ag arbenigwyr, fel cynghorydd ariannol neu'ch banc. Fe allan nhw eich cynghori ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiad ac fe ddylent drafod eich agwedd at risg hefyd. Dylech wneud gwaith ymchwil eich hun a cheisio barn wahanol cyn trafod gyda chynghorydd.



GWASGARU'R RISGIAU

Os byddwch yn cael cyngor arbenigwyr, byddan nhw bron yn sicr yn eich cynghori i "wasgaru eich risgiau". Mae hyn yn golygu peidio â dibynnu ar un math o fuddsoddiad ariannol yn unig. Os oes modd, buddsoddwch eich arian mewn amrywiaeth o asedau, felly os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gydag un ohonynt, bydd y lleill gennych wrth gefn.



YSWIRIANT

Mae yswiriant yn fodd o'ch diogelu'ch hun rhag colled ariannol os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, er enghraifft, colli'ch incwm oherwydd salwch, torri'ch ffôn symudol neu gael damwain yn eich car. Ni allwn atal pethau fel hyn rhag digwydd, ond mae yswiriant yn fodd o'ch diogelu'ch hun rhag colledion ariannol os byddan nhw'n digwydd.

Er enghraifft, meddyliwch eich bod yn mynd ar wyliau dramor.

Cam 1 – Casglwch eich holl fanylion teithio a phersonol at ei gilydd – i ble rydych yn mynd, o ble rydych yn hedfan, am ba hyd, beth rydych yn bwriadu ei wneud tra byddwch yno a faint o sicrwydd yswiriant y byddwch ei eisïau. Dyma faint y byddai angen i chi ei hawlio'n ôl petaech chi'n colli'ch taith hedfan, petai'ch bagiau'n mynd ar goll, petai'ch eiddo'n cael ei ddwyn tra byddwch ar eich gwyliau, neu petai angen i chi gael triniaeth feddygol.

Cam 2 – Mynnwch bris gan nifer o wahanol gwmnïau yswiriant, efallai trwy ddefnyddio safle cymharu, i ddod o hyd i bolisi sy'n bodloni'ch anghenion.

Cam 3 – Talwch y premiwm i'r cwmni yswiriant. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar faint o sicrwydd rydych chi ei eisïau – po fwyaf o sicrwydd y gofynnwch amdano, y mwyaf y byddwch yn ei dalu. Ym mis Chwefror 2020, byddai polisi nodweddiadol am 2 wythnos yn Sbaen wedi costio tua £25 i chi.

Cam 4 – Bydd y cwmni yswiriant yn anfon manylion eich polisi atoch, ynghyd â rhifau cyswllt rhag ofn y bydd rhywbeth yn digwydd tra byddwch ar eich gwyliau.

Cam 5

a) Ewch ar eich gwyliau, mwynhewch a dychwelwch adref heb reswm i gysylltu â'r cwmni yswiriant. Ond ni fyddwch yn cael eich premiwm yn ôl os nad ydych yn hawlio. Mae hwnnw'n eiddo i'r cwmni yswiriant nawr.

Neu

b) Tra byddwch i ffwrdd, mae pigiw'r pocedi'n dwyn arian a gemwaith gwerth £1,000 oddi arnoch. Os bydd unrhyw beth fel hyn yn digwydd, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r cwmni yswiriant yn syth gan ddefnyddio'r rhifau cyswllt a roddwyd i chi pan gawsoch fanylion eich polisi. Yn y pen draw, byddwch yn llenwi ffurflen hawlio a bydd y cwmni yswiriant yn talu £1,000 i chi i wneud iawn am yr arian a'r gemwaith a ladratwyd (neu'n agos at y £1,000 os oes gan eich polisi 'dâl-dros-ben' – caiff hyn ei esbonio'n ddiweddarach). Mae'r enghraifft hon yn dangos bod yswiriant yn fodd o'ch diogelu'ch hun rhag yr annisgwyl. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu am yswiriant a byth yn gorfod ei ddefnyddio. Ond pan fydd rhywbeth anffodus yn digwydd, mae yswiriant yn rhoi sicrwydd na fyddwch ar eich colled yn ariannol.



GWEITHGAREDD

Mae "gwasgaru'r risg" yn enghraifft gyffredin o gyngor ariannol, ond mae llawer o ddywediadau eraill sy'n ceisio rhoi rhyw fath o ddoethineb ariannol. Dyma 10 ohonynt – beth ydych chi'n credu maen nhw'n ei olygu yng nghyd-destun cymryd risg ariannol?

- Mae llwyddo a methu'n ddwy ochr o'r un geiniog
- Nid aur yw popeth melyn
- Paid taflu arian da ar ôl drwg
- Nid yw arian yn gallu prynu hapusrwydd
- Cadw'r blaidd o'r drws
- Paid rhoi dy wyau i gyd mewn un fasged
- Nid oes y fath beth â chinio am ddim
- Mae talu dyled yn cadw ffrind
- Cael deupen llinyn ynghyd
- O geiniog i geiniog fe â swllt yn bunt



CWESTIYNAU

1. Enwch dair ffordd o'ch diogelu'ch hun rhag risg ariannol.
2. Beth yw buddion cyllidebu?
3. Enwch ddau sefydliad sy'n cynnig cyngor ariannol.
4. Beth yw pwrrpas yswiriant?



MATHAU O YSWIRIANT

Gallwch brynu yswiriant ar gyfer pob math o bethau – eich tŷ, eich iechyd, eich gwyliau, eich anifail anwes, a'ch eiddo. Mae'r rhan fwyaf o yswiriant yn wirfoddol, a gallwch benderfynu a ydych eisiau cael yswiriant ar gyfer rhywbeth neu fentro gan obeithio na fydd unrhyw beth anffodus yn digwydd.

Fodd bynnag, mae rhai mathau o yswiriant yn ofyniad cyfreithiol. Yn ôl y gyfraith, os ydych yn berchen ar gerbyd y gellir ei yrru'n ddiogel ar y ffyrdd, mae'n rhaid i chi gael yswiriant i'ch yswirio, o leiaf, am unrhyw ddifrod neu niwed y gallech ei wneud i yrwyr eraill neu gerddwyr – yswiriant trydydd parti yw'r enw ar hyn. Mae'n rhaid i chi gael rhai mathau o yswiriant os ydych yn cynnal eich busnes eich hun hefyd.

Dyma rai enghreifftiau nodweddiadol o yswiriant a beth fyddan nhw'n ei yswirio.

MATH O YSWIRIANT	BETH SY'N DEBYGOL O GAEL EI YSWIRIO
Yswiriant cartref – adeilad	Mae'n yswirio atgyweiriadau i adeiledd eich cartref rhag ofn y bydd yn cael ei ddifrodi e.e. mewn storm.
Yswiriant cartref – cynnwys	Mae'n yswirio'ch eiddo yn y cartref yn erbyn colled neu ddifrod.
Yswiriant modur – trydydd parti	Bydd eich yswiriant yn talu'r costau os byddwch yn niweidio rhywun arall neu'n difrodi ei eiddo (h.y. trydydd parti).
Yswiriant modur – trydydd parti, tân a lladrad	Yr un fath â thrydydd parti, ond mae hefyd yn yswirio cerbyd deiliad y polisi os yw'n cael ei ddwyn neu'n mynd ar dân.
Yswiriant cerbyd – cynhwysfawr	Mae hyn yn yswirio cost niwed i chi a difrod i'ch cerbyd, yn ogystal ag unrhyw niwed neu ddifrod y gallech ei achosi i rywun arall neu ei eiddo.
Yswiriant bywyd	Bydd yn talu arian ar adeg eich marwolaeth, neu mewn rhai achosion os byddwch yn mynd yn ddifrifol wael yn ystod cyfnod yr yswiriant. Yn aml, mae yswiriant bywyd yn cael ei drefnu i yswirio morgais, sy'n golygu os byddwch yn marw yn ystod tymor y morgais y bydd y benthyciad yn cael ei dalu.
Yswiriant iechyd	Mae'n yswirio treuliau meddygol os byddwch yn sâl – efallai gallwch ddefnyddio gofal iechyd preifat.
Yswiriant teithio	Mae'n yswirio ar gyfer colli bagiau, canslo neu darfu ar drefniadau teithio, os oes rhaid i chi dalu treuliau meddygol oherwydd eich bod yn mynd yn sâl ar eich gwyliau, ac ati.
Yswiriant benthyciad	Os ydych yn cael benthyciad, gallwch yswirio'ch hun rhag ofn na allwch ei ad-dalu o ganlyniad i salwch, diweithdra, ac ati.
Diogelu incwm	Mae'n gwarantu rhywfaint o incwm i chi os na allwch weithio am unrhyw reswm.
Yswiriant anifail anwes	Bydd yn yswirio ffioedd milfeddyg os bydd angen i'ch anifail anwes gael llawdriniaeth neu driniaeth feddygol arall.

Cofiwch fod rhai polisiâu yswiriant yn mynnu eich bod yn talu swm cytunedig o gost unrhyw ddifrod os byddwch yn hawlio – yr enw ar hyn yw tâl-dros-ben. Yna, bydd yr yswiriwr yn talu unrhyw gost sy'n uwch na hyn. Fel arfer, mae cytuno ar dâl-dros-ben uwch yn lleihau'r premiwm.

Hunan-yswirio

Mae rhai pobl yn dewis peidio â phrynu yswiriant os ydynt yn credu bod y risg y gallai rhywbeth fynd o'i le yn fach. Mae hunan-yswirio yn golygu bod gennych ddigon o arian wedi'i gynilo, neu eich bod yn cynilo swm bob mis, a fydd yn cael ei ddefnyddio i dalu am golli incwm neu eiddo os byddwch yn colli'ch swydd, neu'n talu am gost amnewid rhywbeth rydych yn berchen arno os bydd yn torri neu'n cael ei ddwyn.



GWEITHGAREDD

Mae Aneurin newydd brynu ci achub o'r enw Gelert o elusen anifeiliaid leol. Mae Gelert wedi cael ei archwilio gan filfeddyg ac mae'n ffit ac yn iach i fynd i'w gartref am byth newydd gydag Aneurin.

Mae Aneurin yn penderfynu peidio â phrynu yswiriant anifail anwes, sy'n costio £35 y mis. Yn lle hynny, bydd yn hunan-yswirio ac yn talu am filiau milfeddyg Gelert trwy gynilo £15 y mis, y mae'n credu y bydd yn talu am gost unrhyw driniaethau y gallai fod eu hangen ar Gelert.

Yn y flwyddyn gyntaf, dim ond pigiadau blynyddol sydd eu hangen ar Gelert, sy'n costio £80 i Aneurin.

1. Beth yw'r risgiau i Aneurin trwy hunan-yswirio?
2. Trwy beidio â dewis yswiriant, faint mae Aneurin wedi'i arbed yn ystod y flwyddyn gyntaf?
3. Faint o amser byddai wedi'i gymryd i Aneurin gynilo am y pigiadau blynyddol?
4. Yn eich barn chi, a oedd Aneurin yn iawn i hunan-yswirio?
5. Meddyliwch am dri chwestiwn y dylech eu gofyn i'ch hun cyn penderfynu hunan-yswirio.



A WYDDOCH CHI?

Nid oes gan 22% o'r holl aelwydydd yng Nghymru yswiriant cynnwys.

Ffynhonnell: www.finder.com 2020



POLISIÂU YSWIRIANT

Pan fyddwch yn trefnu yswiriant, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod y polisi'n briodol i'ch amgylchiadau, ac y bydd yn eich yswirio os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Fel unrhyw gynnyrch ariannol, bydd gan bolisiâu yswiriant delerau ac amodau llawn sy'n manylu ar yr hyn y byddant ac na fyddant yn talu amdano. Mae'n bwysig darllen y rhain yn ofalus i wneud yn siŵr bod y polisi'n addas i chi.

Nid yw pob math o yswiriant yn syniad da. Gwerthodd banciau Yswiriant Diogelu Taliadau (PPI) gyda benthychiadau a chardiau credyd am flynyddoedd, i yswirio ad-daliadau petaech chi'n colli'ch swydd neu'n mynd yn sâl, yn ôl pob sôn. Ac er nad oedd bob amser yn syniad gwael, nid oedd yn addas i'r rhan fwyaf o bobl ac roedd yn ddrud iawn mewn gwirionedd. Cymaint felly fel bod mwy na £30 biliwn wedi cael ei ad-dalu i gwsmeriaid mewn sgandal camwerthu enfawr.

Yn aml, bydd cwmnïau yswiriant yn meddwl am bethau newydd y gallwch yswirio'ch hun yn eu herbyn, hyd yn oed pan fydd y risg yn fach iawn. Felly, dylech bob amser ystyried y risg a phenderfynu a oes arnoch angen yr amddiffyniad, neu os ydych yn cael eich amddiffyn mewn ffyrdd eraill (trwy yswiriant arall sydd gennych eisoes, efallai), cyn llofnodi polisi yswiriant newydd.





TRAFODAETH

A yw'n talu i fod yn ffyddlon?

Mae Owen wedi bod yn gwsmer ffyddlon, gan adnewyddu ei yswiriant car yn awtomatig bob blwyddyn a byth herio cynnydd yn y pris. Oherwydd ei fod wedi yswirio ei gar gyda'r un cwmni bob blwyddyn, mae'n credu y bydd yn cael y fargen orau.

Mae Ceri newydd ymuno â'r un cwmni yswiriant. Mae ei amgylchiadau yn union yr un fath ag Owen ac maen nhw'n gyrru ceir tebyg.

Pwy ydych chi'n credu sy'n cael yr yswiriant rhatach? Esboniwch eich ateb.



A WYDDOCH CHI?

Yn 2009, yswiriodd Clwb Pêl-droed Real Madrid goesau Cristiano Ronaldo am £90 miliwn.

Ffynhonnell: www.telegraph.co.uk



GWEITHGAREDD

Ymchwiliwch i bethau eraill y mae pobl enwog wedi yswirio eu hunain amdanynt.



GWEITHGAREDD



Mewn parau neu grwpiau bach, tynnwch dri diagram corryn/pry cop – un yr un ar gyfer tŷ, car a gwyliau. Ceisiwch benderfynu ar y risgiau sy'n gysylltiedig â phob un ac ysgrifennwch nhw yn y diagram corryn/pry cop. Pan fyddwch wedi gorffen, ystyriwch y cwestiynau hyn:

- Pa mor debygol ydyn nhw o ddigwydd?
- Pa mor drychinebus, annifyr neu ddrud y gallen nhw fod petaen nhw'n digwydd?
- A fydddech chi'n ystyried trefnu yswiriant ar gyfer unrhyw un o'r risgiau hyn?
- Heblaw am y tri pheth hyn, beth arall ydych chi'n credu y gallai fod angen i chi drefnu yswiriant ar ei gyfer?



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Emil yn dwlu ar ddyfeisiau ac mae bob amser eisiau cael y dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer ei ffôn a'i fflat. Safodd mewn ciw i gael y ffôn clyfar diweddaraf ac mae'n ei ddefnyddio drwy'r amser ar gyfer lluniau, ffrydio cerddoriaeth, cynnal ei gyfryngau cymdeithasol ac aros mewn cysylltiad â'i ffrindiau a'i deulu. Mae ganddo'r teledu 4k UHD gorau ac mae'r goleuadau a'r gwres yn ei fflat yn cael eu rheoli gan lais. Mae wedi gosod camerâu diogelwch sy'n gallu anfon delwedd i'w ffôn clyfar os yw'n canfod tresmaswr. Nid yw'n gallu fforddio prynu a rhedeg car, ond oherwydd ei fod yn byw mewn tref, mae'n defnyddio ei e-feic llawer ac mae eisiau ei uwchraddio nawr. Mae'n ystyried cael benthyciad i dalu am y model diweddaraf.

Mae Aliyah yn dwlu ar deithio a chymryd rhan mewn chwaraeon anturus fel beicio mynydd a rafftio dŵr gwyn. Mae hi'n dod o Sweden yn wreiddiol felly mae'n gallu sgïo ac eirafyrddio'n dda iawn. Mae hi'n rhentu fflat, ond mae'n aml yn wag tra bydd hi'n teithio. Pan fydd yn teithio yn y Deyrnas Unedig, mae Aliyah yn mynd â Rufus, ei chi defaid 12 oed hoff, gyda hi, ond mae'n talu ffrindiau i ofalu amdano pan fydd hi'n mynd dramor. Mae gan Aliyah fan wersylla 20 oed mae hi'n ei galw'n Hector i fynd o gwmpas y wlad hon.

A allwch chi gynghori Emil ac Aliyah ar yswiriant? Argymhellwch ddau fath o yswiriant rydych chi'n credu eu bod yn bwysig i Emil a dau i Aliyah.



A WYDDOCH CHI?

Talwyd y swm mwyaf gan gwmni yswiriant yn y Deyrnas Unedig i drwsio car yn 2011 pan yrrodd yr actor Rowan Atkinson (sy'n chwarae Mr Bean) ei McLaren F1 i mewn i berth. Costiodd £910,000 i'r cwmni yswiriant. Gwerthodd Mr Atkinson y car bedair blynedd yn ddiweddarach am bron £7.5 miliwn yn fwy nag y talodd amdano!

Ffynhonnell: www.mirror.co.uk

MATHAU ERAILL O DDIOGELU RHAG RISG ARIANNOL



RHEOLEIDDWYR Y DIWYDIANT

Os oes gennych chi, fel unigolyn, gŵyn am fusnes ariannol, y peth cyntaf i'w wneud fyddai siarad â'r busnes a rhoi cyfle iddo unioni'r sefyllfa. Os ydych chi dal i fod yn anfodlon ar ôl cael ei ymateb terfynol (o fewn 8 wythnos, fel arfer), dyna'r adeg i gysylltu â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Sefydlwyd Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol gan y senedd i ddatrys cwynion unigol rhwng busnesau ariannol a'u cwsmeriaid. Fe all ymchwilio i broblemau yn ymwneud â'r rhan fwyaf o fathau o faterion ariannol – o fenthyciadau diwrnod cyflog i bensiynau, yswiriant anifail anwes i gyngor ar brynu cyfranddaliadau.

Os yw'n penderfynu bod rhywun wedi cael ei drin yn annheg, mae ganddo bwerau cyfreithiol i unioni'r sefyllfa.

Mae'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn cael ei reoleiddio gan gorff annibynnol o'r enw yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae'n rhaid i unrhyw fusnes neu unigolyn sydd eisiau cynnig gwasanaethau ariannol i'r cyhoedd gael ei awdurdodi gan yr FCA. Os yw'r FCA yn credu bod rhywun yn camarwain y cyhoedd, er enghraifft, trwy wneud honiadau ffug mewn hysbysebion, fe all ymchwilio i sefydliad neu unigolyn, rhoi dirwy iddo a'i wahardd rhag gweithredu.

Sefydlwyd y Comisiwn Gamblo o dan Ddeddf Gamblo 2005 i reoleiddio gamblo masnachol ym Mhrydain Fawr. Amcanion y Comisiwn yw:

- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, cael ei gysylltu â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd.
- Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored.
- Diogelu plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu ddioddef camfanteisio oherwydd gamblo.

Fel yr FCA, nid yw'n delio â chwynion unigol – mae'n rheoleiddio'r diwydiant. Os oedd gennych gŵyn am fusnes gamblo, byddech yn siarad â'r busnes i geisio datrys y broblem.

Os nad yw hyn yn gweithio er eich boddhad, gallech gysylltu â'r Gwasanaeth Dyfarnu Betio Annibynnol (IBAS). Sefydliad trydydd parti yw IBAS, a ffurfiwyd ym 1998, sy'n datrys anghydfodau rhwng sefydliadau gamblo sydd wedi'u cofrestru gydag IBAS a'u cwsmeriaid yn y Deyrnas Unedig.



HAWLIAU STATUDOL

Yn ogystal â rheoleiddwyr y diwydiant, mae defnyddwyr yn cael eu diogelu gan ddeddfau penodol hefyd.

Deddf Credyd Defnyddwyr 2006 – Mae'r ddeddf hon yn amddiffyn defnyddwyr pan fyddant yn benthycu arian. Mae'r Ddeddf yn gosod rheolau sy'n ymdrin â: ffurf a chynnwys cytundebau credyd a hysbysebu credyd, y dull o gyfrifo Cyfradd Ganrannol Flynyddol (APR) cyfanswm y taliad a godir ar gyfer credyd a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn achos diffygdlu, terfynu neu dalu'n llawn yn gynnar. Yn ogystal, dyma'r Ddeddf a sefydlodd Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) – Yr ASA yw rheoleiddiwr annibynnol y Deyrnas Unedig ar gyfer hysbysebu ar draws pob math o gyfryngau. Os ydych yn credu bod hysbyseb am wasanaeth ariannol penodol yn gamarweiniol neu'n anghywir, gallwch gwyno i'r ASA a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS) – Sefydlwyd y cynllun hwn yn 2001 ac mae ar gael am ddim i gwsmeriaid sefydliadau ariannol sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig. Mae'n diogelu'ch arian os bydd unrhyw beth yn digwydd i'ch banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd. Yr uchafswm yw £85,000 fesul sefydliad ariannol (neu £170,000 ar gyfer cyfrif ar y cyd). Felly, dyweder, er enghraifft, fod gennych £100,000 wedi'i gynilo mewn banc penodol. Mae'r banc hwnnw'n cael trafferthion ac yn mynd i'r wal yn y pen draw. O dan yr FSCS, rydych yn sicr o gael £85,000 o'ch cynilion yn ôl. Gan fod uchafswm y gellir ei ddigolledu, mae'n gwneud synnwyr i bobl sydd â llawer o gynilion eu gwasgaru fel nad oes ganddynt ormod o arian mewn un sefydliad penodol.



CWESTIYNAU

1. Beth yw rôl yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)?
2. Os oedd gennych gŵyn am fenthyciad personol, pwy allech chi gysylltu ag ef i gael help?
3. Beth yw pwrpas y Comisiwn Gamblu?
4. Beth yw enw'r sefydliad sy'n rheoleiddio'r cyfryngau?
5. Beth yw cyfanswm y cynilion sy'n cael eu diogelu o dan y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS)?





BETH YDYCH CHI WEDI'I DDYSGU?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch chi o'r bennod hon, cwblhewch y gweithgaredd a'r astudiaeth achos isod:



GWEITHGAREDD

Edrychwch ar y senarios canlynol a phenderfynwch ar risg a gwobr bosibl ar gyfer pob un.

SENARIO	RISG BOSIBL	GWOBR BOSIBL
Prynu cyfranddaliadau		
Chwarae gemau mewn casino ar-lein		
Prynu arian cyfred crypto		
Peidio â threfnu polisi yswiriant ar gyfer ffôn newydd		
Prynu watsh hynafol		



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Mari yn gweithio fel peiriannydd awyrofod sy'n profi awyrennau. Ar ôl ei threuliau misol a rhoi rhywfaint o arian yn ei chynilion, mae ganddi tua £150 ar ôl o hyd ar ddiwedd bob mis.

Mae Mari yn hoffi mentro'n ofalus. Nid yw'n anghyfrifol ac mae'n derbyn bod risgiau'n gysylltiedig â cheisio gwobrau ariannol mwy. Er enghraifft, dim ond yswiriant car sydd gan Mari, ac mae'n hunan-yswiro ar gyfer popeth arall (yn rhoi arian o'r neilltu bob mis i dalu am unrhyw beth annisgwyl).

Nid yw wedi buddsoddi arian o'r blaen, ond mae'n ystyried ei hopsiynau nawr a'r cydbwysedd rhwng risg a gwobr mae hi'n fodlon ei dderbyn.

1. Ydy Mari yn wynebu unrhyw risgiau ariannol posibl ar hyn o bryd?
2. Esboniwch beth mae Mari yn ei olygu wrth ddweud ei bod yn "ystyried y cydbwysedd rhwng risg a gwobr".
3. Awgrymwch rai ffyrdd y gallai Mari ddewis buddsoddi ei £150, ac esboniwch y risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â phob un.
4. Beth fydddech chi'n ei wneud petaech chi yn sefyllfa Mari?

DATBLYGU'CH GWYBODAETH

PRYNU CYFRANDDALIADAU

Pan fyddwch yn prynu cyfranddaliadau mewn cwmni, byddwch yn talu treth fel arfer. Os byddwch yn prynu'r cyfranddaliadau ar-lein, byddwch yn talu Treth Wrth Gefn y Dreth Stamp (SDRT) a bydd 0.5% yn cael ei godi arnoch ar ben y swm rydych wedi'i dalu am y cyfranddaliadau. Er enghraifft, os byddwch yn talu £2,000 am eich cyfranddaliadau, eich taliad SDRT fydd £10.

Os byddwch yn prynu cyfranddaliadau trwy ffurflen trosglwyddo stoc (h.y. cyfranddaliadau papur), byddwch yn talu SDRT wedi'i chodi ar 0.5%, os yw gwerth y cyfranddaliadau rydych yn eu prynu'n fwy na £1,000. Yna, bydd hyn yn cael ei dalgrynnu i'r £5 agosaf. Er enghraifft, os byddwch yn prynu cyfranddaliadau gwerth £2,995 gan ddefnyddio ffurflen trosglwyddo stoc, byddwch yn talu £15 o SDRT.



GWERTHU CYFRANDDALIADAU

Os byddwch yn gwneud mwy na £12,300 o elw (2021/22) mewn un flwyddyn ariannol wrth werthu'ch cyfranddaliadau, byddwch yn talu Treth Enillion Cyfalaf, ond dim ond ar unrhyw enillion dros y swm hwn. Os ydych yn drethdalwr cyfradd sylfaenol, byddwch yn talu 10%, ac os ydych yn drethdalwr cyfradd uwch, byddwch yn talu 20%.

Edrychwch ar y senarios canlynol ac ar gyfer pob un:

- a) Nodwch ba dreth y bydd y buddsoddwr yn ei thalu.
 - b) Cyfrifwch faint o dreth y bydd y buddsoddwr yn ei thalu.
1. Mae Delyth yn prynu £11,800 o gyfranddaliadau trwy'r rhynggrwyd. Ar ôl 3 blynedd, mae ei chyfranddaliadau'n werth £23,650 ac mae hi wedi penderfynu eu gwerthu. Mae Delyth yn drethdalwr cyfradd sylfaenol.
 2. Mae Elin yn talu £4,250 am gyfranddaliadau gan ddefnyddio ffurflen trosglwyddo stoc.
 3. Talodd Juan £6,750 am ei gyfranddaliadau flwyddyn yn ôl ac maen nhw bellach yn werth £8,320. Mae'n bwriadu gwerthu ei gyfranddaliadau ac mae'n drethdalwr cyfradd uwch.
 4. Mae Osian yn prynu cyfranddaliadau gwerth £7,800 am £6,100 gan ddefnyddio banc ar-lein.



YSWIRIANT

Mae loan wedi prynu ffôn newydd yn ddiweddar ar contract sy'n costio £60 y mis iddo am 2 flynedd – mae'r £60 yn cynnwys taliad misol ar gyfer y ffôn ei hun, yn ogystal â phhecyn data, galwadau a negeseuon testun misol. Mae'r siop lle mae'n prynu'r ffôn yn awgrymu ei fod yn cael polisi yswiriant ffôn symudol, am gost ychwanegol o £100 y flwyddyn, gyda thâl-dros-ben o £100 os yw'n ei golli neu'n ei ddifrodi.

Mae loan yn penderfynu peidio â phrynu'r yswiriant. Wythnos ar ôl prynu'r ffôn, trychineb! Mae'n gollwng ei ffôn ac nid yw'n gweithio mwyach. Mae'n mynd ag ef yn ôl i'r siop lle maen nhw'n canfod nad oes modd ei drwsio a does dim byd y gallan nhw ei wneud.

Os yw eisiau cael yr un model yn lle ei hen ffôn, bydd yn costio £1,000 iddo am y set law yn unig, a beth bynnag y bydd yn penderfynu ei wneud, bydd rhaid iddo dalu £60 y mis o hyd am y contract gwreiddiol er nad oes ganddo'r ffôn gwreiddiol mwyach – ond bydd yn gallu defnyddio'r data, galwadau a negeseuon testun gyda set law newydd.

Mewn parau, atebwch y cwestiynau canlynol:

- 1.** Petai loan wedi penderfynu prynu'r yswiriant, faint byddai'r ffôn a'r yswiriant wedi'i gostio iddo am y contract 2 flynedd?
- 2.** Mae loan yn penderfynu cael yr un model yn lle ei hen ffôn ac, ar ôl dysgu o'i gamgymeriad, mae'n penderfynu cael yswiriant ffôn symudol hefyd i atal unrhyw ddifrod neu ladrad posibl yn y dyfodol. Faint mae'r profiad cyfan hwn wedi'i gostio iddo?
- 3.** Yn eich barn chi, ydych chi'n credu bod y polisi yswiriant hwn yn werth da am arian? Esboniwch eich rhesymau.
- 4.** Yn y Deyrnas Unedig, mae gan tua 95% o oedolion 25-34 oed ffôn clyfar, ond dim ond 23% o'r grŵp oedran hwnnw sydd ag yswiriant ffôn symudol.

Pam ydych chi'n credu bod y ffigur mor isel?

(Ffynhonnell: www.statista.com 2019)

BUDDSODDI MEWN CYFRANDDALIADAU

Mae Sandeep a Noor yn penderfynu mentro rhywfaint o’u cynilion ar y farchnad stoc, gan brynu cyfranddaliadau mewn amrywiaeth o wahanol gwmnïau yn y Deyrnas Unedig i geisio gwneud elw ar eu buddsoddiadau. Maen nhw’n cadw llygad ar eu buddsoddiadau bob wythnos gan ddefnyddio gwefan Cyfnewidfa Stoc Llundain i weld sut maen nhw’n gwneud yn y tabl isod:

ENW'R CWMNI	NIFER Y CYFRANDDALIADAU MAE SANDEEP A NOOR YN BERCHEN ARNYNT	PRIS PRYNU FESUL CYFRANDDALIAD (MEWN CEINIOGAU)	GWERTH Y BUDDSODDIAD (£)	PRIS HEDDIW (MEWN CEINIOGAU)	GWERTH Y BUDDSODDIAD HEDDIW (£)
Y Cwmni Glas	2500	6c		7c	
SgwârMelyn	48	725c		722c	
Gwyrdd i Gyd CCC	150	140c		139c	
Coch Campus	500	58c		56c	
CYFANSWM					

- 1. Crëwch draciwr buddsoddiadau ar gyfer Sandeep a Noor fel yr enghraifft uchod.
- 2. Cyfranddaliadau pa gwmni sy’n dwyn yr elw mwyaf? Faint o elw?
- 3. Faint yw cyfanswm yr elw neu’r golled mae Sandeep a Noor wedi’i wneud o’r adeg pan brynon nhw’r cyfranddaliadau?
- 4. Os bydd pris cyfranddaliadau SgwârMelyn yn gostwng 10% a phris cyfranddaliadau Gwyrdd i Gyd CCC yn cynyddu 15%, beth fydd gwerth eu portffolio buddsoddiadau nawr?
- 5. Pa risgiau sy’n gysylltiedig â buddsoddi mewn cyfranddaliadau?
- 6. Dychmygwch fod gennych £1,000 i’w buddsoddi mewn cyfranddaliadau. Gwnewch eich her gyfranddaliadau rithwir eich hun; dewiswch rai cwmnïau ar Gyfnewidfa Stoc Llundain a dilynwch eich cyfranddaliadau unwaith yr wythnos am 4 wythnos i weld faint o elw y gallech fod wedi’i wneud (neu beidio!).



DIOGELWCH A THWYLL

PAM DYLWN I GADW GWYBODAETH AMDANAF YN DDIOGEL?

Yn y bennod hon, byddwch yn archwilio beth yw ystyr dwyn hunaniaeth a thwyll.

Byddwch yn gweld sut mae hunaniaeth yn gallu cael ei dwyn a sut gallai gwybodaeth am bwy ydych gael ei defnyddio'n dwyllodrus gan bobl sy'n ceisio gwneud arian trwy dorri'r gyfraith. Byddwch hefyd yn darganfod beth i'w wneud os bydd rhywun yn dwyn eich hunaniaeth, ac yn edrych ar rai o'r ffyrdd y gallwch ddiogelu'ch hun rhag dwyn hunaniaeth.



A WYDDOCH CHI?

Yn y Deyrnas Unedig yn 2019:

- Cofnodwyd dros 223,000 o achosion o dwyll hunaniaeth.
- Digwyddodd 87% o'r achosion o dwyll hunaniaeth trwy sianeli ar-lein.
- Achosion twyll hunaniaeth oedd 61% o'r achosion a gofnodwyd ar y Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol.
- Bu cynnydd 22% mewn dioddefwyr twyll dros 61 oed.

Ffynhonnell: Cifas Fraudscape 2020





BETH YW TWYLL?

Mae twyll yn digwydd pan fydd rhywun yn twyllo dioddefwr yn anonest ac yn fwriadol er mwyn iddo elwa'n bersonol o eiddo neu arian. Yn y Deyrnas Unedig, gosodwyd y deddfau cyntaf ar dwyll yn Statud Cyntaf San Steffan ym 1275. Felly, nid yw twyll yn drosedd newydd, ond mae'r dulliau o'i chyflawni wedi esblygu llawer yn ddiweddar wrth i dechnoleg newydd ddatblygu. Mae'r rhyngwrdd, yn enwedig, wedi rhoi mwy o gyfleoedd i dwyllwyr gyflawni troseddau ar raddfa fawr iawn.

Beth yw dwyn hunaniaeth?

Mae dwyn hunaniaeth yn fath cyffredin o dwyll; mae'n digwydd pan fydd rhywun yn cael gwybodaeth am rywun arall yn anghyfreithlon. Gallai lladron geisio canfod y mathau canlynol o wybodaeth bersonol: enw llawn, enw cyn priodi (cyfenw gwreiddiol rhywun os penderfynodd ei newid ar ôl priodi), cyfeiriad, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, cyfrineiriau, manylion banc a rhifau cerdyn debyd neu gredyd.

Nid yw dwyn hunaniaeth yn drosedd newydd; dyma rai enghreifftiau hanesyddol:



Mae llyfr Genesis yn y Beibl yn adrodd stori Jacob ac Esau, ac mae llawer o bobl yn credu mai dyna'r weithred gyntaf a gofnodwyd o ddwyn hunaniaeth. Gwnaeth Jacob esgus mai ei frawd hŷn Esau ydoedd yn y gobaith o dwyllo ei dad, a oedd yn marw, i gredu mai ef oedd y mab hŷn fel y byddai'n etifeddu ystad ei dad ar ôl ei farwolaeth.



Ym 1925, gwnaeth Victor Lustig esgus mai ef oedd dirprwy gyfarwyddwr cyffredinol y Weinyddiaeth Post a Thelegraffau ym Mharis. Fe gyfarfu â grŵp o ddelwyr sgrap a chynigiodd gyfle iddynt brynu Tŵr Eiffel. Llyncodd un o'r delwyr sgrap y twyll a dihangodd Lustig â'i arian. Daliwyd ef yn y pen draw a chafodd ddedfryd o 20 mlynedd yn Alcatraz (carchar drwg-enwog yn America).



Yn 2006, oherwydd bod llywodraeth y Deyrnas Unedig yn pryderu cymaint am y cynnydd mewn dwyn hunaniaeth, cyhoeddodd gynlluniau i bawb yn y wlad gario cerdyn adnabod. Ond cefnwyd ar hyn yn 2010 yn dilyn pryderon am gost y cynllun a pha mor effeithiol y byddai. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â faint o ddata personol fyddai'n cael ei gasglu a sut byddai'n cael ei storio a'i ddefnyddio.



Yn ystod cyfnod y Gorllewin Gwylt yn America, yn hwyr yn y 19eg ganrif, byddai herwyr (outlaws) yn llofruddio pobl i gael enw a hanes bywyd newydd. Roedd yr hunaniaeth ffug hon yn helpu'r herwyr i aros un cam o flaen y gyfraith.



Yn y 1960au, cymerodd Frank Abagnale Jr. nifer o wahanol hunaniaethau, gan gynnwys peilot awyren a meddyg. Cyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 19 oed, roedd wedi cael mwy na \$2 filiwn trwy dwyll. Pan oedd yn 21 oed, cafodd ddedfryd o 12 mlynedd mewn carchar ffederal am sawl achos o ffugio. Trowyd ei stori'n ffilm yn 2002 o'r enw Catch Me If You Can gyda Leonardo DiCaprio a Tom Hanks yn chwarae'r prif rannau.



CWESTIYNAU

1. Pa fath o wybodaeth bersonol allai gael ei chymryd wrth ddwyn hunaniaeth?
2. Pam mae'r rhyngwrdd wedi cynyddu risg dwyn hunaniaeth?
3. Beth allai twyllwyr ei wneud â'r hunaniaethau maen nhw'n eu cymryd?



BETH YW'R GWAHANOL DDULLIAU A DDEFNYDDIR I DDWYN HUNANIAETH?

Corfforol

Sgimio cerdyn banc – Mae hyn fel arfer yn digwydd pan fydd rhywun, er enghraifft gweithiwr siop neu weinydd, yn cael eich gwybodaeth trwy "sgimio" neu gopïo'r wybodaeth ar eich cerdyn debyd neu gredyd pan fyddwch yn prynu rhywbeth. Yn aml, maen nhw'n gwerthu'r wybodaeth i gangiau troseddol proffesiynol. Gall hyn gael ei wneud hefyd pan fydd dyfais storio arbennig yn cael ei gosod ar ATM neu beiriant arian. Mae'r ddyfais yn darllen y strîbed magnetig ar eich cerdyn ac mae lladron yn ei ddefnyddio i gyflawni twyll.

Sganio cerdyn banc – Dyma pan fydd twyllwr yn defnyddio peiriant darllen cerdyn neu ap symudol i sganio manylion eich cerdyn banc digyffwrdd heb i chi wybod. Gan ddefnyddio technoleg Cyfathrebu Maes Agos (NFC), mae angen i'r twyllwr fod o fewn ychydig fodfeddi yn unig o'r man lle'r ydych yn cadw'ch cerdyn banc neu gredyd i sganio'ch manylion. Pan fydd ganddo'ch manylion, fe all eu defnyddio i brynu pethau'n ddigyffwrdd – efallai na fyddwch yn sylwi nes i chi weld cofnod o eitemau rhyfedd a brynwyd ar eich cyfriflen banc.

Lladrad – Dwyn pwrs neu waled oedd y brif ffordd o gael gwybodaeth bersonol gynt. Er bod twyllwyr yn aml yn defnyddio'r rhyngwryd i ddwyn hunaniaeth bellach, mae llawer o bobl yn cario cryn dipyn o fanylion personol yn eu pwrs neu waled, felly mae hyn yn dal i fod yn ddull cyffredin o gael gwybodaeth er mwyn dwyn hunaniaeth.

Twrio trwy finiau – Mae twyllwyr yn talu pobl i fynd trwy'r sbwriel mae unigolyn yn ei daflu allan. Maen nhw'n chwilio am gyfriflenni banc a cherdyn credyd, manylion treth, dogfennau yswiriant, biliau nwy, trydan a ffôn, llythyrau personol ac unrhyw ddarnau eraill o wybodaeth bersonol a all helpu i ddwyn hunaniaeth.

Newid eich cyfeiriad – Mae lladron yn dargyfeirio'ch post i leoliad arall trwy gwblhau ffurflen newid cyfeiriad. Yna, maen nhw'n gallu darllen eich holl gyfriflenni banc a gwybodaeth ariannol arall. Os na allant ddargyfeirio'ch post, gallai lladron ei ddwyn yn syml – yn enwedig pan fydd eich blwch post ar wahân i'ch tŷ/fflat.

Digidol

Hacio – Mae hacio'n digwydd pan fydd troseddwr yn llwyddo i ddyfalu neu ddehongli eich cyfrineiriau, cwestiynau diogelwch, a/neu Rifau Adnabod Personol (PINs).

Yna, gallant gael at unrhyw gyfrifon sydd gennych. Mae llawer o hacwyr yn defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook i gael gwybodaeth amdanoch y gellir ei defnyddio i ateb cwestiynau diogelwch. Bydd rhai hacwyr yn torri i mewn i wefan cwmni a dwyn hunaniaeth y cwmni. Mae hyn yn golygu y gallech archebu nwyddau o wefan sy'n edrych fel un go iawn, ond y cyfan maen nhw'n ei wneud yw cymryd eich arian ac ni fyddwch yn clywed ganddyn nhw eto.

Maleiswedd – Mae'r term hwn yn fyr am feddalwedd faleisus. Fe'i dylunnir yn benodol i gyrraedd eich dyfais h.y. eich bwrdd gwaith, ffôn clyfar neu lechen a'u trin a/neu ddifrodi. Yn ogystal, gall maleiswedd hefyd ddwyn eich gwybodaeth bersonol fel manylion cyfrif banc. Mae llawer o wahanol fathau o faleiswedd: feirysau, mwylod, feirysau Ceffyl Pren Troea, botiau, ysbïwedd, meddalwedd hysbysebu, a meddalwedd wystlo.

Mae maleiswedd yn cyrraedd eich dyfais mewn sawl ffordd:

- Ar feddalwedd sy'n cael ei gosod o wefan.
- O neges e-bost sbam.
- Defnyddio gyriant USB fflach sydd â maleiswedd arno eisoes.
- Clicio ar ffenestri naid.

Gallwch ddiogelu'ch cyfrifiadur trwy osod wal dân i atal mynediad heb awdurdod, a meddalwedd wrthfeirysau sy'n gallu atal, canfod a dileu maleiswedd.

Cymdeithasol

Gwe-rwydo – Trwy esgus bod yn gwmnïau neu sefydliadau ariannol, mae lladron yn gallu anfon negeseuon e-bost neu negeseuon naid ffug i'ch annog i ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol. Ni ddylech fyth glicio ar ddolenni mewn ffenestr naid neu neges e-bost sbam/sothach a dylech osgoi ymateb i negeseuon e-bost o'r fath.

Llais-rwydo neu sgamiau ffôn –

Bydd twyllwyr fel arfer yn twyllo pobl i gredu eu bod yn siarad ag aelod o staff banc neu gynrychiolydd asiantaeth neu gwmni dibynadwy arall, fel adran o'r llywodraeth. Fel rheol, bydd y twyllwr yn perswadio'r unigolyn ei fod wedi dioddef twyll a bydd yn gofyn am wybodaeth bersonol ac ariannol i gael at ei gyfrif. Gallai lleidr hunaniaeth hefyd ffonio rhywun i roi gwybod iddo ei fod wedi ennill gwobr, ond byddai angen iddo roi rhywfaint o wybodaeth bersonol iddo er mwyn derbyn y wobr; yna byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio er budd y lleidr.

SMS-rwydo – Dyma pan fydd rhywun yn ceisio'ch twyllo i roi eich gwybodaeth breifat iddo trwy neges destun neu SMS. Mae llawer o bobl yn fwy tueddol o ymddiried mewn neges destun nag e-bost, ac mae pobl yn llai ymwybodol o'r risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â chlicio ar ddolenni mewn negeseuon testun. Tacteg gyffredin a ddefnyddir gan SMS-rwydwyr yw dweud bod rhaid i chi weithredu ar unwaith – er enghraifft, os na fyddwch yn clicio ar ddolen a rhoi eich gwybodaeth bersonol, bydd tâl yn cael ei godi arnoch fesul dydd am ddefnyddio gwasanaeth.



GWEITHGAREDD

Defnyddiwch y wybodaeth am y 10 dull gwahanol a ddefnyddir i ddwyn hunaniaeth (corfforol, digidol a chymdeithasol) i lunio tabl â dwy golofn gyda'r dull twyllo yng ngholofn un a sut i atal y twyll yng ngholofn dau.

Mewn parau neu grwpiau, cwblhewch y tabl trwy ychwanegu o leiaf ddwy dacteg i atal bwriadau'r twyllwyr. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi yn yr enghraifft isod:

DULL TWYLLO	TACTEGAU I ATAL Y TWYLL
Sgimio cerdyn banc	Peidiwch â gadael i unrhyw un fynd â'ch cerdyn ymaith pan fyddwch yn prynu rhywbeth. Cuddiwch eich llaw bob amser wrth roi eich PIN mewn ATM i godi arian.
Sganio cerdyn banc	



A WYDDOCH CHI?

Rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Mawrth 2018, llwyddodd y Post Brenhinol i ryng-gipio ac atal tair miliwn o eitemau post sgam rhag cyrraedd cartrefi yn y Deyrnas Unedig.

Ffynhonnell: Y Post Brenhinol 2018



GWEITHGAREDD

Pa mor sicr ydych chi o'ch terminoleg?

Dyma saith dull a ddefnyddir gan dwyllwyr i gael gwybodaeth bersonol o'ch cyfrifiadur. A allwch chi baru'r diffiniadau â'r termau allweddol isod?

1. Darn o god neu raglen feddalwedd sy'n gallu atgynhyrchu ei hun. Fe'i defnyddir yn aml i wneud difrod i gyfrifiadur trwy lygru'r system neu ddinistrio neu addasu data a ffeiliau.
2. Math o faleiswedd sy'n aml yn cael ei guddio fel meddalwedd go iawn. Fe'i defnyddir i gael mynediad at gyfrifiadur er mwyn gwyllo beth mae'r defnyddiwr yn ei wneud heb iddo wybod, dwyn data sensitif neu gymryd rheolaeth o'r system o bell.
3. Rhaglen sy'n gwneud tasg awtomataidd. Os caiff y rhain eu defnyddio'n faleisus, gallant gasglu cyfrineiriau, cyfeiriadau e-bost a gwybodaeth ariannol o gyfrifiaduron.
4. Mae'n gweithredu fel feirws ond yn defnyddio cysylltiad rhwydwaith i'w ledaenu ei hun i nifer o gyfrifiaduron.
5. Meddalwedd sy'n cael ei gosod ar gyfrifiadur defnyddiwr, yn aml heb iddo wybod, ac sy'n gallu monitro beth mae'n ei wneud.
6. Meddalwedd sy'n arddangos neu'n lawrlwytho deunydd, fel baneri neu negeseuon naid, yn awtomatig pan fydd defnyddiwr ar-lein. Yn aml, mae'r feddalwedd yn tracio a chofnodi gwybodaeth bersonol y defnyddiwr a'i arferion pori'r we.
7. Math o faleiswedd sy'n atal neu'n cyfyngu ar fynediad defnyddiwr at ei system, naill ai trwy gloi sgrin y system neu gloi ffeiliau'r defnyddiwr oni bai bod arian yn cael ei dalu.

Termau Allweddol: meddalwedd hysbysebu, botiau, meddalwedd wystlo, ysbïwedd, feirws Ceffyl Pren Troea, feirws, mwyydyn.




SEIBERDROSEDDU

Nid dim ond unigolion sy'n cael eu targedu gan dwyllwyr. Yn ôl Arolwg Toriadau Seiberddiogelwch 2020 y llywodraeth, roedd bron hanner y busnesau yn y Deyrnas Unedig wedi dioddef seiberymosodiadau neu achosion o danseilio diogelwch yn 2019. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n dibynnu ar gyfathrebu neu wasanaethau digidol ac yn storio symiau mawr o ddata personol (e.e. enwau, cyfeiriadau e-bost a manylion banc) am eu staff a'u cwsmeriaid.

Gall sgamwyr hacio cronfeydd data cwsmeriaid i anfon negeseuon e-bost twyllodrus ac esgus bod y sefydliad ar-lein neu ddefnyddio feirysau neu faleiswedd i lygru ffeiliau a systemau.

Os byddwch yn cael gwybod bod eich manylion personol wedi cael eu colli neu eu dwyn gan gwmni sy'n dal eich data, dylech newid cyfrinair y cyfrif e-bost sy'n gysylltiedig â'r cwmni yn syth a chadw llygad ar eich cyfrif banc am unrhyw weithgarwch amheus.





GWEITHGAREDD

Darllenwch y tair neges e-bost isod. Ydych chi'n credu y gallai unrhyw un ohonyn nhw fod yn sgam? Nodwch unrhyw beth sy'n edrych yn amheus i chi.

Neges e-bost 1

Oddi wrth: Tîm Rhoddion
Alejandro a Pedro Lopez
<jasgt24@giveaway.com>

Pwnc: **Llongyfarchiadau –
rydych wedi ennill £1 filiwn**
Helô

Efallai eich bod yn cofio o'r newyddion cenedlaethol yn gynharach eleni fod Alejandro a Pedro Lopez wedi ennill £50 miliwn ar y loteri EuroMillions. Ond fe benderfynon nhw fod hyn yn llawer gormod iddynt ei wario ac y byddent yn rhoi £1 filiwn yr un i chwech o bobl ar hap yn y Deyrnas Unedig. Eich cyfeiriad e-bost chi oedd un o'r rhai a ddewiswyd!!

Nid yw Alejandro a Pedro eisiau unrhyw gyhoeddusrwydd o hyn, felly peidiwch â cheisio cysylltu â nhw. Byddwn yn trosglwyddo'ch arian i'ch cyfrif pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen manylion banc atodedig a'i dychwelyd i ni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflen, a llongyfarchiadau!

Dymuniadau gorau oddi wrthym ni i gyd

Tîm Rhoddion Alejandro a Pedro Lopez

Neges e-bost 2

Oddi wrth: info@donate.eu.com

Pwnc: **annwyl gyfaill**

Annwyl gyfaill

Rydym o bentref bach yn nigeria a effeithiwyd gan y swami diweddar rydych wedi gweld yn y newyddion. Mae ein busnes ar goll ac rydyn ni'n ddigartreff.

Gan ein bod wedi colli ein holl berthnasau a phlant, mae'n rhaid i ni anfon y llythyr hwn ac APELLIO AM RODDION.

Byddwn yn ddiolchgarwch iawn am unrhyw arian y gallwch anfon i'n helpu dechrau ein busnes eto.

Mae'r llythyr yma'n cael ei anfon at lawer o bobl gan obeithio i ni gael help i gael bwyd. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn helpu tamaid bach ond dim llawer. Gweiddiwn ar Dduw ac Allah i chi ein helpu. Cliciwch ar y ddolen hon i anfon eich manyllion banc gyda rhodd fach sunami-appeal.com

Diolch

Neges e-bost 3

Oddi wrth: Tîm Windows Live <mail.check@netscape.com>

Pwnc: **Terfyn storio wedi'i gyrraedd – gweithredwch nawr!**

Annwyl Ddefnyddiwr

Hysbysiad cwrteisi oddi wrth y tîm gweinyddol

Rydych wedi cyrraedd y terfyn storio ar gyfer eich blwch e-bost ar weinydd y gronfa ddata

Byddwch yn cael eich rhwystro rhag anfon neu dderbyn negeseuon newydd os na fydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei gadarnhau o fewn 48 awr

Cliciwch ISOD i gadarnhau ac adfer eich e-bost

CLICIWCH YMA

Diolch

TÎM WINDOWS LIVE



SUT I ADNABOD NEGES E-BOST FFUG


- Nid yw enw'r anfonwr neu'r e-bost yn edrych fel un go iawn. Weithiau, mae'r enw'n edrych yn iawn ond mae'r cyfeiriad e-bost yn dweud rhywbeth hollol wahanol.
- A oes camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadegol?
- Sylwch ar sut mae'r neges e-bost yn dechrau – a yw wedi'i chyfeirio atoch chi neu a yw'n gyfarchiad cyffredinol?
- Edrychwch ar y llofnod. Mae diffyg manylion am yr anfonwr neu sut gallwch gysylltu â chwmni yn awgrymu rhwydo'n gryf. Mae busnesau go iawn yn rhoi manylion cyswllt bob amser.
- Os yw rhywbeth yn edrych yn rhy dda i fod yn wir, mae'n siŵr ei fod!

Ailedrychwch ar y tair neges e-bost yn y gweithgaredd diwethaf. A fethoch chi unrhyw beth yn gynharach?



CWESTIYNAU

1. Sut gallwch chi gadarnhau cyfeiriad e-bost llawn anfonwr, a pha fath o bethau fyddai'n gwneud i chi feddwl y gallai'r anfonwr fod yn ffug?
2. Enwch dair ffordd o ddwyn hunaniaeth yn gymdeithasol.
3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dwyn hunaniaeth yn ddigidol ac yn gorfforol?



TWYLL AR-LEIN

Mae llawer o bobl yn siopa ar-lein, felly nid yw'n syndod bod cyfleoedd i ddwyn hunaniaeth yn cynyddu yn y maes hwn. Mae creu gwefannau ffug neu werthu nwyddau ffug ar-lein yn ddwy ffordd yn unig o'ch twyllo i rannu'ch manylion personol ac ariannol â thwyllwyr.

Mae pobl yn gallu cael eu twyllo i brynu pethau eraill heblaw am nwyddau ffug; gall pobl sydd eisiau rhentu eiddo gael eu twyllo i dalu ffi o flaen llaw am eiddo nad yw'n bodoli. Yn yr achosion hyn, bydd twyllwyr yn hysbysebu eiddo ar-lein. Bydd yr hysbyseb yn edrych fel un go iawn a bydd yn cynnwys lluniau a manylion cyswllt yn aml. Yna, bydd yr hysbysebwr yn gofyn i'r tenant posibl dalu ffi o flaen llaw fel na all unrhyw un arall ei rentu, yn aml cyn iddo weld yr eiddo ei hun, ond y gwir yw nad yw'r eiddo'n bodoli neu bydd wedi cael ei "rentu" i lawer o bobl. Yna, mae'r dioddefwyr yn colli'r ffi a dalwyd ac ni fyddant yn gallu rhentu'r eiddo maen nhw'n credu eu bod wedi'i sicrhau.

Mae adroddiadau am dwyll rhent yn cynyddu yn ystod misoedd yr haf, sy'n dangos bod twyllwyr yn targedu pobl sy'n chwilio am eiddo i'w rentu ar gyfer gwyliau, a myfyrwyr sy'n chwilio am lety cyn i'r tymor ddechrau ym mis Medi.



A WYDDOCH CHI?

Seiberdroseddu yw unrhyw weithred droseddol sy'n delio â chyfrifiaduron a rhwydweithiau, gan gynnwys troseddau traddodiadol sy'n cael eu cynnal trwy'r rhyngrwyd. Collodd dioddefwyr seiberdroseddu yn y Deyrnas Unedig £2.2 biliwn rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

Ffynhonnell: Action Fraud



ASTUDIAETH ACHOS

Roedd Ffion eisiau prynu darn arbennig o emwaith gyda'r arian a gafodd am ei phen-blwydd yn 16 oed. Daeth o hyd i gadwyn yr oedd yn ei hoffi; roedd yn eithaf drud am £170 ond roedd hi'n adnabod y brand ac yn gwybod y gallai ddisgwyl iddi fod o ansawdd uchel.

Roedd yn meddwl ei bod yn ei phrynu'n uniongyrchol o wefan y gwneuthurwr. Roedd yn broffesiynol iawn heb unrhyw gamgymeriadau sillafu a gramadegol, ac oherwydd bod enw'r safle'n cynnwys 'UK', tybiodd ei fod wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig.

Ond roedd y twyllwyr dan sylw wedi dwyn hunaniaeth y wefan go iawn.

Gosododd mam Ffion yr archeb gan ddefnyddio ei cherdyn credyd a dywedodd y safle y byddai'n cymryd rhwng 7 a 10 diwrnod gwaith i'r archeb gyrraedd. Ar ôl aros tua 5 diwrnod, daeth y bil cerdyn credyd, a synnodd mam Ffion i weld ei bod yn ymddangos bod y gadwyn yn dod o Tsieina.

Ar ôl tair wythnos, ffoniodd hi'r cwmni cerdyn credyd a dweud nad oedd hi wedi derbyn unrhyw beth o'r wefan, dim hyd yn oed neges e-bost cadarnhau. Dywedodd y cwmni wrthi am aros 30 diwrnod, yna byddent yn anfon ffurflen ati i'w llenwi a fyddai'n sicrhau y byddai'n cael ei harian yn ôl. Roedd yn falch iawn ei bod wedi talu gyda cherdyn credyd – y drefn arferol yw bod eitemau a brynir dros £100 yn cael eu hyswiro, neu fel arall fe fydden nhw wedi colli'r £170.

Beth allai Ffion a'i mam fod wedi'i wneud i osgoi'r twyll hwn?



GWEITHGAREDD

Sut i ddiogelu'ch hun rhag twyll arwerthiant neu siopa ar-lein

Darllenwch y cyngor canlynol ac yna defnyddiwch y geiriau isod i lenwi'r bylchau:

1. Wrth dalu ar-lein, talwch am eitemau gan ddefnyddio gwasanaeth taliadau diogel yn unig – chwiliwch am URL sy'n dechrau gyda "https" a symbol caeëdig, neu ddarparwr taliadau fel sy'n helpu i'ch diogelu.
2. Gwiriwch gyfeiriad y wefan. Tacteg a ddefnyddir yn aml gan dwyllwyr yw newid y cyfeiriad bach (e.e. os ydyn nhw'n ffugio safle eBay, efallai bydd ganddyn nhw gyfeiriad fel "...@ebay.co.uk", ond cyfeiriad y safle go iawn yw "...@ebay.co.uk").
3. Pan fyddwch yn defnyddio gwefannau manwerthu, dewch o hyd i bwy yn union rydych yn delio ag ef. Os yw'n gwmni , byddwch mewn sefyllfa well o lawer i ddatrys y broblem os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.
4. Porwch y wefan. Treuliwch ychydig funudau'n archwilio'r safle. Ewch i'r dudalen hafan neu'r tudalennau "Amdanom ni", efallai, a darllen y testun yno. Cadwch lygad am wael, fel gwallau sillafu a gramadegol, neu ymadroddion sy'n swinio'n chwithig. Dylai unrhyw gwmni sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau roi lleoliad busnes, yn ogystal â neu gyfeiriad e-bost i gysylltu ag ef. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech fod yn amheus o'r wefan.
5. Darllenwch yr am y wefan neu'r gwerthwr. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am drafodion diweddar gan brynwyr eraill. Edrychwch ar adolygiadau o nifer o ffynonellau, fel Trustpilot, Feefo neu Sitejabber, sy'n cydgrynhoi adolygiadau cwsmeriaid.
6. Gwiriwch y o'r eitem yn ofalus – gofynnwch gwestiynau i'r gwerthwr os ydych yn ansicr o rywbeth.
7. Byddwch yn ofalus iawn wrth brynu pethau gan bobl heb lawer o gwerthu, neu ddim o gwbl.

Geiriau coll: disgrifiad, Saesneg, adborth, hanes, clo clap, PayPal, rhif ffôn, ychydig, yn y Deyrnas Unedig



A WYDDOCH CHI?

Os ydych wedi gwario mwy na £100 a hyd at £30,000 ar gerdyn credyd ac yn dioddef twyll hunaniaeth, mae Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 yn golygu y dylech allu hawlio'r arian hwnnw'n ôl oherwydd bod y cwmni sy'n rhoi eich cerdyn credyd yn atebol ar y cyd gyda'r manwerthwr rydych yn talu'r arian iddo os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.



BETH SY'N DIGWYDD OS BYDD RHYWUN YN DWYN EICH HUNANIAETH

Os bydd twyllwyr yn cael mynediad uniongyrchol at eich cyfrif banc neu gardiau credyd, efallai byddant yn eich gadael heb arian i dalu am gostau byw pob dydd, sy'n gallu achosi straen ariannol tymor byr. Po fwyaf difrifol a chymhleth yw'r twyll hunaniaeth, y mwyaf o amser y gall ei gymryd i adennill unrhyw arian a gafodd ei ddwyn, sy'n gallu achosi anawsterau ariannol mwy tymor hir.

Gall twyll hunaniaeth effeithio ar eich hanes credyd hefyd. Os bydd twyllwr yn defnyddio credyd sydd gennych eisoes (e.e. cerdyn credyd) neu'n gwneud cais am gerdyn credyd newydd yn eich enw, fe allai hyn adael tystiolaeth o ddyled neu daliadau a fethwyd ar eich adroddiad credyd. Mae'n bosibl cywiro'r wybodaeth hon, ond mae'n gallu cymryd amser i ddatrys y mater a dangos i'ch darparwr cerdyn credyd eich bod wedi dioddef trosedd. Hyd yn oed os bydd eich sgôr credyd yn gostwng dros dro yn unig, fe allai hynny ei gwneud yn fwy anodd i chi fenthycu arian – problem fawr os ydych wrthi'n agor cyfrif banc newydd, prynu car neu wneud cais am forgaïs. Cyfeiriwch yn ôl at y bennod 'Benthycu' ar gyfer diffiniadau o hanes credyd, asiantaeth gwirio credyd, adroddiad credyd a sgôr credyd.

Er ei bod yn bosibl i ddioddefwr adennill arian a gafodd ei ddwyn a chlirio ei enw o unrhyw ddrygioni, gall effaith emosiynol dwyn hunaniaeth bara'n hirach o lawer nag unrhyw bryderon ariannol. Gall dioddefwyr feio'u hunain am y ffaith bod eu hunaniaeth wedi cael ei dwyn a theimlo ei bod yn fwy tebygol o ddigwydd eto.



ASTUDIAETH ACHOS

Mae hunaniaeth Jac a'i bartner Rhiannon wedi cael ei dwyn yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fe ddywedon nhw wrth eu cymdogion am hyn, ac fe ddaeth i'r amlwg bod sawl unigolyn arall sy'n byw yn yr un adeilad wedi dioddef hefyd. Mae eu blychau llythyr ar y stryd y tu allan, felly mae'n rhwydd i ladron gael at eu post, gan gynnwys biliau a chyfriflenni banc.

Pan fydd lleidr yn cael gafael ar fil neu gyfriflen banc, bydd ganddo ddigon o fanylion i allu gwneud cais am gyfrifon credyd (e.e. cardiau credyd neu gyfrifon siopa) ac yna dwyn y cardiau neu fanylion y cyfrif.

Doedd Jac ddim yn gwybod bod hyn wedi digwydd nes iddo gael cyfriflen yn dangos bod ganddo fwy na £2,500 yn ddyledus i gwmni cerdyn credyd. Nid oedd ganddo gyfrif gyda'r darparwr hwn, ond roedd y lleidr wedi gallu agor cyfrif yn ei enw a gwario miloedd o bunnoedd yr oedd Jac yn cael ei filio amdano nawr. Doedd ganddo ddim syniad beth arall y gallai'r lleidr fod wedi'i wneud â'i fanylion personol; fe allai fod wedi cofrestru ar wefannau neu hyd yn oed wneud cais am basbort.

Cysylltodd â'r darparwr cerdyn credyd a'i helpodd i gael yr arian yn ôl, ond roedd y profiad wedi achosi llawer o bryder iddo.

Beth allai Jac, Rhiannon a'u cymdogion fod wedi'i wneud i atal eu hunaniaeth rhag cael ei dwyn?

SUT I DDIOGELU'CH HUN RHAG DWYN HUNANIAETH



10 AWGRYM DA

1. Peidiwch byth â rhannu cyfrineiriau na rhifau PIN gyda phobl eraill.
2. Defnyddiwch gyfrineiriau a rhifau PIN cryf – peidiwch â defnyddio enwau teulu; ceisiwch gynnwys cymysgedd o lythrennau mawr a bach, rhifau a symbolau. Dylai cyfrineiriau gynnwys 8 nod o leiaf.
3. Peidiwch â defnyddio'r un cyfrinair neu PIN ar gyfer mwy nag un cyfrif.
4. Rhwygwch neu llosgwch unrhyw ddogfennau ariannol diangen – peidiwch â'u rhoi yn syth i'w hailgylchu.
5. Gwnewch yn siŵr fod gan eich cyfrifiadur raglenni wal dân, gwrthfeirysau a gwrthysbiwedd cyfredol. Gall hyd at 80% o fygythiadau ar-lein gael eu dileu trwy wneud hyn.
6. Ceisiwch gyfyngu ar faint o wybodaeth personol rydych yn ei chario gyda chi o ddydd i ddydd.
7. Cyfyngwch ar faint o wybodaeth personol rydych yn ei rhoi ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Cofiwch, mae eich ffrindiau go iawn eisoes yn gwybod ble rydych yn byw a phryd mae'ch pen-blwydd! Byddwch yn wliadwrus – meddyliwch am ba wybodaeth y gellir ei chael amdanoch trwy luniau o'ch car cyntaf, trwydded yrru newydd neu ba bryd rydych yn mynd ar wyliau oddi cartref.
8. Defnyddiwch unrhyw osodiadau diogelwch a gynigir gan blatfformau cyfryngau cymdeithasol a ffonau symudol. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys gosodiadau preifatrwydd, posau captcha a thudalennau rhybudd sy'n rhoi gwybod i chi eich bod yn cael eich ailgyfeirio oddi ar y safle.
9. Derbyniwch geisiadau ar-lein i fod yn ffrind gan bobl sy'n gyfarwydd i chi yn unig.
10. Darllenwch gyfriflenni eich cyfrif banc (a'ch cyfriflenni cerdyn credyd pan gewch chi un) bob amser. Dylech gymharu derbynebaw â chyfriflenni'r cyfrif yn brydlon, p'un a yw hynny ar bapur, ffôn symudol neu ar-lein. Cadwch lygad am drafodion nad ydych yn eu hadnabod, yn enwedig symiau bach iawn – gallai'r rhain fod yn arwydd bod gan rywun eich manylion.



GOSODIADAU PREIFATRWYDD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig (roedd 66% o'r boblogaeth yn defnyddio rhyw fath o gyfryngau cymdeithasol yn 2020). Yn aml, mae defnyddwyr yn postio eu henw llawn, tref a dyddiad geni ar gyfryngau cymdeithasol, sy'n llawer iawn o wybodaeth personol y gallai twyllwyr gael ati. Mae cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i ddefnyddwyr reoli eu gosodiadau preifatrwydd i gyfyngu ar bwy sy'n gallu gweld yr hyn sy'n cael ei bostio. Ydych chi wedi gwirio'ch gosodiadau'n ddiweddar?



CWESTIYNAU

Darllenwch y 10 ffordd o ddiogelu'ch hun rhag dwyn hunaniaeth ac atebwch y cwestiynau hyn:

- Beth ydych chi'n credu yw'r tair ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu'ch gwybodaeth?
- Cymharwch eich tri dewis chi â dewisiadau'ch ffrindiau neu'ch cydfyfyrwyr – ydych chi'n cytuno ai peidio?
- Petai rhaid i chi ddewis un o'r rhain i'w wneud heno, pa un fydddech chi'n ei ddewis?



GWEITHGAREDD

Yn ôl "Rhestr Cyfrineiriau Gwaethaf" SplashData, dyma'r 10 cyfrinair gwaethaf yn 2019, heb fod mewn trefn benodol:

iloveyou, password, qwerty, 111111, 123123, 12345, 123456, 1234567, 12345678, 123456789

Pa un yw'r gwaethaf, yn eich barn chi?

Pa dair rheol fydddech chi'n eu gosod i sicrhau bod gennych gyfrinair mwy diogel?



SUT I DDEWIS CYFRINAIR DA!

1. Edrychwch eto ar rifau 1-3 yn y rhestr "sut i ddiogelu'ch hun rhag dwyn hunaniaeth".
2. Peidiwch â defnyddio enw'ch anifail anwes, aelod o'r teulu, ysgol, hoff dîm, nac unrhyw beth arall y gallai rhywun ei ddyfalu'n rhwydd.
3. Allgofnodwch bob amser os byddwch yn gadael eich dyfais tra bod rhywun arall o gwmpas. Eiliad yn unig mae'n ei gymryd i rywun ddwyn neu newid y cyfrinair.
4. Ceisiwch beidio â chofnodi cyfrineiriau ar gyfrifiaduron nad ydych yn eu rheoli (fel cyfrifiaduron mewn gwe-gaffi neu lyfrgell) – efallai bydd maleiswedd arnynt sy'n dwyn eich cyfrineiriau.
5. Ceisiwch osgoi cofnodi cyfrineiriau pan fyddwch yn defnyddio cysylltiadau Wi-Fi heb eu diogelu, fel yn y maes awyr neu mewn siop goffi. Gall hacwyr ryng-gipio'ch cyfrineiriau a'ch data dros y cysylltiad hwn sydd heb ei ddiogelu.
6. Ystyriwch ddefnyddio rheolwr cyfrineiriau (a elwir yn sêff neu'n gell cyfrineiriau weithiau). Rhaglen feddalwedd yw hon sy'n cael ei defnyddio i storio a rheoli cyfrineiriau rhywun. Mae'r holl gyfrineiriau sy'n cael eu storio wedi'u hamgryptio fel arfer, a bydd rhaid i'r defnyddiwr greu prif gyfrinair i gael at yr holl gyfrineiriau sy'n cael eu rheoli. Mae nifer o reolwyr cyfrineiriau ar gael i chi eu defnyddio – rydych yn talu am rai tra bod eraill am ddim.
7. Peidiwch â chofnodi cyfrineiriau dros rwydweithiau Wi-Fi "agored". Mae'r rhwydweithiau hyn yn fwy agored o lawer i ymosodiadau hacio.



CWESTIYNAU DIOGELWCH

Yn ogystal â gofyn i chi gofnodi'ch cyfrinair, mae llawer o wefannau hefyd yn gofyn cwestiwn diogelwch fel cam arall i gadarnhau pw ydych. Yn aml, bydd gwefannau'n gofyn i chi ddewis o blith set safonol o gwestiynau, sy'n aml yn cynnwys, "Beth oedd enw'ch mam cyn priodi?", "Beth oedd enw'r stryd gyntaf yr oeddech yn byw arni?" neu "Beth oedd enw'ch anifail anwes cyntaf?" Pan fyddwch yn dewis o blith rhestr o gwestiynau diogelwch a roddwyd, dewiswch yr un y byddai'n fwyaf anodd i rywun arall ddod o hyd i'r ateb iddo.

Bydd rhai gwefannau'n gadael i chi osod eich cwestiwn eich hun. Os felly, gwnewch yn siŵr ei fod yn rhywbeth na fyddai twyllwr yn gallu ei ddyfalu neu gael yr ateb iddo o wybodaeth y mae eisoes yn ei gwybod amdano neu y gallai ddod o hyd iddi'n rhwydd.

Bydd cwestiwn diogelwch da yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- Bydd yn rhwydd i chi ei gofio, hyd yn oed 5-10 mlynedd yn y dyfodol.
- Bydd miloedd o atebion posibl iddo, felly ni ellir ei ddyfalu, hyd yn oed gan ffrindiau neu deulu.
- Nid yw'n gwestiwn y byddech wedi'i drafod ar gyfryngau cymdeithasol, felly ni ellir chwilio am yr ateb.
- Mae iddo ateb un neu ddau air syml.
- Nid yw byth yn newid.



DILYSU BIOMETRIG

Mae dilysu biometrig yn fodd o gadarnhau pwy yw rhywun trwy adnabod un neu fwy o nodweddion biolegol unigryw, gan gynnwys olion bysedd, geometreg llaw, geometreg llabed clust, patrymau'r retina a'r iris, a thonau'r llais.

Mae'r dechnoleg hon yn dal i gael ei datblygu ond mae llawer o ffonau symudol a chyfrifiaduron bellach yn defnyddio olion bysedd, patrymau iris ac adnabod llais i reoli mynediad at y ddyfais ac apiau penodol.



DILYSU DAU GAM

Mae llawer o wefannau bellach yn defnyddio haen ychwanegol o ddiogelwch i gadarnhau pwy yw'r defnyddiwr. Byddant yn gofyn am eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair fel arfer, ond fe allent hefyd anfon cod dilysu i'ch ffôn symudol, anfon neges e-bost gyda chod neu ddolen we neu, yn aml yn achos bancio ar-lein, fe allent roi dyfais ddiogelwch ffisegol i chi fel darlennydd cerdyn sy'n defnyddio manylion eich cerdyn a'ch PIN i gynhyrchu cod mynediad i awdurdodi mewngofnodi a rhai mathau o drafodion.

Mae gofyn am ddau (neu fwy) o fathau o wybodaeth ddilysu yn ei gwneud yn fwy anodd i dwyllwyr gael mynediad at eich dyfeisiau a'ch cyfrifon ar-lein, oherwydd nid yw gwybod y cyfrinair yn unig yn ddigon i basio'r gwiriad dilysu.



BETH DDYLECH CHI EI WNEUD OS YW'CH HUNANIAETH YN CAEL EI DWYN?

Y peth cyntaf i'w wneud yw GWEITHREDU'N GYFLYM os ydych yn credu bod rhywun wedi dwyn eich hunaniaeth. Cysylltwch â'ch banc neu'ch cwmni cerdyn credyd a rhwch wybod iddynt am eich amheuan. Mae eu manylion cyswllt fel arfer ar gefn eich cerdyn debyd/credyd neu ar unrhyw ddeunydd cyfathrebu rydych wedi'i gael oddi wrthynt, fel cyfriflenni misol.

Os ydych wedi dioddef twyll hunaniaeth, dylech gysylltu ag Action Fraud a fydd yn eich cyngori ar beth i'w wneud. Os byddwch yn cael gohebiaeth sy'n gwneud i chi feddwl bod hynny wedi digwydd (e.e. eitem o bost sy'n ymddangos yn amheus neu sy'n awgrymu bod gennych gyfrif gyda'r anfonwr ond nad yw hynny'n wir), peidiwch â'i hanwybyddu. Gallwch hefyd gysylltu ag Action Fraud i gael cyngor os ydych yn credu bod rhywun wedi dwyn eich hunaniaeth.

Os ydych dros 18 oed, gallwch gael copi o'ch adroddiad credyd. Dyna un o'r lleoedd cyntaf y gallwch weld os yw rhywun yn camddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol, hyd yn oed cyn i chi ddioddef colled ariannol. Ewch drwy bob cofnod ar eich adroddiad credyd ac os gwelwch gyfrif neu hyd yn oed chwiliad credyd gan gwmni nad ydych yn ei adnabod, rhwch wybod i'r asiantaeth gwirio credyd.

Efallai bydd angen i chi gysylltu â'r holl sefydliadau ariannol rydych yn delio â nhw, os yw'r twyllwr wedi'u cyrraedd. Efallai gallan nhw eich helpu i gael eich arian yn ôl ac, os nad yw'r twyllwr wedi effeithio arnynt, efallai byddan nhw'n gallu rhoi mesurau diogelwch ar waith i atal unrhyw dwyll neu ladrad o unrhyw gyfrifon sydd gennych gyda nhw.

Os oes gennych wybodaeth am bobl sy'n cyflawni trosedd hunaniaeth, gallwch roi gwybod i'r elusen annibynnol Tacklo'r Tacle yn ddienw.



HELP SYDD AR GAEL OS YW RHYWUN YN DWYN EICH HUNANIAETH

- **Eich banc neu gymdeithas adeiladu** – Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf unedau arbenigol sy'n delio â dwyn hunaniaeth.
- **Cyngor ar Bopeth Cymru** – Os ydych yn credu nad yw'ch banc, cymdeithas adeiladu, undeb credyd neu swyddfa bost yn cyflawni eu cyfrifoldebau i chi o ran dwyn hunaniaeth, gallwch gael gwybodaeth o wefan Cyngor ar Bopeth Cymru neu fynd i gangen leol.
- **Cymorth i Ddioddefwyr** – Mae'r elusen hon yn rhoi help a chynghor i bobl sydd wedi dioddef amrywiaeth eang o wahanol droseddau, gan gynnwys pobl sydd wedi profi dwyn hunaniaeth/twyll hunaniaeth.

Os byddwch yn defnyddio fforwm Cymorth i Ddioddefwyr, cofiwch fod angen i chi fod yr un mor wiliadwrs ag y byddech petaech chi'n defnyddio unrhyw fath arall o fforwm ar y rhyngwyd. Er bod hyn yn beth trist i'w ddweud, mae rhai twyllwyr yn ymweld â'r fforymau hyn gan eu bod yn gwybod y gallai'r defnyddwyr fod yn arbennig o fregus neu'n fwy tebygol o rannu eu gwybodaeth bersonol.



A WYDDOCH CHI?

Mae mwy na 100 o fathau o dwyll wedi'u rhestru ar wefan Action Fraud.



GWEITHGAREDD

Ewch i wefan Action Fraud i gael gwybod am un math o dwyll nad ydych yn gwybod amdano eisoes. Esboniwch beth ydyw i'ch ffrindiau/cydfyfyrwyr.



TRAFODAETH

Mae dwyn hunaniaeth yn un math o dwyll ond mae llawer o rai eraill hefyd. Dyma rai enghreifftiau: twyll rhoddion elusen, twyll gwyliau, twyll loteri, twyll ffôn symudol a thwyll rhamant. Mae manylion y rhain i gyd ar gael ar wefan Action Fraud.

Trafodwch gyda phartner neu mewn grŵp bach os oes unrhyw rai a allai effeithio arnoch chi.





ASTUDIAETH ACHOS

Surfed Arts

Yn 2017, gwnaeth Action Fraud, gan weithio gyda Heddlu Dinas Llundain ac mewn partneriaeth â Get Safe Online a Chymdeithas yr Asiantau a Gwerthwyr Tocynnau (STAR), sefydlu gwefan tocynnu ffug i ddangos pa mor rhwydd ydyw i gael eich twyllo i brynu tocynnau ffug ar-lein.

Sut oedd y “gwerthu” yn gweithio

Dangoswyd cyfres o hysbysebion ar Facebook i hysbysebu “Surfed Arts”, y wefan tocynnau ffug.

Gwnaed i'r wefan edrych fel darparwr tocynnau eilaidd, gan efelychu'r ffordd mae twyllwyr yn cynnig tocynnau ffug ar-lein. Roedd yr hysbysebion Facebook yn targedu pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle'r oedd bandiau neu artistiaid ar fin chwarae cyngerddau y gwerthwyd pob tocyn ar eu cyfer.

Dangoswyd hysbysebion i ffans Adele yn Llundain, Ed Sheeran ym Manceinion, Iron Maiden yn Birmingham, Coldplay yng Nghaerdydd a Bruno Mars yn Leeds.

Cafodd pobl a gliciodd ar yr hysbyseb eu tywys i wefan Surfed Arts, lle y dywedwyd wrthynt yn syth nad oeddent yn gallu prynu tocynnau ac y rhoddwyd cyngor iddynt ar sut i'w diogelu eu hunain rhag dioddef twyll tocynnau go iawn yn y dyfodol.

Faint o bobl a geisiodd brynu tocynnau?

Ceisiodd mwy na 1,500 o bobl brynu tocynnau o'r wefan gwerthu tocynnau ffug a sefydlwyd i godi ymwybyddiaeth o dwyll tocynnau.

Pam sefydlu'r wefan?

Roedd mwy na 21,000 o bobl wedi adrodd am ddioddef twyll tocynnau yn ystod y 3 blynedd blaenorol.

Adroddwyd bod mwy na £17 miliwn wedi cael ei golli i dwyllwyr tocynnau yn ystod y 3 blynedd blaenorol.

Mae dioddefwyr yn fwyaf tebygol o fod yn ddynion yn eu hugeiniau.

Ffynhonnell: www.actionfraud.police.uk

Sut gallwch chi osgoi dioddef twyll tocynnau?



MULOD ARIAN

Mul arian yw rhywun sy'n trosglwyddo arian a gafwyd yn anghyfreithlon ar ran pobl eraill, fel arfer trwy ei gyfrif banc. Bydd troseddwr yn aml yn cysylltu â phobl sydd angen arian trwy hysbysebion am swyddi ar gyfryngau cymdeithasol, fel yr un isod.

ANGEN ARIAN NAWR?

Enillwch arian o gysur eich cartref.

Gallwch ennill £200 yr wythnos a does dim angen profiad.

TECSTIWCN NAWR AR 0790150958

Sut mae'n gweithio:

- Rydych yn derbyn cyfle gwych am swydd ac yn rhoi manylion eich cyfrif banc i'ch cyflogwr newydd (y troseddwr). Yn amlach na pheidio, ni fyddwch yn sylweddoli eich bod ar fin cymryd rhan mewn gweithgareddau anghyfreithlon.
- Pan fyddwch yn ymddiried ynddo, bydd y troseddwr yn trosglwyddo arian i'ch cyfrif banc.
- Pan fydd yr arian wedi clirio'ch cyfrif banc, byddwch yn cael gwybod manylion cyfrif banc gwahanol i drosglwyddo'r arian iddo.
- Byddwch yn cael gwybod faint y gallwch ei gadw fel eich "ffi".

Pan fydd gan y troseddwr fanylion eich cyfrif banc, byddan nhw'n parhau i'ch annog i drosglwyddo mwy.

Erbyn hyn, byddwch yn ymwybodol o'r sgam/twyll sy'n digwydd ac yn ceisio dod allan o'r cytundeb, fwy na thebyg. Gallai hyn fod yn anodd oherwydd fe allan nhw eich bygwth.

Mae gan fanciau systemau ar waith i adnabod symud arian yn amheus, ac os cewch eich dal yn trosglwyddo arian troseddol yn anghyfreithlon, mae'n debygol y bydd eich cyfrif banc yn cael ei gau ac fe allai fod yn anodd i chi gael credyd a/neu fenthyciadau yn y dyfodol. Waethaf oll, fe allech gael dedfryd o hyd at 14 blynedd o garchar.



GWEITHGAREDD

1. Yn eich barn chi, ydych chi'n credu bod yr hysbyseb yn hysbyseb swydd go iawn? Os felly, pam? Os na, pam? Esboniwch eich ateb.
2. Os nad oeddech yn credu bod yr hysbyseb yn un go iawn, pwy fydddech chi'n rhoi gwybod iddo am eich pryderon?
3. Gan ddefnyddio'ch holl wybodaeth am ddiogelwch a thwyll, lluniwch daflen ffeithiau i bobl ifanc am sut i adnabod ac osgoi cynlluniau mul arian.



A WYDDOCH CHI?

Cafodd ychydig dros 7,500 o bobl ifanc iau na 21 oed yn y Deyrnas Unedig eu dal yn gweithredu fel mulod arian yn 2019.

Ffynhonnell: Cifas



BETH YDYCH CHI WEDI'I DDYSGU?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch chi o'r bennod hon, cwblhewch y gweithgaredd a'r astudiaeth achos isod:



GWEITHGAREDD

Ysgrifennwch bostiad blog sy'n rhybuddio pobl ifanc am ddwyn hunaniaeth a/neu dwyll hunaniaeth.

I'ch helpu i gwblhau'r dasg hon, gwyliwch y fideos byr canlynol sydd ar gael ar YouTube:

- Data to Go (Cifas)
- The Devil's in Your Details – ffôn (Action Fraud)
- The Devil's in Your Details – ar-lein (Action Fraud)
- Hysbysebion teledu Diogelwch Digidol (Barclays)

Os ydych yn ansicr ble i ddechrau, teipiwch "Sut i ysgrifennu postiad blog" yn eich chwilotwr – mae digon o gyngor ar gael ar y rhyngwyd.



ASTUDIAETH ACHOS

Mae Noa yn cael y neges destun ganlynol:

Mewn panig, mae Noa yn clicio ar y ddolen a roddwyd ac yn rhoi ei rif cwsmer a'i PIN yn syth. O fewn eiliadau, mae'n cael neges arall...

Diolch am eich manylion. Byddwn yn eich ffio'n fuan
Y Tim Twyll

WEBANK4U_FRAUDEPT

Cwsmer, cysylltwch
â ni ar unwaith gan
ddefnyddio'r ddolen isod.

Mae gennym reswm i
gredw bod rhywun we
cael at eich cyfrif heb
eich caniatâd.

Y Tim Twyll

[www.webank4u/
frauddept.com](http://www.webank4u/frauddept.com)


Mae'n ailedrych ar y negeseuon ac yn dechrau meddwl tybed a ydyn nhw'n rhai go iawn. Mae'n gwirio ei ap bancio ar-lein ac yn arswydo i weld bod ei gynilion i gyd wedi mynd.

1. Pa fath o dwyll hunaniaeth yw hyn?
2. Wrth ailedrych ar y neges destun, mae Noa wedi sylwi ar nifer o bryderon. Nodwch dri pheth sy'n dangos nad yw'r neges destun yn un go iawn.
3. Sut gallai Noa fod wedi'i ddiogelu ei hun yn erbyn y twyll hunaniaeth hwn?
4. Rhestrwch bum peth y dylai Noa eu gwneud nawr.

DATBLYGU'CH GWYBODAETH

DATA PERSONOL

Yn 2017, gofynnodd Ofcom i 1,800 o oedolion ba mor hyderus oeddent ynglŷn â gwybod sut i reoli mynediad at eu data personol ar-lein. Trwy ofyn hyn, roedd Ofcom yn golygu p'un a oedd yr oedolion hyn yn gwybod sut i atal cwmnïau rhag cael mynediad at eu manylion personol, er enghraifft, eu dyddiad geni, cyfeiriad, rhif ffôn, ac ati. Mae'r siart isod yn dangos yr atebion a roddwyd fel canrannau.



Ffynhonnell: www.ofcom.org.uk

1. Pa ganran o ddefnyddwyr y rhyngrwyd oedd yn hyderus iawn neu'n eithaf hyderus ynglŷn â rheoli eu data ar-lein?
2. **a)** Pa grwpiau oedran oedd yn fwy hyderus na hyn?
b) Beth yw'r rheswm dros hyn, yn eich barn chi?
3. **a)** Pa grŵp oedran oedd yn lleiaf hyderus ynglŷn â rheoli eu data ar-lein?
b) Ai dyma'r ymateb y byddech wedi'i ddisgwyl? Esboniwch eich ateb.

4. Mae Ofcom wedi rhoi'r data crai i chi, sy'n dangos nifer wirioneddol y dynion a'r menywod a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Cyfrifwch y rhain fel canrannau a lluniwch ddwy siart gylch i gynrychioli'r wybodaeth hon.

	CYFANSWM	HYDERUS IAWN	EITHAF HYDERUS	DDIM Y NAILL NA'R LLALL / DDIM YN GWYBOD	DDIM YN HYDERUS IAWN	DDIM YN HYDERUS O GWBL
Dynion	900	392	288	80	80	60
Menywod	900	333	288	99	99	81

5. Yn olaf, ysgrifennwch baragraff sy'n crynhoi canlyniadau allweddol y data hwn.

GWIRIADAU A WNAED

Mae'r ffeithlun isod yn dangos beth mae pobl yn ei wirio wrth brynu ar-lein cyn rhoi gwybodaeth ariannol.



67%

Os yw'r safle'n edrych yn ddiogel (symbol clo clap neu https)



56%

Os ydw i'n gyfarwydd â'r cwmni neu'r brand



53%

Os oes dolen i wasanaeth dibynadwy arall fel Paypal



33%

Os rhoddir sicrwydd na fydd fy manylion yn cael eu rhannu ag unrhyw un arall



24%

Os yw'r safle'n cael ei argymhell gan ffrindiau /teulu



70% Wedi crybwyll o leiaf un o'r pum peth uchod



15%

Os yw'r safle'n cael ei restru gan chwilotwr fel Google neu Bing



11%

Os dyna'r unig ffordd o gael y gwasanaeth neu'r cynnyrch rydw i ei eisïau



5%

Rydwy i'n rhoi fy manylion pryd bynnag y bydd eu hangen



24% Wedi crybwyll o leiaf un o'r tri pheth uchod



1%

Ddim yn gwybod

Ffynhonnell: www.ofcom.org.uk

1. Mewn parau, ysgrifennwch grynodedb gan esbonio pwyntiau allweddol y data hwn. A oes unrhyw beth am y data sy'n eich synnu?

Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym ym mis Mai 2018 ac mae'n cael ei ddefnyddio i ddiogelu data defnyddwyr a sicrhau bod data'n cael ei storio'n ddiogel, gan wneud i fusnesau feddwl am y data maen nhw'n ei gasglu, pam mae arnyn nhw ei angen a sut maen nhw'n ei ddefnyddio.

Mae'n rhaid i bob sefydliad yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chwmnïau yn yr Undeb Ewropeaidd neu'n fyd-eang sy'n dal data am gwsmeriaid o'r Deyrnas Unedig, ddilyn y rheoliadau hyn. Dyma bwyntiau allweddol y GDPR:

- Mae'n rhaid i bob cwsmer roi ei ganiatâd i ddefnyddio ei ddata personol.
- Mae gan bob cwsmer yr hawl i gael cadarnhad ynglŷn â ph'un a yw ei ddata personol yn cael ei ddefnyddio a sut.
- Mae gan bob cwsmer yr hawl i ofyn i sefydliadau ddileu ei ddata personol a'i atal rhag cael ei ddosbarthu.
- Mae gan bob cwsmer yr hawl i gael adroddiad electronig rhad ac am ddim am y data sy'n cael ei gadw gan fusnes.

Gwnewch ychydig o waith ymchwil ynglŷn â'r GDPR a phrofwch eich gwybodaeth isod:

1. Mae'r GDPR wedi'i lunio i ddiogelu a rheoli'r defnydd o'ch data personol, ond pa ddata personol sy'n cael ei gynnwys?
 - a) Dim ond fy enw, fy nghyfeiriad a'm dyddiad geni
 - b) Yr uchod yn ogystal â chofnodion meddygol, data rhwydwaith cymdeithasol a manylion banc
 - c) Unrhyw beth sy'n "ddata personol" i chi
2. Rydych yn penderfynu gadael ap cyfryngau cymdeithasol. Beth mae'n rhaid i'r cwmni cyfryngau cymdeithasol ei wneud?
 - a) Mae'n rhaid iddo roi gwybod i chi sut gallwch fynnu ei fod yn dileu'r holl ddata personol mae'n ei ddal amdanoch
 - b) Nid oes rhaid iddo ddileu unrhyw ddata amdanoch
 - c) Mae'n gofyn i chi lenwi holiadur ar-lein ynglŷn â pham rydych eisiau gadael
3. Rydych yn cwmpo yn y gwaith a phan fyddwch yn cyrraedd yr ysbyty rydych yn ddarwybod ac mae angen i chi gael llawdriniaeth. Beth caiff eich meddyg teulu ei ddatgelu am eich hanes meddygol?
 - a) Gwybodaeth am gyflyrau meddygol blaenorol yn unig
 - b) Dim byd nes i chi ddod at eich hun
 - c) Unrhyw beth a fydd yn helpu i achub eich bywyd
4. Os yw diogelwch eich data'n cael ei danseilio, beth mae'n rhaid i'r cwmni yr effeithiwyd arno ei wneud?
 - a) Dim byd, does dim angen iddo wneud unrhyw beth
 - b) Ffonio'r heddlu
 - c) Rhoi gwybod i'r awdurdodau o fewn 72 awr o'r digwyddiad
5. Pan fydd gan fusnes eich gwybodaeth personol, sut gall ei defnyddio?
 - a) Ym mha ffordd bynnag y mae eisiau
 - b) Gall ei gwerthu i gwmnïau eraill
 - c) Gall ei ddefnyddio yn y ffordd a esboniwyd i chi cyn i chi roi eich caniatâd iddo i'w defnyddio yn unig



MAE'CH ARIAN O BWYS

RHESTR TERMAU

Aa

Ad-daliadau

Y symiau o arian rydych yn eu talu'n ôl bob wythnos neu bob mis ar eich benthyciad neu gredyd.

Adenillion

Y swm a gewch yn ôl pan fyddwch yn buddsoddi arian.

Adfeddu

Pan fydd darparwr morgais yn cymryd perchnogaeth ar eiddo os nad yw benthyciwr yn gallu fforddio ei ad-daliadau morgais.

Adlog

Y math arferol o log sy'n cael ei dalu ar gynilion a benthyciadau, wedi'i seilio ar y prifswm yn ogystal â'r llog a dalwyd eisoes hyd yma (h.y. llog ar log), felly bydd y cynilion neu'r benthyciad yn tyfu gan symiau cynyddol (oni bai bod arian yn cael ei dynnu allan neu'r benthyciad yn cael ei dalu).

Adneuo

Arian sy'n cael ei dalu i mewn i gyfrif. Mae'r gair Saesneg am 'adneuo', sef 'deposit', hefyd yn golygu taliad cychwynnol sy'n sicrhau prynu rhywbeth, sef canran o'r cyfanswm fel arfer. Yn Gymraeg, 'blaendal' yw'r gair am hynny.

Adroddiad credyd

Adroddiad manwl am hanes credyd unigolyn, ei drefniadau credyd presennol, hanes ei gyfeiriad a manylion unrhyw un y mae'n gysylltiedig ag ef yn ariannol.

Ail-law

Eitemau nad ydynt yn newydd ac sydd wedi bod yn eiddo i rywun arall.

Allgáu ariannol

Diffyg mynediad at fancio prif ffrwd a gwasanaethau ariannol eraill.

Amcangyfrif

Dyfaliad deallus.

Amser llawn

Mae gweithwyr amser llawn, sy'n gweithio 35 awr neu fwy yr wythnos fel arfer, yn cael contract cyflogaeth a buddion fel tâl gwyliau, tâl salwch a chyfleoedd pensiwn, fel rheol.

Anghenion

Pethau cwbl angenrheidiol yw'r rhain; y pethau na allwch wneud hebddynt o ddifrif.

Apiau bancio

Mae gan lawer o fanciau'r Deyrnas Unedig apiau sy'n caniatáu i chi reoli'ch cyfrifon gyda nhw, a throsglwyddo arian i bobl neu fusnesau.

Archeb sefydlog

Dull o dalu symiau rheolaidd o'ch cyfrif banc yn awtomatig. Chi sy'n rheoli hyn ac rydych yn cyfarwyddo'ch banc i dalu'r arian i unigolyn neu gwmni penodol. Eich cyfrifoldeb chi yw newid y manylion talu (e.e. y dyddiad neu'r swm) os oes angen eu newid.

Ardrethi busnes

Ardrethi sy'n cael eu codi gan gynghorau lleol ar y rhan fwyaf o fathau o eiddo annomestig (e.e. siopau, swyddfeydd, bwytai).

Arian cyfred

Arian ar unrhyw ffurf a ddefnyddir i brynu nwyddau a gwasanaethau e.e. ewro, punt, doler. Mae gwledydd gwahanol yn defnyddio arian cyfred gwahanol.

Arian cyfred crypto

Arian cyfred rhithwir neu ddigidol a gynhyrchir gan rwydwaith cyhoeddus, yn hytrach nag unrhyw lywodraeth, sy'n defnyddio cryptograffeg i sicrhau bod taliadau'n cael eu hanfon a'u derbyn yn ddiogel. Gellir ei ddefnyddio i brynu cynhyrchion a gwasanaethau, ond nid yw'n cael ei dderbyn mewn siopau yn gyffredinol.

Ased

Rhywbeth y mae unigolyn yn berchen arno sydd â gwerth ariannol (e.e. eiddo, buddsoddiadau, arian parod).

Asiantaeth gwirio credyd

Asiantaeth sy'n dal gwybodaeth am oedolion. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys cofnodion cyhoeddus (e.e. cofnodion cofrestr etholiadol) a gwybodaeth hanes credyd. Maen nhw'n rhoi'r wybodaeth hon i fenthycwyr pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd, ac yna bydd y benthycwyr yn defnyddio'r wybodaeth i benderfynu p'un ai cynnig credyd i chi neu beidio.

ATM (Peiriant Arian Awtomataidd)

Peiriant electronig yw hwn (sydd hefyd yn cael ei alw'n "beiriant arian" neu'n "dwl yn y wal") sy'n dosbarthu arian a chynnal gwasanaethau bancio eraill trwy ddefnyddio cerdyn codi arian a PIN (Rhif Adnabod Personol).

Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA)

Rheoleiddiwr annibynnol y Deyrnas Unedig ar gyfer hysbysebu ar draws pob math o gyfryngau.

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

Y corff annibynnol sy'n rheoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol.

Bb

BACS (System Glirio Awtomataidd y Banciau)

Gwasanaeth cyflym sy'n caniatáu i arian gael ei drosglwyddo'n electronig o un banc i un arall (e.e. cyflogau).

Balans

Faint o arian sydd yn eich cyfrif ar unrhyw adeg benodol neu sy'n ddyledus gennych ar eich cerdyn credyd neu gerdyn siop, neu ar bryniant ar ôl i'r blaendal gael ei dalu. Bydd yn cael ei ddangos ar eich cyfriflen.

Banc

Sefydliad ariannol y mae ei gyfranddalwyr yn berchen arno. Ei nod yw cynyddu elw gymaint â phosibl i'r cyfranddalwyr trwy ei weithgareddau ariannol. Mae'n rhaid iddo fenthycia arian i ysgogi twf economaidd ac, yn ei dro, gwneud elw. I fenthycia arian, mae'n rhaid i fanc dderbyn swm penodol o adneuo, ac mae'n gwneud hynny ar ffurf cyfrifon cyfredol a chynilo sy'n cael eu hagar gan unigolion a busnesau.

Banc Lloegr

Banc canolog y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am osod y gyfradd llog sylfaenol er mwyn ceisio cadw'r economi'n sefydlog. Gall y gyfradd sylfaenol hon ddylanwadu ar y cyfraddau a gynigir i gynilwyr a benthycwyr am rai cynhyrchion ariannol.

Bancio Sharia

Ffordd o fancio sy'n dilyn cyfraith Islam ynglŷn ag arian; er enghraifft, mae'n rhaid i elw a cholled gael eu rhannu, nid yw llog yn cael ei roi na'i gymryd, ac ati.

Benthycia

Cael arian o rywle rydych yn bwriadu ei dalu'n ôl. Efallai byddwch yn benthycia'n anffurfiol gan ffrindiau a theulu neu'n cael benthyciad ffurfiol, gyda chytundeb ysgrifenedig, gan fanc neu gymdeithas adeiladu.

Benthyciad

Swm o arian rydych yn ei fenthycia oddi wrth unigolyn neu sefydliad, gyda llog fel arfer.

Benthyciad banc

Arian rydych yn ei fenthycia gan eich banc ac yna'n ei dalu'n ôl ar gyfradd llog a drefnwyd o flaen llaw.

Benthyciad ffi dysgu

Benthyciad sy'n talu am gost lawn eich cwrs prifysgol. Fe'i telir yn uniongyrchol i ddarparwr y cwrs, ac ni fydd yn cael ei dalu'n ôl nes byddwch wedi gorffen y cwrs ac yn ennill mwy na swm penodol.

Benthyciad heb ei warantu

Nid yw benthyciad heb ei warantu yn cynnwys gwarant i'r benthyciwr, ond gan ei fod yn cymryd mwy o risg, mae'r APR (Cyfradd Ganrannol Flynyddol) yn tueddu i fod yn uwch.

Benthyciad personol

Pan fydd arian yn cael ei fenthycia at ddiben amhenodol ac yn cael dalu'n ôl mewn rhandaliadau misol, fel arfer.

Benthyciad wedi'i warantu

Mae benthyciad wedi'i warantu yn gofyn am rywbeth sy'n rhoi sicrwydd i'r benthyciwr rhag ofn na allwch dalu'r benthyciad yn ôl.

Benthyciadau cynhaliaeth

Benthyciad i dalu am eich costau byw o ddydd i ddydd, fel costau llefy, bywyd, trafniadaeth, ffôn a gliniadur, pan fyddwch yn y brifysgol. Mae'r uchafswm y gallwch ei fenthycia'n dibynnu ar faint mae eich rhieni/gwarcheidwaid yn ei ennill. Mae benthyciadau cynhaliaeth yn cael eu talu'n syth i chi ar ddechrau pob tymor, ac ni fyddant yn cael eu had-dalu hyd nes byddwch wedi gorffen y cwrs ac yn ennill mwy na swm penodol.

Benthyciwr didrwydded

Rhywun sy'n benthycia arian heb fod wedi'i reoleiddio i wneud hynny. Gan nad yw'n cael ei reoleiddio, nid oes terfyn ar y cyfraddau llog y gall eu codi na'r cosbau y gall eu rhoi.

Benthyciwr diwrnod cyflog

Benthycwyr sy'n darparu benthyciadau tymor byr iawn ar gyfer symiau cymharol fach o arian ac sy'n codi lefelau uchel iawn o log.

Bil

Datganiad sy'n dangos faint o arian sy'n ddyledus am rywbeth (e.e. nwy, trydan, ffôn).

Biliau cyfleustodau

Biliau sy'n cynnwys taliadau a godir am drydan, dŵr, nwy a ffôn.

Blwyddyn dreth

Cyfnod 12 mis o 6 Ebrill mewn un flwyddyn tan 5 Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae trethi, fel Treth Incwm, yn cael eu cyfrifo dros y cyfnod hwn.

Blynyddol

Rhywbeth sy'n cael ei wneud bob blwyddyn.

Bond premiwm

Math o gyfrif cynilo a gynigir gan y banc cynilion sy'n cael ei gefnogi gan y llywodraeth – National Savings and Investments (NS&I). Mae'r gyfradd llog yn cael ei dosbarthu trwy gystadlaethau tynnu rhifau misol, felly bydd deiliad bond yn cael taliad yn dibynnu ar siawns.

Bondiau

Buddsoddiad incwm sefydlog sy'n golygu bod buddsoddwyr yn benthycia arian i'r llywodraeth neu gwmni cyhoeddus ar gyfradd llog sefydlog am gyfnod penodol.

Bonws

Taliad a wneir i gyflogai ar ben ei gyflog sylfaenol, yn aml am weithio'n galed neu gyrraedd targedau.

Budd-daliadau

System gan y llywodraeth sy'n rhoi cymorth ariannol i bobl sy'n gymwys i'w dderbyn (e.e. pensiwn y wladwriaeth, credyd cynhwysol).

Buddsoddi

Defnyddio arian i brynu rhywbeth a allai gynyddu mewn gwerth dros amser, er enghraifft gemwaith, eiddo neu gyfranddaliadau mewn cwmni.

Buddsoddiad

Cynhyrchion sydd â'r potensial i gynyddu mewn gwerth, ond a allai ostwng mewn gwerth hefyd, sy'n golygu y byddwch yn dechrau colli arian.

Buddsoddiadau cyfunol

Math o fuddsoddi lle mae arian buddsoddwyr yn cael ei gronni mewn cronfa fwy o lawer a'i reoli gan reolwr cronfa i fuddsoddi mewn amrywiaeth o asedau. Diben hyn yw lledaenu'r risg sy'n gysylltiedig â buddsoddi.

Bwrsariaeth

Gwobr ariannol a roddir i fyfyrwr gan goleg neu brifysgol tuag at gost ei astudiaethau.

Cc

Cardiau credyd

Cerdyn bach plastig sydd ar gael i bobl 18 oed a hŷn gan y rhan fwyaf o fanciau, sy'n caniatáu i chi fenthycia arian hyd at derfyn penodol. Pan fyddwch yn prynu rhywbeth gyda'ch cerdyn credyd, bydd y swm a wariwch yn cael ei ychwanegu at eich cyfanswm benthycia. Anfonir cyfriflen atoch bob mis i ddangos faint rydych wedi'i fenthycia a faint y mae angen i chi ei ad-dalu. Os na fyddwch yn ad-dalu'r swm llawn, byddwch yn dechrau talu llog.

Cardiau siop

Mae cardiau siop yn debyg i gardiau credyd, ond maen nhw ar gael gan siopau yn hytrach na banciau. Gellir eu defnyddio i brynu pethau mewn siopau penodol yn unig. Mae unrhyw beth rydych yn ei wario ar eich cerdyn siop yn arian wedi'i fenthycia. Os na fyddwch yn talu'r swm llawn bob mis, byddwch yn dechrau talu llog arno.

Catalog

Cylchgrawn/llyfr wedi'i argraffu sy'n dangos nwyddau i'w gwerthu. Gallwch eu prynu ar gredyd a thalu mewn rhandaliadau wythnosol neu fisol, gyda thaliadau llog ychwanegol, fel arfer. Bydd y nwyddau'n cael eu danfon drwy'r post, fel rheol.

Cerdyn debyd

Cerdyn bach plastig a ddefnyddir i brynu pethau mewn siop neu ar-lein heb ddefnyddio arian parod neu siec. Pan fyddwch yn talu neu'n codi arian gyda'ch cerdyn debyd, mae'r arian yn cael ei dynnu'n syth o'ch cyfrif yn electronig, os yw'r arian ar gael gennych i'w wario. Ni allwch fenthycia arian ar gerdyn debyd.

Cod treth

Mae hyn yn dangos faint o incwm y gallwch ei ennill cyn dechrau talu Treth Incwm – eich lwfans treth. Dyma'r pedwar digid cyntaf o'ch lwfans treth gyda llythyren ar eu hôl.

Codi arian

Arian sy'n cael ei dynnu allan o'ch cyfrif.

Cofrestru awtomatig

Mae pob gweithiwr rhwng 22 ac oedran ymddeol yn cael ei gofrestru'n awtomatig mewn pensiwn gweithle.

Comisiwn

Taliad wedi'i seilio ar werth gwerthiannau a wnaed. Weithiau, bydd yn ychwanegol at gyflog sylfaenol.

Comisiwn Gambo

Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Gambo 2005 i reoleiddio gambo masnachol ym Mhrydain Fawr.

Contract tymor byr

Gall fod ar sail amser llawn neu ran-amser, ond mae am gyfnod penodol yn unig.

Contractau dim oriau

Contractau achlysurol nad ydynt yn gwarantu unrhyw waith.

Credyd

Mae cyfrif sydd "mewn credyd" yn golygu bod arian ynddo sydd ar gael i'w wario. Os byddwch yn cael nwyddau neu wasanaethau "ar gredyd", mae hynny'n golygu bod rhywun (er enghraifft, banc neu sefydliad credyd) wedi rhoi'r arian i chi fel benthyciad i wneud y pryniant.

Credyd amgen

Trefniadau credyd y tu allan i'r brif ffrwd, sydd fel arfer yn gostus iawn yn y pen draw.

Credyd cost uchel

Mathau o fenthycia sydd â chyfraddau llog eithriadol o uchel e.e. benthyciadau diwrnod cyflog, gorddaffiau heb eu trefnu. Fe allant hefyd fod yn anghyfreithlon, e.e. benthycia oddi wrth fenthycwyr didrwydded.

Credyd Cynhwysol

Taliad i helpu gyda chostau byw y gallech ei gael, o bosibl, os ydych ar incwm isel neu allan o waith.

Credydwr

Unigolyn neu gwmni y mae arian yn ddyledus iddo.

Cwestiwn diogelwch

Lefel ychwanegol o ddiogelwch a ddefnyddir i gadarnhau pwy ydych pan fyddwch yn cael at gyfrifon ar-lein. Dim ond chi ddylai wybod yr ateb i'r cwestiwn.

Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC)

Sefydliad nad yw'n gwneud elw y mae'r llywodraeth yn berchen arno sy'n darparu benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr mewn prifysgolion a cholegau yn y Deyrnas Unedig.

Cyfalaf

Y swm gwreiddiol o arian sydd gennych neu rydych yn ei gynilo neu'n ei fuddsoddi, cyn i unrhyw log neu elw arall gael ei ystyried. Gallai hefyd fod yn swm o arian rydych wedi'i fenthycia.

Cyfandaliad

Taliad untro.

Cyfanswm didyniadau

Y cyfanswm a fydd yn cael ei dynnu o'ch cyflog gros. Bydd yn cael ei ddangos ar eich slip cyflog. Y swm sydd ar ôl yw'ch cyflog clir.

Cyfleustodau

Gwasanaethau fel nwy, trydan a dŵr.

Cyflog

Swm o arian sy'n cael ei dalu i gyflogai am wneud swydd. Fel arfer, mae'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'w gyfrif banc bob mis.

Cyflog Byw Cenedlaethol

Y lleiafswm tâl fesul awr y mae gan y rhan fwyaf o weithwyr 23 oed a hyn hawl i'w gael yn ôl y gyfraith.

Cyflog clir

Eich cyflog misol go iawn ar ôl didyniadau fel Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (h.y. cyflog net).

Cyflogai

Rhywun sy'n cael ei dalu i weithio i sefydliad, cwmni neu unigolyn.

Cyflogwr

Sefydliad, cwmni neu unigolyn sy'n talu rhywun arall i weithio iddo.

Cyfnewidfa Stoc Llundain

Prif gyfnewidfa stoc y Deyrnas Unedig lle mae cyfranddaliadau, bondiau, ac ati, yn cael eu gwerthu.

Cyfradd Cyflog Byw Gwirfoddol y Deyrnas Unedig

Mae'r gyfradd hon, sy'n cael ei gosod gan y grŵp ymgyrchu, y Sefydliad Cyflog Byw, yn cael ei chyfrifo'n annibynnol a'i bwriad yw adlewyrchu "gwir gost byw yn y Deyrnas Unedig a Llundain". Mae'n tueddu i fod yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol, ond nid yw'n cael ei gorfodi gan y gyfraith.

Cyfradd Dreth Uwch

Y gyfradd Treth Incwm uwch yw 40%.

Cyfradd fesul awr

Cael tâl penodol am bob awr rydych yn ei gweithio.

Cyfradd Ganrannol Flynyddol (APR)

Cyfanswm cost benthyciad, gan ystyried y llog y byddwch yn ei dalu, unrhyw daliadau eraill a phryd mae'r taliadau'n ddyledus. Fe'i defnyddir fel ffordd o gymharu gwahanol gynhyrchion benthycia; po uchaf yw'r APR, y drutaf yw'r benthyciad.

Cyfradd gyfnewid

Mae'r gyfradd gyfnewid yn dweud wrthych faint y byddwch yn ei gael pan fyddwch yn cyfnewid un math o arian cyfred am un arall (e.e. efallai bydd 1 bunt Brydeinig yn werth 1.5 o ddoleri'r Unol Daleithiau).

Cyfradd Gyfwerth Flynyddol (AER)

Mae'n ystyried y taliadau a'r llog a delir ar gynilion ac yn dangos hynny fel cyfradd ganrannol gyffredinol. Fe'i defnyddir fel ffordd o gymharu gwahanol gynhyrchion cynilo; po uchaf yw'r AER, gorau oll y bydd yr adenillion ar eich cynilion.

Cyfradd llog

Dyma'r ganran sy'n cael ei thalu ar gynilion neu ei chodi ar fenthyciadau.

Cyfradd llog amrywiol

Nid yw'r gyfradd llog sy'n cael ei chodi arnoch yn sefydlog, felly gallai'r taliadau llog newid os bydd y benthyciwr yn newid ei gyfradd.

Cyfradd llog sefydlog

Cyfradd llog a fydd yn aros yr un fath am gyfnod cytunedig, ni waeth p'un a fydd y benthyciwr yn newid ei gyfraddau.

Cyfradd sylfaenol

Y gyfradd llog a osodir gan Fanc Lloegr, sy'n cael ei defnyddio gan sefydliadau ariannol eraill (fel banciau) fel arweiniad wrth osod eu cyfraddau.

Cyfranddaliadau

Uned perchnogaeth mewn cwmni.

Cyfranddalwyr

Pobl sy'n buddsoddi arian mewn cwmni trwy brynu cyfranddaliadau ynddo, ac sydd felly'n berchen ar ran ohono.

Cyfraniad pensiwn

Y symiau rydych chi a'ch cyflogwr yn eu talu i'ch pensiwn, sydd fel arfer yn cael eu cyfrifo fel canran o'ch cyflog sylfaenol a'u tynnu o'ch cyflog gros.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Swm y mae'r llywodraeth yn ei ddidynnu o'ch cyflog a ddefnyddir i dalu am fudd-daliadau y gallai fod angen i chi eu hawlio, a'ch pensiwn y wladwriaeth pan fyddwch yn ymddeol. Mae cerdyn plastig â chod YG arno yn cael ei anfon at bob unigolyn sy'n byw yn y Deyrnas Unedig yn fuan cyn ei ben-blwydd yn 16 oed. Mae cyflogwyr a chyflogeion yn talu cyfraniadau.

Cyfrif

Trefniant gyda banc neu gymdeithas adeiladu i ddal eich arian mewn cyfrif a'i dynnu pan fydd arnoch ei angen.

Cyfrif banc

Gwasanaeth gan fanc neu gymdeithas adeiladu sy'n caniatáu i chi dalu arian i mewn, cael arian parod allan a thalu biliau, ac ati. Mae'r banc yn cadw cofnod o bob trafodion.

Cyfrif cyfredol

Cyfrif sy'n eich helpu i reoli eich arian o ddydd i ddydd – talu biliau, derbyn arian sy'n dod i mewn a chadw arian yn ddiogel.

Cyfrif cynilo cyfradd sefydlog

Mae eich arian a gynilwyd yn cael ei "gloi i ffwrdd" am gyfnod penodol.

Cyfrif cynilo rheolaidd

Mae'n rhaid ychwanegu swm rheolaidd o arian at y cyfrif bob mis.

Cyfrif mynediad rhywyd

Cyfrif sy'n caniatáu i chi godi arian unrhyw bryd heb roi rhybudd o flaen llaw.

Cyfrif mynediad syth

Cyfrif cynilo sy'n caniatáu i chi gael eich arian yn ôl heb orfod rhoi rhybudd. Yn gyffredinol, mae ganddyn nhw gyfraddau llog is na chyfrifon sy'n gofyn am roi rhybudd.

Cyfriflen

Dogfen gan y banc neu'r gymdeithas adeiladu sy'n dangos eich holl daliadau diweddar i mewn i'ch cyfrif a'ch holl daliadau allan ohono. Dylech ei chymharu â'ch cofnodion eich hun.

Cyfriflen banc

Darn o bapur neu ddogfen ar-lein sy'n dangos yr holl arian sydd wedi cael ei dalu i mewn ac allan o gyfrif. Mae cyfriflenni'n cael eu hanfon bob mis, fel arfer.

Cyfrifon cynilo

Cyfrifon a ddyluniwyd yn benodol i chi gynilo arian ynddynt. Maen nhw fel arfer yn fwyaf addas ar gyfer cynilo symiau mwy.

Cyfrifon rhybudd

Cyfrif sy'n mynnu eich bod yn rhoi rhybudd o flaen llaw, fel arfer, os ydych eisiau tynnu arian ohono heb gael eich cosbi.

Cyfrinair

Gair neu ymadrodd rydych chi yn unig yn ei wybod a ddefnyddir i brofi pwy ydych er mwyn cael at gyfrifon ar-lein.

Cyllid a Thollau EM (HMRC)

Adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am gasglu treth a thaliadau budd-daliadau.

Cyllideb genedlaethol

Y gyllideb flynyddol ar gyfer y Deyrnas Unedig a osodir gan Drysorlys EM.

Cyllidebu

Y broses o reoli'ch arian a'r cydbwysedd rhwng eich incwm a'ch treuliau.

Cymdeithas adeiladu

Sefydliad sy'n eiddo i'w aelodau, y bydd rhai ohonynt yn gwsmeriaid sy'n cynilo gyda'r gymdeithas neu'n benthycu oddi wrthi. Maen nhw'n aml yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ariannol ac yn debyg i fanciau.

Cymdeithas defnyddwyr

Cymdeithas lle mae pobl yn ystyried bod eiddo'n werthfawr ac yn cael eu hannog i brynu mwy.

Cynghorydd ariannol

Unigolyn neu gwmni sy'n gallu asesu'ch anghenion ariannol a rhoi cyngor i chi ynglŷn ag arian a chynhyrchion ariannol addas. Gall rhai cynghorwyr reoli buddsoddiadau ar eich rhan hefyd. Mae cynghorydd ariannol annibynnol (IFA) yn rhywun nad yw'n gweithio i fanc penodol na gwerthwr arall cynhyrchion ariannol ac, oherwydd hynny, fe ddylai allu cynnig ystod ehangach o opsiynau.

Cynilion

Faint o arian neu werth yr arian rydych yn ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Cynilo

Y weithred o roi arian o'r neilltu i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Gall cynilo hefyd olygu lleihau faint rydych yn ei wario.

Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

Y cynllun sy'n diogelu'ch arian os nad yw'ch banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd cofrestredig yn gallu talu ei gwsmeriaid mwyach.

Cynllun hyfforddi graddedigion

Rhaglen hyfforddiant seiliedig ar waith sy'n caniatáu i bobl sydd wedi graddio'n ddiweddar gael profiad ymarferol gyda chwmni.

Cynllun pensiwn

Math o gynllun cynilo i'ch helpu i gynilo arian ar gyfer eich henaint. Yn wahanol i gynilion arferol, ni allwch ddefnyddio'ch arian nes i chi gyrraedd oed ymddeol.

CHch

Chwyddiant

Cynnydd parhaus yn lefel gyffredinol prisiau. Mae hyn yn golygu, dros amser, y bydd swm penodol o arian yn prynu llai o nwyddau a gwasanaethau.

Dd

Debyd

Mae arian sy'n cael ei dynnu allan o gyfrif yn cael ei "ddebysu" o'r cyfrif hwnnw.

Debyd uniongyrchol

Cyfarwyddyd i'ch banc i ryddhau arian o'ch cyfrif i dalu biliau a symiau eraill yn awtomatig. Y cwmni bilio sy'n rheoli hyn ac mae'n gofyn i'r banc am yr arian yn uniongyrchol. Fe all newid y swm y gofynnir amdano hefyd.

Deddf Credyd Defnyddwyr 2006

Mae'r ddeddf hon yn amddiffyn defnyddwyr pan fyddant yn benthycu arian.

Defnyddiwr

Rhywun sy'n prynu rhywbeth.

Deiliad polisi

Yr unigolyn (neu'r bobl) a enwir ar bolisi yswiriant.

Didyniadau

Symiau sy'n cael eu tynnu'n syth o'ch cyflog gros gan eich cyflogwr (e.e. Treth Incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn, benthyciad myfyriwr).

Difidend

Arian o elw cwmni sy'n cael ei dalu i bobl sydd â chyfranddaliadau yn y cwmni.

Diffygdlu

Mae diffygdlu ar fenthyciad yn golygu methu gwneud taliadau sy'n ddyledus.

Dilysu biometrig

Ffordd o gadarnhau pwy yw rhywun trwy adnabod un neu fwy o nodweddion biolegol unigryw.

Dilysu dau gam

Haen ychwanegol o ddiogelwch i gadarnhau pwy ydych er mwyn cael at gyfrifon ar-lein. Yn ogystal â chyfrinair a chwestiwn diogelwch, fe allai olygu anfon cod dilysu i'ch ffôn symudol neu anfon neges e-bost gyda chod neu ddolen we.

Diogelu incwm

Math o yswiriant sy'n gwarantu rhywfaint o incwm i chi os na allwch weithio am unrhyw reswm.

Disgownt

Arian sy'n cael ei dynnu oddi ar bris rhywbeth. Efallai bydd angen i chi gasglu cwponau neu dalebau cyn hawlio'r disgownt. Weithiau, mae siopau a busnesau'n rhoi disgownt i'w cyflogaion.

Disgwyliad oes

Pa mor hir y gall rhywun ddisgwyl byw, ar gyfartaledd.

Dwyn hunaniaeth

Math o dwyll yw hyn pan fydd unigolyn yn cael gwybodaeth am rywun arall yn anghyfreithlon, yn aml i gael elw ariannol.

Dyled

Arian sy'n ddyledus gennych i unigolyn arall neu sefydliad.

Dyled dda

Dyled sy'n rhoi budd parhaus i'r benthyciwr neu a fydd yn arwain at ryw fath o adenillion ariannol.

Dyled ddrwg

Dyled nad yw'n rhoi budd nac elw ariannol parhaus i'r benthyciwr.

Dyled na ellir ei rheoli

Dyled sy'n cael ei derbyn heb fodd o'i had-dalu.

Dyled y gellir ei rheoli

Dyled a dderbynnir y mae'r benthyciwr yn gallu fforddio ei had-dalu.

Ee

Economi

Cyflwr gwlad neu ranbarth o ran cynhyrchu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau, a'r ffordd mae ei llywodraeth yn rheoli ei harian.

Economi gig

Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r duedd gynyddol tuag at gontractau tymor byr o gymharu â chyflogaeth barhaol.

Eisiau

Eitemau, gwasanaethau neu brofiadau yr hoffech eu prynu os oedd gennych yr arian i wneud hynny.

Elw

Faint o arian sydd ar ôl pan fydd yr holl gostau a threuliau wedi cael eu didynnu o incwm.

Etifeddiaeth

Trosglwyddo arian neu asedau pan fydd rhywun yn marw. Fe all hefyd gynnwys rhoddion a roddir tra bod yr unigolyn yn dal yn fyw.

FFff

Ffi

Swm o arian rydych yn ei dalu, er enghraifft, i gael benthyciad neu gredyd wedi'i drefnu ar eich cyfer. Neu daliad untro sy'n cael ei dalu neu ei godi am wasanaeth proffesiynol.

Ffioedd dysgu

Y swm a godir ar fyfyrwr gan brifysgolion i dalu am gost y cwrs.

Gg

Galwedigaeth

Eich swydd, gwaith neu broffesiwn (e.e. briciwr, gweithredwr desg dalu, athro/athrawes).

Gamblo

Betio arian, sy'n gallu arwain at ennill neu golli – er enghraifft, trwy chwarae'r loteri, peiriannau ffrwythau neu gemau casino.

Gohirio boddhad

Gohirio'r mwynhad sy'n dod o wario ar unwaith i rywbrd ymhellach i'r dyfodol.

Goramser

Amser sy'n cael ei weithio yn ychwanegol at oriau gwaith arferol neu oriau contract. Fe all fod gyda thâl neu heb dâl.

Gorddrافت (heb ei drefnu)

Os byddwch yn gordynnu heb ofyn i'r banc o flaen llaw neu os oes gennych orddraft wedi'i drefnu ac rydych yn gwario mwy na'r swm cytunedig, mae hynny'n cael ei alw'n orddraft heb ei drefnu. Mae'n debygol o arwain at gosbau ac fe all fod yn gostus iawn.

Gorddrafft (wedi'i drefnu)

Ffordd o fenthycia arian trwy'ch cyfrif cyfredol. Mae gorddrafftiau wedi'u trefnu yn cael eu gosod o flaen llaw a gallwch wario arian hyd at swm y gorddrafft cytunedig.

Gradd

Cymhwyster addysg uwch.

Gradd credyd

Amcangyfrif o faint o risg sy'n gysylltiedig â benthycia arian i unigolyn neu sefydliad ar sail ei hanes/cofnod credyd.

Grant

Gwobr ariannol sy'n cael ei rhoi am ddiben penodol iawn fel arfer, fel astudio dramor neu wneud prosiect ymchwil.

Gros

Cyfanswm arian cyn unrhyw ddiodynadau, fel treth neu Yswiriant Gwladol.

Gwaith fesul darn

Tâl am bob eitem a gynhyrchir. Po fwyaf o eitemau a gynhyrchir, y mwyaf o dâl a geir.

Gwariant

Faint o arian rydych yn ei wario ar nwyddau neu wasanaethau.

Gwasanaeth Dyfarnu Betio Annibynnol (IBAS)

Sefydliad trydydd parti yw IBAS, a ffurfiwyd ym 1998, sy'n datrys anghydfodau rhwng sefydliadau gamblo cofrestredig a'u cwsmeriaid yn y Deyrnas Unedig.

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (FOS)

Fe'i sefydlwyd gan y senedd i ddatrys cwynion unigol rhwng busnesau ariannol a'u cwsmeriaid.

Gwefannau cymharu prisiau

Gwefannau a ddatblygwyd yn benodol i gymharu prisiau nwyddau gan amrywiaeth o gyflenwyr a manwerthwyr.

Gwe-rwydo

Dull a ddefnyddir gan dwyllwyr i geisio casglu gwybodaeth bersonol gan ddefnyddio negeseuon e-bost a gwefannau twyllodrus.

Hh

Hacio

Pan fydd troseddwyd yn llwyddo i ddyfalu neu ddehongli cyfrineiriau, cwestiynau diogelwch a/neu rifau PIN (Rhifau Adnabod Personol).

Hanes credyd

Cofnod o fenthyciadau rydych wedi'u cael neu daliadau cerdyn credyd rydych wedi'u gwneud neu eu methu. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio gan asiantaethau gwirio credyd, sy'n rhoi manylion eich sgôr/gradd credyd i sefydliadau ariannol pan fyddwch yn cael benthyciadau ychwanegol.

Hawliau

Yr amddiffyniad a roddir i chi gan y gyfraith; er enghraifft, mae gennych yr hawl i gael iawndal os yw'ch banc yn mynd i'r wal ac rydych yn colli arian.

Hawliau defnyddwyr

Mae hawliau defnyddwyr yn eich diogelu pan fyddwch yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Hawliau a osodir gan y gyfraith yw'r rhain (gan gynnwys Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015), na all siop neu ddarparwr gwasanaeth eu newid.

Hunanesiad

Dyma sut mae pobl hunangyflogedig yn cyfrifo a thalu eu Treth Incwm.

Hunangyflogedig

Mae rhywun yn hunangyflogedig os yw'n cynnal ei fusnes ei hun ac yn cymryd cyfrifoldeb am ei lwyddiannau a'i fethiannau.

Hunan-yswirio

Peidio â threfnu polisi yswiriant ond bod â digon o arian wedi'i gynilo, neu'n cynilo swm bob mis, a fydd yn cael ei ddefnyddio i dalu am golli incwm neu eiddo os byddwch yn colli'ch swydd neu i dalu am amnewid rhywbeth rydych yn berchen arno os bydd yn torri neu'n cael ei ddwyn.

Hurbwrcasu (HP)

Ffordd o dalu am nwyddau os nad oes gennych yr holl arian o flaen llaw (fe'i defnyddir yn aml ar gyfer ceir). Fel arfer, mae blaendal cychwynnol yn cael ei dalu, a ddilynir gan gyfres o daliadau rheolaidd i dalu'r balans ac unrhyw log dros gyfnod penodol, fel ad-dalu benthyciad. Ni fydddech yn berchen ar y car nes i chi gwblhau'r cytundeb hurbwrcasu.

Ii

Incwm

Arian sy'n dod atoch trwy enillion, rhoddion, gwerthu pethau rydych yn berchen arnynt, oddi wrth eich rhieni, ac ati.

Incwm busnes

Arian y mae busnes yn ei ennill o'i gwsmeriaid trwy werthu cynhyrchion a gwasanaethau.

Incwm/cyflog gros

Cyfanswm yr incwm rydych yn ei gael cyn i unrhyw beth gael ei dynnu ohono, fel Treth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bydd cyflog gros bob amser yn fwy na chyflog net.

Incwm/cyflog net

Eich incwm/cyflog net yw'r cyfanswm rydych yn ei ennill mewn wythnos, mis neu flwyddyn ar ôl i unrhyw ddiodynadau gael eu gwneud. Weithiau, mae'n cael ei alw'n gyflog clir.

Incwm gwario

Faint o arian sydd ar ôl ar ddiwedd pob mis pan fydd eich holl filiau wedi cael eu talu.

Incwm trethadwy

Swm yr incwm a ddefnyddir i gyfrifo faint o dreth sy'n ddyledus gan unigolyn neu gwmni i'r llywodraeth mewn blwyddyn dreth benodol.

ISA (Cyfrif Cynilo Unigol)

Cyfrif lle nad oes rhaid i chi dalu treth ar y llog a enillir. Mae terfyn penodol ar faint y gallwch ei gynilo mewn ISA bob blwyddyn dreth.

ISA Arian Parod

Cyfrif cynilo yw hwn sy'n talu llog sy'n rhydd rhag treth incwm.

ISA gydol oes

Cyfrif cynilo di-dreth, tymor hir, y mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfrannu ato, sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl sy'n prynu eiddo am y tro cyntaf neu i gronni cynilion ar gyfer ymddeol.

ISA iau

Cyfrif cynilo di-dreth, tymor hir ar gyfer plant iau na 18 oed, y mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfrannu ato, sy'n dod yn ISA arferol pan fyddant yn troi'n 18 oed.

ISA Stociau a Chyfranddaliadau

Buddsoddi mewn amrywiaeth o gyfranddaliadau, bondiau a chronfeydd heb dalu treth ar yr incwm sy'n cael ei dalu.

Ll

Loteri

Math o gamblo sy'n cynnwys tynnu rhifau am wobr (e.e. y Loteri Genedlaethol).

Lwfans Cynilion Personol

Faint o log y gellir ei ennill ar gynilion cyn y bydd rhaid talu treth arno.

Lwfans treth

Faint o arian y gallwch ei ennill cyn talu treth incwm.

Lwfans Treth Personol

Faint o incwm nad oes rhaid i chi dalu treth arno.

LlLl

Llais-rwydo

Math o dwyll lle mae rhywun yn ceisio'ch twyllo i roi gwybodaeth bersonol neu ariannol iddo dros y ffôn.

Lleiafswm ad-daliad

Y lleiafswm y mae'n rhaid i chi ei dalu bob mis ar y ddyled sydd gennych ar daliadau cerdyn credyd neu gerdyn siop.

Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol

Y lleiafswm tâl fesul awr y mae gan y rhan fwyaf o weithwyr iau na 23 oed hawl i'w gael yn ôl y gyfraith. Bydd y gyfradd yn dibynnu ar oedran gweithiwr ac a yw'n brentis.

Llog

Y wobr a gewch am gadw'ch arian gyda banc neu gymdeithas adeiladu. Dyma'r gost rydych yn ei thalu hefyd pan fyddwch yn benthycu arian trwy fenthyciad neu gytundeb credyd.

Llog gros

Llog ar gynilion cyn i unrhyw dreth gael ei thynnu.

Llog syml

Dull cyflym a rhwydd o gyfrifo faint o log sy'n daladwy rhwng unrhyw ddau ddyddiad.

Mm

Maleiswedd

Mae'r term hwn yn fyr am feddalwedd faleisus. Fe'i dylunnir yn benodol i gyrraedd eich dyfais, h.y. eich bwrdd gwaith, ffôn clyfar neu lechen, a'u trin a/neu ddifrodi.

Manylion personol

Gwybodaeth am unigolyn y gellir ei defnyddio i ganfod pwy ydyw (e.e. enw, dyddiad geni, cyfeiriad).

Masnach deg

Mae'r mudiad masnach deg yn ceisio sicrhau bod gweithwyr a chynhyrchwyr yn cael eu talu'n deg.

Methdaliad

Gorchymyn llys sy'n cael ei roi pan nad yw rhywun yn gallu talu'r dyledion sydd ganddo. Bydd derbynnydd swyddogol yn cymryd rheolaeth ar eich arian a'ch eiddo, ac yn delio â chredydwyd.

Morgais

Math o fenthyciad tymor hir wedi'i warantu a ddefnyddir i brynu eiddo. Os na fyddwch yn talu'r ad-daliadau morgais, bydd darparwr y morgais (banc yn aml), yn gallu adfeddu'ch eiddo.

Morgais ad-dalu

Benthyciad eiddo yw morgais ad-dalu, lle mae taliadau rheolaidd yn talu'r llog a chyfran o'r benthyciad gwreiddiol.

Morgais tracio

Mae hyn yn tracio neu'n symud yn unol â chyfradd llog wedi'i datgan (cyfradd sylfaenol Banc Lloegr, fel arfer).

Mul arian

Rhywun sy'n trosglwyddo arian a gafwyd yn anghyfreithlon ar ran pobl eraill, trwy ei gyfrif banc, fel arfer.

Nn

Net

Swm o arian y mae didyniadau penodol eisoes wedi cael eu tynnu oddi wrtho (e.e. treth).

Nwyddau

Rhywbeth y gellir ei fasnachu, ei brynu neu ei werthu.

Oo

Ôl troed digidol

Gwybodaeth am unigolyn sy'n bodoli ar y rhyngwrdd o ganlyniad i'w weithgarwch ar-lein.

Pp

P45

Dogfen y mae'n rhaid i gyflogwr ei darparu pan fyddwch yn gadael swydd fel bod y swm iawn o dreth yn gallu cael ei ddidynnu o'ch enillion.

P60

Crynodeb o'ch cyflog a'r dreth a ddidynnwyd yn ystod y flwyddyn dreth. Fe ddylai eich cyflogwr roi dogfen P60 i chi i'w chadw fel cofnod ar ddiwedd pob blwyddyn dreth.

PAYE (Talu Wrth Ennill)

Pan fydd didyniadau'n cael eu casglu gan gyflogwr cyn i gyflog gael ei dalu i'r unigolyn.

PayPal

System taliadau electronig sy'n caniatáu i chi wneud taliadau diogel i unigolyn neu brynu eitemau ar-lein.

Pensiwn

Incwm sy'n cael ei dalu'n rheolaidd gan y llywodraeth neu gwmni preifat i unigolyn nad yw'n gweithio mwyach oherwydd ei fod wedi cyrraedd oed ymddeol.

Pensiwn y wladwriaeth

Pensiwn sy'n cael ei dalu gan y llywodraeth. I fod yn gymwys i'w gael, mae'n rhaid eich bod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol am nifer benodol o flynyddoedd.

Pensiynau gweithle

Mae'r rhain yn cael eu sefydlu gan eich cyflogwr, a bydd canran o'ch incwm yn cael ei thalu i'r pensiwn. Bydd y swm yn cael ei dynnu o'ch incwm gros cyn iddo gael ei drethu, felly mae eich cyfraniad pensiwn yn ddi-dreth.

PIN (Rhif Adnabod Personol)

Rhif diogelwch pedwar digid a ddefnyddir gyda pheiriannau arian, cardiau credyd a chardiau debyd. Mae'n debyg i lofnod electronig sy'n atal unrhyw un arall rhag defnyddio'ch cyfrif.

Polisi yswiriant

Contract gan gwmni yswiriant sy'n dweud wrthyhych yr hyn rydych wedi'i yswirio ar ei gyfer, a faint o arian y mae'r cwmni'n fodlon ei dalu.

Portffolio

Amrywiaeth o fuddsoddiadau sydd gan unigolyn neu sefydliad.

Premiymau yswiriant

Arian rydych yn ei dalu i'r cwmni yswiriant, naill ai'n flynyddol neu'n fisol, am yr yswiriant.

Prentisiaeth

Mae prentisiaeth yn cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd gyflogedig ag astudio.

Prifswm

Swm gwreiddiol cynilion a adnewwyd, neu ddyled a dderbyniwyd.

Prifysgol

Sefydliad addysg uwch lle mae myfyrwyr yn astudio am raddau ac mae gwaith ymchwil academaidd yn cael ei wneud.

Print mân

Telerau ac amodau cynnyrch, sydd fel arfer wedi'u hysgrifennu mewn llythrennau bach ac y dylid eu darllen yn ofalus.

Pris uned

Y pris am un eitem neu fesur, fel punt, cilogram neu beint, y gellir ei ddefnyddio i gymharu'r un math o nwyddau sy'n cael eu gwerthu mewn pwysau a symiau amrywiol.

Rr

Risg

Enw arall ar siawns neu ansicrwydd e.e. y risg y gallech fynd yn ddi-waith, neu'r risg nad oes gennych gynilion.

Risg ariannol

I gael gwobrau ariannol, mae rhyw elfen o risg yn aml yn gysylltiedig – efallai na fydd canlyniad penderfyniad ariannol yn bendant neu'n sicr.

RHrh

Rhan-amser

Gweithio llai o oriau nag amser llawn ond cael yr un driniaeth a buddion (er y gallai'r rhain fod yn gymesur â nifer yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos).

Rhandaliadau

Ad-daliadau wythnosol neu fisol a wneir i dalu benthyciad neu nwyddau a brynwyd ar gredyd.

Rhent

Arian sy'n cael ei dalu i berchennog yr eiddo lle rydych yn byw.

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Rheoliadau sydd mewn grym i ddiogelu data defnyddwyr a sicrhau bod data'n cael ei storio'n ddiogel; gan wneud i fusnesau feddwl am y data maen nhw'n ei gasglu, pam mae arnyh nhw ei angen a sut maen nhw'n ei ddefnyddio.

Ss

Safon byw

Ansawdd bywyd unigolyn neu aelwyd.

Sector cyhoeddus

Y rhan o economi gwlad sy'n cael ei rheoli neu ei chefnogi'n ariannol gan y llywodraeth.

Sector preifat

Y rhan o economi gwlad sy'n cael ei rheoli gan unigolion, busnesau neu grwpiau preifat.

Sefyllfa ariannol

Mae eich sefyllfa ariannol yn cyfeirio at faint o arian rydych yn ei dderbyn mewn cyflog a/neu fudd-daliadau a faint o arian rydych wedi'i gynilo. Mae hefyd yn cynnwys faint o arian sy'n ddyledus gennych ac unrhyw drefniadau ariannol rydych wedi'u gwneud ar gyfer y dyfodol, fel pensiwn. Weithiau, bydd pobl hefyd yn gofyn i chi am eich treuliau rheolaidd, fel faint o rent rydych yn ei dalu.

Seiberddiogelwch

Technoleg, prosesau a rheolaethau sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu systemau, rhwydweithiau a data rhag seiberdroseddu.

Seiberdroseddu

Unrhyw weithred droseddol a gyflawnir trwy'r rhyngwrwyd gan ddefnyddio cyfrifiaduron a rhwydweithiau.

Sganio cerdyn banc

Defnyddio peiriant darllen cerdyn neu ap symudol i gyflawni twyll trwy sganio manylion eich cerdyn banc digyffwrdd heb yn wybod i chi.

Sgimio cerdyn banc

Y weithred o "sgimio" neu gopïo'r wybodaeth ar eich cerdyn debyd neu gredyd pan fyddwch yn prynu rhywbeth.

Sgôr credyd

Sgôr a roddir gan asiantaeth gredyd ar sail eich hanes credyd a'ch amgylchiadau personol ac ariannol. Mae'n adlewyrchu lefel y risg sy'n gysylltiedig â benthycu i chi a pha mor debygol yr ydych o dalu'r credyd yn ôl, ac mae'n ei helpu i benderfynu p'un a ydych yn debygol o ad-dalu'r benthyciad rydych yn gofyn amdano.

Siec

Dull talu ar bapur sy'n cael ei ddefnyddio i brynu nwyddau a thalu biliau ac yn cael ei roi fel rhodd.

SMS-rwydd

Math o dwyll lle mae rhywun yn ceisio'ch twyllo i roi gwybodaeth personol neu ariannol iddo trwy neges destun neu SMS.

Tt

Tâl (Wages)

Y swm sy'n cael ei dalu i chi bob wythnos neu bob mis.

Tâl ad-dalu'n gynnar

Taliad cosb neu ffi am ad-dalu benthyciad cyn diwedd y tymor.

Tâl-dros-ben

Mae rhai polisiâu yswiriant yn mynnu eich bod yn talu swm cytunedig o gost unrhyw ddifrod os byddwch yn hawlio. Yna, bydd yr yswiriwr yn talu unrhyw swm sy'n uwch na hwn.

Taliad digyffwrdd

Ffordd o wneud taliad trwy dapio neu chwifio'ch dyfais ddigyffwrdd (e.e. cerdyn credyd, cerdyn debyd, ffôn clyfar) ar neu'n agos i ddarllenwyd digyffwrdd.

Taliad sifft

Pan fyddwch yn cael taliad am weithio oriau anarferol, er enghraifft gweithio yn ystod y nos, yn ychwanegol at eich cyflog arferol.

Taliadau (Charges)

Ffioedd a llog y mae'n rhaid i chi eu talu, er enghraifft, pan fyddwch yn benthycu arian neu'n prynu ar gredyd.

Taliadau (Payments)

Arian rydych yn ei dalu, er enghraifft, ar eich rhent neu forgaïs, ar ddeunyddiau y mae arnoch eu hangen ar gyfer eich busnes, llog ar fenthyciadau, arian ar gyfer cyfleustodau fel nwy a thrydan.

Taliadau biometrig

Taliadau am nwyddau a wneir gan ddefnyddio technoleg sganio bys neu systemau adnabod wyneb.

TAW (Treth ar Werth)

Treth sy'n cael ei thalu gan y defnyddiwr am nwyddau a gwasanaethau.

Telerau ac Amodau (T&Cs)

Dyma'r set o reolau ar gyfer cynnyrch ariannol, ac maen nhw'n aml yn cael eu galw'n "brint mân".

Terfyn credyd

Yr uchafswm y bydd cwmni'r cerdyn siop neu'r cwmni credyd yn ei fenthycu i chi ar unrhyw adeg.

Tollau cartref

Math o dreth sy'n cael ei chodi ar nwyddau a gynhyrchir yn y wlad.

Trafodyn

Unrhyw daliad i mewn neu allan o gyfrif banc.

Treth

Ffi sy'n cael ei chodi gan lywodraeth ar gynnyrch (TAW), incwm (Treth Incwm) neu weithgaredd (treth cerbyd) i ariannu gwariant y lywodraeth ar nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus, fel yr heddlu, y GIG, goleuadau stryd neu lanhau strydoedd.

Treth Cyfradd Sylfaenol

Cyfradd sylfaenol y Dreth Incwm yw 20%. Bydd y rhan fwyaf o drethdalwyr yn talu treth 20% ar unrhyw incwm sy'n uwch na'r lwfans personol.

Treth Enillion Cyfalaf

Y dreth sy'n cael ei thalu ar elw o werthu buddsoddiadau fel cyfranddaliadau os yw eu gwerth yn uwch na swm penodol.

Treth gorfforaeth

Treth ar elw ac enillion cyfalaf a wneir gan gwmnïau, sy'n cael ei chyfrifo cyn i ddifidendau gael eu talu.

Treth gyngor

Treth sy'n cael ei thalu i'r cyngor lleol am wasanaethau lleol fel llyfrgelloedd, yr heddlu, casglu gwastraff, ac ati.

Treth incwm

Treth sy'n daladwy ar bron pob math o incwm, ar gyfraddau amrywiol yn dibynnu ar lefel yr incwm.

Treth Wrth Gefn y Dreth Stamp

Treth a godir pan fyddwch yn prynu cyfranddaliadau.

Treuliau (Expenses)

Pethau y mae angen i chi wario arian arnynt i fyw (e.e. rhent, biliau, bwyd).

Treuliau (Outgoings)

Eich gwariant (e.e. rhent/morgais, taliadau biliau, cynilion).

Treuliau busnes

Y costau sy'n gysylltiedig â chynnal busnes (e.e. cyfleustodau, cerbydau cwmni, offer swyddfa).

Trosglwyddiad electronig

Ffordd o symud arian o'ch cyfrif chi i un arall.

Trosglwyddo balans

Mae hyn yn caniatáu i chi gael cerdyn newydd i dalu dyled ar hen gardiau credyd a chardiau siop sy'n codi llog. Efallai bydd gan y cerdyn newydd log 0% neu gyfradd llog is nag yr ydych yn ei thalu ar hyn o bryd, felly byddwch yn rhydd o'r ddyled yn gyflymach gan fod y taliadau rydych yn eu gwneud yn lleihau'r ddyled, yn hytrach na thalu'r llog.

Twrio trwy finiau

Pan fydd lladron yn chwilio trwy sbwriel cartref yn chwilio am wybodaeth personol y gellir ei defnyddio i gyflawni twyll.

Twyll

Pan fydd rhywun yn twyllo dioddefwr yn anonest neu'n fwriadol i gael eiddo neu arian iddo ef ei hun.

Twyll rhentu

Math o dwyll lle mae darpar denantiaid yn cael eu twyllo i dalu ffi o flaen llaw i rentu eiddo nad yw'n bodoli, sydd eisoes wedi cael ei rentu, neu sydd wedi cael ei rentu i nifer o ddiodeffwyr ar yr un pryd.

Twyllwr

Rhywun sy'n cyflawni twyll.

Tymor

Y cyfnod y mae rhywbeth yn para (e.e. faint o amser sydd gennych i dalu benthyciad yn ôl).

Uu

Undeb credyd

Sefydliad nad yw'n gwneud elw sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'n annog cynilo ac yn benthycu arian i'w aelodau ar gyfraddau llog isel. Mae'n rhaid i chi fod yn aelod i ddefnyddio undeb credyd.

Ww

Waled ddigidol

Ap sy'n caniatáu i chi storio holl fanylion eich cardiau credyd, debyd a chwsmer ffyddlon ar eich ffôn.

Yy

Ymddeoliad

Y cyfnod ym mywyd unigolyn pan fydd yn rhoi'r gorau i weithio ac yn dechrau cael pensiwn. Efallai y bydd pobl sydd â phensiwn preifat yn gallu ymddeol yn gynharach os yw eu pot pensiwn yn ddigon mawr.

Ysgoloriaeth

Dyfarniad arian parod a roddir i fyfyrwr sy'n gwneud yn arbennig o dda yn ei arholiadau cyn mynd i'r brifysgol neu'r coleg. Gallai'r ysgoloriaeth gael ei dyfarnu gan y brifysgol neu gwmni ac fe allai dalu'r ffioedd dysgu ar gyfer cwrs yn llawn neu'n rhannol.

Yswiriant

Ffordd o'ch diogelu'ch hun yn erbyn colled ariannol os bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Mae yswiriant yn rhoi gwarant o iawndal am golled, difrod neu salwch penodol, neu farwolaeth, yn gyfnewid am dalu premiwm penodol.

Yswiriant adeilad

Math o bolisi yswiriant sy'n talu os bydd adeiledd eich cartref yn cael ei ddifrodi (e.e. os yw'ch tŷ yn cael ei ddifrodi gan dân).

Yswiriant anifail anwes

Yswiriant a fydd yn talu am ffioedd milfeddyg os bydd angen i'ch anifail anwes gael llawdriniaeth neu driniaeth feddygol arall.

Yswiriant benthyciad

Yswiriant a fydd yn eich diogelu os na allwch ad-dalu benthyciad oherwydd salwch, diweithdra, ac ati.

Yswiriant bywyd

Yswiriant sy'n talu pan fyddwch yn marw neu, mewn rhai achosion, os byddwch yn mynd yn ddifrifol wael yn ystod cyfnod yr yswiriant. Yn aml, mae yswiriant bywyd yn cael ei drefnu i yswirio morgais, sy'n golygu os byddwch yn marw yn ystod tymor y morgais y bydd y benthyciad yn cael ei dalu.

Yswiriant cartref – adeilad

Yswiriant sy'n talu am gost atgyweiriadau i adeiledd eich cartref os caiff ei ddifrodi.

Yswiriant cartref – cynnwys

Yswiriant sy'n yswirio eich eiddo yn y cartref yn erbyn colled neu ddifrod.

Yswiriant iechyd

Yswiriant sy'n talu am dreuliau meddygol os ydych yn sâl. Fe allai hefyd roi incwm rheolaidd i chi os ydych yn rhy sâl i weithio.

Yswiriant modur (cynhwysfawr)

Yswiriant sy'n talu am gost niwed i chi a difrod i'ch cerbyd, yn ogystal ag unrhyw niwed neu ddifrod y gallech ei achosi i rywun arall neu ei eiddo.

Yswiriant modur (trydydd parti)

Yswiriant sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a fydd yn talu am eich costau os byddwch yn gwneud niwed i rywun arall neu'n difrodi ei eiddo (h.y. trydydd parti).

Yswiriant modur (trydydd parti, tân a lladrad)

Yswiriant sy'n yswirio cerbyd deiliad y polisi hefyd os caiff ei ddwyn neu os yw'n mynd ar dân.

Yswiriant teithio

Yswiriant sy'n yswirio ar gyfer colli bagiau, canslo neu darfu ar drefniadau teithio, neu os oes rhaid i chi dalu costau meddygol oherwydd eich bod yn mynd yn sâl ar eich gwyliau, ac ati.



A WYDDOCH CHI?

Petaech chi'n benthyca

£3,000

ar eich cerdyn credyd ac yn gwneud yr isafswm ad-daliadau yn unig, byddwch bron yn 50 oed cyn iddo glirio.



Bydd bron

50%

o'r swyddi sy'n bodoli heddiw yn **gwbl ddiangen** erbyn 2025.



Yn 2009, yswiriodd Clwb Pêl-droed Real Madrid goesau Cristiano Ronaldo am

£90 miliwn



Cafodd ychydig dros

7,500

o bobl ifanc iau na 21 oed yn y Deyrnas Unedig eu dal yn gweithredu fel mulod arian yn 2019.



Crëwyd Mae'ch Arian o Bwys gan Young Money (rhan o Young Enterprise) i helpu i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau y mae arnoch eu hangen i wneud penderfyniadau gwybodus am reoli'ch arian. Trwy archwilio themâu yn ymwneud â'r cwestiynau uchod a phynciau allweddol fel cynilo, benthyca a byd gwaith, bydd Mae'ch Arian o Bwys yn eich helpu i ddod yn alluog yn ariannol fel y gallwch reoli'ch arian yn llwyddiannus a chyflawni'ch nodau yn y dyfodol.

www.young-money.org.uk

ISBN 978-1-9164672-7-9
YMM-TXTBK-WAL